1924

HANES ANNIBYNIAETH

YM

MHLWYF FFESTINIOG.

GAN

MR. DAVID WILLIAMS,

Glasfryn, Blaenau Ffestiniog.

PRIS: SWLLT.

Cyhoeddir gan Bwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Annibynwyr Ffestiniog.

285
842929

BLAENAU FFESTINIOG:
D GAN LEWIS DAVIES, SWYDDFA'R "GLOCH."

HANES ANNIBYNIAETH

YM

MHLWYF FFESTINIOG.

GAN

MR. DAVID WILLIAMS,

Glasfryn, Blaenau Ffestiniog.

PRIS: SWLLT.

Cyhoeddir gan Bwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Annibynwyr Ffestiniog.

BLAENAU FFESTINIOG:
ARGRAFFWYD [illegible] SWYDDFA'R "GLOCH."

GW 2127471 1

At y Darllenwyr.

PWYLLGOR Eisteddfod Nadolig Anibynwyr Ffestiniog sydd, ar un olwg, yn gyfrifol am fod y llyfr hwn yn cael ei gyhoeddi. Cynygiodd wobr anrhydeddus yn Eisteddfod 1924 am draethawd ar "Hanes Anibyniaeth yn Mhlwyf Ffestiniog," a'r eiddof fi ddyfarnwyd yn oreu gan y beirniaid—y Parchn. W. Parri Huws, B D., a'r diweddar R. Talfor Phillips. Wedi oedi rhyw gymaint, penderfynodd y Pwyllgor ei gyhoeddi fel y caffai y genhedlaeth hon ymgydnabyddu â'r hanes diddorol iawn. Gwelir fod y sylw mwyaf wedi ei roddi i hanes yr Eglwysi hynaf yn y cylch. Digon i gyfrif am hyny yw y ffaith fod yr hanes hwnw yn cyflym "fyn'd i'w golli." Yn wir, mae cryn lawer o hono wedi ei golli am fod yr Eglwysi wedi esgeuluso cofnodi digwyddiadau diddorol a phwysig a fu, trwy ddodi mewn ysgrifen adgofion hen frodyr a chwiorydd am anhawsterau a helyntion yr Eglwysi yn nydd y pethau bychain.

Nid arbedwyd trafferth genyf i chwilio allan yn ddyfal gywirdeb yr adroddiadau gyhoeddir. Manteisiais ar bob hanes geir wedi ei gyhoeddi mewn llyfrau a chylchgronau fel ar yr hyn a gefais gan bersonau i'r rhai yr wyf yn teimlo yn dra rhwymedig. Ymgadwaf rhag eu henwi gan amled ydynt mewn nifer. Dyledwr ydwyf i'r holl eglwysi hefyd am roddi yn fenthyg i mi *Blocks* darluniau y Capelau. Yn wir aeth rhai o honynt i draul i gael y darluniau geir yn y llyfr hwn, ac a chwanegant yn sylweddol at ei werth. Teimlaf yn dra rhwymedig i'r Parch. W. Parri Huws, B.D., am ysgrifenu rhagair.

Chwanegwyd ychydig yn ei ddiwedd er mwyn cael yr hanes yn weddol gyflawn hyd ddiwedd 1926. Os bydd i'w ddarllenwyr gael cymaint o fudd a mwynhad wrth ei ddarllen ag a gefais i wrth ei baratoi ni fydd fy ngwaith yn ofer.

Yn gywir iawn,

DAVID WILLIAMS.

Glasfryn,

Blaenau Ffestiniog.

Mawrth, 1927.

RHAGAIR.

Gan y Parch W. Pari Huws, B.D.

FEL rheol, y mae hanes crefydd yn ddiddorol. yn gyfrwng gwybodaeth, a moddion ysbrydiaeth. A phe bae Annibynwyr Cymru wedi iawn sylweddoli hynny, a sylweddoli hefyd eu dyled i'w tadau, a'u rhwymedigaethau tuag at eu plant, rhoddasant fwy o bwyslais ar eu hanes goreu ym mhob ardal, nag y maent eisioes wedi ei roddi. Ac nid sel enwadol a barasai iddynt wneuthur hynny, eithr ymdeimlad ystyriol i'w Henwad wneud ei ran yn bur anrhydeddus (gydag Enwadau eraill) i hyrwyddo buddiannau ucha Duw a Dynion yn y wlad.

Anturiaeth bwysig o eiddo Mr. W. Hughes, Dolgellau, oedd cyhoeddi'r pum cyfrol o "Hanes Eglwysi'n Henwad" gan y Doctoriaid Rees a Thomas, y rhai a fu o wasanaeth gwerthfawr i ni fel Annibynwyr. A mynych y soniwyd am gario'r hanes ymlaen, trwy ychwanegu cyfrol arall atynt. Ond hyd yn hyn ni wnaed hynny.

Ond tybed bellach, gan fod gennym fel Enwad yng Nghymru "Gymdeithas Hanes," ynglyn a'n Hundeb, na bydd i hynny gael ei gyflawni, a hynny gyda'r gofal a'r manylwch a haedda'r hanes, a chyda medr Ysgolhaig o Hanesydd, a gymer drafferth i fod yn fanwl a chywir, ac a wyr hefyd beth a fydd o wir werth i'w groniclo a'i gario ymlaen i'r dyfodol.

Credaf y deil hanes ein Henwad yn Ffestiniog i'w gymharu'n ffafriol a hanes crefydd mewn unrhyw ranbarth arall o'r wlad, a dylai ymgyfarwyddo ag ef fod yn foddion i fagu ynom fwy o sel, ac anturiaeth o blaid teyrnasiad Duw trwy ei eglwys ar y ddaear.

Da y gwnaeth Pwyllgor Eisteddfod Nadolig, a berthyn i'r Enwad yn Ffestiniog, gynyg gwobr anrhydeddus am y Traethawd goreu ar Hanes yr Annibynwyr yn yr ardal. A hyfrydwch mawr i'r

diweddar Barch R. Talfor Phillips, Llan Ffestiniog, a minnau oedd cael y fraint o fod yn feirniaid ar y ddau draethawd rhagorol a anfonasid i'r gystadleuaeth. Er yn cytuno fod y naill a'r llall o'r traethodau yn deilwng o'r wobr, eto, yr oeddym hefyd yn unfarn hollol fod un o'r ddau yn rhagori yn fawr ar y llall. A chynnwys y traethawd buddugol, o waith un o blant yr ardal, ac sydd hefyd er's blynyddoedd yn un o ddiaconiaid y Fam Eglwys ym Methania, ac un o leygwyr rhagoraf ein Henwad, yw'r llyfr hwn. A haedda Pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch cynnes am gyhoeddi'r traethawd. A mawr hyderaf y caiff yr anturiaeth gefnogaeth galonog a chyffredinol, nid fel y mae yn anturiaeth enwadol, neu arianol; ond fel y mae a wnelo a'r agwedd oreu ar fywyd ardal Ffestiniog; sef "llafurus gariad" gwerin bobl i hyrwyddo'r "Deyrnas nad yw o'r byd hwn."

Er i'r Awdwr lafurio'n ddyfal i gasglu a threfnu defnyddiau'r Traethawd ni hona berffeithrwydd; eto, trodd allan gyfrol fechan werthfawr, gwir ddiddorol, os nad lled ramantus ar brydiau. A da a fyddai i bob eglwys a rhanbarth drwy'r wlad ddiogelu eu hanes, yr un modd, canys ni all crefydd mwy na rhyw agwedd arall ar fywyd fforddio anwybyddu ei orffennol.

A digon posibl mai gwerth a gwasanaeth mwyaf cyfrol o fath hon, fydd bod o gymorth i'r Hanesydd Enwadol a ymgymer ag ysgrifennu Hanes Safonol yr Enwad yng Nghymru; canys ceir ynddi lawer o ffeithiau na all unrhyw hanesydd fforddio eu hanwybyddu. Ai ni allai eglwysi Ffestiniog beth bynnag fanteisio llawer ar gyfrol o fath hon yn eu Cymdeithasau Diwylliaddol y gaeaf dyfodol!

Gallai fod yn foddion adeiladaeth gwerthfawr i son am y gwyr rhagorol, y daethom ni i mewn i'w llafur, yn weinidogion, diaconiaid, a llu eraill na bu raid cael symbyliad swyddogaeth i'w gwneud yn "filwyr da i Iesu Grist" ac yn "oleuni'r byd a halen y ddaear."

CYNWYSIAD.

		TUD.
I.	At y Darllenwyr.	iii
II.	Rhagair gan y Parch. W. Pari Huws, B.D.	v
III.	Rhagarweiniad.	1
IV.	Bethel, Ffestiniog.	43
V.	Carmel, Tanygrisiau.	70
VI.	Salem, Rhiwbryfdir.	97
VII.	Jerusalem.	106
VIII.	Hyfrydfa.	117
IX.	Brynbowydd.	123
X.	Yr Eglwysi yn eu perthynas a'u gilydd ac a'r Enwad.	135
XI.	Atodiad.	137

Rhagarweiniaid.

RHAN ydyw Plwyf Ffestiniog o Gantref Ardudwy-Uwch-Artro ym Meirion. Mesur o'r Gogledd i'r De tua pum' milltir a haner, ac o'r Dwyrain i'r Gorllewin tua deg milltir. Amgylchir ef gan y plwyfi a ganlyn—Dolwyddelen a Beddgelert o du'r Gogledd; Maentwrog o du'r Dehau; yr ochr Ddwyreiniol iddo mae Penmachno ac Yspytty Ifan, a Llanfihangel-y-traethau a Llanfrothen ar ei ochr Orllewinol. Ni ellir dweyd ei fod wedi manteisio nemawr ddim ar y plwyfi hyn (fel y mae y rhan fwyaf o honynt hwy wedi manteisio ar Ffestiniog er's amser hir bellach), oblegid plwyfi amaethyddol ydynt, teneu eu poblogaeth, a'u trigolion yn trin tir mynyddig llwm gan mwyaf, ac yn byw ar ei gynyrch.

Dengys y cofrestriad cyntaf (sydd ar gael), yr hwn sydd am flwyddyn 1695, nad oedd y trigolion yn rhifo ond tua pedwar-cant-a-haner, a dengys nifer y genedigaethau a'r marwolaethau am y can mlynedd ddilynol mai ychydig iawn fu cynydd y boblogaeth. Ond pan ddechreuwyd gweithio y llech-chwarelau rhwng 1750 a 1760 dechreuodd y boblogaeth gynyddu, ac yr oedd erbyn 1801 yn rhifo 732. Gwelir oddiwrth ffigyrau am y cyfnod yna fod nifer y marwolaethau, o'u cymharu a nifer y genedigaethau gryn lawer yn llai nag oeddynt gan mlynedd cyn hyny. Er hyny, amser caled oedd yr amser hwnw—o 1800 hyd 1820—o herwydd prinder gwaith achosid gan ryfeloedd ar gyfandir Ewrob, ac oherwydd yr anhawster i gynyrchu digon o ymborth i'r trigolion cynyddol o dir gwael ei ryw Plwyf Ffestiniog. Cerddasai son am agoriad y llech-chwarelau yn mhell, a dylifai pobl i'r lle i geisio gwaith. Erbyn 1815—blwyddyn brwydr Waterloo—yr oedd cyfyngder mawr yn yr ardal. Cynyddai nifer y tlodion; pwysai dieithriaid (a ddaethant i'r lle i chwilio am waith) ar y plwyf. Aeth y draul i w cludo yn ol i'w hardaloedd eu hunain yn drwm a'r draul i gynal eraill yn faich llethol ar y rhai oedd yn gweithio. O herwydd hyn penderfynwyd mewn festri

gynhaliwyd yn 1817 fod y plwyfolion "yn ymrwymo i anghefnogi dyfodiad i'r plwyf ddieithriaid neu estroniaid ag y byddai iddynt, yn debygol, bwyso arno gan ddibynu arno am gynhaliaeth, ac y byddai yn rhaid i bwy bynag a osodai dŷ neu ystafell i ddieithriaid heb fod yn perthyn i'r plwyf hwn eisoes, eu cludo yn ol ar ei gyfrifoldeb a'i draul ei hun, i'r plwyfi y perthynent iddynt—yn ol cyfarwyddyd a gorchymyn yr Ynadon." Yn Festri Awst 24, 1821, penderfynwyd yn mhellach "Nid oes neb i gyflogi gwas na morwyn i wneud unrhyw wasanaeth bynag am fwy na chwe mis (*calendar*), ac nid oes unrhyw deulu i gael aros yn y plwyf yma dan unrhyw esgusawd oni byddant yn perthyn iddo, heb drwydded foddhaol oddiwrth eu plwyf neu eu plwyfi eu hunain a ddyry foddlonrwydd i drigolion y plwyf hwn." Ond, er gwaethaf arweinwyr y plwyf yr adeg ddiddorol iawn yma, cynyddu wnai y boblogaeth hyd oni rifai 1169 erbyn hyn. Dyna yn fyr yr amgylchiadau yn y rhai y dechreuodd hanes yr Anibynwyr yn Mhlwyf Ffestiniog.

Yr oedd Eglwys Plwyf yn Llan Ffestiniog ac iddi offeriad a'i enw Maurice Powell foreued a 1560, a cheir hanes Ymneillduwyr yn ymweled â'r lle i bregethu 'r Efengyl ac yn cael eu herlid—hanes Morgan Llwyd o Wynedd yn pregethu oddiar glawdd y fynwent yn 1640. I'r Methodistiaid Calfinaidd y perthyn yr anrhydedd am ffurfio yr Eglwys Ymneilltuol gyntaf yn y plwyf. Nid oes sicrwydd yn mha adeilad y ffurfiwyd Eglwys ganddynt—pa un ai yn y Ty Uchaf ai yn y Siop Newydd. Cynhelid cyfarfodydd eglwysig yn y naill a'r llall. Yn 1784 adeiladasant iddynt gapel ar ochr y ffordd o'r Llan i Gwm Teigl. Pan adeiladwyd capel newydd—Capel Gwyn—yn 1814, trowyd y cyntaf yn dŷ-anedd, a'i enw hyd y dydd hwn ydyw "Yr Hen Gapel."

Gwelir nad oes yn yr hyn a ysgrifenwyd gyfeiriad at Blaenau Ffestiniog. Yn Mhentref neu Llan Ffestiniog yr oedd yr achosion crefyddol a grybwyllwyd eisoes. Mae'n deilwng o sylw nad un o deuluoedd cynhenid

Plwyf Ffestiniog fu yn offeryn i roddi cychwyn i achos Anibynol yn yr ardal, er fod amryw deuluoedd a drigent ynddi wedi ymwasgu at yr achos yn fuan a phrofi yn gymorth effeithiol iddo. Fel hyn y bu. Daeth un John Hughes a'i briod oeddynt yn aelodau o'r Eglwys Anibynol yng Nghaernarfon, gweinidog yr hon oedd Dr. George Lewis, i fyw i Cefnfaes. (Dyna'r lle y saif Capel Bethesda (M.C.), yn awr. Chwalwyd dau neu dri o dai oedd yno yn 1865 i wneud lle iddo.) Ymaelodasant yn Eglwys Penystryd, Trawsfynydd. Arferai Dr. George Lewis pan ar ei deithiau, alw yn eu ty i fedyddio eu plant a pregethu hefyd yno. Torwyd John Hughes i lawr cyn sefydlu yr Eglwys Anibynol gyntaf yn y Plwyf, ond cafodd ei briod y fraint o ymaelodi ynddi. Mae ei henw ymhlith enwau cychwynwyr ac aelodau cyntaf yr Eglwys hono a bu ei phlant a phlant ei phlant yn golofnau cryfion i'r Achos ar hyd y blynyddoedd. Nis gwyddom paham yr ymaelododd John Hughes a'i briod ym Mhenystryd pan yr oedd Eglwys Anibynol yn Nolwyddelen ac un William Hughes oedd yn byw yn Nhalwaenydd yn aelod ynddi. Yn y flwyddyn 1816, ceisiodd gan y Parch. D. Roberts, Bangor, ddyfod i'w dy brydnawn Sul i fedyddio merch fach iddo ac i bregethu. a chydsyniodd yntau a'r cais. Teulu arall fu'n dra ffyddlon i'r Achos yn Nolwyddelen oedd William Griffith, Mynhadog Isaf, a'i briod, Lowry Griffith ; a phregethid yn achlysurol yn eu ty hwythau. Yr oedd gan Lowry Griffith frawd—William Evans, yn amaethwr yn Nghwmbowydd, ac ymawyddai hi iddo agor ei dŷ i'r efengyl gael ei phregethu ynddo, ac amlygodd yntau ei barodrwydd i wneud hyny os gellid cael pregethwr. Digwyddodd fod y Parch Edward Davies, Rhoslan (Trawfynydd yn ddiweddarach), i bregethu yn Nolwyddelen ar fyrder, a gofynodd Lowry Griffith iddo a bregethai yn nhy ei brawd yn Nghwmbowydd ar ei ffordd adref. Cydsyniodd gyda phob parodrwydd â'r cais, ac anfonodd hithau at ei brawd y pregethai Mr. Davies

yno ganol dydd Llun. Felly y gwnaeth. Cynhulliad bychan gafwyd—teulu Cwmbowydd a dau eraill.

Deuai i'r ardal i bregethu yn Nghwmbowydd ac mewn anedd-dai eraill—a hyny yn gyson—eraill hefyd :—Y Parchedigion D. Griffith, Bethel ; J. Lewis, Bala ; W. Jones, Penystryd ; J. Roberts, Capel Garmon ; Cadwaladr Jones, Dolgellau, &c., ond i'r Parch. Edward Davies, Rhoslan, mae'r clod am ffurfiad yr Eglwys Anibynol gyntaf yn Mhlwyf Ffestiniog. Yn 1817 pregethai brydnawn Sabath yn hên dŷ Maenofferen, ac fel yr arferid gwneud cynhaliwyd Cyfeillach wedi'r oedfa ; a'r pryd hwnw ffurfiwyd Eglwys o'r rhai oedd yn y gyfeillach a gweinyddwyd yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd. Nifer yr aelodau y prydnawn hwnw oedd saith, a dyma eu henwau :—William Dafydd, Maenofferen ; Jennet Morris (gweddw J. Hughes, Cefnfaes) ; Catherine Evans, Hafodfraith ; Catherine Edwards, Penrhos ; William Jones, ei brawd ; William Hughes, Fronlas (gynt o Dalyweunydd) ; a William Evans, Cwmbowydd.

Er's blynyddoedd lawer, bellach, mae'r saith aelod hyny yn cael eu cynrychioli gan saith o eglwysi cryfion a llewyrchus.

Deil rhai mai y Parch. D. Griffith, Bethel, fu â llaw amlycaf yn nghychwyniad Anibyniaeth yn Ffestiniog, am y ceir ei enw ymhlith enwau eraill y geliid eu nodi. Yn hanes cyfarfod Jiwbili y Parch. D. Griffith, cyfeiriodd Mr. Richard Owen, Tyddyn Mawr (un o ddiaconiaid Bethel), at lafur mawr a llwyddiant Mr. Griffith yn planu eglwysi, gan ddywedyd fel hyn :—

"Yr Eglwysi fu e'n blanu
Sydd i'w henwi yma'n awr ;
Siloh, Beulah, Ebenezer,
Pentir hefyd a'r Waenfawr ;
Dolwyddelen hefyd a Llanberis
A Ffestiniog—dyna wyth ;
Os cyfrifir y canghenau
Bydd y rhif dros ddeuddeg llwyth."

Diau ddarfod i Mr. Griffith fod yn gymorth cryf i gychwyniad yr achos yn Nolwyddelen ac yn Mlaenau Ffestiniog, oblegid ceir ei hanes yn pregethu lawer gwaith ac yn danllyd iawn yn Nghwmbowydd ac yn Maenofferen. Bu yn pregethu ar y cae gerllaw tŷ Cwmbowydd ac yn gweinyddu yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd ac yn derbyn aelodau newyddion i'r Eglwys, ond yn ol pob cofnodiad y gellir dibynu arno, y tebygolrwydd ac, yn wir, y sicrwydd ydyw mai wedi ffurfiad yr Eglwys gan y Parch. Edward Davies y bu hyny. Gwybydder hefyd fod Ysgol Sabothol yn cael ei chynal gan yr Anibynwyr yn ysgubor Tanymanod er's peth amser cyn ffurfiad yr Eglwys. Pa un a gynhelid hi yn yr ysgubor wedi ffurfiad yr Eglwys anhawdd dweyd; oblegid gwyddom mai mewn gwahanol anedd-dai y cynhaliai yr Eglwys ei chyfarfodydd. Yn fuan gwelwyd na ellid dwyn yr Achos ymlaen tra y cyfarfyddid mewn anedd-dai a phenderfynwyd (yr un flwyddyn ag y corphorwyd yr Eglwys) adeiladu capel, a chafwyd tir ar Ystad Tanymanod. Paham yno, a'r Eglwys wedi ei ffurfio yn Maenofferen? Nid, mae'n ddiameu genyf, am fod y rhan hono o'r ardal yn fwy cyfleus nac yn fwy poblog na rhanau eraill, nac am fod yr Ysgol Sabothol yn cael ei chynal ynddi. Credaf fod yr eglurhad i'w gael yn y ffaith fod gan un o sylfaenwyr yr Eglwys—William Dafydd, Maenofferen—"rywbeth i'w ddweyd" wrth yr Ystad hono. Dengys y ffeithiau a ganlyn hyny. Fel hyn y maent:—Perthynai yr Ystad yr adeg hono i un William Richard oedd yn wr i ferch Tanymanod, a'r hwn yn 1805 a gytunasai i werthu y rhan fwyaf, onid yr oll o honi, i William Dafydd, Maenofferen (un o saith aelod cyntaf yr Eglwys) am fil o bunnau. Dyma enwau'r tai (ac mae'n debygol fod rhyw gymaint o dir ynglyn â hwy) gynwysid yn y pryniant:—Tanymanod, Tyddyn Du, Tŷ Coch, Tŷ Newydd, yn Drws, Hen Dŷ a Tŷ Pobty a Hafod Gwndwn. Delid y tai yma gan William Turner, Thomas Williams, John Hughes ac eraill.

Ymddengys mai rhyw fath o brydles oedd y pryniant hwn, gan fod amser (500 mlynedd) yn cael ei nodi ynddi, a bod yr holl eiddo i ddychwelyd i feddiant William Richards (neu ei etifeddion) unrhyw amser ar daliad mil o bunau gyda llog o bedair punt y cant y flwyddyn i William Dafydd, Maenofferen. Cyfatebai hyn yn ymarferol i'r hyn a elwir yn *Mortgage* yn awr. Cadarnheir hyn gan y ffaith na allasai William Richard, perchen yr ystad, werthu tir rhydd-ddaliadol i adeiladu capel arno heb gydsyniad William Dafydd, Maenofferen. Cafwyd y caniatad a gwerthwyd tir oedd yn ddigon helaeth i adeiladu arno gapel a thy ac ystabl, am y swm o ddeg punt. Mesurai y tir ugain llath wrth dair-llath-ar-ddeg, rhan o'r tir a elwid Cae Dwr, a gorweddai lle mae Rhif 1 a 2 Penygroes yn awr. Dyddiad y weithred ydyw Awst 12, 1818, rhwng William Richard, Cwmorthin, ym Mhlwyf Ffestiniog, ar Parchn. D. Roberts, Bangor; Edward Davies, Trawsfynydd; Cadwaladr Jones, Dolgellau; Peter Griffiths, Llanrwst; Mri David Williams, Maenofferen (ond yn ddiweddarach Plas Iolyn, Pentrefoelas); William Evans, Cwmbowydd; a Richard Parry, Tanygrisiau. Paham rhoddir Cwmorthin fel cyfeiriad William Richard anhawdd gwybod, onid am fod ganddo *Mortgage* ar yr ystad a'i fod ef yn byw yn Nghwmorthin o raid, oblegid mab y Cymerau oedd ef wedi dyfod i gysylltiad ag Ystad Tanymanod trwy briodas ag Ann Vaughan, merch Robert Evans a Jane Vaughan. Dengys dyddiad y weithred fod yr Eglwys wedi symud yn ddiymdroi i adeiladu a bod gwyr cryfion a dylanwadol yn ymddiriedolwyr yr eiddo. Diau fod hyny yn elfen o nerth a chadernid i Eglwys mor ieuanc i ymgymeryd a chymaint anturiaeth ag adeiladu Capel.

Mae ein dyled fel enwad i'r hên weinidogion yn anfesurol, am eu gwasanaeth yn sefydlu Eglwysi newyddion yma a thraw yn y wlad. Hwy, fynychaf, aent yn gyfrifol am y ddyled yr elid iddi wrth adeiladu, a mynych y cawsant ymwared cyfyng rhag

cael eu "gwerthu i fyny" o herwydd dyledion Eglwysi yn methu talu y llogau, llawer llai yr hawl. Cwblhawyd adeiladu ac agorwyd y Capel yn mis Tachwedd, 1818, a galwyd ef Bethania. Yn ddiweddarach galwyd y rhan o'r ardal y mae ynddi ar ei enw. Nid oes ar gael swm y draul o'i adeiladu, ond mae yn amlwg fod gan yr Eglwys ffydd gref a chalon i weithio, oblegid yr oedd masnach yn farwaidd a chyflogau yn isel yr adeg hono.

Yn fuan wedi ei agoriad, torrodd allan ddiwygiad crefyddol grymus yn y fro a phrofodd yn fanteisiol i'r Eglwys ieuanc trwy amlhau ei haelodau a'u cymelll i weithgarwch a chryfhau eu dylanwad yn yr ardal. Ymaelododd amryw benau-teuluoedd ynddi a chymerasant ddiddordeb yn y gwaith da, a magasant eu plant yn "addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd," ac i fod, yn ddiweddarach, yn ddefnyddiol a gweithgar yn yr Eglwys.

Arferid yn y dyddiau hyny gadw Ysgol Ddydd mewn cysylltiad a'r Eglwysi, a chadwyd un mewn cysylltiad ag Eglwys Bethania. Cyn adeiladu'r Capel cedwid hi yn Ysgubor Tanymanod gan un Ellis Thomas, hen wr un-llygeidiog. Prin oedd gwybodaeth a gallu y gwr, ac nid amcanai ddysgu dim i'r plant ond darllen Cymraeg a sillafu. Bu o gryn wasanaeth i'r Eglwys ieuanc, oblegid heblaw ei fod yn dysgu yr ieuenctid i ddarllen cymerai ran flaenllaw yn nghyfarfodydd yr Eglwys, er nad oes sicrwydd iddo bregethu o gwbl. Byr fu ei arhosiad ef yn y fro.

Pan agorwyd y capel yn niwedd 1818, gwahoddwyd Mr. Owen Jones, Colwyn, i ddyfod i gadw Ysgol ddydd ac i bregethu. Mab oedd ef i Margaret Jones, Penybont, Colwyn—un o dair chwaer aeth ymlaen, wedi pregeth gan Azariah Shadrach mewn tŷ anedd yn Ngolwyn ar y 27fed o Fai, 1804. Rhagorai Owen Jones gryn lawer ar ei ragflaenydd mewn gwybodaeth a gallu ac felly cyfranodd i'w ddisgyblion addysg mewn Saesneg, Hanesiaeth, Rhifyddeg, &c., a bu yn

dra llwyddianus fel athraw. Meddai hefyd "ddawn pregethu" swynol a'i gwnai yn gymeradwy fel pregethwr gan yr Eglwys. Awgrymid, fodd bynag, nad oedd yn gystal dyn oddiallan i'r pwlpud ag oedd ynddo. Boed hyny fel y bo, ni chyfrifid ef yn Weinidog. Yn unig, pregethai yn achlysurol i Eglwys Bethania fel i Eglwysi eraill a alwent am ei wasanaeth. Gwnaent hyny yn lled fynych am ei fod, fel y dywedwyd eisoes, yn bregethwr melus. Byr fu ei arhosiad yma—prin dwy flynedd. Cafodd alwad oddiwrth Eglwys Anibynol Llanaelhaiarn ac urddwyd ef yn weinidog yno, a bu llwyddiant ar ei waith. Yn y man, symudodd oddiyno i Lanerchymedd.

Wedi ymadawiad Mr. Owen Jones, argymhellwyd yr Eglwys gan y Parchn E. Davies, Trawsfynydd, a D. Griffith, Bethel, ac eraill i geisio gweinidog, ac nid yn hir y bu heb gael un yn Mr. John Williams, myfyriwr yn Ysgol Neuaddlwyd, dan addysg yr enwog Dr. Phillips. Brodor o Landeilo Fawr, yn Swydd Caerfyrddin, oedd ef. Yn Nghapel Isaac y dechreuasai bregethu yn 1815; aeth i Athrofa Neuaddlwyd yn 1818 ac yno y bu hyd oni dderbyniodd alwyd Eglwys Bethania yn ngwanwyn 1821. Urddwyd ef Mai 31, 1821. Yr oedd yn y cyfarfodydd amryw o weinidogion Meirion ac Arfon. Pregethodd Dr. Phillips i'r Eglwys ar 1 Cor. iv. 1—2. Edrychai y gwr enwog ar y geiriau fel darluniad o'r hyn a ddylai gweinidog fod ac o'r cyfrif parchus a ddylai yr Eglwys wneud o hono fel y cyfryw. Gadawodd y cyfarfodydd hyn argraph ffafriol iawn ar yr Eglwys. Enynai newydd-deb y peth ddiddordeb mawr, oblegid hwn oedd y "cyfarfod ordeinio" cyntaf yn yr ardal. Rhoddai presenoldeb yr Athraw enwog a gweinidogion Meirion ac Arfon, ynghyd a'r rhan amlwg a gymerent yn y cyfarfodydd, urddas neillduol ar y gwasanaeth cysegredig a bu hyny yn fanteisiol i'r gweinidog ieunnc ar gyfrif y sylw neillduol o roddwyd i waith pwysig y Weinidogaeth ac i ddyledswydd yr Eglwys at ei gweinidog.

Ymroddodd Mr. Williams yn egniol i'r gwaith ac ynillodd barch a chymeradwyaeth pobl ei ofal ar gyfrif ei ddylanwad da a'i ymroddiad i'w waith fel gweinidog. Gwnaeth waith da iawn yn yr Ysgol Sabothol. Rhagorai fel "holwr" Ysgol, a holid bob Sabath y pryd hyny. Mewn canlyniad daeth yr Ysgol yn llewyrchus iawn, ac felly bob rhan o waith yr Eglwys. Cynyddodd y gynulleidfa, chwanegwyd at nifer aelodau yr Eglwys; ymadnewyddodd yr Ysgol Sabothol ac, yn wir, bob rhan o'r gwaith da; a dyrchafwyd safon bywyd crefyddol y cylch. Heblaw hyn, ymroddodd Mr. Williams i dalu'r ddyled ar y Capel gan fyn'd ar "daith casglu" i Lundain a lleoedd eraill. Gan mor egniol a llwyddianus ei ymdrech, talwyd yr holl ddyled. Cynyddodd y gynulleidfa i fesur a wnaeth helaethu'r Capel yn rheidiol. Adeiladwyd ty i'r Gweinidog hefyd. Nid oedd Mr. Williams yn briod y pryd hyny, ond cymerodd yn wraig iddo ar y 16fed o Orphenaf, 1833, Margaret, merch Mr. Isaac Charles, Clynog Fawr, Llanrhaedr-yn-Mochnant. Bu ef, fel ei ragflaenydd, yn cadw Ysgol Ddydd yn y Capel, a chan ei fod yn athraw llawer gwell na'r gwr hwnw bu ei waith yn fanteisiol iawn i blant yr ardal. O, raid megis, yr ymgymerodd â'r gwaith yma gan mai ychydig gydnabyddiaeth roddid iddo am ei waith fel gweinidog. Nid yw ond teg ag ef dywedyd na roddir gan yr haneswyr y clod dyledus iddo am ei waith y tu allan i'r Eglwys trwy wasanaethu mewn cymanfaoedd, cyfarfodydd urddo, cyfarfodydd pregethu, ac agor capelau newyddion yn Ngogledd a Deheudir Cymru. Gwnaeth hyn, cofier, pan nas gallai deithio ond yn unig trwy gerdded neu farchogaeth. Gellid, pe bai angen, rhoddi rhestr o'r cyfarfodydd mewn gwahanol leoedd y bu yn cymeryd rhan ynddynt yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Yn ddiweddarach, amlhaodd y galwadau am ei wasanaeth a dengys hyny fod ei boblogrwydd yn cynyddu. Dyma ychydig engreifftiau:—Mawrth 20, 1828, yn Nebo, Lleyn, mewn Cyfarfod urddo efe a roddodd siars i'r Eglwys; Ebrill

6 a 7, yn Bethel, Arfon, ar ail-agoriad y Capel; Mehefin 24 a 25 yn Nghymanfa y Groeswen; Gorphenaf 8 a 9 yn Rhydywernen, ger y Bala, ar agoriad capel newydd; a Medi 1 a 2 yn yr Abermaw ar agoriad capel newydd. Bu yn Bethania yn uchel iawn ei barch ac yn fawr ei ddylanwad ar gyfrif y gwaith mawr a wnaeth tra yn yr ardal. Ymadawodd i gymeryd gofal Eglwys Llansilin, Maldwyn, yn nechreu 1831 er gofid a cholled i'r Eglwys a'r fro hefyd.

Dywedwyd eisoes fod amryw deuluoedd wedi ymgysylltu â'r Eglwys yn fuan wedi ei ffurfiad. Daeth y rhai hyny, yn ystod ei weinidogaeth ef, yn ffyddlon a defnyddiol hefyd. Dyma enwau rhai a gymerasrnt ran amlwg yn ngwaith yr Eglwys yn y cyfnod yma: William Evans, Cwmbowydd; yr hwn anwyd yn 1773 oedd un o'r tri diacon cyntaf ddewiswyd. Yr oedd hefyd yn un o'r saith aelod cyntaf. Cyn dyfod i Ffestiniog buasai amryw gymaint o amser yn Mhenamnaen, Dolwyddelen, ac yn aelod o'r Eglwys yno. Pan yn dair-ar-ddeg-ar-hugain oed priododd Jane Williams, Hafodlwyfod, Beddgelert, a daeth i Gwmbowydd yn fuan wedi hyny. Yr oedd yno ers rhai blynyddoedd cyn cychwyniad yr Achos ac yn selog ynglyn â'r Ysgol Sabothol pan y'i cynhelid yn ysgubor Tanymanod, a chadwai ddrws agored i dderbyn rhai a ddeuent i bregethu cyn adeiladu'r Capel. Cafwyd rhai oedfaon hynod wresog a dylanwadol yn Nghwmbowydd. Er engraifft, pan bregethodd y Parchn. D. Griffith, Bethel, a D. Roberts, Dinbych, ar Weinyddiad yr Ordinhad mewn hwyl a gorfoledd, derbyniwyd tri-ar-ddeg i'r Eglwys ar y cae gerllaw'r tŷ, am nad oedd digon o le i'r gynull-eidfa yn y tŷ. Dyn gwresog yn yr ysbryd oedd William Evans, a rhoddai ei briod bob cymorth iddo i ymgyflwyno yn llwyr i waith yr Eglwys. Er nad oedd hi yn un o'r "saith cyntaf" nid oedodd ymuno â'r Eglwys a bu yn ffyddlon iawn. Yr oedd ef yn nodedig o ffyddlon i'r Ysgol Sabothol ac yn rhagori fel ymwelwr â'r cleifion ac â'r esgeuluswyr. Trwy ei

rodiad dichlynaidd a'i esampl da, dylanwadai yn ddyrchafol ar ei wasanaethyddion fel y gwnai ar bawb a ddeuent i gysylltiad ag ef. Yn 1827 clafychodd a chystuddiwyd ef am flwyddyn gyfan. Er iddo yn ystod y misoedd diweddaf ddioddef poen arteithiol yr oedd ei feddwl yn glir a thystiai fod "ei Brynwr yn fyw." Galwai ar y teulu ato i ddweyd wrthynt am ddaioni yr Arglwydd, ei gariad a chadernid ei gyfamod. Gan gymaint ei ofal am barch i'r Sabath dymunai yn ei gystudd ar ei briod ei hysbysu pan ddeuai y Sabath rhag iddo drwy anwybod, siarad yn anaddas y dydd sanctaidd hwnw. Hunodd yn dawel yn yr Arglwydd Hydref 7, 1828, gan adael gweddw a thair merch mewn galar dwys am dano Er fod eu mam yn dwyn mawr sel dros yr Achos nid oedd yr un o'r tair merch yn aelod Eglwysig pan fu farw eu tad, er eu bod yn ymdrechgar yn enwedig mewn cysylltiad a'r Ysgol Sabothol. Yn ddiweddarach, atebwyd gweddiau eu tad a rhoddasant eu hunain i'r Arglwydd ac i'w bobl yn ol ei ewyllys sanctaidd.

William Jones, Penygelli (mab i John Hughes, Cefnfaes,) oedd un o'r saith aelod cyntaf ac un o'r tri diacon cyntaf. Cyfrifid ef yn ddyn doeth a gochelgar a medrus fel arweinydd mewn Eglwys ieuanc a dibrofiad. Bu ei bwyll a'i arafwch a'i sel dros yr Achos o werth mawr i'r Eglwys.

William Hughes, Fronlas (cyn hyny o Dalywaenydd,) oedd hefyd yn un "o'r saith cyntaf." Yr oedd ef fel y dywedwyd eisioes, yn aelod o'r Eglwys yn Nolwyddelen cyn ffurfiad Eglwys Bethania. Y pryd hyny yr oedd yn wr selog. Mae hyny yn eglur oddiwrth ei waith yn ceisio gan y Parch. D. Roberts (Bangor y pryd hyny) ddyfod i'w dy i bregethu ac i fedyddio ei blant. Parhaodd yn ffyddlon a brwdfrydig hyd y diwedd a dygodd ei blant i fyny yn "addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd."

ELLIS EDWARDS, PENRHOS. Bu'r gwr da yma yn wasanaethgar iawn am lawer o flynyddoedd. Ei wraig, Catherine Edwards, oedd un o'r "saith cyntaf" ac ni fu ef yn hir heb ymuno a'r Eglwys. Yn ddioed ymdaflodd i waith, a chan fod ynddo gymhwysterau neillduol a bod ganddo sêl, dewisiwyd ef yn ddiacon, a bu ef a'i briod yn ffyddlon ragorol am lawer o flynyddoedd. Ceir cyfeiriad at eu plant eto.

WILLIAM DAFYDD, MAENOFFEREN. Dywedwyd eisioes mae yn ei dy ef y pregethid fynychaf cyn ffurfiad yr Eglwys, ac yno y corphorwyd "y saith" yn Eglwys. Yr oedd yn un o honont. Trigasai yn Maenofferen ers blwyddi lawer. Amaethwr, clyd ei amgylchiadau, oedd, a bu yn gymorth i'r Eglwys yn ei dechreuad Cofir fod ganddo *Mortgage* ar Ystad Tanymanod am £1,000 yn 1805, ac y mae yn weddol sicr mai trwyddo ef fel cyfrwng y cafwyd tir i adeiladu'r Capel cyntaf arno. Cyfrifid ef yn wr diymhongar, selog dros yr Achos yn ei ffordd foneddigaidd ef. Mae'n bosibl na ddarfu i'r Eglwys fanteisio i fesur llawn ar ei gymhwysterau neillduol i'w gwasanaethu yn gymaint ag na roddodd iddo y cyfleusterau allasai roddi i lanw cylchoedd neillduol yn y rhai y buasai yn gaffaeliad gwerthfawr. Boed hyny fel y bo, glynodd wrth yr Achos hyd y diwedd gan fod yn gymorth cryf iddo yn nydd y pethau bychain. Efe oedd perchen fferm Caedu, heb fod nebpell o Bethania, ac erys hono hyd y dydd hwn yn meddiant ei ddisgynyddion y rhai sydd yn awr yn aelodau yn Eglwysi Anibynol y cylch.

DAVID WILLIAMS, MAENOFFEREN. Yr oedd ef yn fab i William Dafydd, a bu ef a'i briod yn aelodau ffyddlon yn ystod gweinidogaeth Mr. Williams. Ceir ei enw ymhlith enwau yr Ymddiriedolwyr cyntaf. Bu yn trigo am gyfnod byr yn y Pengwern ac oddiyno symudodd i Blas Iolyn, Pentrefoelas. Fel eu tad, felly y bu y plant yn wasanaethgar iawn yn Bethania a phery eu hiliogaeth i lenwi cylchoedd gwasanaeth yn eglwysi yr ardal hyd y dydd hwn. Er fod amryw

eraill y gellid eu henwi ar gyfrif eu gwasanaeth yn mlynyddau cyntaf yr Achos Anibynol yn Ffestiniog, un arall a enwaf, sef.

William Williams, Tanymanod. Dyma'r dystiolaeth a ddug y Parch. J. Williams iddo, ac mae'n ddiameu genyf nad yw'r hanes yn wybyddus i nemawr neb. "Ar y 25fed o Fawrth, 1830, fel yr oedd Mr. William Williams, aer Tanymanod, plwyf Ffestiniog, mab ieuanc 27 oed, yn dyfod adref â llwyth o wair o Llan Ffestiniog, ac wedi cychwyn gyda milltir, trodd y bedrolfan a dymchwelodd y llwyth arno, heb neb yn agos ato i'w gynorthwyo, a phan ddaeth cymydog iddo heibio, er mawr alar i bawb a'i hadwaenai, cafwyd ef yn farw dan y llwyth. Collodd ei dad blentyn ufudd a ffyddlon. Torwyd yr undeb rhyngddo â'i frawd a'i ddwy chwaer, yr hyn oedd ddrylliad calon iddynt; collodd Ysgol Sabothol Bethania un o'i hathrawon ffyddlonaf; collodd ysgrifenydd yr hanes hwn un o'i wrandawyr mwyaf cyson—ie collodd un o'i gyfeillion ffyddlonaf ac anwylaf; collodd yr ardal yma un o'r cymwynaswyr goreu a feddai. Mawr yw y cwyno sydd ar ei ol."

Ffaith arall tra diddorol yn nglyn â'r Eglwys Anibynol yw ei bod yn gyfansoddedig gan mwyaf yn yn ei blynyddoedd cyntaf o berthynasau agos i w gilydd, a pharhaodd felly am lawer iawn o flynyddoedd wedi i rai canghenau fyn'd allan o'r Fam Eglwys. A fu hyny, tybed, yn fantcisiol i heddwch a llwyddiant yr Eglwys yn mhob amgylchiad? Prin, dybygaf, y gellid ateb ei fod.

PENOD III.

1831 YN mhen ychydig fisoedd wedi ymadawiad Mr. Williams i Lansilin, rhoddes yr Eglwys alwad i'r Parch. Thomas Davies, yr hwn oedd weinidog yn Mhentraeth, Môn. Brodor o Gwmwysog, Brycheiniog oedd. Hyd y gwyddom, ni fu mewn Athrofa: ychydig fanteision addysg gafodd. Urddwyd ef yn Mhentraeth Tachwedd 30, 1825, a gwasanaethwyd yn y cyfarfodydd gan y Parchn. O. Thomas, Llanfechell; J. Evans, Biwmaris; D. Jones, Rhosymeirch; a Dr. Arthur Jones, Bangor. Arhosodd Mr. Davies yno am chwe blynedd yn ddefnyddiol a chymeradwy gan bawb. Yr oedd yn ddyn hardd a chryf o gorph; perthynai iddo nodweddion a'i gwnaent yn gymeradwy gan bobl ei ofal, oblegid yr oedd yn hynaws a charedig a diymhongar, ac yn gwbl rydd oddiwrth ddichell. Fel pregethwr meddai ddawn peraidd, ond bu y ffaith na chawsai ond ychydig addysg neu ddiwylliant yn rhwystr ar ei ffordd i gynyddu (?) Heblaw hyny, prin oedd ei alluoedd naturiol.

Daeth i Bethania yn 1831, a bu'r diwygiad grymus y bendithiwyd yr Eglwys a'r ardal ag ef yn 1831 a 1832 yn fanteisiol iawn i lwyddiant ei weinidogaeth. Chwanegwyd at aelodau'r Eglwys lawer o bob oedran; deffrowyd ac enynwyd sel y dynion ieuainc oedd mewn cysylltiad a hi ac ymroddasant i weithio ynddi. Cawsid yn 1820 a 1821 ddiwygiad fu'n llesol iawn iddi, ond y pryd hyn cynyrchwyd teimladau mwy angerddol yn yr ieuanc yn arbenig. Ymgynullent yn nghorlanau'r defaid yn y mynyddoedd i gynal cyfarfodydd gweddi a barhaent weithiau hyd oriau'r boreu. Wedi ymarferiad yn y cyfarfodydd hyny ac wedi cael profiad newydd, cymerent ran gyhoeddus yn nghyfarfodydd yr Eglwys; bywhawyd hi ac adnewyddwyd ei nerth. Yn y cyfnod yma y codwyd y pregethwr Anibynol cyntaf yn y cylch—Mr. Evan Griffith, Caeclud. Ymddengys ei fod cyn hyn yn ddyn ieuanc dibris ac anuwiol, ond cafodd yn ddiau argyhoeddiad

dwfn; a lle buasai yn gwatwar y saint yn Bethania, daeth yn amlwg ymhlith gweddiwyr tanbaid y corlanau ac yn aiddgar ryfeddol yn yr Eglwys. Ar fyrder dechreuodd bregethu, ac aeth i geisio addysg at Dr. Jenkyn a'r Parch. R. Jones, Croesoswallt, i'w gymhwyso i waith y Weinidogaeth. Tra yr oedd yno rhoddodd Eglwys Llanegryn alwad iddo i fyn'd yno yn olynydd i'r Parch. H. Lloyd, ac urddwyd ef Ionawr 2 a 3, 1836. Gweinyddwyd yn y cyfarfodydd gan y Parchn. H. Morgan, Sammah; Cadwaladr Jones, Dolgellau; J. Williams, Dinas; S. Roberts, Llanbrynmair; H. Lloyd, Towyn; D. Morgan, Machynlleth; E. Davies, Trawsfynydd; Michael Jones, Llanuwchllyn; Evan Evans, Abermaw; J. Davies, Glasbwll; T. Davies, Bethania, Ffestiniog; Mr. William Roberts, Dinas; a Mr. William Ellis, Ffestiniog. Aelod o Eglwys Bethania oedd yr olaf a enwyd; yn ddiweddarach daeth yn adnabyddus iawn fel y Parch. William Edwards, Aberdar. Wedi llafurio yn llwyddianus am bymtheg mlynedd yn Llanegryn, ymfudodd Mr. Griffith, i'r Unol Dalaethau. Wedi gwasanaethu yn ffyddlon am ugain mlynedd talodd ymweliad a'r hen gartref. Tra yr oedd yn pregethu yn Bethania clafychodd yn ddisymwth, a bu farw yn nhy ei chwaer (ei hen gartref) yn Caeclud, Ebrill 24, 1872. Claddwyd ef yn mynwent (Llan) Ffestiniog.

Dyn ieuanc arall, nodedig o selog fel aelod yn Bethania, oedd William Ellis a enwyd eisoes. Gelwid ef felly am ei fod yn fab i Ellis Edwards, Penrhos, ond yn y man adwaenid ef fel William Edwards. Ganwyd ef yn 1812. Yr oedd ei rieni ymhlith aelodau ffyddlonaf yr Eglwys er ei ffurfiad. Tra yr oedd ef eto yn ieuanc iawn derbyniwyd ef yn aelod eglwysig gan y Parch. J. Williams; ac yn ddioed ymroddodd er ieuanged oedd i bob gwasanaeth y gallai ei wneud. Fel yr oll o'r bron o fechgyn Ffestiniog yr amser hwnw, dechreuodd weithio yn y chwarel pan nad oedd ond wyth oed, a daeth yn fedrus yn ei waith fel y rhagorai fel gwneuthurwr cerig-pentanau (*mantel-pieces*). Trwy

fanteisio i'r eithaf ar lafur y Parch. J. Williams, pan yn cyflawni gwaith Gweinidog a gwaith Ysgolfeistr yr un pryd, a thrwy ddiwyllio ei hunan yn oriau hamdden, rhagorai ar ei gyfoed mewn gallu a gwybodaeth. Yn ngwres y diwygiad ymroddai yn egniol i waith yn yr eglwys, ac yn 1835 cymhellwyd ef i bregethu, a bu am rai blynyddoedd yn pregethu gartref ac oddicartref. Onid ef oedd y cyntaf—ac y mae hyny yn debygol—yr oedd un o'r rhai cyntaf yn yr ardal i arwyddo dirwest. Y pryd hyny gelwid Cymdeithasau Dirwest yn Cymdeithasau Cymhedroldeb, a sefydlwyd un felly yn y Blaenau Medi 19, 1835. Ymhlith y rhai sefydlodd y gyfryw gymdeithas cafwyd William Edwards—y mwyaf ei sel o honynt oll. Llwyr-ymwrthod â diod feddwol oedd amod aelodaeth ynddi Am bum mlynedd wedi ymadawiad y Parch. T. Davies bu ei arhosiad yn yr ardal, ac yntau yn bregethwr o fantais a gwerth mawr i'r Eglwys, gan lwyred ei ymroddiad i waith. Yn nechreu 1840 aeth i Lerpwl i gael gwell manteision addysg, ac yn haf y flwyddyn hono derbyniwyd ef i Goleg Aberhonddu. Wedi treulio pedair blynedd yno, derbyniodd alwad oddiwrth Eglwys Ebenezer, Aberdar, ac urddwyd ef Gorphenaf 2, 1844. Yno llafuriodd yn llwyddianus iawn am ddeugain mlynedd, ac yno y bu farw Awst 28, 1884.

John Isaac oedd ddyn ieuanc arall a ddechreuodd bregethu yr adeg yma. Ganwyd ef yn 1813. Ni chafodd gystal manteision crefyddol pan yn blentyn ag a gawsai William Edwards, gan nad oedd ei rieni yn bobl grefyddol. Tyfodd i fyny yn ddyn ieuanc hyf ac anuwiol, ond yn nghanol ei rysedd anystyriol gwelodd gyfeiliorni ei ffordd a dangosodd hyny yn hollol eglur Yn 1835, pan yn ddwy-ar-hugain oed, ymaelododd yn Bethania ac ymroddodd yn frwdfrydig i waith. Yn fuan gwelwyd ei fod yn cynyddu mewn gwybodaeth ac mewn cymhwyster a medr i wasanaeth crefyddol cyhoeddus. Anogwyd ef i ddechreu pregethu, ac ar fyrder daeth yn bregethwr cymeradwy iawn ar

gyfrif ei ddawn a'i ymroddiad i'r gwaith. Cododd hyn ddisgwyliadau uchel ei gyfeillion wrtho. Bu am ychydig yn Marton yn derbyn addysg gan fwriadu myn'd i'r Weinidogaeth, ond pallodd ei iechyd a bu raid iddo ddychwelyd adref. Yn gweled arwyddion o ddadfeiliad ei iechyd, anogwyd ef gan ei gyfeillion i roddi i fyny ei fwriad i geisio addysg golegol ac i aros gartref lle y byddai o wasanaeth i r Eglwys gan nad oedd gweinidog yn Bethania ar y pryd. Gwrandawodd arnynt ac ni chafwyd ef yn segur na diffrwyth yn ngwaith yr Arglwydd, ond yn llawn awydd ac yn ddyfal mewn ymdrech i wasanaethu y "Gwr a garai." Er ei fod yn gweled fod ei glefyd—darfodedigaeth—yn gwanhau ei gorph nid yn araf, ni phallodd ei ffydd ac ni chollodd ei hyder yn ei Arglwydd yn ngwasanaeth yr ymhyfrydai. Bu farw, yn ei wythfedflwydd-ar-hugain, Mawrth 19, 1841.

Heblaw y tri a godwyd i bregethu yn nghorph y blynyddoedd hyny, cafwyd eraill yn ffyddlon a gweithgar iawn yn yr Eglwys. Enwyd eisoes rhai a fu felly yn ystod gweinidogaeth Mr. Williams ac a barhasant felly wedi dyfodiad ei olynydd—Mr. Davies. Cododd to newydd o weithwyr yn yr Eglwys, a dychwelodd rhai a ymaelodasant ynddi yn nyddiau'r Diwygiad ond oeddynt wedi gwyro eu ffordd. Dyddiau o lwyddiant Eglwysig oedd y dyddiau hyny. Magwyd rhai a ddaethant yn wyr cryfion ac yn aelodau fuont o wasanaeth mawr am flynyddoedd lawer. Un o honynt oedd

Hugh Williams, mab William Hughes, Y Fronlas. Rhodiodd yn ffordd ei dad gan fod yn fawr ei sel dros yr Achos ac yn ffyddlon. Ond rhagorai mewn gallu ar ei dad, a gwnaeth wasanaeth gwir ragorol i Ganiadaeth y Cysegr, pan yr oedd nifer cantorion selog yn ychydig. Cymharol fyr fy tymor ei waith ef yma, gan iddo ymfudo i'r Unol Dalaethau.

Joseph Griffith, brawd i'r pregethwyr Evan Griffith a Griffith Griffith (at y rhai y cyfeirir yn

ddiweddarach) a wasanaethodd swydd diacon. Ymunodd â'r Eglwys yn ystod gweinidogaeth Mr. Davies a bu yn "ddiymod a sicr a helaeth yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol' Mawr berchid ef a disgwylid llawer wrtho, ond siomwyd yr Eglwys gan iddo gyfarfod a damwain a brofodd yn angeuol iddo. Colled fawr oedd colli dyn mor weithgar ag ef.

Lewis Thomas, Y Siop. Efe oedd ŵyr i William Dafydd, Maenofferen, a mab i David Williams. Dewisiwyd ef yn ddiacon a chafwyd ynddo Ysgrifenydd gofalus a deheuig Etifeddasai i fesur helaeth nodweddion prydferth cymeriad ei daid—gwyleidd-dra a boneddigeiddrwydd a ffyddlondeb mawr i'r Achos goreu.

Lewis Thomas, Y Frondirion. Gwasanaethodd y gwr da yma swydd diacon a bu yn drysorydd am ddeugain mlynedd o fewn ychydig. Dyn tawedog oedd ac yn anfynych y gwnai ddim gwaith cyhoeddus. Er hyny, yr oedd yn fawr ei ddylanwad a gwnaeth waith da iawn. Cymerai drafferth i gadw'r cyfrifon mewn modd trefnus a destlus. Ceir prawf o hyn yn llyfrau cyfrifon yr Eglwys y rhai sydd ar gael heddyw.

Pierce Jones, Penygelli. Cyfrifid ef yn mhlith y diaconiaid. Un o blant yr Eglwys oedd, a brawd i William Jones, un o'r tri diacon cyntaf. Dywedid nad oedd yr Eglwys wedi ei ddewis yn ddiacon, ond ei fod, pan fu farw ei frawd William Jones, wedi cymeryd ei le ef. Boed hyny fel y bo, gwnaeth waith y swydd gyda graddau helaeth o fedr, a bu yn ffyddlon ragorol am lawer o flynyddoedd. Mae yn byw heddyw yn Bethania a'r gymydogaeth nid ychydig a chanddynt adgofion dymunol iawn am "Yr Hen Ewythr Pierce Jones" (Penygelli) fel y'r gelwid yn mlynyddoedd olaf ei fywyd.

Rhaid crybwyll am chwiorydd gafwyd yn dra ffyddlon. Cofir fod tair o honynt yn y "saith cyntaf." Buont hwy ac eraill gyda hwynt yn ddiwyd mewn

diwydrwydd gan ragori mewn ymdrech i faethu'r plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Cymerent ran gyhoeddus yn y cyfeillachau, a dywedir y byddai eu profiad mor addfed a gwresog ag eiddo'r brodyr, a'u dylanwad da gyn gryfed a'r eiddynt hwy. Gellir dweyd eto fod tymor gweinidogaeth Mr. Thomas Davies wedi bod yn llwyddianus iawn. Dygodd llafur ei ragflaenydd, Mr. Williams ynglyn a'r plant a'r bobl ieuainc ffrwyth yn helaeth, ac yr oeddynt hwy erbyn hyn wedi cyraedd oedran cyfrifoldeb ac yn ddiwyd mewn gwaith yn a thros yr Eglwys. Manteisiodd yntau ar effeithiau grymus y diwygiad crefyddol y dywedwyd am dano Bu yn gymorth cryf, fel y buasai Mr. Williams, i'r Eglwys yn Llan Ffestiniog, a bu iddo ran flaenllaw mewn cynorthwyo yr Eglwys yn Nhanygrisiau. Gelwid yn fynych am ei wasanaeth mewn cyfarfodydd arbenig—i urddo gweinidogion, agor capelau newyddion a byddai ei wasanaeth yn gymeradwy iawn. Gyda threigliad amser daeth i deimlo yn ngwyneb cynydd yr Eglwys ac arwyddion amlwg o ddiwylliant cynyddol yr ieuenctyd, ei fod yn anigonol i gyfarfod y gofynion achosai hyny, ac ymadawodd yn 1839 wedi llafurio yn ddyfal a llwyddianus.

WEDI ymadawiad Mr. Davies bu diwygiad drachefn. Yr adeg yma cynyddai'r boblogaeth yn gyflym. Ychydig oedd rhyngddi a bod yn deirgwaith cymaint ag oedd yn 1817. Canlyniad naturiol hyn oedd cymaint cynydd yn yr Eglwys a'r gynulleidfa fel yr aeth y capel yn rhy fychan i'w cynwys, a phenderwyd adeiladu capel newydd. Cafwyd tir rhyddddaliadol ar yr un etifeddiaeth ac heb fod yn mhell o'r hen gapel, gan Mr. John Vaughan yr hwn a ddaeth i feddiant o'r ystad ar farwolaeth ei dad, oblegid yr oedd ei frawd hynaf William Williams wedi cyfarfod a damwain angeuol (fel yr adroddwyd eisoes). Dyma fesuriadau y tir :—ugain llath o hyd a phedair-ar-ddeg

o led. Rhoddwyd hawl i godi ceryg o dir yr ystad am £15. Wedi cryn amser cafwyd gweithred. Er fod y capel wedi ei adeiladu yn 1839, dyddiad y weithred ydyw Medi 6, 1846. Cyfrifir am hyn, yn ddiameu, gan y ffaith nad oedd y *mortgage* y cyfeiriwyd ato eisoes wedi ei glirio pan fu farw William Richard, tad John Vaughan.

Gwerthwyd yr hen gapel a'r adeiladau cysylltiedig a'r tir y safent arno i Mr. John Vaugham am £75. Dyddiad y weithred hono ydyw Medi 1840, chwe' blynedd o flaen dyddiad y weithred am y tir newydd. Diau fod hyn yn fanteisiol i'r Eglwys. Aeth y draul i adeiladu yn £700, a ffaith ddiddorol ydyw fod y muriau fel y maent yn awr fel yr oeddynt yn 1839. Wele enwau yr ymddiriedolwyr a ddewisiwyd :—Lewis Thomas, Maenofferen; Ellis Edwards, Penrhos; William Morris, Blaenbowydd; John Evans, Tanyclogwyn; William Roberts, Fronheulog; David Jones, Coed-llydan, Llanrwst. Gwelir nad oes ymhlith yr enwau enw cynifer ag un o ymddiriedolwyr yr hen gapel. Dengys hyn fod yr Eglwys wedi llwyddo ac yn ddigon cryf a hyderus i ddewis gwyr oeddynt yn aelodau ynddi hi i fod yn gyfrifol am yr eiddo a'r cwbl yn gysylltiedig ag ef. Pan wnaed y weithred gyntaf, gweinidogion y dyddiau hyny oedd eu cyfarwyddwyr a'u cryfder. Haedda rhai o ddarbodion yr hen weithredoedd hyn sylw arbenig. Wele rai o honynt :—"Nad oedd y lle i'w ddefnyddio yn lle i werthu nwyddau, nac i gadw tafarn (neu i werthu diod feddwol) nac fel gefail gof." Ffaith i ddal arni yw fod rhai darbodion yr esgeuluswyd manteisio arnynt, er anghyfleustra i'r Eglwys mewn dyddiau diweddarach. Heblaw y weithred bryniant y mae, wrth reswm, *Trust Deed*, yn yr hon y ceir rhestr o'r athrawiaethau oedd i'w dysgu neu i'w pregethu yn y capel. Nis gwn a fu i'r ymddiriedolwyr cyntaf hyn ofalu fod yr amodau hyn yn cael eu cadw a'r hyn a ddysgid o'r pwlpud yn gyson â hwy. Erbyn hyn mae'n sicr fod gagendor mawr rhwng darbodion y *Trust Deed*

a dysgeidiaeth y pwlpud er's amser hir bellach. Sicr yw fod ei chynwys yn anhysbys ond i ychydig o'r llawer fu neu sydd yn ymddiriedolwyr. Boed hyny fel y bo, wele ddyfyniad o'r *Trust Deed* yn yr iaith y'i hysgrifenwyd.

"The Trustees for the time being of these presents shall and will henceforth stand possessed of and interested in the said premises upon trust from time to time and at all times hereafter to permit the said building called the Chapel or Meeting House to be used, occupied and engaged as and for a place of public religious worship for the service and worship of Almighty God by a congregation or Society of Protestants of the Independent Persuasion dissenting from the Church of England and also by such other persons as shall hereafter be united to the said Society and attend the worship of God in the said Chapel and in that holding proffessing and embracing the Doctrine of Co-equal Trinity in the Godhead, personal and unconditional Election to Eternal Life, Original Sin, pastoral redemption, effectual vocation, justification by the imputed righteoúsness of Christ, the final perseverance of the saints, the moral law as a rule of conduct, congregate discipline and infant baptism and to permit and suffer such person and persons as shall be nominated elected or fixed upon by such subscribers or the major part of them being members of the said society and communicants therein at a meeting for that purpose to officiate as Minister or Pastor in the said Chapel or Meeting House according to the usual order or customs of Societies of Protestant Dissenters of the denomination aforesaid full right power and authority being hereby reserved and given and granted to or for such subscribers or the major part of them being members of the said society and communicants therein at a meeting duly assembled for that purpose from time to time to remove dismiss and expel the Minister and Pastor Ministers and Pastors thereof and from time to time

to appoint new and other Minister and Pastor Ministers and Pastors thereof in lieu and instead of the Minister and Pastor Ministers and Pastors so removed, dismissed and expelled."

Adeg ddymunol ar grefydd oedd yr adeg yr adeiladwyd y capel newydd. Cyniweiriai y gwres a naws ddymunol trwy y lle gan gynyrchu sel a brwdfrydedd yn ngwaith yr Eglwys. Bu y ddwy flynedd ddilynol, fodd bynag, yn anfanteisiol iawn i'w hamgylchiadau bydol, ar gyfrif "cynhauaf drwg" 1840 ac 1841. Y pryd hwnw effeithiai hyny yn wahanol i'r modd y gwna yn awr, gan eu bod yn dibynu gan mwyaf ar y cynhauaf lleol neu gartrefol; a bu cryn ddioddef yn yr ardal. Er hyny, parhaodd yr Eglwys i fyn'd rhagddi trwy gydweithrediad ymdrechgar iawn. Er nad oedd ganddi ar y pryd hyny Weinidog, manteisiodd i fesur helaeth ar y pregethwyr ieuainc a enwyd—William Edwards a John Isaac—oeddynt gartref yr adeg hono ac a fuont o wasanaeth mawr iddi ar gyfrif eu sel a'u hymroddiad i holl waith yr Eglwys. Bu un Robert Roberts a ddaeth o Fon i weithio yn yr ardal yn ddefnyddiol iawn fel aelod a phregethwr cynorthwyol a chymeradwy. Yn 1843 bu farw, ac yn ol ei ddymuniad claddwyd ef yn y capel, a dodwyd yn y mur dwyreiniol, dan yr oriel, lechfaen goffadwriaethol, ac yn gerfiedig arni:—"Robert Roberts, Pregethwr Cynorthwyol, yr hwn a gladdwyd yn y Capel hwn y 9fed o Fedi, 1843. Oed 56." Symudwyd hwn i fan arall pan adgyweiriwyd y capel yn 1900, am ei fod yn y mur yn erbyn yr hwn y mae'r pwlpud yn awr.

Tua'r adeg yma—yn nechreu 1840—codwyd dyn ieuanc arall a'i enw John Thomas, Llenyrch-Moch, i bregethu, a bu yntau yn ddefnyddiol. Byr, fodd bynag, fu ei arhosiad ef, gan iddo ymfudo i'r Unol Dalaethau.

Yn chwanegol at wasanaeth y gwyr hyn fel aelodau o'r Eglwys, ar gyfrif eu sel, buont fel pregethwyr cynorthwyol yn gaffaeliad o werth iddi pan oedd heb

Weinidog. Arbedodd draul iddi pan oedd y ddyled, o herwydd caledi yr amser hyny, yn pwyso yn drwm arni.

Wedi eu hymadawiad hwy, teimlodd fod yn rhaid iddi wrth weinidog eto, ac yn 1843 gwahoddodd fyfyriwr yn Ngholeg Aberhonddu i ddyfod i'w bugeilio,—Robert Fairclough, brodor o Landrillo yn Meirion. Yr oedd yn aelod o'r Eglwys yno, wedi ei dderbyn gan y Parch. Michael Jones, Llanuwchllyn, Wedi bod yn pregethu am rai blynyddoedd (ac, ar adegau, yn yr ysgol) derbyniwyd ef i Athrofa Aberhonddu ac yno y bu am bedair blynedn, pan y cafodd ac y cydsyniodd â galwad Eglwys Bethania. Urddwyd ef Mai 3 a 4, 1843. Cymerwyd rhan yn y gwasanaath gan y Parchn. D. Morgan, Llanfyllin; E. Davies, Trawsfynydd; Arthur Jones, Bangor; Michael Jones, Bala; Cadwaladr Jones, Dolgellau; W. Roberts, Penybontfawr; J. Griffith, Rhydywernen; J. H. Hughes, Llangollen; Samuel Roberts, Llanbrynmair; ac S. Jones, Maentwrog. Bu yn weinidog Bethania am tua phedair blynedd, yn ddiwyd a llafurus. Ymroddodd i gasglu arian i dalu'r ddyled, gwaith yr oedd ganddo ddawn neillduol i'w wneud. Nid oedd amheuaeth yn meddwl neb ynghylch ei gywirdeb a'i dduwioldeb, ond caed llawer prawf o'i ddiffyg doethineb ac o'i gyndynrwydd. Achosodd hyny deimladau anhyfryd rhyngddo ef a'r Eglwys ar adegau, a'r hyn sydd yn rhyfedd yw mai ynglyn â'r gwaith yr oedd yn fwyaf medrus a llwyddianuus i'w wneud y cododd rhynddo a'r bobl gamddealltwriaeth blin. Er y cwbl, yr oedd pawb yn argyhoeddedig o gywirdeb llawn ei amcanion ac o'i sel dros a'i ffyddlondeb i'r hyn a gredai ef oedd yn iawn. Enynai ei sël dros ddirwest, a bu ef a William Hughes, Llanrwst, yr hwn oedd yn bregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, yn dadleu yn gyhoeddus. Dygid y ddadl ymlaen yn ol rheolau manwl y cytunasid arnynt. Mr. Fairclough a orfu, a rhoddodd ei wrthwynebydd y ddadl i fyny wedi ei orchfygu

ganddo. Parodd hyny i gadeirydd Mr. Hughes golli ei dymer, a thorri y rheolau; trwy wneud felly llwyddodd er colli y ddadl, i enill mwyafrif dros ei "ddyn ef."

Bu Mr. Fairclough yn egniol iawn mewn ymdrech i dalu'r ddyled oedd ar y capel, a theithiodd lawer drwy'r wlad i gasglu ati, gan ei bod yn faich trwm ar yr Eglwys. Yn wir, bu rhaid iddi fenthyca gan Gymdeithas Adeiladu £240 ar y Capel, gweithredoedd yr hwn a roddwyd i'r Gymdeithas fel sicrwydd am yr arian a'r llog arnynt.

Yn yr argyfwng yma, sefydlwyd "Cymdeithas Arianol Bethania" yr hon o'r dydd hwnw hyd y dydd hwn sydd wedi bod yn fanteisiol i'r eithaf i'r Eglwys fel y cyfryw ac i bersonau unigol ynddi, yn ogystal ag i Eglwysi eraill o bob enwad yn yr ardal.

Yn Bethania, Tachwedd 24, 1847, y'i sefydlwyd, a phriodol ydyw rhoddi "ar gof a chadw" enwau y rhai a ddechreuodd y gwaith da, fel y'u ceir hwynt yn Llyfr Cyfrifon Cyntaf y Gymdeithas. Llywydd: William Rowlands, Fronlas. Is-lywydd: William Roberts, Shoemaker. Ymddiredolwyr: David Roberts, Trefeini; Humphrey Roberts, Caeclyd; Hugh Jones, Penygelli; Owen Rowlands, Fronlas. Ysgrifenyddion: David Williams, Fronlas, a David Williams, Cwmbowydd. Trysorwyr: Lewis Thomas, Frondirion, a Pierce Jones, Four Crosses. Pwyllgor: John Evans, Tanyclogwyn; William Jones, Bethania; Robert Jones, Penygelli; John Jones, Conglywal; Ebenezer Jones, Blaenbowydd; George Penny, Maenofferen; John Edwards, Penrhos; Hugh Jones, Blaenbowydd; Ellis Edwards, Penrhos; William Jones, Blaenbowydd; Evan Edwards, Penrhos. Archwilwyr: Lewis W. Thomas, Y Siop, a John Roberts, Y Gôf.

Ni chaniata gofod roddi y rheolau oll; rhoddir ychydig ddyfniadau a ddangosant fod i'r Gymdeithas ddiben deublyg, ac atebwyd y dibenion hyny yn achos canoedd lawer yn Bethania ar y naill law ac yn Eglwysi eraill yr ardal ar y llaw arall. Un diben oedd

dysgu yr aelodau i fod yn gynil a darbodus trwy roddi rhyw gymaint o arian yn fisol yn Nhrysorfa'r Gymdeithas. Os esgeulusai aelod wneud hyn heb reswm digonol, dirwyid ef, a bwrid y dirwyon i'r drysorfa. Dygai yr arian elw i'w perchen, yn ol saith geiniog y bunt, y flwyddyn. Y diben arall oedd cynorthwyo'r Eglwys trwy ei wneud yn afreidiol iddi fenthyca arian ar log uchel i dalu y ddyled. Ymrwymai Ymddiriedolwyr yr Eglwys i dderbyn £10 ac uchod at y ddyled ac i dalu y llog a enwyd, a chyn i flwyddyn ddirwyn i ben yr oedd dros £100 wedi eu talu i'r Gymdeithas, gyda'r canlyniad fod y rhai yr oedd yr arian yn eiddynt ar y naill law a'r Eglwys ar y llaw arall wedi cael budd oddiwrthynt. Ar y 12fed o Chwefror, 1849, ail-ystyriodd Swyddogion a Phwyllgor y Gymdeithas ei rheolau a newidiasant y seithfed reol fel hyn :—" Fod (*trustees*) Capel Bethania yn ymrwymo i gymeryd swm o £10 ac uchod gan y Gymdeithas, ac yn ymrwymo yn mhellach y bydd iddynt dalu yn onest eu gwahanol symiau i'r aelodau pan fyddant yn galw am danynt yn rheolaidd." Gwelir nad oes son am lôg yn y rheol diwygiedig ; ac o'r dydd hwnw hyd y dydd hwn nid yn unig ni thalwyd llôg ond ni ddisgwyliodd yr aelodau lôg am y miloedd lawer o bunau a dalasant i Gymdeithas Arianol Eglwys Bethania yn ystod saith deg a saith o flynyddoedd. Yn nghorph yr amser hirfaith yna mae miloedd o'i haelodau wedi profi fod rhoddi echwyn i achos yr Arglwydd yn talu "y can cymaint yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw bywyd tragwyddol."

Y flwyddyn y sefydlwyd y Gymdeithas Arianol (1847) ymadawodd Mr. Fairclough gan fyned i Cornwall, ac oddiyno i Bettws-Gwerfil-goch. Yno ymroddodd i godi Capel a thy i'r gweinidog, a thrwy ei ymdrechion personol ef talwyd am danynt bron yn hollol. Felly gwnaeth yr Eglwys yno yn dra dyledus iddo. Symudodd oddiyno i'r Drefnewydd a Phenllys, ac oddiyno dychwelodd i fro ei eni (Llandrillo) ac yno bu farw.

ARFERAI yr Eglwys yr adeg yma gael cyfarfod pregethu yn mis Hydref bob blwyddyn, ac ynglyn a'r cyfarfod a gynhaliwyd Hydref 20 a 21, 1849, bu symudiad dirwestol neillduol yn y gymydogaeth. Prydnawn Sadwrn, am dri arygloch, ymffurfiodd lluaws mawr yn orymdaith wrth y Capel, ac aethant i gyfarfod gorymdaith gyffelyb oedd wedi cychwyn o'r Llan yr hon a ddeuai dan ganu "Dirwest garia'r dydd" a'r creigfau yn adseinio. Pan gyrhaeddasant Bethania aethant i'r capel i gynal cyfarfod dirwest. Traddododd y Parchn. D. Roberts, Cemmaes a J. Hughes, Llangollen, anerchiadau. Tranoeth pregethodd y Parchn. D. Roberts a John Williams, Caecoch, trwy'r dydd. Yn ystod y cyfarfod dywedwyd am yr ymdrech oeddid yn wneyd i leihau'r ddyled, a rhoddodd Mr. David Williams, Cwmbowydd (yr Ysgrifenydd) adroddiad o'r casgliadau wnaethid yn nghorph y flwyddyn aethai heibio. Dangosai yr adroddiad fod lleihad o £95 17s 1c wedi ei wneud ynddi y flwyddyn hono, a phriodolid hyny i gryn fesur i'r Gymdeithas Arianol a ffurfiasid lai na dwy flynedd yn ol; a ffaith yn haeddu sylw yw mai y rhai arferent dalu i fewn i'r Gymdeithas hono oedd y rhai gyfranent yn fwyaf hael i drysorfa yr Eglwys. Mae hyn mor wir yn awr ag oedd y pryd hyny, a dywedai gwr oedd yn dwyn mawr sel dros y Gymdeithas Arianol fod yr esboniad ar hyn i'w gael yn yr ymadrodd "Bendith yr Arglwydd sydd yn cyfoethogi."

Ffaith ddiddorol yw fod yr Eglwys yr adeg hono yn talu o ddeg i ddeuddeg swllt bob blwyddyn (am rai blynyddoedd) i ddyn am "weithio yn y gwair yng Nghwmbowydd." Yr eglurhad ar hyn, dybygaf, ydyw hyn:—Yn y dyddiau hyny marchogaeth y byddai pregethwyr ar eu teithiau, a byddai ystabl gan y mwyafrif o'r Eglwysi. Felly yr oedd yn Bethania, ac nid yn fynych yr ai wythnos heibio heb i rywun neu rai ddyfod heibio. Trwy roddi dyn i "weithio yn y gwair" yn Nghwmbowydd sicrheid digon o borthiant dros yr holl flwyddyn i feirch y rhai a wasanaethent

yno neu a ddeuent heibio. Felly ni fu raid i unrhyw bregethwr na'i anifail fyn'd ar ei gwthlwng o Bethania. Gweithredid y gras o letygarwch.

Yn 1851 rhoddodd yr Eglwys yn Bethania ac Eglwys Saron, Ffestiniog, wahoddiad i'r Parch. R. Parry (Gwalchmai), Conwy, i ddyfod i'w bugeilio. Cydsyniodd yntau ac arhosodd hyd ddiwedd 1854, ag eithro ychydig amser y bu yn Llanymddyfri. Bu ei weinidogaeth yn dra llwyddianus; meddai nodweddion ynillai serch pobl ei ofal, tra yr oedd ei ddoniau fel llenor, bardd a phregethwr yn gwneud ei ddylanwad ar yr ardal yn gyffredinol yn gryf a dyrchafol. Rhoddai y ffaith ei fod yn Weinidog profiadol fantais iddo ar ei raglaenydd; heblaw hyny cafodd y fantais o fedi ffrwyth llafur Mr. Fairclough yn lleihau y ddyled ac ymdrech lwyddianus yr eglwys rhwng ymadawiad y gwr hwnw a'i ddyfodiad ef, i wneud hyny. Felly nid oedd angen am iddo ef deithio drwy'r wlad i gasglu a chafodd hamdden i ymroddi i'w waith gartref. Ymadawodd gyda dymuniadau goreu y bobl.

Yn fuan wedi ei ymadawiad ef. agorwyd cangen o'r Ysgol Sabothol yn Blaenbowydd—tyddyn sydd er's llawer o flynyddau wedi ei gladdu dan "rwbel" chwarel Fotty a Bowydd. Mae ystyr i enw'r lle, sef "blaen neu ben uchaf Cwmbowydd." Teulu o Anibynwyr drigai yno—rhai oeddynt yn mhlith yr ychydig a ddechreuodd yr Achos yn y fam Eglwys. Rhagorent mewn ffyddlondeb yn Bethania ac yn ddiweddarach, rai o honynt, yn Eglwys Jerusalem. O un i un rhodiasant y ffordd ar hyd yr hon ni ddychwelant, a gwaghawyd lle 'yr olaf o honynt yn Bethania—Morris W. Jones, Y Glasdo—y Sulgwyn diweddaf (1924). Etifeddasai ef nodweddion y teulu—ffyddlondeb, haelioni a mawr ofal calon am fuddianau'r Eglwys.

Bu'r Ysgol yn Blaenbowydd yn llwyddianus am lawer o flynyddoedd, dan ofal Owen Barlwyd Jones. Symudwyd hi i "Dai'r Lord," tai perthynol i Chwarel Fotty a Bowydd, lle y bu hyd oni symudwyd hi i gapel

newydd Jerusalem. (Buasai y Methodistiaid yn cadw ysgol lwyddianus yn y lle hwnw o flaen yr Anibynwyr ond rhoddwyd rhaid arnynt i'w symud i lawr i'r Uncorn a pheidiwyd a'i chynal yno wedi adeiladu capel y Tabernacl yn 1864. Ond ail-ddechreuwyd drachefn ei chadw yn yr Uncorn yn 1879, ac yn 1881 adeiladasant Ysgoldy cyfleus a thy anedd i'r gofalwr am dano gerllaw Bodafon. Galwyd yr adeilad "Trefeini" lle y cynhelir Ysgol Sabothol a chyfarfodydd Gobeithlu o hyny hyd heddyw. Yr wyf wedi dweyd hyn i ddangos na fu Eglwys Jerusalem yn fyw i'w chyfle yn y rhan yma o'r ardal.)

Yn 1856 dechreuodd un arall o feibion Bethania bregethu—Richard Solomon Williams. Ganwyd ef ddydd Nadolig 1833, ac fel y rhelyw o fechgyn Ffestiniog dechreuodd, tra eto yn ieuanc iawn, weithio yn y chwarel. Gwelodd y frawdoliaeth ddefnydd pregethwr ynddo, a thraddododd ei bregeth cyntaf yn Mai 1856, a'r un flwyddyn derbyniwyd ef i Goleg y Bala. Yn y man aeth oddiyno i Athrofa Aberhonddu, ac yn 1861 derbyniodd alwad oddiwrth Eglwys y "Plough" yn y dref hono. Urddwyd ef Mehefin 6, 1861. Yn 1872 symudodd i Bethesda, Arfon, a bu yno am flynyddoedd yn Weinidog llwyddianus ac yn bregethwr poblogaidd. Yn 1885 symudodd i Bethania, Dowlais, ac efe oedd Cadeirydd Undeb yr Anibynwyr Cymreig yn 1897, pan y'i cynhaliwyd yn Lerpwl. Bu farw Medi 21, 1900, yn ei gartref, wedi gwasanaethu ei genedl yn ofn Duw, er anrhydedd iddo ei hun ac i'w fam-eglwys.

Cyfeiriwyd eisoes at David Williams, Cwmbowydd, fel ysgrifenydd y Gymdeithas Arianol. Bu iddo, yn ddiameu, ran flaenllaw yn ei ffurfiad a'i gwaith, a bu yn Ysgrifenydd yr Eglwys. Nid amhriodol dweyd iddo fod am dymor byr yn cymeryd rhan flaenllaw yn y gwaith er nad oedd yn gyflawn aelod; ond gan mor gymeradwy a medrus oedd, ynillodd ymddiried pawb, ac ni fu yn hir heb ymuno a'r Eglwys. Dewiswyd ef

yn ddiacon a bu yn gaffaeliad iddi, tra yr arhosodd yn Bethania. Y gwasanaeth amlycaf a wnaeth oedd fel Arweinydd y Gân, ac erys hyd heddyw yn Bethania rai fu'n aelodau o'i gôr, ac y mae ganddynt adgofion hyfryd am lwyddiant ei ymdrechion. Yn ei amser ef, yn Hydref 1858, cafwyd yr *harmonium* gyntaf i'r capel am £21. I'w "hagor," cynhaliwyd Cyngherdd yn yr hwn y gwasanaethai'r Cor a'r Parch. E. Stephen—Tanymarian, a bu'r elw yn ddigon i dalu am yr offeryn a'r holl dreuliau.

Colledwyd yr Eglwys yn fawr yn marwolaeth Ellis Edwards, Penrhos, Medi 28, 1857, yn 77 mlwydd oed. Am ddeugain mlynedd bu yn ffyddlon iawn ac yn ddefnyddiol hefyd. Yr oedd yn mhlith y rhai cyntaf a ymunasant â hi wedi ei ffurfiad, a gwasanaethodd swydd diacon yn fedrus a doeth am lawer o flynyddoedd.

TUA diwedd hâf 1857, rhoddodd Bethania a Saron alwad i Mr. D. Lloyd Jones, oedd yn Athrofa'r Bala, a chydsyniodd yntau. Ordeiniwyd ef Rhagfyr 24, 25, 26, 1857. Cynhelid y cyfarfodydd yn y ddau gapel a phregethwyd gan y Parchn. R. Ellis, Y Brithdir; J. Jones, Maentwrog; R Parry (Gwalchmai), Conwy; W. Roberts, Penybontfawr; John Thomas, Lerpwl; E. Davies, Trawsfynydd; M. D. Jones, Bala; a J. Jones, Green, Dinbych,—(tad Mr. D. Lloyd Jones.) Mawr ganmolid y cyfarfodydd ac edrychid ymlaen mewn disgwyliad am gyfnod llwyddianus. Dywedir, fodd bynnag, nad oedd Mr. Jones, ar y dechreu yn rhoddi boddlonrwydd i ddiaconiaid Bethania a'u bod yn pryderu ynghylch llwyddiant y "gwaith goreu." Hysbyswyd ef nad oedd ei bregethau yn dyfod i fyny o gryn lawer a'u disgwyliadau, a chafodd hyny yr effaith a ddymunid. O hyny allan bu ei bregethau a'i holl gyflawniadau wrth fodd eu calon, a bu llwyddiant.

Yn 1858 ymddangosodd a ganlyn mewn cyfnodloyn :- "Priodwyd Awst 21, 1858, yn Nghapel yr Annibynwyr,

Tattenhall, Sir Gaer, y Parch. D. Ll. Jones, Ffestinio
ac Elizabeth, merch hynaf Mr. Green, Threepwoo
Sir Gaer." Saesnes oedd Mrs. Jones, heb fedru on
ychydig Gymraeg, ac adroddid aml dro digrif a fu
achos hyny. Heblaw hyn nid oedd yn foddlon iaw
ar ei sefyllfa fel gwraig gweinidog, a phrin iawn oed
ei chymhwyster i r safle. Fodd bynag, gwnaet
profiad a magu plant wraig ragorol o honi a bu
wasanaeth mawr i w phriod fel gweinidog.

Yn y man daeth llewyrch neillduol ar yr Achos
cynyddodd yr Eglwys a'r gynulleidfa, a phrofod
ymdrechion y gweinidog ymhlith y bobl ieuanc y
dra llwyddianus, a thalwyd yn ol i Gymdeitha
Adeiladu Bethesda, Arfon, £240 a fenthyciasid er's rha
blynyddoedd. Yn fuan wedi gwneud hyny, yn 186
penderfynwyd helaethu'r Capel drwy osod oriel ynddo
a'i adgyweirio. Aeth y draul yn £500. Erbyn hyn y
oedd Mr. Lloyd Jones wedi ynill iddo ei hun safle
gryn ddylanwad fel arweinydd cryf a diogel ynglyn
dirwest, addysg a chrefydd ac edrychid arno, nid ga
yr Anibynwyr yn unig ond gan bobl y lle yn gyffredino
hefyd, fel gwr cadarn na thynai ei law yn ol o unrhyw
waith yr ymaflasai ynddo. Rhoddodd ei fryd a
sefydlu Achos yn Four Crosses, ac ar ei gymhelliad e
sicrhaodd yr Eglwys dir, a thalwyd *ground rent* arn
am rai blynyddoedd. Ond yn anterth ei lwyddian
amlygodd ef ei fwriad i ymadael i fod yn Oruch
wyliwr Ymfudiaeth i'r Wladfa Gymreig, achos yr oed
wedi gweithio yn ddyfal drosto eisioes. Parodd hy
ofid dwys ac ymdeimlad o golled drom i bobl ei ofal—
yn enwedig y rhai ieuainc yn serch y rhai yr oedd idd
le dwfn ac ar y rhai yr oedd ganddo ddylanwad maw
A chytunodd yr ardalwyr â phobl Bethania i rodd
mynegiad sylweddol o'u gwerthfawrogiad o'i lafur a
o'u teimladau caredig ato mewn cyfarfod a gynhaliwy
yn y Capel Mawrth 27, 1866. Wele ddyfyniad
adroddiad y Wasg :—"Wedi i Mr William Rowland
Goruchwyliwr Chwarel y "Lord" gymeryd y gadai
lywyddol ac i'r Côr ganu, cafwyd anerchiadau gan ra

o'r beirdd a galwyd ar Gutyn Ebrill i ddarllen anerchiad teimladwy ar ran Cymdeithas y Wladfa Gymreig, Ffestiniog, i Mr. Jones ar ei ymadawiad o'n plith fel llywydd. Darllenodd D. Williams, Ysw., Cwmbowydd, ysgrifenydd yr Eglwys a Phwyllgor y Dysteb, anerchiad teilwng arall i Mr. Jones. Siaradodd Mr. Robert Hughes, Four Crosses, ar ran Pwyllgor yr Ardal, i ddatgan eu hymdeimlad o'u colled yn ymadawiad y gweinidog a'r gwladwr gweithgar hwn. Wedi hyny, daeth adeg y cyflwyno. Y cyntaf a ddaeth ymlaen ydoedd Mr. William Roberts, Conglywal, i gyflwyno yr ysgrif-ddesg brydferth oddiwrth Gymdeithas y Wladfa. Ar ei ol daeth Mr. Richard Parry, Trysorydd yr Eglwys a'r Pwyllgor, ymlaen i gyflwyno pwrs a £40 ynddo. Ar ei ol deuai y Parch. J. Cadwaladr Jones ymlaen dros Eglwys Saron gan gyflwyno pwrs yn cynwys £6 5s a thra yr oedd hwn eto yn llefaru, daeth Miss Thomas, Shop Maenofferen, ymlaen dros Bwyllgor yr ardal—pob enwad crefyddol a'r trigolion yn gyffredin, yn y Rhiw, Tanygrisiau a Dolwyddelen, a chyflwynodd i Mr. Jones Oriawr Aur ysblenydd gwerth 16 gini. Fel hyn y gwnaen â'r gwr yr oeddym "yn chwenych ei anrhydeddu." Codai yntau i ddiolch i ni yn wresog am y fath arwyddion sylweddol fod pobl Ffestiniog wedi teimlo gwerth ei lafur am yr wyth mlynedd y bu yn gweinidogaethu yn eu mysg. Adroddodd yn helaeth ei ddechreuad isel, gofal Rhagluniaeth am dano—ei lafur, ei ofnau, ei ofidau yn y Weinidogaeth ac yn yr ardal, ei deimladau presenol wrth roddi fyny y swydd gysegredig o weinidog sefydlog i fyned yn Ysgrifenydd teithiol i'r Cwmni Cymreig" mewn cysylltiad â'r Wladfa. Siaradodd yn hyawdl a gwresog ei benderfyniad i sefyll wrth egwyddorion oddiar argyhoeddiad cydwybod, a sefyll yn ddiysgog fel carwr ei genedl beth bynag a ddeuai o hono; yr oedd efe yn benderfynol y cai bechaduriaid i bregethu iddynt." Siaradodd y Parch. O. Jones, B.A., Gweinidog y Tabernacl, yn gall a chynes ar yr achlysur hwn."

Gadawodd Mr. Lloyd Jones yr Eglwys mewn sefyllfa ddymunol iawn wedi cynyddu mewn rhif a dylanwad. Chwanegwyd llawer at ei rhifedu yn y diwygiad grymus a elwir Diwygiad 1859.

Codwyd dyn ieuanc arall i bregethu yr adeg yma, Isaac J. Evans, Conglywal, un o'r lluaws y cawsai Mr. Lloyd Jones ddylanwad arnynt. Penderfynodd adael y chwarel a myn'd i'r Weinidogaeth. Aeth i Goleg y Bala ac yno bu yn fyfyriwr diwyd. Yn 1871 derbyniodd alwad yr Eglwys yn Heolgerig, Merthyr, ac yno bu yn ddefnyddiol a chymeradwy am flynyddoedd lawer.

Priodol dywedyd ynglyn â'r symudiad i ffurfio Eglwys yn Fourcrosses, ddarfod i'r Fam-Eglwys gasglu am gryn amser at y capel newydd, ac iddi roddi i'r Eglwys ieuanc £100 o fewn ychydig—heblaw talu *grounà-rent* &c.

PENOD VII.

YN 1871 prynodd yr Eglwys dir wrth ochr a'r tu ol i'r capel am £30 gan Mr. John Vaughan, Tan-y-manod, i adeiladu arno dŷ i'r Gweinidog, gan ei bod ar y pryd ar roddi galwad i'r Parch. Robert Thomas, Llanelltyd. Dechreuodd ef ei weinidogaeth yn Ebrill 1872. Aeth y draul i adeiladu'r ty yn £387, ond gwariwyd llawer arno yn ddiweddarach i'w wellhau. Mae ei gynllun a'i wneuthuriad yn dda; ond mae ei safle yn nghil haul, yn mhell o fod yn ddymunol. Gallesid yn hawdd cael ar y pryd lawer gwell safle iddo. Dechreuodd Mr. Thomas ei weinidogaeth mewn amgylchiadau hyfryd; yr Eglwys wedi adeiladu ty i'r Gweinidog ac yntau wedi priodi ar ol dyfod yma, yr achos yn cynyddu a'i waith ef felly yn llwyddo. Ond yn mhen llai na blwyddyn bu farw ei anwyl briod—Tachwedd 4, 1873—yn 27 mlwydd oed (a bu farw ei phlentyn newydd-anedig) er galar dwys a cholled fawr iddo ef a'r Eglwys. Effeithiodd hyn yn drwm arno ef, oblegid yr oedd yn wr o deimladau tyner a dwys. Ymwrolodd,



BETHANIA.

ADEILADWYD 1839.

fodd bynag, i gyflawni ei ddyledswyddau ac ar fyrder dechreuwyd cynal Ysgol Sabothol yn Nghonglywal. Cymerwyd gan Mr. David Thomas, Maenofferen, dŷ anedd ar ardreth. Yn y rhan yma o'r ardal preswyliai amryw deuluoedd a berthynent i Bethania. Rhagorodd David Williams, Frondirion, mewn sel dros a ffyddlondeb i'r Achos ac ni phallodd hyd ddiwedd ei oes. Cadwyd Ysgol lwyddianus yma hyd onid adeiladwyd Capel Hyfrydfa. Gwnaed pwlpud newydd yn Bethania wedi dyfodiad Mr. Thomas, gan fod yr hen bwlpud yn gauedig ac mor uchel fel y cwynai Mr. Thomas ei fod yn ei wneud yn benysgafn. Cynllunydd y pwlpud newydd oedd y Parch Z. Mather a'r gwneuthurwr oedd Mr. Griffith Owen, adeiladydd, Ffestiniog. Harddwyd y Capel trwy ei baentio a dodwyd *railings* newydd o'i flaen, rhynddo a'r fforddd. Aeth y draul yn £80 16s 2c. Yn nghanol y cyfnewidiadau hyn a llwyddiant Mr. Thomas, derbyniodd alwad oddiwrth Eglwysi'r Brithdir a Rhydymain. Parodd hyn wir ofid i'r Eglwys gan ei bod yn ei fawr hoffi ef ac yntau wedi "cymeryd ati" hithau. Yr oedd ei glywed yn cadw cyfeillach gyda nifer o hen chwiorydd oedd yno y pryd hyny, a gwrando arnynt yn mynegi yn barod a chynes iawn eu profiadau yn wledd. Ar ei ymadawiad wylent yn ddwys. Bu ei weinidogaeth yn fyr ond yn llwyddianus iawn, ac erys yn Bethania rai ag y mae ganddynt adgofion dymunol iawn am dano. Diau mae'r profedigaethau teuluaidd a'i cyfarfu fu prif achos ei ymadawiad, oblegid yr oedd yn nodedig o ddwys ei deimlad. Ymadawodd yn Hydref, 1875.

Ni fuwyd yn hir heb gael olynydd iddo, oblegid yn yr haf 1876 rhoddwyd galwad i Mr. J. Barrow Parry oedd yn fyfyriwr yn *Lancashire College*. Ordeiniwyd ef Medi 28, 1876. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parchn. R. Thomas (Ap Fychan), a T. Lewis, Bala; Wm. Roberts, Lerpwl, a R. Thomas, y Cyn-Weinidog.

Dechreuodd Mr. Parry ei weinidogaeth mewn amgylchiadau dymunol iawn. Yr oedd Eglwys gref a

chynulleidfa luosog; ac yn Nghonglywal yr oedd Cangen-Ysgol. Ymdaflodd yn ddiatreg i weithio gyda'r bobl ieuanc trwy gynal dosbarth a elwid y pryd hyny yn Gyfarfod Egwyddori. Profodd y cyfarfod yma yn dra llwyddianus, a gadawodd ei ol ar y rhai a'i mynychent trwy eu dwyn i feddwl ac i chwilio am wybodaeth ac felly i ddiwyllio eu hunain ac ynill cymhwysder i fod o wasanaeth i'r Eglwys ac i Gymdeithas. Wedi ei ddyfodiad i Bethania priododd Mr. Parry foneddiges o Fanceinion, sef Miss Pugh. Dygasid i fyny ar aelwyd grefyddol teulu fu yn nodded ac yn gymorth i lawer o Gymry ieuainc a ymsefydlent yn y dref hono ac a ymgysylltent â'r Anibynwyr. Bu hi yn gymorth mawr i'w gwr ac yn gymeradwy iawn gan bobl ei ofal. Sefydlodd ef a'r Parch. T. R. Davies (Salem y pryd hyny) Ysgol Ramadegol yn yr Hên British School, Ysgol ag y teimlid angen mawr am dani i rai oeddynt ar ol gadael yr Ysgol Elfenol yn awyddus i fyned i'r Colegau ac i rai a fynent ymbaratoi i ddilyn galwedigaethau neillduol. Bu yr ysgol hono yn llwyddiant mawr; heblaw hyny bu yn foddion i symbylu r Bwrdd Ysgol i sefydlu Ysgol Uwch-Elfenol, ac yn ddiweddarach i gynyrchu yn yr ardal awydd i fanteisio ar Ddeddf Addysg Ganolradd i Gymru. Efe a'r Parch. T. R. Davies (Salem) a fu'n foddion i ddwyn i fod y newyddiadur lleol a phoblogaidd a elwir "Y Rhedegydd."

Parhai yr Eglwys a'r gynulleidfa i gynyddu hyd at wneud y Capel yn gyfyng iddynt, ac yn y flwyddyn 1878 ystyriwyd y cwestiwn o adeiladu Capel newydd. Dadleuai adran gref o honi dros adeiladu Capel ar y maes yn y lle a elwir Penygwndwn—y tir a saif o'r tu ol i ben deheuol y rhes tai a elwir Glanygors Terrace sydd yno erbyn hyn. Barnai y rhai a breswylient yn Nghonglywal a'r amgylchoedd mai goreu peth fyddai adeiladu ar gyfer y rhanbarth hono gan fod tai yn cael eu hadeiladu y ffordd hono a'r boblogaeth yn cynyddu.

Rhoddwyd ystyriaeth bwyllog i'r mater a phender fynwyd gwneud hyny, gan fod Capel Bethania mew cyflwr da ac yn gysylltiedig ag ef dy newyd gweindog a'r cyfan yn rhydd-ddaliadol, gresyn fuasa adeiladu capel newydd yn ei le. Yn Mr. Parry cafwy arweinydd doeth a bu yn gymorth cryf i sefydlu Eglwys yn Ngonglywal. Gwasanaethai fel gweinido y ddwy Eglwys—y fam a'r ferch. Codwyd i bregeth yn ystod ei weinidogaeth ef, David W. Jones, un blant yr Eglwys; dyn ieuanc deallus a gwylaidd a iddo ragolygon disglaer fel efrydydd. Cafodd yr gymharol rhwydd fynediad i mewn i *Lancashire College*; ond o herwydd amgylchiadau neillduol ymadawodd oddiyno ac ymfudodd i Awstralia, lle y gwasanaethodd fel ysgolfeistr hyd ei farwolaeth tua dwy flynedd yn ol. Dyma enwau'r diaconiaid a wasanaethent yr Eglwys yn ystod gweinidogaeth Mr. Barrow Parry:—Pierce Jones, Penygelli; John R. Jones, Conglywal; John Evans, Caegwyn; William Thomas, Bethania Terrace; Joshua Evans, Ysgol y Manod; Robert Jones, Conglywal; Thomas Griffith, Y Frondeg; a Richard Parry, Bee Hive. Gwyr rhagorol oeddynt a gwnaethant waith da yn ngwasanaeth eu Harglwydd. Perarogla eu henwau yn yr Eglwys hyd heddyw, a gellid yn hawdd ysgrifenu yn helaeth am eu rhagoriaethau a'u gweithgarwch a'u haberth er mwyn yr Achos Goreu.

Effeithiodd ymadawiad y rhai a ymunasant â'r Eglwys newydd yn Nghonglywal yn fawr ar Bethania oblegid heblaw fod wyth-a-thri-ugain o'i haelodau wedi mynd i ffurfio yr Eglwys hono, yr oedd llawer o honynt ymhlith y rhai mwyaf blaenllaw a ffyddlon ynddi hi. Ond ni fu i'r rhai a arhosasant laesu eu dwylaw; nid oedd y profiad yn newydd iddynt Ymroisant i lanw'r bylchau ac i gynorthwyo'r Eglwys ieuanc yn Nghonglywal gan gyflwyno iddi yn rhodd swm anrhydeddus £200 tuag at y draul o adeiladu Capel Hyfrydfa.

Cyn bo hir, hysbysodd y Parch. J. B. Parry ei fod wedi cael ac yn bwriadu derbyn galwad oddiwrth Eglwys Llansamlet, ac ymadawodd ar ol y trydydd Sul yn Hydref, 1882. Parodd ei ymadawiad ofid a bu yn golled i'r ddwy Eglwys. Cawsid ef yn gwbl ymroddedig i'r gwaith, yn anterth ei nerth, yn llawn brwdfrydedd a chanddo ffydd i anturio ac i orchfygu anhawsterau. Gwelodd mewn amser cydmarol fyr lwyddiant ei ymdrechion.

YN nechreu haf 1885 rhoddwyd galwad i Mr. J. Rhydwen Parry oedd yn Ngholeg Spring Hill, a cynhaliwyd cyfarfod i'w sefydlu Medi 24 a 25. Ynddo gwasanaethodd y Parchn. D. Rees, Capel Mawr; D. Cadvan Jones, Caerfyrddin; a Pryce Howell, Jerusalem, Blaenau Ffestiniog. Y diaconiaid y pryd hyny oedd William Thomas, Thomas Griffith, Richard Parry, Richard Thomas a David Williams (Penybryn). Rhifai aelodau'r Eglwys 147, ac yr oedd y ddyled ar derfyn 1885 yn £473. Ymroddodd Mr. Parry i waith yn ebrwydd, trwy gynal dosbeirth a ffurfio Cymdeithas i'r bobl ieuanc er budd iddynt hwy a mantais i'r Eglwys. Ymhen y flwyddyn—Medi 1, 1886—priododd Miss Annie Davies (Birkenhead ar y pryd), chwaer i'r diweddar Broffeswr J. M. Davies, M.A., Coleg Bala-Bangor. Mae hi wedi profi ei hun yn "wraig gweinidog" eithriadol o gymeradwy ar gyfrif ei doethineb a'i lleidneisrwydd a'i pharodrwydd i wasanaethu ym mhob rhyw fodd mewn cylch a fu ac sydd yn dra eang.

Cyn bo hir, ymroddodd Mr. Parry i waith cyhoeddus yr ardal. Yr adeg hono dewisid aelodau'r Bwrdd Ysgol ar linellau enwadol, ac felly y dewiswyd ef ar y cyntaf. Yn fuan daeth i'r amlwg fel un o'r rhai mwyaf galluog a dylanwadol o'r rhai a'i cyfansoddent, a pharhaodd yn aelod o hono hyd oni ddaeth Deddf Addysg 1902 i rym pan ddarfuwyd am y Bwrdd hwnw

ac y rhoddwyd i'r Cyngor Sir allu i ddewis Pwyllgor Addysg i reoli ysgolion yr holl Sir. Dewiswyd Mr. Parry gan y Cyngor yn aelod o'r pwyllgor hwnw (fel un o'r tu allan i'r Cyngor) ar gyfrif ei waith a'i ddefnyddioldeb ar y Bwrdd Ysgol. /Yn ddiweddarach etholwyd ef yn gadeirydd y Pwyllgor Addysg, a thrachefn, wedi hyny, bu yn aelod o'r Cyngor Sir am flynyddoedd.

Parhai yr Eglwys i fyn'd rhagddi mewn gweithgarwch ac i gynyddu mewn rhif, a dygodd dosbeirth a chyfarfodydd y bobl ieuanc ffrwyth yn eu gwaith fel Athrawon yn yr Ysgol Sul ac yn y rhan gyhoeddus a gymerent yn nghyfarfodydd yr Eglwys. Nos Fercher, Mai 28, 1889, traddododd Mr. John W. Edwards ei bregeth cyntaf oddiar 2 Corinthiaid xii. 9 ; a chodwyd ef gan yr Eglwys y noswaith hono yn bregethwr rheolaidd. Wedi cwrs o addysg dan y Parch. E. Cynffig Davies, M.A., Menai Bridge, ordeiniwyd ef yn weinidog Eglwysi Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo (Mon). Bu yno o 1892 i 1895 ; yn Mhenrhyndeudraeth 1895 i 1903 ; yn Chwarel Goch 1906 i 1913 ; Tabor a Phenmorfa 1913 i 1924. Cafodd ei ran o brofedigaethau bywyd. Ar gyfrif ei uniondeb a graslonrwydd ei gymeriad a'r swyn a feddai fel pregethwr melus a chymeradwy, cerid ef yn fawr gan bobl ei ofal. Bu farw Ebrill 19, 1924, a chafodd angladd tywysogaidd yn Tabor y dydd Iau canlynol. Yn ddiweddarach, rhoddodd yr Eglwysi a chyfeillion faen hardd ar ei fedd er coffadwriaeth am dano.

Yn 1891 chwanegwyd Mr. G. J. Bevan a Mr. W. D. Jones at nifer y diaconiaid. Mr. Bevan oedd Arweinydd y Gân ers amryw flynyddoedd a pharhaodd i ddal y swydd hono ac i wasanaethu swydd diacon gyda doethineb, medr a ffyddlondeb mawr am flynyddoedd lawer hyd oni ymneillduodd (rhyw bedair blynedd yn ol), ac aeth i breswylio yn Mhenrhyndeudraeth. Yn 1895 dathlwyd Canmlwyddiant Cymdeithas Genhadol Llundain ac apeliwyd at Eglwysi'r wlad i gymeryd rhan yn y gwaith hwnw trwy gyfranu i'w thrysorfa

swm a'i galluogai i chwanegu at y meusydd yr oedd ganddi genhadon ynddynt. Atebodd Bethania yr apel trwy gasglu £100. Ar Mai 6, 1896, dewiswyd yn ddiaconiaid: Mri. Robert W. Jones, David Williams (Glasfryn), Daniel Jones a Morris H. Jones. Tua diwedd 1898 teimlodd yr Eglwys, yn ngwyneb ei chynydd a llwyddiant ei gwaith, fod angen am adgyweirio a helaethu'r Capel, ac wedi ymgynghoriad pwyllog, penderfynwyd adeiladu Ysgoldy yn gyntaf, yn nghefn y Capel. Credai rhai mai goreu peth fuasai adeiladu capel newydd ac ystafelloedd cyfleus yn gysylltiedig ag ef, ond gwelwyd na ellid cael safle ddymunol. Felly cytunwyd yn unfryd i geisio chwanegiad at y tir ynghefn y capel ac i adeiladu Ysgoldy &c. arno. Rhaid, fodd bynag, oedd symud cryn lawer o'r tir gan ei fod yn codi yn y pen pellaf oddiwrth y capel hyd at fod yn uwch na bargod y to. Ac fe'i symudwyd mewn berfau dan arweiniad medrus Mr. David Williams, Y Glyn (Penybryn cyn hyny). Trefnodd i nifer benodol weithio bob yn ail yn hwyr y dydd yn hâf 1899, a chafwyd y parodrwydd a'r cyd-weithrediad mwyaf posibl yn y gwaith a bu hyny yn foddion i enyn diddordeb newydd yn yr Achos mewn llawer. Amcan-gyfrifid y draul y buasai yn rhaid myn'd iddi pe talesid am y gwaith yma yn £120 o leiaf. Gorphenwyd adeiladu yr Ysgoldy erbyn diwedd 1900, ac y mae yn un o'r Ysgoldai mwyaf cyfleus, ac ynddo ddau *class-room* rhagorol. Aeth y draul yn £668 19s 11c a chafwyd yn ebrwydd o'r Gymdeithas Arianol ddigon o arian i arbed talu dim llog.

Yna penderfynwyd adnewyddu'r capel. Paratowyd cynllun gan Mr. T. Taliesin Rees, Archadeiladydd, Lerpwl. Symudwyd y pwlpud o'r naill ben i'r capel i r llall; rhoddwyd ffenestri newydd a chwanegwyd at eu nifer; dodwyd yn a thrwy'r capel a'r ysgoldy bibellau dŵr poeth, a dygwyd goleuni trydanol iddo. Cyrhaeddodd yr holl draul y swm o £1333 3s 5c. Gwelir fod cyfanswm y draul dros £2000. Y cymerwyr oedd y Mri. Evan Griffith a'i Feibion, ac yr oedd yr

holl waith wedi ei orphen erbyn diwedd 1903. Erbyn hyn yr oedd yr ysgoldy wedi cael talu am dano o fewn ychydig iawn, ac yr oedd yn y Gymdeithas Arianol swm ddigonol i dalu am adnewyddu'r Capel. Felly nid oedd raid cael dim arian ar log, ac yr oedd yr Eglwys mewn safle galonogol i dalu'r ddyled, a masnach yr ardal yn fywiog y pryd hyny. Pan ddaeth i rym (Ebrill 1, 1899), y ddeddf i wneyd yn bosibl gweinyddu priodasau mewn Addoldai Ymneilldduol (fel yn Eglwys y Plwyf) heb bresenoldeb Cofrestrwydd, manteisiodd Eglwys Bethania arni yn gyntaf o holl eglwysi Meirion, ac o'r dydd hwnw hyd y dydd hwn ni fu Cofrestrydd yn bresenol yno ar gyfryw achlysur.

Rhagfyr 4, 1907, chwanegwyd at nifer y diaconiaid Mri. Joseph Jones, Griffith Jones, Evan Jones ac Evan Williams. Yn niwedd 1912 codwyd i bregethu un o blant yr Eglwys—Mr. Llewelyn Jones, Glanygors Terrace. Arholwyd ef gan y Parchn. John Hughes ac R. T. Phillips, ac ar gymhelliad yr Eglwys, ac ar sail adroddiad y ddau arholwr, cymeradwywyd ef fel pregethwr rheolaidd gan Gyfarfod Chwarterol Meirion. Yna aeth i Ysgol Clynog i ymbaratoi ar gyfer myn'd i'r Coleg; ond drysodd y Rhyfel Mawr y cyfan a rhoddes ef i fyny ei fwriad i fyn'd i r Weinidogaeth.

Dydd pwysig yn hanes Eglwys Bethania oedd Hydref 10, 1917. Cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu ei chanmlwyddiant. Llywyddwyd gan Mr. Parry ac wedi i Mr. Edward Jones (Asaph Collen) ddarllen rhan o'r Ysgrythyr ac arwain mewn gweddi ac i'r Gweinidog roddi crynhodeb o hanes yr Eglwys o'i ffurfiad hyd y dydd hwnw, traddodwyd anerchiadau ar "Y gwaith sydd wedi ei wneud" gan y Parch. R. T. Phillips; ar "Yr hyn y saif Eglwys am dano" gan y Parch. John Hughes; ac ar "Ei rhagolygon" gan y Parch. G. Davies, B.A. Cyfarfod rhagorol oedd ac ynddo gynrychiolaeth dda o holl Eglwysi'r cylch.

Erbyn y dydd olaf o 1922 yr oedd y ddimai olaf o'r ddyled wedi ei thalu; a hyny heb gynal na basár na

chyngerdd na darlith na dim o'r cyfryw bethau. Rhoddion hollol wirfoddol yr aelodau a'r gynulleidfa a chyfraniadau y Gymdeithas Arianol a i gwnaeth yn bosibl i'w thalu mewn modd tawel, heb flino na myn'd ar ofyn neb o'r tu allan. Ffaith deilwng o sylw mai yr "Eglwys Hynaf," y "Fam Eglwys" oedd y gyntaf o holl eglwysi y cylch i gael "Cyfarfod Jiwbili"—i lawenhau am fod y cwbl o'r ddyled fawr yr aethai iddi ychydig yn llai nag ugain mlynedd cyn hyny, wedi ei thalu.

Rhag gwneud yr hanes yn orfaith, yr ydym wedi cymeryd camrau breision wrth adrodd digwyddiadau y blynyddoedd diweddaf, ond rhaid nodi un ffaith: Nos Sul, Ionawr 1, 1922, hysbysodd Mr. Parry i'r Eglwys ei fod yn bwriadu i'r dydd olaf o'r flwyddyn hono fod y dydd olaf o'i weinidogaeth yn Bethania. Dywedodd gyda phwyslais trwm "ei fod yn bwriadu felly, nid o herwydd unrhyw air oedd wedi ei ddywedyd wrtho nac o herwydd unrhyw air oedd heb ei ddywedyd wrtho; nac o herwydd dim oedd wedi ei wneud iddo nac o herwydd dim oedd heb ei wneud iddo; ond am ei fod yn credu mai hyny fyddai oreu er lles yr Eglwys, ac am mai ei lles hi ac nid ei fantais bersonol ef ei hun yr oedd ganddo i feddwl yn gyntaf."

Ceisiodd yr Eglwys ganddo aros am ddwy flynedd tu hwnt i'r dydd a nodasai er cyflawni deugain mlynedd o wasanaeth iddi. Wedi cymeryd amser i ystyried y mater, cydsyniodd yntau â'r cais. Bydd ei ymadawiad yn golled fawr i'r ardal yn gyffredinol yn ogystal ag i Bethania. Ar gyfrif ei allu a'i fedr a'i barodrwydd dibendraw i wneud cymwynasau o bob natur mae wedi dyfod yn anhebgor y cylch a'r holl ardal ynglyn â gwahanol symudiadau, a phan ddaw ac y ceir llaw gyfarwydd i adrodd yr hyn a wnaeth ef dros addysg a moesau a chrefydd yr ardal ceir ei fod yn haeddu llawer mwy o glod nag y mae wedi ei gael hyd yn hyn. Rhif yr Eglwys diwedd 1923 ydoedd 222.

1925 Rhif Ymadael



BETHEL.

Adeiladwyd 1869.

BETHEL, FFESTINIOG.

DYWEDWYD eisoes ddarfod i'r Parch. John Williams, gweinidog cyntaf Bethania, brofi yn ffyddlon iawn i'r achos yn Llan Ffestiniog Gellir chwanegu mai ef fu â'r llaw flaenaf yn nghychwyniad yr achos yn Nghwm Cynfal. Fel hyn y bu. Yn gynar yn 1825 daethai gwr a gwraig o Lech-y-cŵm, Maentwrog i Gwmtyddyn, yn Nghwm Cynfal. Tudor Roberts oedd ei enw; Sian Ellis oedd enw ei wraig. Dyna oedd ei henw morwynol ac ni fynai ei newid, a Sian Ellis y'i galwyd hi hyd ei marwolaeth, Medi 16, 1858. Arferasai hi fynychu Penyglanau lle y cynhelid Ysgol Sul a chyfarfodydd eraill gan yr Anibynwyr, pan yr oedd hi yn cael ei magu gan ei thaid a'i nain yn Llech-y-cwn, er mai i'r Eglwys Sefydledig y perthynent hwy. Merch ieuanc wamal a diystyr o grefydd oedd, ond ychydig cyn priodi aeth i Drawsfynydd dros y Sul, er mwyn bod yn barod i r ffair dranoeth. Arweiniwyd hi i Gapel Penystryd lle yr oedd y Parch. William Williams, o'r Wern, yn pregethu. Ei destyn oedd, "Ffelix a ddychrynodd," a glynodd y gwirioneddau a draethwyd yn nghalon Sian Ellis ac nid aeth hi i'r ffair dranoeth. Er hyny, bu am gryn amser heb "ufuddhau i'r gwirionedd." Aeth rhai blynyddoedd heibio a symudodd i'r Cwm (fel y'i gelwir erbyn hyn), ac wedi dechreu magu plant, meddyliodd yn ddifrifol ac argyhoeddwyd hi mai ei dyledswydd oedd ymuno ag Eglwys Crist. Nid oedd Tudor Roberts yn foddlon iddi wneud hyny am y parai wahaniaeth rhyngddynt, ac na feddyliai hi gymaint o hono ac yr oerai ei theimladau ato. Yn fuan, fodd bynag, cafodd brawf fod Sian Ellis yn gwella fel gwraig a mam, ac nid aeth mwy nag wythnos heibio heb iddo ddilyn ei hesiampl. Ymunasant ag Eglwys Bethania, a diolch-odd ef lawer gwaith nad oedd Sian wedi gwrando arno yn nechreu ei gyrfa grefyddol ac fod ei hyspryd penderfynol wedi ei gael i ddilyn ei hesiampl.

Wedi agor eu calonau i'r Arglwydd, trwy i'w Yspryd breswylio ynddynt, agorasant eu cartref i bregethwyr y Gair oblegid yr oedd pedair (o fewn ychydig) milltir o ffordd o'r Cwm i Bethania. Bu llawer o weinidogion a phregethwyr yn pregethu yn eu hanedd tra y bu'r teulu yno, a dywed rhai mai yno y pregethodd W. Edwards, Penrhos (Aberdâr yn ddiweddarach), ac Evan Griffith, Caeclyd (America yn ddiweddarach), gyntaf oddiallan i Bethania. Ond nid yn hir y buwyd yn pregethu yn y Cwm heb i oruchwyliwr perchen y lle genfigenu o herwydd llwyddiant y gwaith da yno, a bygythiwyd Tudor a Sian, os parhaent i groesawu Ymneillduwyr i bregethu yn eu ty, y byddai yn rhaid iddynt fyn'd oddiyno. Pan wybu y Parch. J. Williams, Bethania, fod perygl iddynt gael eu troi allan o'u cartref, gofynodd i Tudor Roberts a wyddai am ryw le nad oedd gan y gormeswr hwnw ddim i'w ddywedyd wrtho, y gellid addoli Duw ynddo. Wedi ystyried, dywedodd yntau fod gan Owen Owens, Bron-yr-erw, gorlan defaid y gellid yn hawdd ei gwneud yn lle i bregethu ynddo. "Corlan defaid sydd yn eisieu" ebe Mr. Williams. Aed at Owen Owens a chafwyd hi am ardreth o bunt y flwyddyn. Aed ati yn ddiymdroi i gymhwyso'r lle i'r mesur yr oedd hyny yn bosibl i gynal gwasanaeth crefyddol ynddo, ac yno y bu "praidd Duw" yn Nghwm Cynfal yn cyfarfod i addoli am flynyddoedd lawer. Coed Bach oedd enw'r gorlan. Gallesid ysgrifenu yn fanylach hanes Tudor Roberts a Sian Ellis, ond digon yr hyn a ysgrifenwyd i ddangos nad cywir yr adroddiad yn "Hanes yr Eglwysi Anibynol" mai yn y Coed Bach y dechreuwyd yr achos yn Llan Ffestiniog. Yno y cyfarfu y saint wedi gorfod myn'd o Gwmtyddyn. Sefydlwyd yno i ddechreu Ysgol Sabbothol; aelodau o Bethania yn arwain yn y gwaith gyda Mr. Williams, sef William Hughes, Fronlas; Lewis Thomas, Frondirion; ac Ellis Edwards, Penrhos. Cawsant y wobr a chwenychent, oblegid gwelsant yn fuan ei dylanwad da ar Gwm Cynfal—yn enwedig yr ochr ogleddol iddo—oblegid yno yr ai y mwyafrif o drigolion y rhan hono.

Aeth un Dafydd Williams a Jennet Owen, ei wraig, i fyw yn y Coed Bach pan ddechrewyd cynal gwasanaeth crefyddol yno. Diddorol iawn ydyw sylwi ar enwau a phreswylfeydd yr aelodau yn Coed-bach yn ei flynyddoedd cyntaf, oblegid dengys yn eglur fod Anibyniaeth wedi cymeryd meddiant helaeth o'r preswylwyr. Mae rhai o'u hiliogaeth yn golofnau yn Bethel hyd heddyw, tra mae eraill, yn deuluoedd cyfain, gyda'r Methodistiaid â'r rhai yr ymunodd amryw pan beidiwyd a chyfarfod yn Coed-bach ac y sefydlwyd Achos yn Saron, yn y pentref. Dyma enwau rhai o'r gwyr a'r gwragedd fuont amlycaf yn yr Eglwys yn Coed-bach: Dafydd William a Jennet Owen, ei wraig; Tudor Roberts a Sian Ellis, Cwm; Catherine Ellis, Hafod Offeiriad; Owen Williama Jennet Owen, Llety Nest; Dafydd Owen ac Ellen Ellis, Tyn-y-Coed; Richard Llwyd, Fron Oronwy; Evan Jones a Sian Edwards, Ty'r Ynys; Nicholas Jones; Edward Jones a Jane Jones a'u plant Elizabeth, Mary, a Margaret, y Cwm; John Powell, Sofl-mynydd; Anne a Mary Jones, Bryncyfergyd; Mary Ellis, Tyddyngwyn; Owen Hugh a Margaret Jones, Llech Goronwy: Richard Ellis, Brynrodyn; Richard Roberts, Cynfal Bach; David Richards, Garth; William Roberts, Wern-ieirch; William a Lowri Jones, Tyn-y-fedwen; Anne Owen, Llety Nest (daeth i'r gyfeillach wedi cyraedd o honi ei phedwar-ugain mlwydd); Robert Williams, y Cwm, a'i chwiorydd Anne a Jane Williams; John Evans, Ellis Owen a Humphrey Jones, Cochgwan; Catherine Edwards, Bryn-y-foel; Catherine Hughes, Tyddyngwyn; ac Evan Evans, Tynycoed.

Colled fawr i'r Eglwys yn Coed-bach fu ymadawiad y Parch. J. Williams o Bethania yn nechreu 1831, oblegid ei fawr ofal am dani pan y'i ffurfiwyd a'i fod yn gymorth cryf iddi yn wyneb anhawsterau lawer. Gwasanaethwyd hi yn ffyddlon gan ddau wr ieuanc godasid yn Bethania i bregethu—Evan Griffith, Caeclyd, aWilliam Edwards, Penrhos. Heblaw

pregethu yno, cynorthwyent i gynal cyfarfodydd eraill yn fynych. Pan ddaeth y Parch. T. Davies yn olynydd i Mr. Williams yn mhen ychydig fisoedd wedi ei ymadawiad ef, dilynodd esiampl ei flaenorydd; bu yn fawr ei ofal am Coed-bach. Yn ystod ei weinidogaeth ef dechreuwyd cynal gwasanaeth yn Mhentref Ffestiniog, mewn amgylchiadau diddorol a haeddant eu cofnodi. Y pryd hyny trigai yn Nhynymaes un William Stephen a'i wraig Jane Stephen. Yr oedd ef yr hynaf o dri-ar-ddeg o blant ac yn frawd i'r enwog Edward Stephen (Tanymarian) ac yn dad i William Stephen, yr hwn, mewn cyfnod diweddarach (wrth reswm) fu yn Arweinydd y Gân yn Bethel am lawer o flynyddoedd. Ymddengys y buasai yn dal a lluniaidd o gorph oni bae i ryw greadur creulon, yn ffurf dyn, ei faeddu pan nad oedd ond bachgen ieuanc. Gan mor gïaidd y'i triniodd, torwyd amryw o'i asenau gyda'r canlyniad ei fod yn gefngrwn. Er hyny yr oedd yn hynod sionc. Yr oedd yn ei gysylltiadau crefyddol yn lled anwastad yn ei ffyrdd—fel y dywedai "allan ar y comins" yn fynych. Ond yn nechreu 1832 aeth ef ac eraill o'r Llan i Gyfarfod Pregethu gynhaliwyd yn Bethania. Arddelwyd pregethiad yr Efengyl y dydd hwnw hyd at lwyr argyhoeddi William Stephen o gyfeiliorni ei ffordd. Dilynodd y pregethwyr hyny am wythnos, i Borthmadog a'r Dyffryn, a lleoedd eraill yr aethant iddynt ar eu taith; a phan ddychwelodd adref ymunodd ef a'i wraig, a Hugh Roberts ynghydag Ellen Parry, ei briod, a Beth Parry (gwraig John Parri'r Post) ag Eglwys Bethania. Yn ddiymdroi gwnaethant gais am gael cyfarfodydd crefyddol yn Llan Ffestiniog. Cydsyniwyd a'r cais, ond nid yn barod iawn, a dewiswyd i'w cynorthwyo i gynal cyfarfodydd gweddi: Pierce Jones, Penygelli; Owen Jones, Rhiwlas; a William Hughes, Fronlas. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn y Plasau, yn nhy Beth Parry, merch y Coed-bach. Llwyddent i gael ambell bregeth. Mewn Cyfarfodydd Pregethu yn Bethania,

addawodd un o'r gweinidogion a'u cynhalient bregethu yn y Llan, ond gwrthododd Mr. Davies, y gweinidog, gyhoeddi hyny. Ni allai William Stephen feddwl am fyn'd adref heb iddo gael ei chyhoeddi; ac ar ddiwedd oedfa'r prydnawn, safodd i fyny a hysbysodd y byddai Mr. — "yn pregethu yn y Llan am saith ar y gloch heno." Nid cynt y dywedasai hyn nag y cododd Mr. Davies, y gweinidog, ac y dywedodd, "Cau dy geg Wil, hyd oni fydd rhywun yn galw arnat i siarad." Ond aeth William Stephen adref yn llawen wedi sicrhau i gael pregeth gan un o'r gweinidogion ac i gyhoeddi hyny hefyd.

Yn mhen ychydig fisoedd fiurfiwyd Eglwys yn y Llan o'r rhai a enwyd eisoes ac eraill oeddynt wedi ymgysylltu â hwynt, a theuluoedd o Rhydysarn oeddynt yn aelodau yn Bethania. Profodd ffurfiad hon yn niweidiol i Eglwys y Coedbach. Edwinodd yn gyflym. Nid hawdd cyfrif am hyny, ond mae n debygol mai ofn am Coedbach a barai yr amharodrwydd mawr yn Bethania i estyn cymorth i ddechreu achos yn y Llan. Gwnaeth y cyfeillion yn y Llan a allent i gadw'r Eglwys yn y Coedbach yn fyw, ond bu yr achos yno yn "faen tramgwydd" i amryw o'i aelodau ac ymgysylltodd rhai o'r bobl ieuainc â'r Methodistiaid yn y Capel Gwyn. Diameu y gallesid trwy arfer doethineb a goddefgarwch drefnu i gynal Ysgol Sul, o'r hyn lleiaf, yn y Coedbach. Cynhaliasai'r Methodistiaid Ysgol yn Cae Iago er 1820 (?) flynyddoedd cyn dechreu Ysgol y Coedbach, ond nid oedd yn agos mor llewyrchus a hi. Ond wedi ymadawiad yr Anibynwyr o'r Coedbach, fe'i cymerwyd ganddynt hwy. Cynhaliasid eu hysgol hwy mewn amryw dai er's pan y'i dechreuwyd yn Cae Iago, heb nemawr ddim llewyrch arni; ond o'r dydd y dechreuwyd ei chynal yn y Coedbach llwyddodd. Medasant ffrwyth llafur y rhai oeddynt wedi arloesi'r tir yn y parth hwnw. Er's llawer o flynyddoedd bellach mae ganddynt yno Ysgoldy eang a chyfleus a elwir y

"Babell" yn yr hwn y cynhelir Ysgol ac y pregethir ac y cynhelir cyfarfodydd eraill yn gyson.

Llwyddodd yr Eglwys a chynyddodd y gynulleidfa i fesur a wnaeth y Plasau yn rhy gyfyng iddi, a chwiliwyd am adeilad mwy cyfaddas, ac fe'i cafwyd yn ffurf ty-anedd a safai y tu ol i'r gwesty a elwir *Abbey Arms*. Gwnaed ynddo gyfnewidiadau, wrth reswm, ac fe'i galwyd "Saron." Yn 1833 y'i "hagorwyd" trwy gynal cyfarfodydd yn y rhai pregethodd y Parchn. R. Ellis, Rhoslan; ac E. Evans, Abermaw. Profodd y symud o'r Plasau i Saron yn fanteisiol iawn i'r Eglwys ieuanc; ymunodd â hi amryw a fuont yn ddefnyddiol ynddi am lawer o flynyddoedd, a cheir nid ychydig o'u hiliogaeth yn ffyddlon a blaenllaw yn Bethel heddyw. Wele enwau rhai o'r bobl oeddynt yn aelodau yr adeg y symudwyd i Saron:—Cadwaladr Jones, Brynllech; Robert Evans, Y Ffolt; Edward a Margaret Samuel, Tynymaes; Hugh Edwards, Saer; Meredith a Jane Williams, Penybryn; David Evans, Y Ffolt; Annie Jones, Pantyffynon; Robert a Jane Humphreys, Penybryn. Dyddiau llwyddiant oedd y dyddiau hyn i Saron, a pharodd hyny i rai o gaseion yr "Achos Goreu" genfigenu a galw'r addoldy yn "Saron bach trwy dwll" o herwydd fod y fynedfa iddo y fath ag oedd. Dewisodd yn ddiaconiaid Cadwaladr Jones a Robert Evans, y Ffolt, a gwasanaetha'r cyntaf fel Arweinydd y Gân. Penodwyd William Stephen yn Ysgrifenydd. Heblaw fod llawer rhwng lleoliad Saron a bod yn foddhaol cynyddodd y gynulleidfa hyd onid aeth yn rhy fychan i'w chynwys a sicrhawyd tir ar ochr Penybryn i adeiladu arno, gapel newydd. Meddienid y tir gan Arglwydd Newborough yr hwn a'i gosododd ar brydles o 90 mlynedd i Cadwaladr Jones dydd Calan 1839. Dyddiad y weithred (*Lease*) yw Mehefin 7, 1841, ac y mae wedi ei harwyddo gan y Parch. Edward Davies, Trawsfynydd; Ellis Edwards, David Jones, Robert Evans, John Griffith ac Owen Williams, fel ymddiriedolwyr yr eiddo. Sylwer mai rhai o'r tu allan i Saron ydynt gan

mwyaf. Dengys hyn (fel y crybwyllwyd eisoes yn achos Bethania) baroted oedd y Parch. E. Davies ac eraill i fyn'd dan gyfrifoldeb ynglyn ag achosion newyddion gweiniaid—a bu cryn gyfyngder yn yr achos yma fel y gwelir yn y man.

Cynlluniwyd y Capel a'r tai-anedd odditano gan Mr. Himan, goruchwyliwr ystad Tanybwlch, ac aeth y draul i'w adeiladu yn £700 o fewn ychydig, a galwyd ei enw Saron. Symudwyd iddo yn 1840 pryd nad oedd gweinidog gan yr Eglwys, oblegid aethai Mr. Davies o Bethania cyn diwedd 1839 er colled i'r Fam-Eglwys ac i Saron. Ond ni laesodd pobl Saron eu dwylaw; yr oedd ganddynt galon i weithio, oblegid yr oedd eu sel a'u brwdfrydedd wedi eu henyn yn niwygiad 1839. Yn fuan, fodd bynnag, aeth y ddyled yn faich trwm arnynt. Yn Ngwanwyn 1841, cytunodd yr Eglwys yn Maentwrog ac Eglwys Saron i roddi galwad i ddyn ieuanc oedd yn Ysgol Marton, Samuel Jones. Ganesid ef yn Nolwyddelen, ond pan oedd ef tua thair-ar-ddeg oed, symudasant i Lanberis. Yr oedd ganddo frawd yn y weinidogaeth—y Parch. Richard Jones, Llanidloes; a hwnw, pan y digwyddodd fod yn pregethu yn Jerusalem, Llanberis, y Sul cyntaf yn 1833 a'i derbyniodd i gyflawn aelodaeth. Ymroddodd i waith yn yr Eglwys; cyn bo hir cymerodd ran gyhoeddus yn ei chyfarfodydd, yn yr Ysgol Sul, ac ynglyn â dirwest. Efe oedd un o'r rhai cyntaf yn yr ardal hono i ardystio. Cyn bo hir cymhellwyd ef i ddechreu pregethu, yr hyn a wnaeth yn Mawrth, 1836; a phrofodd ei hun yn bregethwr cymeradwy. Arfaethai fyn'd i Goleg Aberhonddu, ond fe'i lluddiwyd, ac aeth i Ysgol Marton. Yn fuan aeth i Sirhowy i wasanaethu yr Eglwys yno, yn lle ei frawd, a bu yno am rai misoedd. Teimlodd yn ddwys effeithiau diwygiad grymus oedd yno y pryd hyny. Cafodd alwadau o leoedd eraill heblaw Maentwrog a Ffestiniog ond a'r eiddynt hwy y cydsyniodd. Aeth yno yn niwedd 1840; a Mai 26, 1841, agorwyd capel newydd yno ac urddwyd yntau. Tueddir ni i gredu fod

yr Achos yn Maentwrog yn fwy llewyrchus nag ydoedd yn Saron. Cludasai rhai o honynt yn rhad y ceryg, &c., oedd yn rheidiol i adeiladu'r Capel ac erbyn dydd ei agoriad casglasant yn eu plith eu hunain dros gan punt tuagat dalu am dano.

Ond pwysai baich y ddyled ar Saron yn drwm ar yr Eglwys hono, ac ymroddodd Mr. Jones yn egniol iawn i'w ysgafnhau. Cafodd gymorth parod gweinidogion a lleygwyr Meirion. Fel hyn mae adroddiad Cyfarfod Chwarter a gynhaliwyd yn Y Ganllwyd, Hydref 1842 :—"Cymerwyd dan sylw ddyled Saron, Ffestiniog, pryd y deallwyd ei fod ar soddi yr anadferadwy os na bydd i ryw ymegniad anghyffredin a chyffredinol a di-oed gael ei wneuthur er ei ryddhau o dan ei faich." Gan hyny penderfynwyd "myned trwy bob cymydogaeth yn Swydd Meirion yn yspaid y mis hwn, sef Tachwedd, i ofyn ewyllys da aelodau Eglwysig a chyfeillion achosion crefyddol, i'r cyfryw ddyben" ac "Os bydd yn fwy dewisol gan rywun gymydogaeth arall, y mae at ei ryddid i newid a'r neb sydd wedi ei benodi yno, trwy gydsyniad hwnw : gobeithiwn a thaer erfyniwn am i bawb a nodwyd fod yn ffyddlon i fyned i'r manau a benodwyd iddynt heb feddwl ein nacau. Disgwyliwn hefyd y bydd i'r eglwysi benodi rhywun cymwys i fyned gyda'r personau a nodwyd trwy yr amryw gymydogaethau. Dros y Cyfarfod, Cadwaladr Jones, Dolgellau."

Cydsyniwyd yn barod â'r apêl. Nid yn unig casglwyd yn Meirion, ond aeth y Parchn. Cadwaladr Jones a Samuel Jones (Maentwrog), y tu allan i'r Sir. Dyma adroddiad "Yr Hen Olygydd," Awst 1843 :— "Casglwyd yn Swydd Drefaldwyn ychydig sylltau dros £22. Ni chlywsom erioed gymaint o gwyn cyffredinol am arian." Ond er y parodrwydd siriol i gynorthwyo a gafwyd yn Meirion, nid oedd y swm a gasglwyd yn agos ddigon i wneud yr Eglwys yn Saron yn ddibryder, fel y dengys yr hyn a ganlyn :—"Capel Saron, Ffestiniog. Yn Nghyfarfod Chwarterol Meirion

gynhaliwyd yn Bethsaida, Tanygrisiau, Awst 17, 843, addawodd y brodyr canlynol ymweled â lleoedd nodir, yn achos y capel uchod amgylchiadau yr hwn y'n parhau yn dra gofidus: E. Davies, Trawsfynydd, i yned trwy Swydd Gaernarfon; S. Jones, Maentwrog, fyned i'r Trallwm, Amwythig a Chroesoswallt; R. Fairclough, Bethania, i swyddi Dinbych a Fflint; J. Davies, Rhydymain, i swydd Fon; dymuna yr Undeb ddychwelyd eu diolchgarwch gwresocaf i gyfeillion refydd am yr haelfrydedd a ddangoswyd eisoes at y apel dan sylw, fel y galluogwyd hwynt i dalu nghylch £80. Ond nid yw hyny yn agos ddigon i gadw'r Capel rhag myn'd o afael yr Enwad." Cyfeiria'r rawddeg ddiweddaf at y ffaith fod y Parch. E. Davies, Trawsfynydd; David Evans a Cadwaladr Jones wedi cael rhybudd oddiwrth gyfreithiwr yn Llanrwst yn galw am yr arian oedd ar log, ac yn dywedyd oni thelid hwy yn mhen ychydig ddyddiau y byddai yr eiddo yn myn'd oddiarnynt. Cyfeillach ddigalon oedd yr un y darllenwyd y llythyr yma ynddi gan Cadwaladr Jones. Wylai ac ocheneidiau y bobl fel plant, am yr ofnent golli eu "Saron" oedd mor anwyl ganddynt. Ebe Cadwaladr Jones, "Lle mae eich ffydd, bobol? Oni wyddoch chwi mai yr Arglwydd sydd yn teyrnasu? Am hyny gorfoledded y ddaear a llawenyched ynysoedd lawer. Eiddo Ef yr aur a'r arian." Aeth y geiriau fel tan eirias i'w calonau, a chynyrchwyd ynddynt obaith a hyder. Yr awr yr oeddynt hwy yn cyfarfod yn Saron cyrhaeddodd yr arian y Parch. E. Davies, Trawsfynydd. Cawsid hwynt trwy ddylanwad y Parch. Cadwaladr Jones, Dolgellau, gan Mr. Miles, Arianydd, oedd yn ddiacon yn ei Eglwys ef. Ond cyn bo hir bu raid i Mr. Miles fygwth, am na thelid iddo y llogau heb son am ddim o'r hawl. Yn yr argyfwng yma eto, gallodd y Parch. Cadwaladr Jones a Mr. Lloyd, Brynllewelyn, berswadio Mr. Miles i'w gadael am ychydig flynyddoedd yn mhellach, ar yr amod fod y llogau yn cael eu talu yn rheolaidd, a pheth o'r hawl hefyd. Trwy gydymdrech calonog

ysgafnhawyd y baich i ryw fesur. Er hyny, pwysai yn drwm arnynt a cheisient werthu'r tai, ond ni allwyd. O'r diwedd cawsant arian o Gymdeithas Adeiladu, a thalwyd yr ugain mis cyntaf £5 4s 4c., ac am y gweddill o'r amser—deng mlynedd—£4 4s. Aeth y Parch. S. Jones i daith gasglu eto yn ewyllysgar, gan fod ei fryd ar waredu Saron o'i chyni; ond yn fuan (tra eto yn y gwaith hwnnw) cymerwyd ef yn wael a dychwelodd adref i Faentwrog a bu farw (o enyniad yr ymenydd) Tachwedd 1, 1843, yn 25 mlwydd oed. Cladd wyd ef, yn ol ei ddymuniad, yn mynwent Salem, Porthmadog, pryd y gweinyddwyd gan amryw o weinidogion blaenaf yr enwad. Yn ei farwolaeth, colledwyd nid yr Eglwysi oedd dan ei ofal yn unig ond y wlad hefyd, oblegid yr oedd yn ddyn ieuanc eithriadol o weithgar ac yn cael ei gyfrif yn un o weinidogion mwyaf gobeithiol Gogledd Cymru.

Hyd yn hyn, anhawsterau Eglwys Saron sydd wedi cael mwyaf o lawer o'n sylw, ond erys i'w crybwyll rai pethau dymunol. Parodd dyfodiad Mr. Jones yno ddeffroad yn mysg y bobl ieuanc yn enwedig; heblaw hyny cryfhaodd galonau y rhai oeddynt, o herwydd pwysau y ddyled, yn teimlo eu nerth yn gwanhau. Trwy ymroddi, a myn'd ar daith i gasglu ati, symbylodd hwy i ddyblu diwydrwydd gartref.

Dylesid, pan yn adrodd hanes yr Achos yn Coed-bach, fod wedi ddweyd ddarfod i ddyn ieuanc yno ddechreu pregethu—Edward Jones, Tyn-yr-ynys. Cyfrifid fod iddo ddyfodol disglaer, ond bu farw yn ei ieuenctid.

Yr adeg dan sylw, codwyd yn Saron ddau bregethwr. Mr. Robert Hughes (tad y diweddar Mr. R. H. Hughes, Postfeistr, Blaenau Ffestiniog) oedd un o honynt. Cafwyd ef yn ffyddlon yn y gwaith yn Saron, yn enwedig ynglyn â'r plant a gwnaeth wasanaeth da am lawer o flynyddoedd fel pregethwr.

Edward Stephen—y gwr mawr o Danymarian—oedd y llall. Mae'n wybyddus nad oedd yr Eglwys yn

hollol unfarn ynghylch ei gymhwysterau ef. Cyfrifai rhai yn falchder a gwamalrwydd y nwyfiant a'r asbri oeddynt yn ei nodweddu; ond safodd y Gweinidog a Cadwaladr Jones a Richard Lloyd a Rees Griffith o'i blaid, ac mae gwlad gyfan yn ddyledus iawn iddynt am hyny. Oblegid, fel y mae yn llawn hysbys, yn y man gwelwyd Tanymarian yn sefyll yn amlwg ymhlith pregethwyr, beirdd a cherddorion penaf ein cenedl.

Cyn diwedd 1844, rhoddodd Eglwysi Saron a Bethsaida, Tanygrisiau, alwad i Cadwaladr Jones, myfyriwr yn Nholeg y Bala, a chynhaliwyd cyfarfod i'w ordeinio Rhagfyr 11 a 12, 1844. Ynddo gwasanaethodd y Parchn. T. Edwards, Ebenezer; E. Evans, Maentwrog; W. Ambrose, Porthmadog; Michael D. Jones, Bala; Cadwaladr Jones, Dolgellau; E. Davies, Trawsfynydd; ac R. Ellis, Rhoslan. Byr fu ei arhosiad ef yno—prin dwy flynedd. Ond gwnaeth waith da. Sefydlodd gyfeillach i'r plant, a chan ei fod yn meddu dawn neillduol i'w diddori, denodd hwy i ganu ac adrodd rhanau o'r Ysgrythyr, &c. Colled fawr iddynt hwy fu ei ymadawiad, ond parhawyd i ddwyn ymlaen y gwaith a ddechreuasai ef gan Mr. Pugh, brodor o Ddolgellau (fu'n aros yn Bryn Llewelyn), a John Aubrey (mab Owen Aubrey, hen Ysgolfeistr Penyrallt Goch, a Mr. Lloyd, Plasmeini, yr hwn pan ddeuai adref ar ei wyliau a ddaliai ar bob cyfle i gymeryd rhan yn y gwaith da. Ond Mr. Robert Hughes, Teiliwr (at yr hwn y cyfeiriwyd eisioes fel pregethwr) oedd y mwyaf sefydlog, ac yn meddu cymhwysterau neillduol i'r gwaith. Yn ei absenoldeb ef arweinid gan John Cadwaladr, Penyffridd; gwasanaethai Robert Stephen (Moelwynfab)—brawd i'r diweddar William Stephen—yn ffyddlon iawn fel Arweinydd y Gan.

Ar fyrder sefydlwyd *Band of Hope* yn yr ardal a throwyd Cyfeillach y Plant yn *Band of Hope* yr hwn a fu yn flodeuog ac o wasanaeth mawr i'r Achos, fel y daeth canu Saron (a Bethel yn ddiweddarach) yn uchel ei fri trwy yr ardal, ar gyfrif ei ragoriaeth.

Yn 1846 dechreuwyd cynal Cyfarfod Pregethu yn flynyddol yno. Cynhaliwyd y cyntaf nos Iau, Rhagfyr 24ain, a thrwy'r dydd dranoeth. Nos Iau pregethodd y Parchn. G. Jones, Llanberis, ac R. Fairclough, Bethania; Dydd Gwener am 10, E. Stephen, o Goleg y Bala, ac E. Davies, Trawsfynydd; am 2, — Davies, Sir Fon; ac E. Davies, Trawsfynydd; am 6, E. Stephen ac G. Jones. Cafwyd hin ddymunol; cynulleidfaoedd lluosog, a phregethau bywiog ac adeiladol.

O 1846 hyd 1851 bu'r Eglwys heb Weinidog. Yna, unwaith eto, ymunodd a Bethania i wahodd y Parch. R. Parry (Gwalchmai), Conwy, i ddyfod i'w bugeilio. Parodd ei ddyfodiad i'r Achos wisgo gwedd wahanol—gan i'r rhai llesg ymadnewyddu, siriolodd yr Eglwys gyfan. Daeth Mr. Lewis Lloyd a'i briod o Faentwrog, ac ymunasant a'r Eglwys yn Saron a chan eu bod yn hael ac ewyllysgar i wasanaethu buont yn gaffaeliad iddi. Rhagorai Mrs Lloyd mewn zel a chrefyddoldeb yspryd, a chadwai ddydd-lyfr yn fanwl gan nodi ynddo yr argraph a adawai cyfarfod ar ei meddwl a'i hyspryd. Gwasanaethodd Mr. Parry yr Eglwys yn ffyddlon am y tymor byr y bu yn yr ardal. Symudodd yn fuan i Lanymddyfri am amser byr a dychwelodd. Yna yn 1854 aeth i Gonwy, a sefydlodd achos yn Llandudno. Pan ymadawodd o Saron rhifai yr aelodau saith-a-deugain.

Yn Ionawr 1854, daeth y Parch. O. Evans (Dr. Owen Evans, Llundain, yn ddiweddarach) i Faentwrog, ac yn fuan wedi ei ddyfodiad cymerodd ofal Saron hefyd. Gweithiodd yn egniol ac ynillodd gymeradwyaeth cyffredinol, ond ymadawodd yn Mawrth 18 7. Yn ystod ei weinidogaeth ef dewisiwyd yn ddiaconiaid, Dafydd Evans, Y Ffolt; a John Evans, Saron (Ap Dudwy). Bu'r ddau yn dra ffyddlon yn nghyflawniad gwaith eu swydd. Ceir hanes diddorol iawn am Dafydd Evans a'r modd y bu iddo ymaelodi yn yr Eglwys. Fel hyn y mae:—Wedi priodi o hono. aeth at Ellen Williams, *Abbey Arms*, i ymholi am dy. Yr

ateb a gafodd oedd "nad oedd ganddi un ar osod, ond bod yno ddyrniad o Sentars yn y lle cefn bron ar roddi i fyny, ac y caffai hwnw os dewisai." Parodd y geiriau dirmygus hyn iddo deimlo i'r byw dros "Saron bach," a phenderfynodd ymaelodi yno, a chafwyd ef ymhlith y ffyddloniaid. Felly y bu ei hiliogaeth, ac felly y maent yn Bethel hyd heddyw. Mae merch i John Evans—Mrs M. Morgan, Yr Abermaw—wedi etifeddu i fesur helaeth ragoriaethau ei thad ac yn un o'r merched mwyaf defnyddiol nid yn Meirion yn unig ond yn Ngogledd Cymru. Gwnaeth waith rhagorol (tra y bu yn byw yn yr ardal hon) yn yr Eglwys ac fel aelod o Fyrddau gwahanol, ac ar lwyfanau dirwest, addysg, a phob symudiad da. Yn yr Abermaw parha i ehangu cylch ei gwasanaeth a'i dylanwad, a gellir priodoli y cyfan i'r cychwyniad da a roddwyd iddi ar yr aelwyd yn Saron. Yn ystod gweinidogaeth y Parch. O. Evans, yr oedd yr Ysgol Sul yn llewyrchus iawn. Rhifai yr athrawon 18 a'r aelodau 87. Yn 1857 dechreuodd John Cadwaladr, un o'r aelodau, bregethu. Wedi cwrs o addysg yn Ngholeg y Bala bu yn gweinidogaethu yn Birmingham. Oddiyno aeth i'r Unol Dalaethau ac yno profodd ei hun yn Weinidog ffyddlon am lawer o flynyddoedd.

Yn 1857, ymgysylltodd Saron drachefn â Bethania i i alw Mr. David Lloyd Jones, myfyriwr yn Ngholeg y Bala, a chynhaliwyd cyfarfod i'w ordeinio nos Iau, dydd Gwener a'r Sadwrn, Rhagfyr 24, 25, a 26, yn Bethania a Saron. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Jones, Maentwrog; R. Parry, Conwy; W. Roberts, Penybontfawr; John Thomas, Lerpwl; E. Davies, Trawsfynydd; J. Jones, Green, Dinbych (tad D. Lloyd Jones); M. D. Jones, Bala; a Robert Ellis, y Brithdir. (Y dyddiau hyny oedd y dyddiau yr arferid cynal Cyfarfod Pregethu Blynyddol Saron.) Bu llwyddiant mawr yn ystod ei arhosiad, oblegid yr oedd ef yn weithgar dros ben, ac yn fawr ei ddylanwad trwy yr ardal—yn ddirwestwr aiddgar, yn benderfynol, ac "wedi rhoddi ei law ar yr aradr, nid edrychai yn ol."

Arhosodd ei ol ar yr Eglwys wedl iddo ef ymadael. Credai ef a'r Eglwys mai mantais iddi fyddai cael Capel newydd a hyny mewn lle mwy cyfleus na'r lle yr oedd Saron a chymerasant, ar brydles o 99 mlynedd, dir yn mhen uchaf y pentref (gerllaw yr hen dollborth) am swllt y flwyddyn o *ground rent*. Dyddiad y brydles ydyw Mawrth 25, 1865, a phenodwyd yn ymddiriedolwyr newyddion (Ebrill 1, 1865) Cadwaladr Jones, Penyffridd; Pierce Owen, Pantllwyd; John Evans, Saron; David Evans, Y Ffolt; a Thomas Williams, Ffestiniog. Yn gynar yn 1866 ymadawodd Mr. Lloyd Jones i fyned yn Oruchwyliwr Ymfudol y Wladfa Gymreig, er mawr golled i'r Eglwys, yr hon yn ei Gyfarfod Ymadael a gynhaliwyd yn Bethania Mawrth 27, 1866 (pan y cyflwynwyd amryw dystebau iddo), a gyflwynodd iddo, trwy law y Parch. J. Cadwaladr, bwrs yn cynwys £6 5s.

Aeth blwyddyn heibio a cheisiodd Eglwys Saron weinidog iddi ei hun. Cafodd un yn Mr. Zechariah Mather, myfyriwr yn Ngholeg y Bala, ac ordeiniwyd dydd Nadolig, 1867. Gwasanaethwyd gan y Parchn. W. Jenkins, Pentre Estyll; J. Peters, Bala; W. Roberts, Tanygrisiau; a W. Williams, Maentwrog. Y pryd hyny rhifai aelodau yr Eglwys tua chant, a bu i'r ffaith fod ganddynt weinidog iddynt eu hunain, ar wahan oddiwrth Eglwys arall, roddi iddynt safle uwch yn eu golwg eu hunain ac eraill hefyd; a chymhellwyd hwy i fwy o ymdrech gan eu bwriad a'u hawydd i gael Capel newydd. Dechreuwyd ei adeiladu a chwblhawyd ar draul o £1,500. Galwyd ei enw Bethel, ac mae hanes eu hymfudiad o Saron yn ddiddorol. Yr oedd Mr. Mather i bregethu yno y nos Saboth cyn ei agoriad ffurfiol, ac fel hyn mae'r hanes fel y'i rhoddwyd gan un oedd yno. "Cofiaf yn dda y mudo o Saron i Bethel. Nid oedd lampau y Capel wedi eu gosod i fyny. Yr oedd yr aelodau wedi rhoddi benthyg eu lampau o'u cartrefi am y noson. (Canhwyllau ddefnyddid yn Saron.) Cychwynwyd yr orymdaith daclus o Saron—Mr. Mather a'r diaconiaid

ar y blaen; Cadwaladr Jones a'r Cor wedyn; Jane Humphreys, y Cwm, oedd y brif Soprano; Sian Roberts (gwraig William Stephen) ac Anne Joseph yn canu ei hochr hi ac yn *repeatio* y gân bob amser. Cyrhaeddasom Bethel. Yr oedd pawb i fynd i'r sêt oeddynt wedi ei dewis yn ystod yr wythnos; a llanwyd pob congl o hono gan y dyrfa oedd yn dilyn yr orymdaith.

Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol ffurfiol Dydd Nadolig 1869. Ynddo pregethodd y Parchn. D. Lloyd Jones (y cyn-Weinidog); M. D. Jones, Bala; W. Edwards, Aberdar; Richard Jones, Llanidloes; a Dr. J. Thomas, Lerpwl. Aeth y gwaith da rhagddo yn dra llwyddianus. Daeth dyn ieuanc a'i enw Owen Roberts i'r lle ac ymaelododd yn Bethel. Brodor o Drawsfynydd oedd, ond buasai yn aros er's blynyddau yn Lerpwl. Gwasanaethai fel *Guard* ar y Llinell Gul o'r Llan i'r Blaenau y pryd hyn. Dyma ddywed Mr. Mather am dano:—"Yr oedd ef yn un o'r dynion ieuanc mwyaf selog a gweithgar a fu mewn Eglwys erioed, a gwnaeth waith mawr yn ei dymor byr yn Bethel, mewn cysylltiad â'r plant a'r bobl ieuainc. Meddai ddylanwad neillduol arnynt, a gellir dweyd yr haner-addolid ef ganddynt. Bu farw yn ieuanc o'r darfodedigaeth, ac mae'r dylanwad da a adawodd ar ei ol yn aros hyd y dydd hwn. Gellir chwanegu fod Bethel yn agos iawn at ei galon yntau gan iddo adael swm o arian, yn ei ewyllys i'r Eglwys."

Un arall anwylid yn fawr oedd Mr. D. Ll. Lloyd, Plasmeini, yr hwn a ddaeth yma o Dowyn i Meirionydd yn Mai 1873. Yr oedd yn ddiacon yn Eglwys Towyn, a dewiswyd ef i'r swydd yn Eglwys Bethel: heblaw hyny, pregethai yn dra chymeradwy. Cafwyd ganddo dir i adeiladu arno dŷ i'r gweinidog a hyny ar delerau a haeddant sylw neillduol ar gyfrif y gwahaniaeth rhyngddynt a'r telerau gorthrymus a osodir i lawr gan eraill yn yr ardal. Mesura 693 o latheni petryal (*square*), ac fe'i rhoddwyd ar brydles o 99 mlynedd am ardreth o haner-coron y flwyddyn. Yn ei ewyllys

gadawodd y tir i'r Eglwys yn feddiant hollol ac "am byth" iddi, a bu Mrs Lloyd yn ofalus i'w drosglwyddo iddi trwy weithred ddyddiedig Gorphenaf 16, 1896. Caffaeliad i'r Eglwys ac i'r ardal fu teulu Plasmeini. Bu ef farw Chwefror 27, 1885.

Yn John Evans, Saron, cafodd yr Eglwys aelod a diacon da. Efe oedd ceidwad Ty Capel Saron. Yno y lletyai'r gweinidogion a ddeuent i wasanaetnu ac yno cyrchai arweinwyr yr Achos, a llawer o ddadleuon brwd a fu dan y gronglwyd hono. Rhagorai ef ar y cyffredin mewn gallu a gwybodaeth; yr oedd yn wr deallus, athraw medrus, llenor da, ac yn llwyddianus mewn llawer cystadleuaeth. Gan mor gymeradwy oedd ei gyflawniadau cyhoeddus, gelwid arno yn fynych i "ddechreu'r oedfa." Soniwyd yn hir am ei weddi yn Saron cyn y mudiad oddiyno i Bethel. Erfyniai am arweiniad y "Golofn"—am i'r "Gogoniant symud i'r tŷ newydd." Trodd calonau y rhai oeddynt yn bresenol yn llynoedd dwfr, a wylent yn hidl, ac wrth weld eu rhieni yn wylo aeth y plant hwythau i wneud yr un modd. (Merch iddo ef ydyw Mrs Morgan, U.H., yr Abermaw, fel y dywedwyd eisoes).

Dyddiau llwyddiant fu'r dyddiau ddilynodd y symudiad i'r Capel newydd. Rhaid oedd cael offeryn cerdd a phrynwyd *harmonium*, i chwareu yr hon dewiswyd Edward Samuel; a Morris Evans, Peniel Terrace, yn gynorthwywr iddo. Cyflawnodd y cyntaf y gwasanaeth yma am 50 mlynedd, gan fod yn ffyddlon ragorol. Yr adeg sydd dan sylw dechreuodd Thomas Morris a William E. Morris, meibion Ellis a Jane Morris (William St.) bregethu. Wedi cwrs addysg yn Ngholeg y Bala, cafodd a derbyniodd Thomas Morris alwad gan eglwys Bryn Seion, Dowlais, a William E. Morris gan Eglwys Salem, Llanbedr.

Yn 1876 cydsyniodd Mr. Mather â galwad a roddwyd iddo gan Eglwysi'r Abermaw a'r Cutiau, a gwnaeth hyny yn groes iawn i deimladau pobl ei ofal yn Bethel.

Awst 28 cynhaliwyd cyfarfod i "ganu'n iach" iddo, a rhoddes pobl ei ofal amlygiad o'u parch iddo a'u teimladau caredig ato trwy gyflwyno iddo bwrs yn cynwys swm sylweddol o arian. Yr adeg yr ymadawodd rhifai yr aelodau dros ddau gant.

Yn ystod ei weinidogaeth ef—Mai 17, 1868—dechreuwyd cadw Ysgol Sul yn Glan Dubach, gerllaw Chwarel y Foelgron. Y dydd hwnw yr oedd yn bresenol Griffith Griffiths (Gutyn Ebrill) a'i deulu; John Evans (Foelgron) a'i fab Evan Evans; Hugh Hughes (ieu.), Pont-yr-afon-gam. Yr haf hwnw traddodwyd y bregeth gyntaf ynddo gan y Parch. M. D. Jones, Bala, ac wedi hyny pregethid yno yn achlysurol gan eraill. Colled drom i'r Ysgol fu ymadawiad Gutyn Ebrill a'i deulu i'r Wladfa Gymreig. Goreu modd, daeth William Roberts, y Crydd, i drigo gerllaw a chafodd yr Ysgol ynddo gymorth da fel y cafodd yn Cadwaladr T. Evans ty yr hwn oedd gerllaw Llyn Morwynion, heb fod nebpell o'r Foelgron.

Pan beidiwyd a gweithio yn Chwarelau'r Foelgron a'r Drwm symudodd teuluoedd y naill ar ol y llall, a pheidiwyd a chynal Ysgol.

Aethai tua blwyddyn heibio er's pan ymadawsai Mr. Mather pan y rhoddwyd galwad i'r Parch. John Roberts, gweinidog Llanelltyd a'r Borth. Mewn cydsyniad â hi dechreuodd ei weinidogaeth yn Bethel y Sul cyntaf yn Medi 1877. Y nos Wener cyn hyny, etholasid yn ddiaconiaid y Mri. Robert Griffith, Cynfal Terrace, Benjamin Griffith, Ysgolfeistr; Pierce Owen, Pantllwyd; ac Edward Jones (Asaph Collen). Ymddengys ddarfod dewis Pierce Owen a Cadwaladr T. Evans, Llyn Morwynion, yn ystod gweinidogaeth y Parch. D. Lloyd Jones, ond ni fynai Pierce Owen dderbyn y swydd yr adeg hono. Fe'i derbyniwyd gan Cadwaladr T. Evans (yr hwn adwaenid fel Cadwaladr Thomas, Ty'r Llyn), a bu yn ffyddlon am lawer o flynyddoedd. Gwaetha'r modd, darfu am bob cysylltiad rhyngddo â'r Eglwys.

Pan ddewiswyd y brodyr oedd yn dechreu eu gwaith fel diaconiaid yr un pryd ag y dechreuai Mr. Roberts ei waith fel gweinidog, torodd yr Eglwys y rheol arferol trwy benderfynu "Nad oedd y diaconiaid i fod yn eu swydd ond am chwe' blynedd; fod y tri dderbynient y nifer leiaf o bleidleisiau i fyn'd allan o'r swydd ar derfyn tair blynedd, ond y byddai yr Eglwys yn rhydd i'w hail-ddewis, os ewyllysiai, ar derfyn y tair blynedd." Ail-ddewiswyd yn unfrydol Pierce Owen ac Edward Jones. Ymadawsai Benjamin Griffith (o herwydd afiechyd) o'r ardal er diwedd 1878, er colled i'r Eglwys. Yn ei le ef dewiswyd Francis Evans. Yr un pryd penderfynwyd newid y "drefn" ddewis a nodir uchod—"fod y diaconiaid i aros yn eu swydd tra y byddai iddynt air da, ymddiried yr Eglwys a chymeriad dilychwin.

Cynhaliwyd Cyfarfod Sefydliad Mr. Roberts, Hydref 27, 1877, a chymerwyd rhan ynddo gan y Parchn M. D. Jones, Bala; D. Griffith, Dolgellau, ac eraill. Yn 1878, gwerthwyd yr hên gapel (Saron) a'r eiddo cysylltiedig am £390, i un a'i enw Alexander Tickel, a bu hyn, wrth reswm, yn fanteisiol iawn trwy eu galluogi i dalu swm sylweddol o'r ddyled ar y Capel Newydd. Erbyn diwedd 1879 tynasid y ddyled hono i lawr i £336 11s. 11c., tra y rhifai aelodau yr Eglwys 203, a'r Ysgol Sul 225. Y flwyddyn ddilynol gwnaed ymdrech arbennig i wneud y ddyled yn llai fyth, a thalwyd £82 3s. 8c., o honi erbyn diwedd y flwyddyn.

Penderfynwyd hefyd, sefydlu Cymdeithas Arianol ar linellau yr hon a sefydlasid yn Bethania er's llawer iawn o flynyddoedd ac a brofasai yn gymaint cymorth i dalu'r ddyled yno. Galwyd hi "Cymdeithas Gydranol Bethel," a bu, ac y mae eto, yn gaffaeliad gwerthfawr iddynt. Aed at y gwaith o adeiladu ty i'r gweinidog ar y tir a gawsid, fel y dywedwyd eisoes, gan Mr. D. Ll. Lloyd, Plasmeini, ar delerau ffafriol i r eithaf. Cyrhaeddodd y draul y swm o £520. "Y Llwyn" ydyw ei enw ac y mae yn eiddo rhydd-ddaliadol Eglwys Bethel.

Yn 1880, dewiswyd yn Arweinydd y Gân (yn lle Henry Parry, Brynbrisgyll,) Hugh Evans, Station Road, rhieni yr hwn oedd yn aelodau yn Eglwys y Coed-bach, lawer o flynyddoedd cyn hyny. Masnachwr llwyddianus oedd y pryd hyny, ac ynddo i fesur helaeth gymhwysterau i wasanaethu ei oes. Heblaw hyny yr oedd yn wr rhydd a rhadlon. Cyn bo hir ymadawodd o'r ardal. Pan ddewiswyd ef yn Arweinydd y Gân dewiswyd John Richards (Sun Street), cerddor da, yn gynorthwywr iddo. Yr adeg yma trefnwyd i gadw Ysgol Sul yn Mhantllwyd—yn nhy un Evan Lewis. I gynorthwyo y rhai oeddynt yn byw yno, dewiswyd y Parch. J. Roberts; David Evans a Robert Griffith (diaconiaid.) Yn Mhantllwyd y preswyliai eu cyd-ddiacon Pierce Owen. Ddydd ei hagoriad—Hydref 12, 1879—yr oedd yn bresenol un-ar-hugain. Llwyddodd i fesur am rai blynyddoedd, ac arferai yr Eglwys ddewis brodyr i fyn'd yno i gynorthwyo fel athrawon, &c.; ond bu iddi Tachwedd, 8, 1888, ordeinio:—"Nad oes Ysgol yn Mhantllwyd i fod yn y dyfodol." Unwaith eto rhoddwyd cyfle i'r Methodistiaid ail-ddechreu Ysgol yno. (Cynhaliwyd un yno cyn hyn, yn 1865, ond byr fu tymor hono.) Y tro yma llwyddodd eu hymdrechion ac adeiladasant yno ysgoldy cyfleus yn 1902, ac ar adegau bu ynddi gant o bersonau.

Er's blynyddoedd bellach yr oedd llawer o Eglwysi Anibynol y wlad mewn blinder oblegid "Helynt Coleg y Bala"—neu "Helynt y Cyfansoddiau" fel y'i gelwid fynychaf, a phrofodd Eglwys Bethel, beth blinder. Cydymdeimlai'r gweinidog â'r blaid elwid "Y Cyfansoddiad Newydd"; a mwyafrif yr aelodau â'r "Hen Cyfansoddiad." Mewn canlyniad, bu anghysur a blinder nas gallai lai nag effeithio yn anymunol a niweidiol ar yr Eglwys. Nid oes angen am, ac ni ddeuai budd o ymhelaethu. Digon yw dywedyd fod gan y peth gryn lawer i'w wneud a pher i Mr. Roberts dderbyn galwad a roddwyd iddo gan Eglwys Towyn (Meirionydd) yn nechreu 1883.

Tra buwyd heb Weinidog, byddai yr Eglwys ei hun, bob tri mis, yn dewis rhai i bregethu yn Bethel. Yn niwedd 1883 dewiswyd yn Arweinydd y Gan (yn lle Hugh Evans a John Richards) William Stephen, at ffyddlondeb yr hwn y cyfeirir yn mhellach ymlaen; ac yn fuan wed'yn aed at y gwaith o ddewis a galw un yn Weinidog yr Eglwys. Nos Fercher, Mawrth 12, 1884, penderfynwyd gwahodd Mr. H. Hermonydd Williams, Myfyriwr yn y Bala, ond ni fynai ef ei dderbyn. Yn nesaf, anfonwyd galwad i un oedd yn gyd-fyfyriwr iddo—Mr. Evans, Rhydybont; ond ni chydsyniodd yntau. Yna rhoddwyd gwahyddiad i'r Parch. W. P. Williams, Y Waenfawr, ond ni ryngodd bodd iddo ef mwy na'r lleill, ei derbyn. Ni ddigalonodd yr Eglwys. Nos Sul, Hydref 5, 1884, rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. Thomas Lodwick, brodor o Glynarthen, oedd yn fyfyriwr yn y Bala. Llawen fu ganddynt dderbyn atebiad ei fod yn cydsynio. Ionawr 13 a 14, 1885, ordeiniwyd ef. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. Talwyn Phillips, B.D., Bala; W. R. Edwards, Sardis; P. Howell, Jerusalem, Blaenau Ffestiniog; M. D. Jones, Bala; a D. Silyn Evans, Aberdâr. Yn fuan wedi hyn, rhoddodd yr Eglwys ei bryd ar gael Organ yn lle yr *harmonium* oedd ganddi, a chawsant un am £95; a phenderfynwyd gostwng nenfwd (ceiling) y capel a gwneud adgyweiriadau eraill gyda'r amcan o'i wella fel lle i wrando, a chwblhawyd y gwaith erbyn Mehefin 21, y flwyddyn hono. Nid oedd yn nghylch Ffestiniog y pryd hyny gynifer ag un capel ac Organ ynddo. Chwanegodd yr organ at y bri oedd i ganu cynulleidfa a *Band of Hope* Bethel. "Aberth Moliant" J. Ambrose Lloyd a ddefnyddid yno hyd Mai 1886, pan y bu iddynt bleidleisio drwy'r tugel i gymeryd yn ei le "Emynau a Thonau Stephen a Jones." Yn yr un flwyddyn—Rhagfyr 19—codwyd Mr. Edward Jones (Asaph Collen) yn bregethwr. Derbyniasid ef i'r Eglwys pan oedd hi yn Saron, a bu y lle hwnw yn dra cysegredig yn ei olwg tra y bu efe byw. Pregethodd yn dderbyniol a

chymeradwy trwy gylch eang tra parhaodd ei nerth. Yr oedd yn wr ffyddlawn a brwdfrydig yn ei holl gysylltiadau, ac nid amheuai neb ei dduwioldeb. Dengys y pethau hyn fod y gwaith da yn myn'd rhagddo a llwyddiant amlwg yn coroni ymdrechion Mr. Lodwick a'i bobl.

Ond nos Fercher, Medi 12, 1888, syfrdanwyd yr ardal gan y gair prudd ei fod wedi marw. Yn y gyfeillach, y nos Fercher blaenorol, hysbysai yr Eglwys ei fod yn bwriadu priodi yn mhen yr wythnos a'i fod ar fyn'd i'r fro y'i ganwyd ynddi, oblegid yno y byddai'r briodas Brawychodd pobl Bethel pan ddaeth y gair nad oedd ei le ar y ddaear yn adwaen dim o hono mwy. Aethai yn ddwfn iawn i serch yr Eglwys. Fel hyn y dywedai un a'i hadwaenai yn dda:—"Dyn ieuanc bywiog oedd, cyfaill pur, dyn gwerin, pregethwr cryf a bardd rhagorol." Dygai fawr sel dros gerddoriaeth a bu yn arwain rhai Cymanfaoedd Canu, er nad oedd hyn eto yn wybyddus i'r cyffredin o'r ardalwyr. Gan gymaint eu parch iddo, aeth nid ychydig o bobl Bethel yr holl ffordd i Glynarthen (Sir Aberteifi) i "dalu'r gymwynas olaf" iddo. Yn ddiweddarach rhoddodd yr Eglwys a'r gynulleidfa ac eraill gyda hwy gofgolofn ar ei fedd yn mynwent Glynarthen.

Yn nechreu 1889, penderfynwyd ceisio olynydd iddo a dewiswyd amryw i ddyfod atynt i bregethu "ar brawf." Dewiswyd hefyd bedwar gwr i wasanaethu swydd diacon:—Mri. Joseph Owen; Philip Hughes; Morris Owen; a Robert Jones. Buont ffyddlon yn eu gwaith, ond maent er's blynyddoedd bellach, "wedi mynd oddiwrth eu gwaith at eu gwobr." Gydag amser llwyddodd yr Eglwys i gael gwr wrth ei bodd i fod yn weinidog iddi yn y Parch. R. Talfor Phillips, Rhosymedre a'r Fron, i'r hwn yr anfonwyd galwad yn ol penderfyniad a basiwyd nos Sul, Hydref 18, 1891. Arwyddwyd hi gan chwech o'r diaconiaid. Cydsyniodd Mr. Phillips a'r alwad a chynhaliwyd cyfarfod ei sefydliad (ynglyn a Chyfarfod Chwarterol y Sir) Mawrth 7 a 8, 1892. Cymerwyd rhan ynddo gan

amryw o weinidogion y Sir. Bu ei ddyfodiad i Bethel yn foddion i adnewyddu sel yr aelodau a'u symbylu i weithgarwch, oblegid dygodd hwy i undeb a'u gilydd ac i gydweithio er llwyddiant yr Achos. Talwyd swm sylweddol o'r ddyled oedd arnynt a mynegwyd awydd i gael Ysgoldy yn gysylltiedig a'r Capel. Prynwyd *freehold* y tir y saif y Capel arno a llain o dir wrth ei ochr, gan Mr. Phillip Lloyd Fletcher am £20. Dyddiad y weithred ydyw Rhagfyr 31, 1897. Yn hytrach na chwanegu y swm yma a'r costau i gael "gweithredoedd" at y ddyled, aeth Mr. Phillips a thri o'r brodyr o amgylch i geisio cyfraniadau gan aelodau'r Eglwys a'r gynulleidfa, a chafwyd y cyfan yn weddol rwydd. Wedi sicrhau tir barnwyd yn ddoeth oedi adeiladu hyd oni leiheid swm y ddyled oedd yn aros, yr hyn y llwyddwyd, trwy gydymdrech i'w wneud. Y 6fed a 7fed o Fehefin, 1900, cynhaliwyd Cymanfa'r Sir yn Llan Ffestiniog. Gweinyddwyd ynddi (ar y maes) gan y Parchn. O. R. Owen, Glandwr; G. Penar Griffiths, Pentre Estyll; H. Elfed Lewis; a John Thomas, Merthyr. Cymanfa wir dda ydoedd.

Cwblhawyd yr Ysgoldy ac adgyweirio'r Capel erbyn dechreu Medi 1900, ac er fod nid ychydig waith wedi ei wneud yn wirfoddol ac arian tuag at ddodrefnu wedi eu cyfranu, aeth y draul yn £555 6s 5c. Profodd yr adeilad yn gaffaeliad o werth i'r Eglwys. Tua diwedd y flwyddyn a nodwyd penderfynwyd darpar a'r gyfer anghenion crefyddol teuluoedd yn mhen uchaf y plwyf—yn nghyfeiriad y Migneint—trwy sefydlu drachefn Ysgol Sul, ac agorodd D. Lewis, y Foelgron, ddrws iddi. Cynhaliwyd hi am y tro cyntaf y Sul cyntaf yn 1901. Aeth Robert G. Williams a William Roberts (Saron) yno i gynorthwyo Evan Ellis, Garèglwyd, i ofalu am y gwaith, a buont hwy ac eraill yn eu tro yn cerdded yr holl ffordd o'r Llan, -- bob math o dywydd, i gymeryd rhan yn y gwaith

Yn nechreu 1902 gwnaed gwelliantau yn y Capel a darparwyd *chamber* i Organ newydd a brynwyd, a'r chyrhaeddodd y tal am yr Organ a'r gwelliantan £618 10s 6c. Y blynyddoedd hyn yr oedd masnach yn fywiog yn yr ardal, ac aeth y mwyafrif o'r Eglwysi o bob enwad—Bethel yn eu plith—dan gyfrifoldeb arianol mawr, yr hwn yn ddiweddarach (pan ddaeth dirwasgiad masnachol) a bwysodd drymed ar rai o honynt fel na fu ond ychydig rhyngddynt a chael eu llethu ganddo. Nid felly Bethel. Llwyddodd i fyn'd rhagddi ac i leihau'r ddyled yn raddol. Yn Rhagfyr 1905 cofrestrwyd y Capel dan y gyfraith a'i gwnaeth yn bosibl i briodasau gael eu gweinyddu ynddo heb bresenoldeb Cofrestrydd.

Yn y man, tua diwedd 1908, gwelwyd fod yn rhaid chwanegu at nifer y diaconiaid, a phasiwyd i ddewis tri drwy'r tugel ac na chyfrifid yn etholedig neb oni chaffai ddwy ran o dair o bleidleisiau'r Eglwys. Ni chafodd neb y nifer rheidiol. Y canlyniad fu iddi yn Mai 1909 benderfynu dewis pedwar drwy'r tugel ac i gyfrif yn etholedig y pedwar fyddent uchaf ar y rhestr. Gwnaed felly Mai 16, a'r pedwar hyn a ddewiswyd:—Robert Roberts, Brynrhug; Owen O. Roberts, Talarfor; Robert V. Lewis, Cynfal Terrace; a William E. Williams, Bronant. Nos Sul, Hydref 17, 1900, hysbyswyd fod un o blant Bethel—John Ellis (Sun Street) yr hwn a ddechreuasai bregethu yn Eglwys Tonypandy—pan oedd y Parch. E. Richards yn Weinidog iddi—wedi llwyddo i gael derbyniad i Goleg Aberhonddu; a thrwy bleidlais amlygodd ei llawenydd a llongyfarchodd ef. Cyn i dair blynedd llawn fynd heibio,—Mehefin 9, 1912—llongyfarchodd ef ar ddechreuad ei Weinidogaeth yn Hermon, Ystradfellte, a phenododd y Parch. R. T. Phillips a Mr. Morris Evans i fyn'd i'r cyfarfod ordeinio i'w chynrychioli ac i gyflwyno iddo anrheg yn ffurf Beibl Gymraeg a swm o arian. Ychydig yn ddiweddarach, rhoddodd Mrs Lily Morgans, Manod Road, Blaenau Ffestiniog (aelod yn Eglwys Hyfrydfa) anrheg yn ffurf Llestri Unigol

Cymundeb, er coffa am ei thad, y Parch. W. E. Morris, yr hwn (fel y dywedwyd eisoes) a godwyd i bregethu gan Eglwys Saron.

Mynych y gelwir ar yr Eglwysi i ddewis rhai i'w gwasanaethu yn y naill ffordd neu'r llall. Am y pedwerydd y tro bu raid i Bethel ddewis ymddiriedolwyr. Nid oedd yn aros o'r gwyr a ddewisasid yn 1888 ond pedwar. Mai 10, 1914, chwanegwyd atynt Morris Evans, William Pritchard, Owen O. Roberts, Robert V. Lewis, Edward Williams, Robert Roberts, Evan T. Evans, William E. Williams, Robert R Jones, Gwilym Evans, William Roberts, Griffith M. Jones, Isaac Jones a Robert E. Roberts. Erbyn hyn mae yr oll o'r rhai oeddynt eisoes yn ymddiriedolwyr a phedwar o'r rhai a chanegwyd atynt wedi cyflawni amser eu hymdeithiad. Nid afraid pwysleisio'r ffaith fod cyfrifoldeb ymddiriedolwyr yn fawr a bod y rhai geir yn barod i fyn'd dano yn haeddu eu canmol.

Yn gynar yn 1915 amlygodd dyn ieuanc a'i enw John Hugh Roberts, Woburn House, awydd i fyn'd i'r Weinidogaeth a cheisiwyd gan y Parch. J. Hughes (Jerusalem), a G. Davies, B.A. (Brynbowydd), ei arholi yn Athrawiaethau Crefydd Crist ac egwyddorion Anibyniaeth. Rhoddasant adroddiad gyfrifwyd yn foddhaol, ac wedi iddo draddodi "pregeth brawf," derbyniwyd ef gan yr Eglwys, Mawrth 14, fel pregethwr rheolaidd a chyflwynwyd i sylw'r cylch a'r Cyfarfod Chwarter fel pregethwr rheolaidd ac un cymwys i'r Weinidogaeth. Wedi cwrs addysg yn Aberhonddu, ymsefydlodd yn Mhenmaenmawr yn weinidog eglwysi Horeb a'r Tabernacl.

Blynyddoedd blin a phrofedigaethus iawn fu blynyddoedd y Rhyfel Mawr. Effeithiodd y wasgfa fasnachol ar yr holl eglwysi. Yn mhlith pobl Bethel a gollasant anwyliaid yn yr heldrin ofnadwy, cafwyd Mr. a Mrs Talfor Phillips. Collasant hwy eu hunig ac anwyl fab John Osgar Phillips, a mynodd Eglwys Bethel fynegi mewn modd ymarferol ei chydymdeimlad

a hwynt. Yn ddi-dwrw mewn dull syml (heb fod gan neb oddiallan iddi a wnelai a'r peth) cyflwynasant iddynt, nos Sul, Ionawr 19, 1919, £21 10s 0c.

Yn Rhagfyr 1920 amlygodd Mr. Edward Samuel ei fwriad i ymddiswyddo fel Organydd, wedi haner can' mlynedd o wasanaeth ffyddlon iawn. Wele benderfyniad a basiwyd gan yr Eglwys:—"Ein bod fel Eglwys yn datgan ein gofid o orfod derbyn ymddiswyddiad Mr. Edward Samuel fel Organydd ar ol cyflawni ei swydd gyda'r fath fedr a ffyddlondeb diball am dros haner can' mlynedd, ac yn dymuno datgan yn mhellach ein diolchgarwch puraf iddo a'n gwerthfawrogiad llwyraf o'r gwasanaeth mawr a roddodd mor rhad ac ewyllysgar i gadw'i fyny a pherffeithio caniadaeth y Cysegr; a thra yn gofidio o golli ei wasanaeth swyddogol da genym ei fod yn aros yn ein mysg, ac felly hyderwn y cawn flynyddoedd eto o'i gymdeithas ac o'i ddylanwad gyda'r gwaith y cafodd ras i roddi cymaint o'i galon ac o'i amser i'w hyrwyddo yn y gorphenol."

Yn nechreu'r flwyddyn ddilynol ymddiswyddodd Mr. William Stephen, Arweinydd y Gân, a derbyniwyd hyny gan yr Eglwys nos Sul, Chwefror 27, 1921, yr hon yr un pryd a roddodd fynegiad i'w diolchgarwch iddo a'i gwerthfawrogiad o'i wasanaeth maith; a threfnwyd i roddi mynegiad sylweddol i werthfawrogiad Eglwys Bethel a'r ardal o'i wasanaeth i gerddoriaeth yn mhob modd. Pan ddaeth nos Sul, Mehefin 18, 1922, cyflwynwyd iddo dri llyfr—Cofiantau E. Stephen (Tanymarian), J. Ambrose Lloyd a Dr. Joseph Parry, ynghyd a £24. Yn Arweinydd y Gan, yn lle W. Stephen, dewiswyd Mr. Isaac Jones, Belle Vue; ac yn Organydd, Mrs. L. Pritchard Evans, A.R.C.M. Yn Bethel bu Cyfarfod Chwarter Mawrth 1923. Dewiswyd yn ddiaconiaid, Hydref 28, 1923:—Mri. Gwilym Evans, Robert F. Lloyd, Robert G. Roberts a Morris R. Williams. Yn gynar yn y flwyddyn (1924) hon amlygodd Mr. Phillips ei fwriad i ymddeol y dydd olaf

o Fehefin. Gwasanaethodd am lawn ddeuddeg-ar-hugain o flynyddoedd yn ffyddlon ac ymroddgar. Rhoddodd ei oreu i'r Eglwys a bu llwyddiant amlwg ar y gwaith yn ei holl agweddau. Dengys ffeithiau a nodwyd eisoes na chyfyngodd ef ei hun i waith yn Eglwys Bethel. Ymdrechodd yn mhlaid dirwest a phob symudiad a'i ddiben i lesau dynion. Mae wedi gwasanaethu fel aelod o Gyngor a Phwyllgor Addysg Meirion am flynyddoedd lawer, a chydnabyddwyd ei waith yn y naill trwy ei ethol yn Henadur, a'i waith yn y llall trwy ei ethol yn Gadeirydd. Deil y swydd hono yn awr. Cyflawna ei holl waith mewn modd teilwng. Llawenydd i'r ardal ydyw gwybod ei fod yn bwriadu aros ynddi. Felly edrychir ymlaen at flynyddoedd eto o wasanaeth ganddo. Rhif aelodau Eglwys Bethel, ddiwedd 1923, oedd 206. Swm y ddyled £454 6s 6c.

Out TPhilip 1925 (Surfyn)



CARMEL, TANYGRISIAU.

Adeiladwyd 1862.

CARMEL, TANYGRISIAU.

CARMEL oedd yr ail eglwys i darddu o Bethania. Yr oedd rhai o'r rhanbarth hono yn aelodau y Fam-Eglwys yn fuan wedi ei ffurfiad. Deil rhai mai personau oddiyno oedd y rhan fwyaf o aelodau cyntaf Bethania. Sail eu tyb ydyw eu bod o nifer y rhai a "orfoleddent" pan bregethai y Parch. D. Griffith, Bethel, ar gae Cwmbowydd ac y derbyniwyd tri-ar-ddeg o'r newydd i aelodaeth eglwysig—yn eu plith amryw o Danygrisiau—cyn ffurfiad yr Eglwys yn Maenofferen gan y Parch. E. Davies. Ond fel y dangoswyd wrth roddi hanes cychwyniad yr Achos yn Maenofferen nid yw'r dybiaeth yn gywir. Bu rhai a drigent yn Nhanygrisiau yn cerdded oddiyno deirgwaith bob Sul, ac i'r gyfeillach a'r Cyfarfod Gweddi, am flynyddoedd, ar hyd llwybr gwlyb a garw heibio Cwmbowydd, ac ymwelai y Parch. J. Williams yn gyson a hwy yn eu cartrefi.

Yn ystod gweinidogaeth y Parch. T. Davies, dechreuwyd pregethu yn achlysurol yn eu tai, a'r cyntaf i agor drws i'r Efengyl gael ei phregethu gan Weinidogion yr Anibynwyr yn Nhanygrisiau oedd William Owen Cadwaladr, Tŷ Newydd. Wedi dechreu mwynhau cyfleusterau crefyddol gerllaw eu cartrefi, tra yr oedd y boblogaeth yn cynyddu, dechreuwyd cynal Ysgol Sabothol yn y lle yn 1833, a gwnaed hyny yn gyson yn nhŷ y gwr a enwyd. Rhifai yn y dechreuad un-ar-hugain, enwau yr oll o'r rhai sydd ar gael. Wele hwynt:—William Owen Cadwaladr, Tŷ Newydd; Gwen Roberts ei wraig, Gwen, Mary a Robert, eu plant; Cadwaladr Owen a'i wraig Mary Owen, a'u plant Elizabeth, Mary, Jane a David Cadwaladr; Robert Cadwaladr, Glanyrafon Ddu, a'i wraig Gwen Ellis; Cadwaladr Roberts, Buarth Melyn; Margaret Roberts, Glanyrafon Ddu, a Jane Davies, ei merch; Cadwaladr Williams, Beudy Mawr, a Margaret Roberts, ei wraig; H. S. Parry (neu Harri Shon Parri, o'r Hen Danygrisiau; a'i fab

Richard Parry, Pantyfriog; a John Roberts, Glanyrafon Ddu. Cafwyd yn eu plith athrawon cymwys, ac ar fyrder cynyddodd yr ysgol mewn rhif ac aeth yn ddylanwad yn y cylch. Ai rhai yn perthyn i enwadau eraill iddi yn gyson, oblegid nid oedd ysgol arall yn y cwr hwnw—y cwr isaf. Yn Ty'nddol y cynhelid Ysgol Sabothol y Methodistiaid Calfinaidd yr adeg hono. Llwyddodd Ysgol y Tŷ Newydd dan arolygiaeth gwr y tŷ—William Cadwaladr Owen—fel yr aeth y lle yn rhy gyfyng iddi. Yn 1835 symudwyd i'r Tŷ Pella yn Hen Danygrisiau—ty Cadwaladr Owen, brawd gwr Tŷ Newydd, ac yno bu am tua blwyddyn. Cynyddodd i fesur a'i gwnaeth yn rheidiol iddi yn 1836 geisio lle helaethach ac fe'i cafwyd dan yr unto â thy Margiad Andro, priod William Cadwaladr, Hen Danygrisiau. Yr Arolygwr ar y pryd oedd Cadwaladr Roberts, Buarth Melyn; ac arweinid y gân gan H. S. Parry, vr hwn a wnaeth wasanaeth da ynglyn a'r rhan hono o waith y cysegr. Yr adeg hono chwanegwyd at yr Ysgol rai gafwyd yn ddefnyddiol a blaenllaw gyda'r Achos am flynyddoedd lawer, sef:—Richard Roberts, mab Cadwaladr Roberts, Buarth Melyn; dau o feibion Cadwaladr Williams, Beudy Mawr, sef Robert Cadwaladr Williams, Y Doppog; a William Cadwaladr Williams—yn ddiweddarach New Market Square; William Hughes a Richard Roberts, a letyent yn nhŷ Cadwaladr Owen; a Robert Williams, Llechwedd Isaf, ger Conwy. Magesid ef gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ond pan briododd ef Laura, merch William Cadwaladr, daeth i fyw yn Nhanygrisiau, ac ymaelododd yn Bethania, a bu yn weithiwr diwyd gyda'r Ysgol Sul. Felly hefyd y bu Richard Lloyd a'i deulu wedi eu dyfodiad i'r ardal.

Erbyn hyn cynhelid dau wasanaeth yn gyson—Pregeth neu Gyfarfod Gweddi ac Ysgol; aent i Bethania i un gwasanaeth. Cyn bo hir, fodd bynag, barnasant y dylid ffurfio Eglwys yn y rhan hono, a symudwyd yr Ysgol Sul o'r Hen Danygrisiau i'r Wrysgan Fawr, i dŷ Richard Lloyd, ac yn 1838

1838 ffurfiwyd Eglwys o bedwar-ar-ddeg oeddynt yn aelodau yn Bethania. Wele eu henwau :—Cadwaladr Roberts, Buarth Melyn ; Catherine Roberts, ei wraig ; Cadwaladr Williams, Beudy Mawr ; Margaret Roberts, ei wraig ; Robert Williams, Hen Danygrisiau ; Laura Williams, ei wraig ; Richard Lloyd, Wrysgan Fawr ; Anne Lloyd, ei wraig ; Margaret Roberts, Glanyrafon Ddu ; John Roberts, Glanyrafon Ddu ; Margaret Williams, Ty'nddol ; Catherine Owen, Penycefn ; Isaac Edwards, Talywaenydd ; a David Williams, Ty'nddol.

Bu i'r Parch. T. Davies ran flaenllaw yn ffurfiad yr Eglwys, ac ni phallodd ei ffyddlondeb iddi. Ar gyfrif y ffaith mai trwy weinidogaeth y Parch. D. Griffith, Bethel, yr argyhoeddwyd llawer o honynt (pan, wedi iddo bregethu ar gae Cwmbowydd, yr arhosodd pedwar-ar-ddeg yn y Gyfeillach) gwahoddwyd ef i bregethu ddydd ffurfiad yr Eglwys ac i weinyddu'r Ordinhad o Swper yr Arglwydd, a chafwyd gwasanaeth a hir gofiwyd ganddynt. Cynhelid Cyfarfodydd Gweddi mewn amryw dai-anedd. Mynych y gelwid am danynt, a buont yn foddion i feithrin brawdgarwch ac yspryd crefyddol yn y cartrefi. Nodwyd eisoes y ffaith y byddai pobl ieuainc Bethania yn cynal cyfarfodydd gweddio yn y "corlanau," a bod y cyfarfodydd hyny wedi bod yn dra bendithiol i'r Eglwys. Digwyddodd peth tebyg yn Nhanygrisiau. Mewn hên gorlan ar lechwedd y Moelwyn yr hon elwid "Y Cwt Goch," ar yr hon y dodasid tô, cynhelid Cyfarfodydd Gweddio a Chyfeillachau bob yn ail gan saith o fechgyn ieuanc Eglwys y Wrysgan Fawr, a chyda hwynt un oedd ychydig yn hynach, i'w harwain, Robert Williams, Hen Danygrisiau. Cyfarfyddent yno gyda chysondeb rhyfeddol ac yn y man cafwyd diwygiad crefyddol grymus yn a thrwy yr holl ardal, ac aeth "bechgyn y Cwt Coch" o'r lle neillduedig hwnw i gymeryd rhan gyhoeddus yn nghyfarfodydd yr Eglwys yn Wrysgan Fawr. Nid gwiw gwarafun lle i'w henwau yn llyfr cronicl Eglwys Carmel. Fel hyn

y maent:—William C. Williams a Robert C. Williams, Beudy Mawr; Richard Roberts a Robert Roberts, Buarth Melyn; Owen Parry a Henry Parry, Pantyfriog; a David Cadwaladr Owen, Doppog. Cyn bo hir symudodd Richard Lloyd o'r Wrysgan Fawr i Bantycelyn, a'r un pryd symudodd yr Eglwys i w dŷ yno, ac arhosodd yno hyd oni symudodd i'r Capel Newydd, Bethsaida. Erys muriau hwnw yn ffurf muriau tai anedd a safant yr ochr uchaf i ffordd haiarn rheilffordd y Duffws a Phorthmadog. Rhyfedd yn ein golwg ni yw fod Capel wedi ei adeiladu yn y fath le, ond rhaid dal mewn cof nad oedd y brif-ffordd o'r Rhiw i Danygrisiau wedi ei gwneud y pryd hyny ac mai ar hyd y ffordd haiarn yn unig y gallai pobl Tanygrisiau ddyfod i'r Blaenau ac i chwarelau y Rhiw, Holland, Gloddfa Ganol a'r Llechwedd. Hyny sydd yn cyfrif am mai yr ochr uchaf i'r rheilffordd (ond ychydig yn is i lawr na Bethsaida) yr adeiladodd y Methodistiaid gapel tua r un adeg. Rhoddes penderfyniad yr Eglwys i adeiladu capel gyfle i'r aelodau ei gwasanaethu mewn modd na chawsent gyfle yn flaenorol—trwy lafur corph er mwyn yr Achos Goreu. Ymroisant i baratoi lle oedd yn anwastad a chreigiog iawn, i godi ceryg &c., ac ni raid i un ond edrych ar yr adeiladau fel y maent heddyw i weled fod yn rhaid wrth geryg lawer iawn, am fod yn ofynol gwneud gwrthglawdd cryf cyn dechreu codi muriau'r capel. Bu hyn nid yn unig yn arbediad traul sylweddol i'r Eglwys ond hefyd yn gyfle i feithrin yspryd gweithgar, ffyddlon a hunanymwadol yn yr aelodau. Er hyny aeth y draul i adeiladu yn £400. Golygai y swm yna faich trwm ar yr ychydig bersonau gyfansoddent yr Eglwys y pryd hyny ac yr oedd cyflogau chwarelwyr yn isel iawn yn y dyddiau hyny. Fodd bynag, buont yn galonog iawn. Benthyciasant £200 ar log o bum' punt y cant gan Mr. Cadwaladr Williams, Y Pistyll, Dolwyddelen, a'r gweddill gan Glwb Conglywal (fel y gelwid Cymdeithas Adeiladu oedd y pryd hyny). Rhoddasant eu bryd ar dalu'r ddyled, ac nid yn hir y

buwyd heb ad-dalu y £200 i Cadwaladr Williams, Dolwyddelen. Gan fod ei briod yn cyfrif fod yr arian mewn lle diogel a llog da arnynt yn cael ei dalu "i'r diwrniod," gwell fuasai ganddi pe gadawsid yr arian lle yr oeddynt yn hwy. Yn ddiweddarach adeiladodd Robert Roberts, mab Cadwaladr Roberts, dŷ yn nhalcen y capel, ac yn y man prynwyd ef gan yr Eglwys yn dŷ i'r gweinidog. I ddychwelyd at y Capel newydd—y cyntaf i bregethu yno oedd William Edwards, Penrhos, yr hwn a ddechreuasai bregethu yn Bethania, ac ar y pryd yr oedd ef gartref a gwnaeth wasanaeth da i'r Eglwys yn Nhanygrisiau. Felly y bu i Bethania a Llan Ffestiniog fel y dywedwyd o'r blaen. Nid oedd y pwlpud wedi ei orphen; ac, am y tro, mainc saer a atebodd diben pwlpud. Ei destun oedd Ezeciel xviii. 31. Cyfnod y dadleuon duwinyddol oedd y cyfnod hwnw, a chyfrifid Mr. Edwards yn un o wyr y "system newydd." Ar gyfrif y ffaith ei fod yn traddodi y bregeth gyntaf yn y Capel ac yn dal y "system newydd," cymerid diddordeb eithriadol yn y gwasanaeth. Tra yr oedd y pregethwr yn egluro'r gwirionedd sydd yn yr ymadrodd "Gwnewch i chwi galon newydd ac yspryd newydd," gwaeddodd hen chwaer o enwad arall—un o "geidwaid y ffydd":—"Peidwch a gwrando arno fo, bobl. Pe cai o wneud calonau i ni, calon gareg fasai hi, achos *stone-cutter* ydi o a'i deulu," ac allan yr aeth yn ei gwylltineb. Ond yr oedd Mr. Edwards yn hunanfeddianol, a chwblhaodd y gwasanaeth mewn modd teilwng o'r amgylchiad ac o'r Efengyl. Cyn diwedd 1839 cafwyd cyfarfod pregethu i agor y capel yn ffurfiol; cymerwyd rhan ynddo gan y Parchn. Robert Ellis, Rhoslan; W. Ambrose, Porthmadog; a John Williams, Llansilin (Bethania, cyn hyny). Gwnaed hir goffa am y cyfarfod yma, ar gyfrif yr arddeliad fu ar bregethiad y gair, oblegid arhosodd cynifer a phymtheg yn y gyfeillach. Bu hyn (a'r diwygiad crefyddol oedd y pryd hyny) yn foddion i gryfhau yn mhob modd yr Eglwys ieuanc yn ei chapel newydd—Bethsaida. Daeth y Parch. J.

Williams, Llansilin, i'r cyfarfod, ar gyfrif y cysylltiad fuasai rhyngddo a Bethania ac â'r cyfeillion yn Nhanygrisiau, oblegid efe yn gyntaf fu'n braenaru'r tir yno, ac yn offeryn i baratoi rhai i ddal pwys a gwres y dydd gyda'r gwaith goreu yn y rhan yma o'r ardal. Gellir bwrw mai amgylchiadau a'i gwnaeth yn anmhosibl i r Parch. T. Davies, cyn-weinidog, fod yn bresenol, gan ei fod yn ef yn fawr iawn ei barch yno ar gyfrif ei ffyddlondeb mawr a'i ymdrechion egniol ymhlaid y gwaith da yno a thrwy yr holl ardal. Dylasid fod wedi dywedyd mai dau ddiacon a wasanaethent yr Eglwys pan aeth i'r capel newydd, sef Cadwaladr Roberts, Buarth Melyn, a Richard Lloyd, Wrysgan Fawr. Dywedir fod y cyntaf yn ddiacon yn Bethania cyn ffurfiad yr Eglwys yn Nhanygrisiau, ond ni ddengys cofnodion Bethania ei fod; a dywedir fod yr olaf yn ddiacon yn Llan Ffestiniog, ond nid oes dim i brofi ei fod. Boed hyny fel y bo; buont yn ddoeth a zelog yn cyflawni gwaith y swydd yn Wrysgan Fawr.

Yn fuan wedi symud i'r Capel newydd teimlwyd nad oedd Caniadaeth y Cysegr yn foddhaol, a barnwyd mai yr hyn oedd raid ei wneud oedd dewis Arweinydd arall. Aeth Cadwaladr Roberts yn unswydd i Ddolwyddelen i geisio gan Richard Roberts, i crydd wrth ei alwedigaeth, ddyfod i Danygrisiau i fyw fel y gallai ymaelodi yn Bethsaida ac arwain y gân yno. Addawodd y deuai ar amodau fod sicrwydd iddo am dy ynghyda a gwaith Crydd. Cafwyd ty iddo yn Wrysgan Fawr ac ymrwymodd Cadwaladr Roberts i sicrhau iddo ddigon o waith. Gan mor awyddus oeddynt i'w gael i'w plith aeth y plant yn llu mawr dros Fwlch Gorddinen i gyfarfod y llwyth mud. Y Sul cyntaf wedi ei ddyfodiad ymaflodd y gwr yn ei waith yn hollol ddirodes a chan ei fod yn lleisiwr da ac yn medru darllen cerddoriaeth ac yn ymroddedig i ganiadaeth y Cysegr (oblegid nid oedd a wnelai â chanu mewn cystadleuaeth nac mewn Cyngerdd) cododd safon y canu yn Bethsaida i safle gyfrifid yn uchel iawn yr adeg hono, a bu yn ffyddlon iawn am flynyddoedd

lawer. Yr adeg yma nid oedd gweinidog yn Bethania, ond ceid yn Bethsaida weinidogaeth ragorol cewri y dyddiau hyny. Ai y Parch. E. Davies, Trawsfynydd, yno yn gyson i weinyddu yr Ordinhad, ac yn lled fynych pregethai y Parch. D. Griffith, Bethel, iddynt, gan letya bob amser yn Buarth Melyn. Yr oedd amryw deuluoedd yn rhagori yn y gras o letygarwch a'u profiad oedd ddarfod iddynt felly "letya angelion yn ddiarwybod."

Sefydlwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol yn 1840. I'r cyntaf gwahoddasid tri gweinidog, ond un o honynt allodd ddyfod—y Parch. W. Williams (Caledfryn), Llanrwst. Y flwyddyn ddilynol dewiswyd yn ddiaconiaid William Morris, Rhiwbryfdir (yr hwn yn fuan a symudodd i Ddolwyddelen), ac Owen Williams, Ty'nllwyn. Yn 1843 chwanegwyd atynt John Jones, Saer, a William Griffith, yr Aelgoch (y rhai yn mhen rhyw dair blynedd aethant i'r Unol Dalaethau) a John Hughes, Ty'nypistyll, yr hwn yn y man, trwy ryw gamymddygiad, a ddygodd ei gysylltiad a'r Eglwys i ben.

Wedi i'r Fam Eglwys (Bethania) roddi galwad i'r Parch. R. Fairclough (ac iddo yntau ymsefydlu yno yn Mai 1843) ceisiwyd ganddo a chytunodd yntau i ofalu am Eglwys Bethsaida hefyd. Ni pharhaodd i wneud hyny ond am amser byr—tua blwyddyn, obblegid bu rhyw anghyd-ddealltwriaeth a roddes derfyn ar y cysylltiad.

Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarterol Meirion yn Bethsaida Awst 17, 1843, a buwyd yn trafod achos Saron, Llan Ffestiniog, yr hwn oedd mewn cyfyngder o herwydd y ddyled drom yr oedd ynddi. Ofnent golli'r Capel ac yr ai ymdrechion ac aberth eu tadau yn ofer. Ceisiwyd eu cysuro a'u cymorth.

Yn fuan wedi i Mr. Fairclough beidio a bod yn Weinidog Bethsaida, ymunodd hi a Saron i roddi galwad i Mr. Cadwaladr Jones, yr hwn oedd yn Ngholeg y Bala, ac ordeiniwyd ef Rhagfyr 11 a 12,

1844. Yn y cyfarfodydd gwasanaethodd y Parchn. T. Edwards, Ebenezer; E. Evans, Maentwrog; W. Ambrose, Porthmadog; M. D. Jones, Bala; E. Davies, Trawsfynydd; R. Ellis, Rhoslan; a Cadwaladr Jones, Dolgellau. Byr fu ei arhosiad. Yr oedd yn ddiffygiol mewn brwdfrydedd cydweddol ag anianawd yr Eglwys yn Bethsaida. Heblaw hyny, cyfrifent ei fod yn ddiffygiol fel bugail. Anhawdd cysoni hyn a'r ffaith ei fod yn gymeradwy gan bobl Saron; a phobl o'r un dosbarth oedd yn y ddwy Eglwys. Boed hyny fel y bo, aeth i Berea, Môn, yn Tachwedd 1847, a'r un pryd torwyd y cysylltiad rhwng Saron a Bethsaida. Yn y cyfnod hwn codwyd i bregethu un o blant yr Eglwys—David Cadwaladr Owen, mab i Cadwaladr Owen, Hen Dŷ. Ceir ei enw ymhlith enwau y rhai oedd yn ffurfio yr Ysgol Sabothol gyntaf yn y Tŷ Newydd. Yr oedd yn ddyn ieuanc eithriadol o dalentog, a daliodd ar gyfleusterau i gael addysg i'w gymhwyso i waith y Weinidogaeth. Fodd bynag, penderfynodd ei fam weddw a'i frodyr ymfudo i'r Unol Dalaethau a phenderfynodd yntau fyn'd gyda hwynt. Bu yn llwyddianus fel Gweinidog am lawer o flynyddoedd yno.

Am gyhyd o amser a phedair-blynedd-ar-bymtheg bu Bethsaida heb Weinidog, ac nis gallai hyny lai na bod yn anfanteisiol iawn iddi, er ei bod yn ceisio ac yn cael gwasanaeth y gweinidogion mwyaf amlwg. Oblegid Cadwaladr Roberts, Buarth Melyn, ohebai drosti, ac nid gwiw oedd anfon atebiad nacaol i'w gais. Heblaw hyn, rhoddid i'r gweinidogion gydnabyddiaeth a gyfrifid y dyddiau hyny yn anrhydeddus. Ymhlith y gwyr enwog a ymwelent yn gyson a r cylch yr oedd y Parch. D. Griffith, Bethel, ffafrddyn gan bawb ac yn gyfaill mynwesol i Cadwaladr Roberts. Ryw dro anfonasai at Mr. Griffith ddau lythyr gan amgau yn y naill a'r llall *stamp* fel y caffai atebiad. Fodd bynag nis cafodd, a phallodd ei amynedd, ac ysgrifenodd lythyr chwyrn ato gan ddweyd. "Os nad oedd ganddo fel Gweinidog yr Efengyl ddigon o ofal

am eneidiau pobl Ffestiniog i ddyfod i bregethu iddynt, y dylasai fod yn ddigon gonest fel gwladwr i ddychwelyd y *stamps* iddo ef." Cafodd atebiad i hwn a'r *stamps* hefyd ynghyd ag erfyniad am faddeuant ac addewid i ddyfod i Danygrisiau y cyfle cyntaf a roddid iddo. Ceisiwyd ganddo ddyfod y Sul cyntaf oedd yn wag a ddaeth, ac yn Buarth Melyn yr arhosai. Bu y Parch. E. Davies, Trawsfynydd, yn myn'd i Bethsaida bob mis am gryn amser i Weinyddu'r Ordinhad o Swper yr Arglwydd. Cynhelid y Cwrdd Parotoad nos Sadwrn fel y gallai Mr. Davies fod yn bresenol. Y gydnabyddiaeth a roddid iddo ar y dechreu oedd pum' swllt, ond fel y gwellhaodd yr amgylchiadau cynyddodd hyd wyth swllt. Dengys hyn, a ffeithiau eraill a gofnodwyd eisoes am gysylltiad y gwr da hwn â Bethania, fel yr aberthodd i wasanaethu Eglwysi'r cylch. Haedda a hawlia ei goffadwriaeth barch mawr iawn. Cafodd Bethsaida golled drom yn 1862 trwy farwolaeth Mrs Catherine Roberts, Buarth Melyn. Pan yn myn'd i orphwys nos Sadwrn ymddangosai yn holliach. Y Parch. D. Griffith oedd i bregethu dranoeth, ac ebe hi wrth Robert Evans, Glanyrafon Ddu (sef y Parch R. Evans, Penmain). "Mae i fod yn Saboth mawr; yr wyf yn disgwyl y cawn oll ein codi i'r nefoedd yforu." Felly y bu yn llythyrenol yn ei hachos hi, oblegid am ddau ar y gloch boreu r Sul hwnw dychwelodd ei hyspryd at yr Hwn a i rhoes. Mehefin 7, 1852, oedd y dydd hwnw. Nid oedd ond saith-a-deugain oed. Merch oedd i Robert a Margaret Roberts, Tyddyn Du, Trawsfynydd. Priodwyd hi a Cadwaladr Roberts yn 1825. Ganwyd iddynt ddeudeg plentyn o'r rhai nid oes ond un yn aros, Mr. Cadwaladr Roberts, Buarthmelyn, fel y'i gelwir, er nad yw yn byw yno er's llawer o flynyddoedd bellach. Deil ef yn ffyddlon i'r Eglwys yn Ngharmel gan ddilyn yr esampl a roddwyd iddo gan ei rieni. Dylesid dweyd ddarfod i'w fam gael ei derbyn yn aelod o Eglwys Bethania yn 1831, a'i bod yn un o'r rhai ffurfiasant yr Eglwys yn Wrysgan Fawr ac ymhlith ffyddloniaid

Bethsaida, ac yn awyddus dros ben i weled y Capel yn rhydd oddiwrth ddyled. Yn Buarth Melyn, fel y dywedwyd, y lletyai y mwyafrif o'r gweinidogion a wasanaethent Eglwys Bethsaida, a mawr oedd ei gofal am eu cysur. Yn ei marwolaeth colledwyd nid ei theulu ac Eglwys Bethsaida yn unig, ond yr holl ardal hefyd. Colled i ardal ydyw marwolaeth gwraig mor ragorol â hi. Cyn hyny, dewisasid Owen Williams yn ddiacon a chyhoeddwr ac yn Ysgrifenydd yr Eglwys. Ar y pryd trigai yn Tynllwyn, yn agos i'r Capel, a byddai ei dy ef yn llety pregethwyr yn fynych. Ond yn 1853 adeiladwyd ty cysylltiedig â'r Capel gan Robert Roberts, mab Buarthmelyn. Priodod ef Miss Jane Griffitho Dremadog, Mai 21, 1853, ac aethant i fyw i'r ty hwnw. Buont yn wasanaethgar iawn trwy ofalu am y capel a rhoddi lle a chroesaw i'r gweinidogion a ddeuent i wasanaethu Eglwys Bethsaida. Y flwyddyn ddilynol llonwyd pobl Bethsaida o herwydd fod Richard Roberts (a enwyd eisoes) wedi ei ddewis yn ddiacon. Yr oedd yn wir gymwys i'r swydd, yn addfwyn a gwylaidd, a'r un pryd yn wrol a phenderfynol; yn ymaddroddwr rhwydd, a'i weddiau cyhoeddus yn nodedig o afaelgar. Ceisiwyd ganddo bregethu, ond gwrthododd yn bendant. Yn y cylch yr ystyrai ef y gallai fod yn wasanaethgar, rhagorodd mewn ffyddlondeb. Bu farw yn ddisymwth ac mewn modd brawychus trwy i ddarn o graig syrthio arno yn Chwarel y Moelwyn Mai 26, 1856. Parodd ei farwolaeth alar cyffredinol yn ac oddiallan i Eglwys Bethsaida, oblegid yr oedd ei ddylanwad da yn gryf trwy yr holl gylch.

Wedi dyfod o'r flwyddyn 1855, dewiswyd dau yn ddiaconiaid—un eto o blant yr Eglwys—sef William C. Williams, Beudy Mawr, dyn ieuanc o feddwl cryf ac yn rhagori mewn cymhwyster i'r swydd. I hyny ceir tystiolaeth yn ei wasanaeth ffyddlon yn Nhanygrisiau ac yn ddiweddarach yn Eglwys Brynbowydd, yn hanes yr hon y ceir cyfeiriadau ato. Y llall oedd John Roberts, Pantyronen, Rhiwbryfdir, yr hwn yntau a

...diswyddodd William C. Williams, A...
...y Gân, wedi cyflawni y gwaith hwnw ac arw...
Côr am ddeunaw mlynedd, a hyny yn fedrus a ...
iawn. I gymeryd ei le, dewiswyd John Jones, ...
Newydd, a bu yntau yn ffyddlon iawn am flynyddo...
lawer hyd oni ddaeth canu'r "Capel bach" (fel ...
gelwid) i gryn fri. Ymfudodd ef i'r Wladfa Gymre...
yn 1874.

Yn 1857 dechreuodd un arall o "blant yr Eglwys" ...
bregethu—Robert Evans, Glanyrafon Ddu, mab ...
Robert ac Ellen Evans, yr hon oedd ferch i Robert ...
Cadwaladr. Yn Lerpwl y ganwyd ef a bu ei rieni ...
farw tra yr oedd ef eto yn ieuanc iawn, a magwyd ef ...
yn dyner gan ei fodryb—Margaret Roberts, Glanyrafon ...
Ddu, yr hon a fu iddo megis mam ac a gyfrifid felly ...
ganddo. Gorfu iddo yn foreu iawn droi allan i ynill ...
ei fara. Ni chawsai ond ychydig fanteision addysg, ...
ond ymdrechai yn egniol i ddiwyllio ei hunan. Wedi ...
rhoddi o'r neilldu ychydig o'i ynillion, a'i ir ysgol; ...
yna wedi iddynt ddarfod dychwelai adref i weithio ...
am yspaid, ac ai yn ol drachefn i'r ysgol. Yr oedd ...
wedi rhoddi ei fryd ar fyn'd i'r weinidogaeth, ond prin ...
oedd y gefnogaeth gafodd gan yr Eglwys. Pan yn yr ...
Abermaw yn yr ysgol oedd dan ofal y Parch. James ...
Jones, cymhellodd y gwr hwnw ef i ddechreu pregethu ...
ac ysgrifenodd at yr Eglwys yn Nhanygrisiau i'w ...
hysbysu oni fyddai i'w fam-eglwys rwyddhau y ffordd ...
iddo, y gwnai yr Eglwys yn yr Abermaw. Canlyniad ...
hyn fu i Eglwys Bethsaida roddi cyfle iddo i bregethu ...
ar brawf, yr hyn a wnaeth yn y gyfeillach nos Sul ar ...
ol i'r Parch. W. Roberts, Penybontfawr, bregethu. ...
Rhoddwyd arno ef i farnu'r bregeth (yn eu lle hwy) a'i ...
farn ef oedd y gellid pregethwr o hono. Rhoddodd ...
iddo gyngor da. Testyn y "bregeth brawf" oedd ...
"Canys y sawl a arweinir gan Yspryd Duw, y rhai ...
hyny sydd blant i Dduw." Traddododd bregeth ...
danllyd yn erbyn pechodau'r oes, gan roddi gwedd ...
nacaol i'r testyn—nad oedd yr Yspryd yn arwain pobl ...
i dori'r Saboth &c. Cynghorodd Mr. Roberts ef i ...



bregethu ar y wedd gadarnhaol i'w destun. Gwnaet
felly yn y man—gan gymeryd yr un testun—er maw
foddhad i'r Eglwys. Derbyniwyd ef i Goleg y Bala
Awst 3, 1858, a threuliodd oes faith yn y Weinidogaeth,
a hyny yn dra chymeradwy.

Yn mis Medi dechreuodd Diwygiad '59 fel y'i gelwir,
a dylanwadodd yn drwm ar Bethsaida, a chlywid sain
cân a gorfoledd trwy y fro am dymor. Y pryd hyny
cymerai merched ran gyhoeddus yn y cyfeillachau a'r
cyfarfodydd gweddio,—yn eu plith Elizabeth Roberts,
chwaer y diweddar John Ellis, Utica; Elizabeth Jones,
Tai Mathew; Betsan Williams, Pantycelyn; Laura
Williams, Bronyfoel; a Catherine Owen, Tai Isaf.
Parodd y llwyddiant crefyddol cyffredinol a ddilynodd
y Diwygiad i bobl Bethsaida ymholi a oedd y llwydd-
iant yno yn gymhesur á'r llwyddiant mewn eglwysi
eraill. Penderfynasant ddechreu Ysgol Sul yn nhŷ
John Roberts, Pantyronen, Rhiwbryfdir. Dywedwyd
eisoes am dano ef ei fod yn ddiacon yn Bethsaida.
Heblaw hyny penderfynasant adeiladu capel newydd
gan fod y gynulleidfa yn wasgaredig o Danygrisiau i
Rhiwbryfdir. Erbyn hyn yr oedd ffordd wedi ei
wneyd o'r naill le i r llall. Cymerwyd tir i adeiladu
n John Edwards, Penrhos. Perthynai i Ystad
anypwll, a saif capel Caersalem arno yn awr. Pan
ei brynu tybid y byddai y safle yn ganolog i'r rhai
rigent bellaf yn mhob cyfeiriad. Ond wedi sicrhau'r
ac ymbaratoi i adeiladu, penderfynwyd adeiladu
gapel—y naill yn Nhanygrisiau a'r llall yn y
v. Cafwyd tir gan John Edwards drachefn, lle y
apel Salem, ac adeiladwyd Salem yn gyntaf gan
ethsaida yn Nhanygrisiau. Yn Mehefin 1861 yr
yd ef. I geisio tir yn Nhanygrisiau anfonwyd
yaeth at Mr. S. Holland, sef Robert Williams, Y
William C. Williams, Beudy Mawr; a Robert
illiams, Y Doppog. Rhoddodd dderbyniad
iddynt, ond ceisiai ganddynt gymeryd tir
r neilldu. Ni fynent hwy, fodd bynag, wneud
lwyddasant i gael y tir y saif capel Carmel arno.

ydles o 21 mlynedd ac oes Mr. Holland, am
h flynyddol o £1 7s 6c. Dyma'i fesuriadau 20 x
th. Gosodwyd y gareg sylfaen y Sadwrn olaf yn
1862, a phregethwyd gan y Parch. R. Thomas (Ap
nan), Bangor. Y cynllunydd oedd Mr. Thomas,
ndwr, Abertawe; a chytunwyd a Mr. George
nnay (a ddaethai o Lundain i'r ardal) i'w adeiladu.
waethaf modd bu iddo ef ffoi o'r ardal pan oedd y
waith ar ei haner, a pharodd hyny rwystr a cholled,
c oediad efo'r gwaith. Ymgymerodd Mr. Griffith
Owen, Adeiladydd, Ffestiniog, a'i orphen. Aeth y
gwaith ymlaen yn rhwydd hyd onid oeddid wedi haner
toi'r capel, pan yr ysgubwyd ymaith ran o hwnw.
Ond llwyddwyd i orphen y gwaith ar draul o £850.
Galwyd ei enw Carmel.

Rhifai aelodau eglwys Bethsaida tua cant, cyn
sefydlu eglwys yn Salem, Rhiw, ac aeth rhyw haner
cant o honynt yno. Felly y nifer a fudasant o
Bethsaida i Carmel, Ionawr 24, 1868, oedd tua haner
cant. Y dydd hwnw digwyddodd fod yno ddau
bregethwr y boreu, sef y Parchn. D. Jones, Capel
Helyg, a W. Ambrose, Porthmadog. Pregethodd y
ddau yn oedfa'r boreu, a Mr. Ambrose, yn yr hwyr
Cynhaliwyd y Cyfarfod Agoriadol yn nglyn
Cyfarfod Chwarterol Meirion Ebrill 8, 9, a 10, 186
Cymerwyd rhan ynddo gan y Parchn. — William
Trawsfynydd; — Thomas, Llanuwchllyn; Isa
Thomas, Towyn; Williams, Dinas Mawddwy; E
Corwen; Peters, Bala; M. D. Jones, Bala; ac R. F
Brithdir. Fel hyn y mae cofnod: "Mae g
obeithiol iawn ar yr Achos yn Nhanygrisiau;
capel newydd yn ei berthynas â'r Eglwys a'r Ad
ydd a Mr. Thomas, Glandwr, yn success
Symudiad nodedig o dda o du'r Eglwys oedd
o'r hen gapel y tu uchaf i'r ffordd haiarn a
adeilad yn y lle cyfleus presenol, ac ni welso
capel (heb oriel) erioed yn taro ein harchw
well. Meddyliai y gweinidogion agos o
pulpud yn rhy uchel. Gofyna brofiad helaeth
i dynu casgliad sicr felly."

t yr oedd eto yn Bethsaida, tei
gen am Weinidog, ac mewn undeb
ddasant yn niwedd 1861, alwad i'r Parch. J. Mei
s, Llanarmon (mab i'r Parch. R. Ellis, Rhoslan).
un adeg yn cadw Ysgol yn Llanuwchllyn ac yno y
chreuodd bregethu. Urddwyd ef yn Llanarmon,
lehefin 7, 1860. Rhoddes ateb cadarnhaol i'r alwad a
Rhagorai mewn gallu ac yr oedd yn bregethwr gwych,
ond yn wan o gorph. Bu farw Ebrill 2, 1862, cyn
dechreu ei waith yn Nhanygrisiau, yn chwech-ar-
hugain oed. Yn naturiol parodd hyny dristwch i'r
ddwy Eglwys yr hon fel amlygiad o'u theimladau
caredig ato ac o'u chydymdeimlad â'i rieni a ddygodd
draul ei gladdedigaeth yn y Brithdir.

Gerllaw Twnel y Rheilffordd Gul i Borthmadog—saif Cedron. Dechreuwyd cynal mewn lle anhygyrch—saif Cedron. Dechreuwyd cynal Ysgol Sul yn nhy Lewis Parry, Yr Incline, yn 1864, dan ofal Robert Williams, Y Doppog, a John Humphreys, Glanyrafon Ddu, a pharhaodd am dair blynedd. Yna, o herwydd symudiad amryw o'r rhai a'i mynychent, bu raid am dymor byr rhoddi i fynu ei chynal. Yn y man ail-ddechreuwyd ei chynal yn nhy William Price yr hwn fu yn fawr ei ofal am dani. Arolygid hi gan Cadwaladr Roberts (Ieu.), Buarthmelyn, yr hwn gymerodd le J. Humphreys. Efe a ofalai am dani ar y cyntaf, ond aethai erbyn hyn i'r Wladfa Gymreig. Cyn bo hir bu yn rhaid rhoddi yr Ysgol i fyny eilchwyl. Pan ddaeth 1872 dechreuwyd ei chynal drachefn, a bu am lawer o flynyddoedd dan ofal William Jones, Ivy House; a Cadwaladr Roberts, Buarth Melyn. Cerdd-ent lwybr anhygyrch a garw yn gyson, bydded y tywydd deg neu ddrychinog. Yn nghorph yr amser yma cynhelid yr Ysgol mewn tai gwahanol ar wahanol adegau. Byddai gwedd lewyrchus arni pan fyddai chwarelau cylchynol yn fywiog, ond nid felly y byddai bob amser. Aed i deimlo fwyfwy angen am le addas iddi, ac yn 1871 gwnaed cais at berchen un o'r tai pylor (*powd*[illegible]*gazine*) sydd gerllaw—J. Scott Bankes,

—am dano, a chydsyniodd yntau yn garedig iddynt
ael am ardreth flynyddol o swllt. Ymgymerodd
Evan Griffith â'r gwaith o'i adgyweirio a'i addasu,
ar draul o £24 cafwyd adeilad bychan destlus.
egethwyd ynddo gan y Parch. D. Griffith, Bethel, yn
yntaf. Gellid enwi eraill fu yn ffyddlon mewn
mdrech yn mhlaid Cedron, fel y'i gelwir.

Wedi hyn ceisiodd Eglwysi Carmel a Salem
weinidog, ac ymhlith y rhai y meddyliasant am
danynt yr oedd Mr. Robert W. Griffith, Bethel (mab yr
Hybarch D. Griffith). Mae ar gael gopi o lythyr
anfonwyd ato i ofyn a dderbyniai efe alwad ffurfiol.
Ei ddyddiad ydyw Mehefin 13, 1863, ac mae wedi ei
arwyddo gan bum gwr—dau o Garmel a thri o Salem,
ond methodd Mr. Griffith gydsynio. Un o'r pethau
cyntaf a wnaed wedi symud i Garmel oedd dewis
diaconiaid gan nad oedd yn aros yn Bethsaida ar ol
ymadawiad rhai i Salem ond dau—Richard Roberts
Buarth Melyn, a William C. Williams, Beudy Maw
Dewiswyd saith:—Griffith Jones, Glyn Afon; Dav
Williams, Tai Isaf; a John Morris, Ysgoldy. Gw
rhagorol oedd y tri hyn ond ymfudodd y cyntaf
fuan i'r Unol Dalaethau ac aeth y ddau erai
Ddolwyddelen. Gwnaeth y pedwar eraill—Wil
Roberts, Pantcoch; Robert C. Williams, Dop
John Jones, Penycefn; a Robert Williams, Bronyf
waith rhagorol am lawer o flynyddoedd.

Er eu siomi yn yr ateb nacaol a roddes Mr.
Griffith i'r cais a wnelsid ato, cytunodd Ca
Salem i anfon galwad i'r Parch. William
Penybontfawr, yr hwn a'i hatebodd yn ffafr
ddechreuodd ei weinidogaeth y Sul cyntaf yn
1866. Yn niwedd mis Hydref y cynhaliwyd
i'w sefydlu, a chymerwyd rhan ynddo gan
Jones, Llanfyllin; a'r Parchn. H. Jones, Llan
D. Roberts, Caernarfon; J. Roberts, C
Evans, Penarth; J. Roberts, Llanerchym
Morris, Dyffryn Ardudwy. Gan mor gyn
ngolwg y ddwy eglwys oedd [illegible]naeth

anrhegasant ef yn y cy
r-ddrychau aur. Ar fyrder
l yn Nghwmorthin—yn nhy Mr. David
egethid yn achlysurol yn nhy Mr. Lluyddodd
ruchwyliwr chwarel Cwmorthin. Llwyddodd
mudiad hyd at wneud y tai yn rhy gyfyng, a
henderfynwyd adeiladu Ysgoldy. Trwy Mr. David
Jones cafwyd tir yn rhad gan berchenogion y chwarel,
a thrwy ei ddylanwad cafwyd gan y gweithwyr (wedi
oriau gwaith) dori rhan sylfaen a chludo'r ceryg a gwneud
ffordd ato. Hyn oll a wnaethant yn rhad ac am ddim.
Er cymaint o draul arbedwyd felly, aeth yn £100.
Rhoddasai Mr. David Jones ei fryd ar iddo gael ei agor
yn ddi-ddyled, a thrwy ymdrech William C. Williams
a David Jones (leu.), Cwmorthin, casglwyd ymhlith y
gweithwyr ac eraill £90. a chyflwynwyd £10 o drysorfa
eglwys Carmel. Felly cyflawnwyd dymuniad Mr.
David Jones, a galwyd enw'r adeilad "Tiberias." Am
gyfnod pregethid a chynhelid ysgol ynddo y boreu a'r
prydnawn, ac elid i Garmel yn yr hwyr. Bu yr achos
yn llewyrchus ar adegau, pan fyddai Chwarelau
Cwmorthin a'r Wrysgan a'r Conglog ar lawn waith;
ond pan y pallai gwaith yn y lleoedd hyny, ac y
symudai pobl o'r ardal byddai yn rhaid wrth gymorth
brodyr o Garmel ac fe'i cafwyd yn gyson dros dymor
hir.

Pan ddaeth Tachwedd 4, 1867, cofrestrwyd Capel Carmel i weinyddu priodasau ynddo—a'r gyntaf fu yno oedd priodas Cadwaladr Roberts, Penygroes (Buarth Melyn y pryd hyny), a Margaret Edwards, Maentwrog. Yn ôl y ddefod anrhegodd yr Eglwys hwynt a Beibl hardd.

Dan weinidogaeth Mr. Roberts cynyddodd yr Eglwys a'r gynulleidfa i fesur a alwodd am helaethu'r Capel, yr hyn a wnaed trwy osod ynddo oriel ar draul o £660. Gwnaeth hyn Carmel yn un o gapelau harddaf y fro a mwyaf cysurus. Tra y gwneid y gwaith yma, cawsant garedigrwydd gan Eglwys M.C., Bethel trwy roddi o honi at eu gwasanaeth eu hen gapel hi. Cynhaliwyd

d i ail-agor Carmel y Sul olaf yn Medi 1870, a
thwyd gan y Parchn. R. Thomas (Ap Vychan),
r; J. Rowlands, Rhos; D. Griffith, Porthdinor-
D. Roberts, Caernarfon.

aid yma enwi dau a godwyd i bregethu yr adeg
: Elias Morris oedd un o honynt. Ni chawsai ond
ydig ddiwylliant a chyffredin oedd ei allu. Ond
nhellid gan ei ddiddordeb yn y gwaith da i ymroddi
reu y gallai. Symudodd i Benrhiwddolion, Dol-
yddelen, a pharhaodd am flynyddoedd i wasanaethu'r
glwysi alwent am dano. Cyfunai'r alwedigaeth
regethwrol a gwaith y chwarel a thrin tyddyn, ac yn
ei ddiniweidrwydd arferai ddywedyd fod ganddo
"dair ffrwd at ei gynhaliaeth—pregethu, chwarelydda,
a ffarmio." Er hyn, credwn ei fod yn onest a chywir
ei amcan.

John Hughes, Ysgoldy, oedd y llall. Codasid ef yn
Bethsaida a daethai ei wraig i gadw Ysgol yn Nhany-
grisiau, yn cael ei chynorthwyo yn ei gwaith ganddo
ef am yspaid. Nid oedd yr hyn a ddygai yr Ysgol i'r
drysorfa yn ddigon i'w cynal a cheisiodd a chafod
ef waith pwyso yn y chwarel. Ai i bregethu bob cyfle
roddid iddo, ond nid oedd y galwadau am ei wasanae
amled ag y dymunai oddiwrth yr Eglwysi o amgyl
ac nis gallai fynd yn mhell a dychwelyd mewn p
at ei waith boreu Llun. Oherwydd hyn ymadaw
â'r chwarel gan ymroi i bregethu. Disgwyliai
alwad gan ryw Eglwys, oblegid cyfrifa ei hu
weinidog am fod Mr. Roberts wedi galw arno un
i weinyddu yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd.
dyb ef yr oedd hyny yn gyfystyr â i urddo,
ganddo (yn ei eiriau ef ei hun "hawl i wisgo *tie* g
Ychydig, fodd bynag, oedd y galwadau am ei
aeth. Yna gwnaeth bregeth faith ar "Yr
Sabothol" ac wedi ei thraddodi mewn amryw
argraphodd rai miloedd o gopiau o honi, ac a
a thraw trwy'r wlad i'w gwerthu am chwe c
copi, a dywedir iddo werthu dros bedair mil
Er ei fod yn ddyn o gymeriad da ac yn rha

Elias Morris, prin oedd
man ymfudodd i'r Unol Dalaeth
hyddoedd yn ol.

fuan wedi ail-agoriad Carmel, rhoddodd
i fyny ofal Eglwys Salem gan gyfyngu ei lafur
rts i fyny ofal Eglwys Salem gan gyfyngu ei lafur
n allan i Garmel. Gyda threiglad amser cododd
awsterau a wnaeth lwyddiant yr Eglwys yn llai
g a fuasai hyd hyny, trwy ymfudiad amryw o'r
lodau mwyaf gweithgar a theuluoedd cyfain ymfudo
r Unol Dalaethau. Teimlai yr Eglwys anhawster i
gynal y weinidogaeth fel y gwnaethai cyn hyny.
Ymadawodd Mr. Roberts gan ddychwelyd i Benybont-
fawr. Ni pheidiasai a dal Penyceunant—fferm o gryn
fantioli—ac arhosai rhai aelodau o'i deulu yno ar hyd
y blynyddoedd y bu ef yn weinidog Carmel, fel yr erys
rhai o honynt hyd heddyw. Bu llwyddiant ar ei waith
yn Nhanygrisiau. Cynyddodd yr Eglwys mewn
rhifedi—o haner cant pan ffurfiwyd Salem i gant a
phedwar ugain pan ymadawodd ef. Bu yn gymorth
da iddynt pan adeiladwyd ysgoldy yn Nghapel Carmel, ac
ac y gwnaed y cyfnewidiadau yn Nghapel Carmel, ac
erys perarogl ei enw hyd y dydd hwn ar gyfrif cryfder
ei gymeriad a'i wasanaeth ffyddlon i'r Arglwydd.

Yn ystod ei weinidogaeth codwyd i bregethu un
arall o blant yr Eglwys, sef Morris O. Evans, Ty'nddol,
mab Owen a Jane Evans. Gan Mr. Roberts y
derbynasid ef i aelodaeth eglwysig. Buasai yn ddefn-
yddiol ynddi ynglyn â'r *Band of Hope*, fel cyfeilydd ac
ysgrifenydd yr Ysgol Sul. Eisoes yr oedd wedi myn'd
trwy arholiad y drydedd flwyddyn fel disgybl-athraw
yn yr Ysgol Elfenol. Traddododd ei bregeth gyntaf
yn y Gyfeillach Chwefror 18, 1873, ar Luc xvi. 22—3.
Rhoddodd Mr. Roberts anogaeth gref iddo i fyn'd
rhagddo, a phregethodd drachefn nos Sul, Mawrth 9,
pryd y codwyd ef gan yr Eglwys yn bregethwr rheol-
aidd. Aeth i Goleg y Bala yn Mawrth 1874 ac
anrhegwyd ef a £6 10s 1c gan ei fam Eglwys. Rhodd-
wyd ef yn ebrwydd yn nosbarth yr ail flwyddyn yno,
ac yn Chwefror 1878 dechreuodd ei weinidogaeth yn

uw. Wedi hyny bu yn Mangor ac yn Ngwrecsam
diyno aeth i'r Unol Dalaethau.
gwyddiad diddorol ag y mae yn rhaid ei gofnodi
Hartod i'r Eglwys yn 1874 ddewis yn Arweinydd y
Mr. Cadwaladr Roberts, Aelgoch (pryd hyny) yn
William Jones, Tŷ Newydd, a ymfudodd i'r Wladfa
ymreig. Cyn ymadael anogodd ef yr Eglwys i
dewis Cadwaladr Roberts yn olynydd iddo. Cryn
oeth i ddyn ieuanc oedd cymeryd lle gwr o brofiad a
safle William Jones, yr hwn a wnaethai lawer iawn
tuag at ddyrchafu Caniadaeth y Cysegr yn yr ardal.
Profwyd yn fuan iawn ei fod wedi iawn gyfarwyddo'r
Eglwys oblegid gwasanaethodd Mr. Roberts yn dra
rhagorol am lawer o flynyddoedd. Dan ei arweiniad ef
daeth Cor y Moelwyn yn adnabyddus ac yn enwog
drwy'r holl wlad. Dewiswyd Owen T. Roberts, yn Is-
Arweinydd, a bu yn gymorth effeithiol hyd oni
ymfudodd i'r Unol Dalaethau. I gymeryd ei
dewiswyd William S. Roberts, brawd i'r Arweinydd
ond aeth yntau oddicartref yn lled fuan, a dewiswyd
brawd arall iddo, Robert C. Roberts (Eos Moelwyn)
swydd. Gafaelodd afiechyd blin yndo ef a distawodd
ei gân beraidd pryd nad oedd 32 mlwydd oed.
o'r telynau a dorwyd yn gynar" oedd ef. Dychwel
ei frawd W. S. Roberts adref i ail-afael yn y gwaith
Nid gwiw gadael heb ei gofnodi wasanaeth un
fu yn gaffaeliad gwerthfawr i ganiadaeth y Cy
Mrs Cadwaladr Roberts. Daeth i'r ardal o C
fod yn brif-athrawes Ysgol y Bwrdd (Adran
od) yn Nhanygrisiau. Miss Williams oedd
hyny. Nid cynt y cyflwynodd ei llythyr a
Eglwys Carmel nag y'i cafwyd yn gwas
ddyfal fel Athrawes yn yr Ysgol Sul. Ga
gerddores wych, bu ei dyfodiad yn fante
canu yn Ngharmel. Yn 1885 ymunodd
briodas a Mr. C Roberts, ac anrheg
anerchiad goreuedig gan yr Eglwys y
fynegi ei theimladau caredig tuag a
fawrogiad o'u gwasanaeth. Ymgys
i wasanaeth yr Arglwydd tra buont b

fuan wedi ymadawiad
y ty sydd yn gysylltiedig
pris a'r adgyweiriadau a wn
dd y pris a'r adgyweiriadau a wn
o £161. Bwriedid iddo fod ac y mae yn
twr am y Capel, ac felly yn gyfleus iawn.

In

n gynar yn 1875 rhoddwyd galwad i'r Parch. Ll.
yniog Roberts, Morfa Bychan a'r Borth, a'r hon y
dsyniodd. Dechreuodd ei weinidogaeth Gorphenaf
lfed, a chynhaliwyd cyfarfod ei sefydliad Medi 7, 1875.
Cymerwyd rhan yno gan y Parchn. J. Alun Roberts,
Salem; Pryce Howell, Jerusalem; R. Thomas,
Bethania; Z. Mather, Bethel; T. Morris, Dowlais; E.
Evans, Penrhyndeudraeth; a Samuel Owen, Tany-
grisiau. Dechreuodd Mr. Roberts ei waith mewn
amgylchiadau tra dymunol, oblegid yr oedd yr Eglwys
yn weithgar a'r achos felly yn llewyrchus—yn fwy
felly nag oedd pan ddaeth ei ragflaenwyr i ofalu am
dano. Ar y pryd yr oedd cylch gweinidogaethol yr
ardal yn llawn—gweinidog yn mhob un o'r pum
Eglwys Annibynol, a dechreuwyd "newid pwlpudau"
(gydag eithrio tymhorau y byddai amryw o'r Eglwysi
heb weinidog sefydlog).

Gorphenaf 27, 1878, bu farw yr hynaf o aelodau'r
Eglwys, Margaret Roberts, Glanyrafon Ddu, a hi yn
90 mlwydd oed. Ganddi hi y magesid y Parch. R.
Evans (Penmain), ac yr oedd yn un o'r rhai a ymadaw-
sant o Bethania i ffurfio Eglwys yn Nhanygrisiau ac ni
phallodd mewn ffyddlondeb ar hyd y blynyddoedd
a dreuliodd yno. Wedi gweled "dydd y pethau
bychain" yno cafodd yr hyfrydwch o wel'd yr Achos
yn dra llewyrchus ei wedd.

Yn 1879 adeiladwyd ty i'r gweinidog, ar dir uwchben
craig, yr ochr uchaf i'r rheilffordd gul a chyferbyn a
chapel Carmel. Fe'i cafwyd gan Gwmni Chwarel
Cwmorthin ar brydles o 99 mlynedd am ardreth
flynyddol o £1 5s. Dengys y weithred, dyddiedig
Rhagfyr 25, 187 , yn mesur 930 llathen betryal.

fod y safle yn mhell o fod yn ddymunol yn nghyfrif
ychydig o'r aelodau, ac yn anghyfleus hefyd, nid
d unfrydedd i'w gymeryd ond rhoddodd y lleiafrif
rdd i'r mwyafrif. Codwyd y tŷ ar daul o £464 3s 7c.
enw ydyw *Gorphwysfa* a i drigianydd cyntaf oedd y
arch. Ll. B. Roberts. Cytunir yn gyffredinol erbyn
yn nad o ddoethineb yr adeiladwyd ty yn y lle
nwnw.

Derbyniodd Mr Roberts, tra yn weinidog Carmel,
148 yn aelodau (o newydd); adferwyd 47; a bedydd-
iwyd 186 o blant; tra y bu farw 38 o aelodau. Dengys
y ffigyrau hyn na fu ef yn segur na diffrwyth yn
ngwinllan ei Arglwydd. Ar gyfrif ei waith a'i
addfwynder a'i hynawsedd a'i garedigrwydd, mawr
hoffid ef. Cynyddasai rhif aelodau yr Eglwys o 140 i
243 yn ystod ei weinidogaeth o wyth mlynedd ac
wythnos hapus iawn; a mawr oedd y gofid pa
hysbysodd ei fwriad i gydsynio â galwad a gawsai
Bendref, Caernarfon. Traddododd ei bregeth
ymadawol y Sul olaf yn Chwefror 1884, a'r nos Faw
dilynol cynhaliwyd cyfarfod i ganu'n iach i
Llywyddwyd gan y Parch. P. Howell, a siaradwyd
gan William C. Williams, R. C. Williams, Wil
Roberts (diaconiaid), a'r Parchn. T. R. Davies, Sa
William Williams, Maentwrog; a Samuel
Tanygrisiau. Cyflwynwyd iddo anerchiad
ynghyd ag arian; a Beibl i'r naill a'r llall o'i e
bychain. Ymadawodd gyda dymuniadau
Eglwys a'r holl ardal.

Yn 1886 rhoddwyd galwad i Mr. E. Celynydd
Penycoed, Maldwyn, a derbyniwyd hi
Dechreuodd yn dda, ac yr oedd yn gymerad
gan adran gref o'r Eglwys, a'r flwyddyn
rhoddwyd £6 yn anrheg iddo. Ar fyrder bu
iadau (a barhasant flinder mawr) na ddeu
ddal arnynt, a thorwyd ei gysylltiad ef â'r
1889. Yr un flwyddyn adgyweiriwyd
Gosodwyd ynddo bwlpud newydd a sèt
newydd, ac adeiladwyd Ysgoldy sydd y

el. Gwnaed yr holl waith
nol gan Mr. Evan Griffith yr hwn a
hwys â chadair hardd. £438 oedd y
dwyd yr hên bwlpud i Eglwys Penystryd.
wiswyd yn ymddiriedolwyr Mehefin 26 Owen
ns (New Terrace), Evan Griffith, David Jones,
ffith Jones, Cadwaladr Roberts (Penygroes),
dwaladr Roberts (Bodlondeb), John R. Williams,
ichard Williams, Robert Williams, W. J. Williams,
William R. Williams, Robert O. Jones a William C.
Williams (leu.) Dengys y rhestr fod Carmel yn ddigon
cryf i ddewis ymddiriedolwyr y tro hwn o blith
aelodau'r Eglwys.

Y flwyddyn ddilynol (1890) chwanegwyd at nifer y diaconiaid:—Owen Evans, New Terrace; Evan Griffith, Meirion House; William J. Williams, Tynycefn; John R. Williams, Bronyfoel; a Cadwaladr Roberts, Bodlondeb. Barnwyd yn ddoeth am resymau neillduol geisio gan y Parch. W. Pari Huws, B.D., a J. Rhydwen Parry ofalu am y pleidleisio.

Rhoddodd yr Eglwys yn 1893 alwad i'r Parch. R. P. Williams, Llandudno, ond ni chydsyniodd a'u cais. Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarterol Meirion yno Mawrth 27 a 28, 1893, ac ymhlith y rhai a bregethasant yno yr oedd un a wahoddasant i ddyfod yn Weinidog iddynt ychydig yn ddiweddarach, ac yn niwedd y flwyddyn ymadawodd y diacon hynaf—Mr. William C. Williams, Beudy Mawr—gan ei fod wedi myn'd i fyw yn Newmarket Square. Ychydig yn ddiweddarach (Ionawr 1894) cyflwynwyd iddo anerchiad goreuedig fel amlygiad o'u parch iddo ac o'u gwerthfawrogiad o'i waith cyson am 39 mlynedd. Trodd colled Carmel yn ynill i Brynbowydd.

Yn niwedd haf 1893 rhoddwyd galwyd i'r Parch. John Hughes, Dinas Mawddwy (yr hwn a gymerasai ran yn y Cyfarfod Chwarterol y cyfeirwyd ato.) Dechreuodd ei weinidogaeth y Sul cyntaf yn 1894, a chynhaliwyd y Cyfarfod Sefydlu yn mis Chwefror.

Cymerwyd rhan ynddo gan weinidogion y cylch a diaconiaid Carmel a'r Mri. Morris Evans a Morris diaconiaid Dinas Mawddwy. Ymadnewyddodd yr Eglwys dan weinidogaeth Mr. Hughes. Sefydlwyd cangen Cymdeithas Ymdrech Grefyddol y Bobl Ieuainc, a Chymdeithas Ddirwestol, a ffurfiwyd Llyfrgell a Cherddorfa—newyddbeth yn yr ardal. Yn naturiol cynyrchodd ddiddordeb neillduol ynddi. I ddangos fel y gwerthfawrogid ei lafur anrhegwyd Mr. Hughes a £10 yn niwedd 1896 ac ag £8 yn niwedd 1897. Y pryd hyn colledwyd yr Eglwys drwy farwolaeth Mr. William Roberts, Pantcoch. Rhoddwyd desgrifiad prydferth o ragoriaethau y gwr duwiol hwn gan un o boëtau lleol y dyddiau hyny. Fel hyn y mae:—

"Hen Ysgrythyrwr medrus oedd ein gwron
Ac yn y Gair yr ymddigrifai 'i galon
'Roedd hen adnodau'r Gair yn beichio'i eiriau
Fel aeddfed ffrwyth yn beichio y canghenau
Ac ambell frawddeg, weithiau, fel y Cangau
A wyrai dan y baich o aeddfed ffrwythau
Yn gruddfan dan ei baich o nef feddylhau
Ei "atal dweyd" oedd gnawd rhy wan i gario
Syniadau'r enaid mawr a dyfent ynddo."

Colled fawr iawn i Garmel oedd colli "Yr Hen Bantcoch."

Tua'r flwyddyn 1900 cyd-symudodd cryn lawer o drigolion Tanygrisiau i geisio prynu prydlesodd eu tai ac adeiladau eraill yn y rhanbarth, a phrynodd Eglwys Carmel am £60 y tir ar yr hwn y saif y capel a'r adeiladau cysylltiedig.

Yr un pryd, sefydlwyd Ysgol Sul yn Mhantycelyn—yn fwyaf neillduol ar gyfer plant llwm eu gwisg oeddynt yn Wrysgan Fawr a Tanygrisiau Terrace a'r tai gerllaw y rheilffordd. Llwyddodd hyd oni ddaeth dirwasgiad masnachol a achosodd i gryn lawer o'r tai hyny fyn'd yn anghyfanedd. Unwaith eto bu galw am chwanegu at nifer diaconiaid Carmel a gwnaed hyny Ionawr 31, 1902, pan ddewiswyd y Mri. John Jones, Holland Terrace; John C. Roberts, Gwynfryn; Evan

E. Griffith, Meirion House; a Morgan Roberts, Bryn Ystradau. Yr oedd yr olaf yn bregethwr cymeradwy a hyny cyn iddo ymaelodi yn Eglwys Carmel. Bu farw yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb.

Barnwyd yn rheidiol wneud darpariaeth ar gyfer y boblogaeth gynyddol yn Oakeley Square ac o'i ddeutu. Trigai amryw o aelodau Carmel y ffordd hono ac yr oedd masnach yn fywiog y dyddiau hyny a'r rhagolygon yn ymddangos yn addawol. Felly sefydlwyd Ysgol Sul mewn ty a elwid Tyddyn Bach yr hwn a brynwyd. Talwyd am dano £120 a gwariwyd £50 i'w wneud yn lle addas i gynal Ysgol ynddo. Yn ddiweddarach—yn 1904—adeiladwyd yno Ysgoldy cyfleus a elwir Horeb, ar draul o £480. Yn 1908 prynasant y *freehold* am £100. Gwelir fod hyn yn gwneud cyfanswm o £750. Bu llwyddiant yno am dymor byr. Heblaw cynal ysgol ynddo, pregethid yn achlysurol. Daeth gwasgfa fasnachol cyn hir ac effeithiodd yn drwm ar Horeb, ond daliwyd i ddwyn y gwaith ymlaen er gwaethaf hyny. Erbyn hyn y mae gwedd llawer sirolach ar y lle. Effeithiodd y dirwasgiad hwnw yn drymach ar Eglwys Carmel nag ar unrhyw Eglwys Anibynol arall yn y cylch. Cyfrifir am hyn gan y ffaith y peidiwyd a gweithio Chwarelau Cwmorthin a Wrysgan a'r Conglog. Achosodd hyny i lawer ymadael o Danygrisiau.

Horeb

Yn Mawrth 1908 ymadawodd Mr. Hughes mewn cydsyniad a galwad a roddwyd iddo gan Eglwys Jerusalem, a chynhaliwyd Cyfarfod Ymadawol Ebrill 23. Cyflwynwyd iddo dysteb fel arwydd o deimladau da yr Eglwys ato ef a i deulu, ac o'i gwerthfawrogiad o i waith tra y bu yn Ngharmel. Parodd ei ymadawiad deimlad siomedig—yn neillduol felly am mai i ran arall o'r ardal y symudai ac Eglwys Carmel heb fod mewn cystal sefyllfa ag y buasai cyn hyny, fel canlyniad cyflwr diwydianol yr ardal.

Out

Er colli gwasanaeth Mr. Hughes, ac er marweiddied oedd masnach, ni chollodd yr Eglwys [illegible] tanbaid

a phenderfynol sydd wedi ei nodweddu o'r dechreuad. Hydref 20, 1909, dewisodd yn ddiaconiaid Richard Jones, Penycefn; George B. Hughes, Orthinfa; a Robert R. Williams (Y Foel), Cwmorthin Road; ac yn nechreu haf 1910 rhoddodd alwad i Mr. J. Albert Morgan, Myfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin. Ordeiniwyd ef Gorphenaf 14eg. Cymharol fyr fu ei arhosiad ef, ond tra y bu yn Ngharmel gweithiodd yn egniol yn ngwyneb anfanteision lawer, gan ynill parch a chymeradwyaeth cyffredinol, ac y mae ganddo adgofion dymunol am yr amser a dreuliodd yn maes cyntaf ei weinidogaeth. Ymadawodd Medi 26, 1914, i gymeryd gofal Eglwys Ebenezer, Arfon.

Yn fuan teimlodd Carmel effeithiau y Rhyfel Mawr fel y gwnaeth holl Eglwysi'r cylch, ac yr oedd hi eisoes (fel y dywedyd) wedi profi effeithiau blin atal gweithio chwarelau a enwyd uchod. Wedi y rhyfel siriolodd ardal Tanygrisiau o herwydd fod y chwarelau *Setts* sydd yno wedi ail-ddechreu a bod y fasnach lechi wedi adfywio. Unwaith eto (yn 1918) bu galw am chwanegu at nifer y diaconiaid. Buasai farw un, R. R. Williams, o'r rhai ddewisasid ddiweddaf; ac ymadawsai dau o'r lleill o'r ardal. Un yn unig a ddewiswyd, am mai un a gafodd ddwy ran o dair o bleidleisiau yr Eglwys fel yr oedd yn ofynol i un gael y tro hwn. Yr un hwnw oedd John T. Hughes, Y Fronhyfryd. Yn mis Mai y flwyddyn ddilynol llwyddwyd i ddewis dau eraill—John J. Williams, Fronoleu, a Hugh Parry, Brynawel. Wedi bywiogi o'r fasnach lechi, rhoddodd yr Eglwys ei bryd ar gael gweinidog ac yn nechreu 1921 anfonodd alwad i'r Parch. J. Luther Thomas, Conwy, yr hwn a gydsyniodd ac a ddechreuodd ei weinidogaeth yn Nhanygrisiau, Ebrill 10, 1921. Y ddydd lau dilynol cynhaliwyd Cyfarfod ei Sefydliad. Y prydnawn rhoddwyd te croesaw er rhoddi cyfle i'r Eglwys a'r gynulleidfa a'r ymwelwyr ymgydnabyddu a Mr. a Mrs Thomas, ac yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod dan lywyddiaeth y Parch. J. Hughes, Jerusal[illegible] Yn hwnw siaradwyd

gan weinidogion y cylch a'r Parch. Evan Roberts a'r Mri. J. P. Griffiths, Conwy, a Hugh Owen, Llandudno Junction. Yn ddi-atreg ymaflodd Mr. Thomas yn ei waith gan roddi sylw neillduol i'r bobl ieuainc a'r plant ac y mae gwedd lewyrchus iawn ar gyfarfodydd y ddau ddosbarth yma ac ar yr Eglwys yn gyffredinol. Lleinw ei le ynglyn â phob gwaith da perthynol i'r enwad a'r holl ardal. Ceir tystiolaeth eglur i lwyddiant yr Eglwys a'i Gweinidog yn ei hadroddiad am 1923. Rhifai ei haelodau 195, ac y mae yno blant lawer, tra nad oes yn aros o'r ddyled ond £223.

SALEM, RHIWBRYFDIR.

PRIN yw'r ffeithiau cysylltiedig â dechreuad yr Achos yn Salem. Dywedir y cynhelid Ysgol Sul yno foreued a 1826, mewn ty elwid y Rhiwfawr, ac y byddai hên ŵr a'i enw Harri Shon Parri yn myn'd yno wrth ei ddwy-ffon i gynorthwyo, ac y peidiwyd a'i chynal pan yr analluogwyd ef gan lesgedd. Fel y bu mewn lleoedd eraill mewn amgylchiadau tebyg, felly y bu yma. Daliodd y Methodistiaid ar y cyfle i agor Ysgol. Ymddengys ddarfod i r Anibynwyr yn y man geisio ail-ddechreu yr eiddynt hwy ond iddynt fethu cael lle addas; felly ni chyflawnwyd y bwriad ar y pryd. Yr oedd un o honynt yn ddiacon ffyddlon ragorol yn Bethsaida, sef John Roberts, Pant-yr-onen, a buasai cyn hyny yn un o aelodau ffyddlonaf Bethania, i'r lle y cerddai o'r Cribau hyd oni sefydlwyd achos yn Nhanygrisiau. Croesawodd yr Ysgol i'w dŷ a elwid Pantyronen, gan gyfrif hyny yn anrhydedd iddo. Yno y bu am oddeutu dwy flynedd, hyd oni agorwyd y Capel newydd yn Mehefin (1861.) Dywedwyd eisoes am Salem mai cangen oedd o Bethsaida (Tanygrisiau), a bod yr Eglwys hono wedi bwriadu adeiladu Capel Newydd yn Afon Row—lle canolog rhwng Tanygrisiau



SALEM.

Adeiladwyd 1861.

Rhiw—ac wedi sicrhau tir i'r diben hwnw ar dele
nesymol trwy Mr. John Edwards, Penrhos (brawd i'r
Parch. William Edwards, Aberdar), goruchwyliwr yr
Ystad oedd yn cynwys y gymydogaeth hono; ond
wedi ystyriaeth fwy pwyllog, wedi barnu mai gwell
fyddai dechreu achos newydd yn Rhiwbryfdir trwy
gynal yno Ysgol Sul. Trwy Mr. John Edwards
rhyddhawyd hwy oddiwrth y rhwymedigaeth oedd
arnynt i gymeryd y tir y cytunasant i'w gymeryd, a
chafwyd tir arall. Dyddiad y brydles ydyw Mehefin
24, 1860: ei hyd ydyw 76 mlynedd; a'r ardreth
flynyddol £5. Heb oedi aed at y gwaith o adeiladu, a
bu i John Roberts (Pantyronen) ran fawr ynddo
oblegid efe a gludodd ymron yr oll o'r defnyddiau.
Bu y Mri. Morris G. Williams (tad Mr. John Vaughan
Williams, Tanymanod), yn gynorthwywyr o werth
mawr ynglyn â'r gwaith, er nad oedd y naill na'r llall
o honynt yn gyflawn aelodau. Ac nid gwiw myn'd o'r
tu arall heibio i'r ffaith fod yr Achos yn ei ddechreuad
wedi cael cefnogaeth ymarferol Mr. John Pierce
(Goruchwyliwr y Gloddfa Ganol), a Mr. Owen Hughes
(Goruchwyliwr yn Chwarel y Llechwedd). Ni
ddylid anghofio fod Goruchwylwyr y Chwarelau wedi
bod, ar hyd y blynyddoedd, yn llenwi cylchoedd
pwysig yn yr Eglwysi ac wedi gwneud gwasanaeth
gwerthfawr mewn modd anhysbys i lawer.

Gorphenwyd adeiladu ar draul o £600, a Salem
ydyw'r enw roddwyd arno. (Yn ddiweddarach
adeiladwyd ty gweinidog—gwaith yn yr hwn y
cymerodd Eglwys Bethsaida ran, gan nad oedd yno le
cyfleus i adeiladu tŷ felly). Cynhaliwyd cyfarfod agor
y capel Mehefin 23 a 24, 1861; y pregethwyr oeddynt y
Parchn. W. Edwards, Aberdar; E. Stephen (Tany-
marian), ac R. Thomas (Ap Vychan). Y nos Wener
cyn hyny, y Parch. W. Edwards yn llywyddu, ffurfiasid
yr Eglwys o 48 o rai oeddynt yn aelodau yn Bethsaida
a dau o Bethania. Yr oedd yn llywyddu, ffurfiasid
ddymunol,—yr Eglwys yn zelog ac yn awyddus i
waith. Cydweithredai a Bethsaida i [illegible]einidog-

brofodd ei fod yn wir gymwys i'r swydd, yr hon a wasanaethodd nid yn Nhanygrisiau yn unig ond, yn ddiweddarach, yn Salem, Rhiwbryfdir hefyd. Ar fyrder daeth i'r ardal un Benjamin Williams, yr hwn a wasanaethai swydd diacon yn Mangor, ac ar sail y llythyr cymeradwyaeth rhagorol a ddygai chwanegwyd ef at ddiaconiaid Bethsaida, a chafwyd ef yn ffyddlon iawn hyd oni ymfudodd i'r Unol Dalaethau. Bu digwyddiad diddorol yr adeg yma. Penderfynasid cynal Cyfarfod Pregethu ar Gorphenaf 15, 1855—y Saboth cyntaf wedi Cymanfa Sir Gaernarfon. Yr oedd y Parch. Noah Stephens, Sirhowi, wedi addaw dyfod i Danygrisiau, ac fel hyn yr ysgrifenodd Cadwaladr Roberts mewn llythyr wedi ei ddyddio Mehefin 14, 1855 :—"At y Parch. D. Griffith, Bethel. Gobeithio na fydd yn anghyfleus i chwi fod yma hefyd. Cofiwch am danaf, frawd anwyl, mae arnaf hiraeth am eich gweled bellach a'ch clywed yn dweyd am Waed y Groes fel y clywais chwi lawer gwaith o'r blaen. Dowch yma yn gynar dydd Sadwrn. Anfonwch heddyw yn ol, os medrwch." Ar gefn y llythyr hwnw mae yn ysgrifenedig :—

"Mehefin 16, 1855.

Mae'r hen Cadwaladr Roberts
Yn hynod iawn ei stwr,
Am gael cyfarfod eto
Yr ochr hyn i'r dwr,
Gan anfon am genhadau
Oddiyma ac oddidraw,
I drio dangos iddo
Fod ty ei Dad gerllaw.

Gobeithio caiff ef weled
Rhyw gyrau pell o'r wlad,
I gadw awydd ynddo
Am fynd i dy ei Dad,
I weled wyneb Iesu
A chanu am farwol glwy
Heb golli gwedd ei wyneb
I dragwyddoldeb mwy.

David Griffith, Bethel, a'i cant."

Cyn hyn, yn niwedd 1854, cymhellwyd John Cadwaladr Roberts, Buarth Melyn, i ddechreu pregethu. Dywedir iddo fod, pan yn fachgen ieuanc, yn aros yn Nhrawsfynydd gyda theulu ei fam a'i fod wedi syrthio i'r arferiad o arfer iaith anweddus wrth y cwn pan fyddai yn bugeilio defaid. Clywodd ei dad ef yn gwneyd felly wedi dyfod adref, ac wylodd yn

hidl. Erfyniodd arno ymgadw rhag gwneud felly, ac nid yn ofer yr erfyniodd, oblegid nid yn hir y bu y llanc heb gael troedigaeth drylwyr. Ymaelododd yn Bethsaida, ac yn fuan cymerodd ran gyhoeddus yn y cyfarfodydd a hyny mewn modd cymeradwy iawn. Arferai John Davies, Bwlchgwyn, ar ol ei glywed yn gweddio ddweyd ei fod yn "barod i fyn'd adref ar ol clywed John Cadwaladr Roberts yn gweddio." Cyn bo hir daeth yn gymeradwy iawn fel pregethwr a byddai galw mawr am ei wasanaeth. Rhoddodd ei fryd ar gael addysg i'w gymhwyso i'r weinidogaeth, ac mewn cyfarfod o Bwyllgor Coleg y Bala a gynhaliwyd Medi 25, 1855, derbyniwyd ef. Yn Ionawr 1856 aeth i'r Coleg, ac ymroddodd yn egniol i w waith yno. Cyfrifid fod iddo ddyfodol disglaer ac yr oedd galw mawr am ei wasanaeth. Yn lled fuan, fodd bynag, gwelwyd ynddo arwyddion o afiechyd a fyddai yn sicr o wneyd y gobeithion am ddyfodol disglaer iddo yn ofer; ac yn Llandderfel mewn cyfarfod blynyddol y traddododd ei bregeth olaf. Ei destun oedd "Pa faint gwell yw dyn na dafad." Rhoddes gwendid raid arno i adael y Coleg a dychwelyd adref, oblegid yr oedd y darfodedigaeth wedi gafael ynddo, a bu farw yn orfoleddus Chwefror 3, 1858, yn 25 mlwydd oed, er galar i'r Eglwys yn Bethsaida a chylch eang o bobl yn y wlad.

Digwyddiad diddorol yn hanes yr Eglwys tu'r adeg yma oedd prynu *harmonium*—y gyntaf yn y plwyf. William C. Williams, Beudy Mawr, arweiniai y gân er's blynyddoedd; a heblaw hyny arweinai gor a ynillasai iddo ei hun gryn enwogrwydd. Gwasanaethai mewn Cyngherddau Elusenol; ac yr oedd yn perchen offer cerdd—Bassi (neu Bass Fiol) a Clarionette, y rhai a chwareuid gan Richard Owen, Penybont ac Owen Hughes. Bwriwyd y rhai hyn ymaith pan gafwyd yr *harmonium* yr hon oedd wedi gwasanaethu yn Mhenrhyndeudraeth yn Eglwys y Plwyf. Bu yr offeryn yn effeithiol i wella'r canu i fesur helaeth. Ar



ar brydles o 21 mlynedd ac oes Mr. Holland, am ardreth flynyddol o £1 7s 6c. Dyma'i fesuriadau 20 x 11 llath. Gosodwyd y gareg sylfaen y Sadwrn olaf yn Mai 1862, a phregethwyd gan y Parch. R. Thomas (Ap Vychan), Bangor. Y cynllunydd oedd Mr. Thomas, Glandwr, Abertawe; a chytunwyd a Mr. George Nannay (a ddaethai o Lundain i'r ardal) i'w adeiladu. Gwaethaf modd bu iddo ef ffoi o'r ardal pan oedd y gwaith ar ei haner, a pharodd hyny rwystr a cholled, ac oediad efo'r gwaith. Ymgymerodd Mr. Griffith Owen, Adeiladydd, Ffestiniog, a'i orphen. Aeth y gwaith ymlaen yn rhwydd hyd onid oeddid wedi haner toi'r capel, pan yr ysgubwyd ymaith ran o hwnw. Ond llwyddwyd i orphen y gwaith ar draul o £850. Galwyd ei enw Carmel.

Rhifai aelodau eglwys Bethsaida tua cant. cyn sefydlu eglwys yn Salem, Rhiw, ac aeth rhyw haner cant o honynt yno. Felly y nifer a fudasant o Bethsaida i Carmel, Ionawr 24, 1868, oedd tua haner cant. Y dydd hwnw digwyddodd fod yno ddau bregethwr y boreu, sef y Parchn. D. Jones, Capel Helyg, a W. Ambrose, Porthmadog. Pregethodd y ddau yn oedfa'r boreu, a Mr. Ambrose, yn yr hwyr. Cynhaliwyd y Cyfarfod Agoriadol yn nglyn a Cyfarfod Chwarterol Meirion Ebrill 8, 9, a 10, 1863. Cymerwyd rhan ynddo gan y Parchn. — Williams, Trawsfynydd; — Thomas, Llanuwchllyn; Isaac Thomas, Towyn; Williams, Dinas Mawddwy; Ellis, Corwen; Peters, Bala; M. D. Jones, Bala; ac R. Ellis, Brithdir. Fel hyn y mae cofnod: "Mae golwg obeithiol iawn ar yr Achos yn Nhanygrisiau; mae'r capel newydd yn ei berthynas â'r Eglwys a'r Adeiladydd a Mr. Thomas, Glandwr, yn *success* hollol. Symudiad nodedig o dda o du'r Eglwys oedd symud o'r hen gapel y tu uchaf i'r ffordd haiarn a chodi adeilad yn y lle cyfleus presenol, ac ni welsom yr un capel (heb oriel) erioed yn taro ein harchwaeth yn well. Meddyliai y gweinidogion agos oll fod y pulpud yn rhy uchel. Gofyna brofiad helaeth o'r capel i dynu casgliad sicr felly."

Tra yr oedd eto yn Bethsaida, teimla yr Eglwys ei hangen am Weinidog, ac mewn undeb a Salem rhoddasant yn niwedd 1861, alwad i'r Parch. J. Meirion Ellis, Llanarmon (mab i'r Parch. R. Ellis, Rhoslan). Bu un adeg yn cadw Ysgol yn Llanuwchllyn ac yno y dechreuodd bregethu. Urddwyd ef yn Llanarmon, Mehefin 7, 1860. Rhoddes ateb cadarnhaol i'r alwad a bwriadai ddechreu ei weinidogaeth yn Mai 1862. Rhagorai mewn gallu ac yr oedd yn bregethwr gwych, ond yn wan o gorph. Bu farw Ebrill 2, 1862, cyn dechreu ei waith yn Nhanygrisiau, yn chwech-ar-hugain oed. Yn naturiol parodd hyny dristwch i'r ddwy Eglwys yr hon fel amlygiad o'u theimladau caredig ato ac o'u chydymdeimlad â'i rieni a ddygodd draul ei gladdedigaeth yn y Brithdir.

Gerllaw Twnel y Rheilffordd Gul i Borthmadog—mewn lle anhygyrch—saif Cedron. Dechreuwyd cynal Ysgol Sul yn nhy Lewis Parry, Yr Incline, yn 1864, dan ofal Robert Williams, Y Doppog, a John Humphreys, Glanyrafon Ddu, a pharhaodd am dair blynedd. Yna, o herwydd symudiad amryw o'r rhai a'i mynychent, bu raid am dymor byr rhoddi i fynu ei chynal. Yn y man ail-ddechreuwyd ei chynal yn nhy William Price yr hwn fu yn fawr ei ofal am dani. Arolygid hi gan Cadwaladr Roberts (Ieu.), Buarthmelyn, yr hwn gymerodd le J. Humphreys. Efe a ofalai am dani ar y cyntaf, ond aethai erbyn hyn i'r Wladfa Gymreig. Cyn bo hir bu yn rhaid rhoddi yr Ysgol i fyny eilchwyl. Pan ddaeth 1872 dechreuwyd ei chynal drachefn, a bu am lawer o flynyddoedd dan ofal William Jones, Ivy House; a Cadwaladr Roberts, Buarth Melyn. Cerdd-ent lwybr anhygyrch a garw yn gyson, bydded y tywydd deg neu ddrychinog. Yn nghorph yr amser yma cynhelid yr Ysgol mewn tai gwahanol ar wahanol adegau. Byddai gwedd lewyrchus arni pan fyddai y chwarelau cylchynol yn fywiog, ond nid felly y byddai bob amser. Aed i deimlo fwyfwy angen am le addas iddi, ac yn 1871 gwnaed cais at berchen un o'r tai pylor (*powder magazine*) sydd gerllaw—J. Scott Bankes,

Ysw.—am dano, a chydsyniodd yntau yn garedig iddynt ei gael am ardreth flynyddol o swllt. Ymgymerodd Mr. Evan Griffith â'r gwaith o'i adgyweirio a'i addasu, ac ar draul o £24 cafwyd adeilad bychan destlus. Pregethwyd ynddo gan y Parch. D. Griffith, Bethel, yn gyntaf. Gellid enwi eraill fu yn ffyddlon mewn ymdrech yn mhlaid Cedron, fel y i gelwir.

Wedi hyn ceisiodd Eglwysi Carmel a Salem weinidog, ac ymhlith y rhai y meddyliasant am danynt yr oedd Mr. Robert W. Griffith, Bethel (mab yr Hybarch D. Griffith). Mae ar gael gopi o lythyr anfonwyd ato i ofyn a dderbyniai efe alwad ffurfiol. Ei ddyddiad ydyw Mehefin 13, 1863, ac mae wedi ei arwyddo gan bum' gwr—dau o Garmel a thri o Salem, ond methodd Mr. Griffith gydsynio. Un o'r pethau cyntaf a wnaed wedi symud i Garmel oedd dewis diaconiaid gan nad oedd yn aros yn Bethsaida ar ol ymadawiad rhai i Salem ond dau—Richard Roberts, Buarth Melyn, a William C. Williams, Beudy Mawr. Dewiswyd saith:—Griffith Jones, Glyn Afon; David Williams, Tai Isaf; a John Morris, Ysgoldy. Gwyr rhagorol oedd y tri hyn ond ymfudodd y cyntaf yn fuan i'r Unol Dalaethau ac aeth y ddau eraill i Ddolwyddelen. Gwnaeth y pedwar eraill—William Roberts, Pantcoch; Robert C. Williams, Doppog; John Jones, Penycefn; a Robert Williams, Bronyfoel—waith rhagorol am lawer o flynyddoedd.

Er eu siomi yn yr ateb nacaol a roddes Mr. R. W. Griffith i'r cais a wnelsid ato, cytunodd Carmel a Salem i anfon galwad i'r Parch. William Roberts, Penybontfawr, yr hwn a'i hatebodd yn ffafriol ac a ddechreuodd ei weinidogaeth y Sul cyntaf yn Ionawr 1866. Yn niwedd mis Hydref y cynhaliwyd cyfarfod i'w sefydlu, a chymerwyd rhan ynddo gan Mr. C. R. Jones, Llanfyllin; a'r Parchn. H. Jones, Llansantffraid; D. Roberts, Caernarfon; J. Roberts, Conwy; D. Evans, Penarth; J. Roberts, Llanerchymedd; ac E. Morris, Dyffryn Ardudwy. Gan mor gymeradwy yn ngolwg y ddwy eglwys oedd gwasanaeth Mr. Roberts

eisoes, anrhegasant ef yn y cyfarfod hwnw ag oriawr a gwydr-ddrychau aur. Ar fyrder dechreuwyd cynal Ysgol yn Nghwmorthin—yn nhy Hugh Lewis—a phregethid yn achlysurol yn nhy Mr. David Jones, goruchwyliwr chwarel Cwmorthin. Llwyddodd y symudiad hyd at wneud y tai yn rhy gyfyng, a phenderfynwyd adeiladu Ysgoldy. Trwy Mr. David Jones cafwyd tir yn rhad gan berchenogion y chwarel, a thrwy ei ddylanwad cafwyd gan y gweithwyr (wedi oriau gwaith) dori r sylfaen a chludo'r ceryg a gwneud ffordd ato. Hyn oll a wnaethant yn rhad ac am ddim. Er cymaint o draul arbedwyd felly, aeth yn £100. Rhoddasai Mr. David Jones ei fryd ar iddo gael ei agor yn ddi-ddyled, a thrwy ymdrech William C. Williams a David Jones (Ieu.), Cwmorthin, casglwyd ymhlith y gweithwyr ac eraill £90. a chyflwynwyd £10 o drysorfa eglwys Carmel. Felly cyflawnwyd dymuniad Mr. David Jones, a galwyd enw'r adeilad "Tiberias." Am gyfnod pregethid a chynhelid ysgol ynddo y boreu a'r prydnawn, ac elid i Garmel yn yr hwyr. Bu yr achos yn llewyrchus ar adegau, pan fyddai Chwarelau Cwmorthin a'r Wrysgan a'r Conglog ar lawn waith; ond pan y pallai gwaith yn y lleoedd hyny, ac y symudai pobl o'r ardal byddai yn rhaid wrth gymorth brodyr o Garmel ac fe'i cafwyd yn gyson dros dymor hir.

Pan ddaeth Tachwedd 4, 1867, cofrestrwyd Capel Carmel i weinyddu priodasau ynddo—a'r gyntaf fu yno oedd priodas Cadwaladr Roberts, Penygroes (Buarth Melyn y pryd hyny), a Margaret Edwards, Maentwrog. Yn ól y ddefod anrhegodd yr Eglwys hwynt a Beibl hardd.

Dan weinidogaeth Mr. Roberts cynyddodd yr Eglwys a'r gynulleidfa i fesur a alwodd am helaethu'r Capel, yr hyn a wnaed trwy osod ynddo oriel ar draul o £660. Gwnaeth hyn Carmel yn un o gapelau harddaf y fro a mwyaf cysurus. Tra y gwneid y gwaith yma, cawsant garedigrwydd gan Eglwys M.C., Bethel trwy roddi o honi at eu gwasanaeth eu hen gapel hi. Cynhaliwyd

cyfarfod i ail-agor Carmel y Sul olaf yn Medi 1870, a phregethwyd gan y Parchn. R. Thomas (Ap Vychan), Bangor; J. Rowlands, Rhos; D. Griffith, Porthdinorwig, a D. Roberts, Caernarfon.

Rhaid yma enwi dau a godwyd i bregethu yr adeg hon: Elias Morris oedd un o honynt. Ni chawsai ond ychydig ddiwylliant a chyffredin oedd ei allu. Ond cymhellid gan ei ddiddordeb yn y gwaith da i ymroddi goreu y gallai. Symudodd i Benrhiwddolion, Dolwyddelen, a pharhaodd am flynyddoedd i wasanaethu'r eglwysi alwent am dano. Cyfunai'r alwedigaeth bregethwrol a gwaith y chwarel a thrin tyddyn, ac yn ei ddiniweidrwydd arferai ddywedyd fod ganddo "dair ffrwd at ei gynhaliaeth—pregethu, chwarelydda, a ffarmio." Er hyn, credwn ei fod yn onest a chywir ei amcan.

John Hughes, Ysgoldy, oedd y llall. Codasid ef yn Bethsaida a daethai ei wraig i gadw Ysgol yn Nhanygrisiau, yn cael ei chynorthwyo yn ei gwaith ganddo ef am yspaid. Nid oedd yr hyn a ddygai yr Ysgol i'r drysorfa yn ddigon i'w cynal a cheisiodd a chafodd ef waith pwyso yn y chwarel. Ai i bregethu bob cyfle a roddid iddo, ond nid oedd y galwadau am ei wasanaeth amled ag y dymunai oddiwrth yr Eglwysi o amgylch, ac nis gallai fynd yn mhell a dychwelyd mewn pryd at ei waith boreu Llun. Oherwydd hyn ymadawodd â'r chwarel gan ymroi i bregethu. Disgwyliai am alwad gan ryw Eglwys, oblegid cyfrifa ei hun yn weinidog am fod Mr. Roberts wedi galw arno unwaith i weinyddu yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd. Yn ei dyb ef yr oedd hyny yn gyfystyr â i urddo, a bod ganddo (yn ei eiriau ef ei hun "hawl i wisgo *tie* gwyn.") Ychydig, fodd bynag, oedd y galwadau am ei wasanaeth. Yna gwnaeth bregeth faith ar "Yr Ysgol Sabothol" ac wedi ei thraddodi mewn amryw leoedd argraphodd rai miloedd o gopiau o honi, ac aeth yma a thraw trwy'r wlad i'w gwerthu am chwe' cheiniog y copi, a dywedir iddo werthu dros bedair mil o gopiau. Er ei fod yn ddyn o gymeriad da ac yn rhagori mewn

gallu ar Elias Morris, prin oedd ei ddawn ymadrodd ac yn y man ymfudodd i'r Unol Dalaethau. Bu farw rai blynyddoedd yn ol.

Yn fuan wedi ail-agoriad Carmel, rhoddodd Mr. Roberts i fyny ofal Eglwys Salem gan gyfyngu ei lafur o hyn allan i Garmel. Gyda threiglad amser cododd anhawsterau a wnaeth lwyddiant yr Eglwys yn llai nag a fuasai hyd hyny, trwy ymfudiad amryw o'r aelodau mwyaf gweithgar a theuluoedd cyfain ymfudo i'r Unol Dalaethau. Teimlai yr Eglwys anhawster i gynal y weinidogaeth fel y gwnaethai cyn hyny. Ymadawodd Mr. Roberts gan ddychwelyd i Benybontfawr. Ni pheidiasai a dal Penyceunant—fferm o gryn fantioli—ac arhosai rhai aelodau o'i deulu yno ar hyd y blynyddoedd y bu ef yn weinidog Carmel, fel yr erys rhai o honynt hyd heddyw. Bu llwyddiant ar ei waith yn Nhanygrisiau. Cynyddodd yr Eglwys mewn rhifedi—o haner cant pan ffurfiwyd Salem i gant a phedwar ugain pan ymadawodd ef. Bu yn gymorth da iddynt pan adeiladwyd ysgoldy yn Nghwmorthin ac y gwnaed y cyfnewidiadau yn Nghapel Carmel, ac erys perarogl ei enw hyd y dydd hwn ar gyfrif cryfder ei gymeriad a'i wasanaeth ffyddlon i'r Arglwydd.

Yn ystod ei weinidogaeth codwyd i bregethu un arall o blant yr Eglwys, sef Morris O. Evans, Ty'nddol, mab Owen a Jane Evans. Gan Mr. Roberts y derbynasid ef i aelodaeth eglwysig. Buasai yn ddefnyddiol ynddi ynglyn â'r *Band of Hope*, fel cyfeilydd ac ysgrifenydd yr Ysgol Sul. Eisoes yr oedd wedi myn'd trwy arholiad y drydedd flwyddyn fel disgybl-athraw yn yr Ysgol Elfenol. Traddododd ei bregeth gyntaf yn y Gyfeillach Chwefror 18, 1873, ar Luc xvi. 22—3. Rhoddodd Mr. Roberts anogaeth gref iddo i fyn'd rhagddo, a phregethodd drachefn nos Sul, Mawrth 9, pryd y codwyd ef gan yr Eglwys yn bregethwr rheolaidd. Aeth i Goleg y Bala yn Mawrth 1874 ac anrhegwyd ef a £6 10s 1c gan ei fam Eglwys. Rhoddwyd ef yn ebrwydd yn nosbarth yr ail flwyddyn yno, ac yn Chwefror 1878 dechreuodd ei weinidogaeth yn

Nhrefriw. Wedi hyny bu yn Mangor ac yn Ngwrecsam ac oddiyno aeth i'r Unol Dalaethau.

Digwyddiad diddorol ag y mae yn rhaid ei gofnodi yw darfod i'r Eglwys yn 1874 ddewis yn Arweinydd y Gân Mr. Cadwaladr Roberts, Aelgoch (pryd hyny) yn lle William Jones, Tŷ Newydd, a ymfudodd i'r Wladfa Gymreig. Cyn ymadael anogodd ef yr Eglwys i ddewis Cadwaladr Roberts yn olynydd iddo. Cryn beth i ddyn ieuanc oedd cymeryd lle gwr o brofiad a safle William Jones, yr hwn a wnaethai lawer iawn tuag at ddyrchafu Caniadaeth y Cysegr yn yr ardal. Profwyd yn fuan iawn ei fod wedi iawn gyfarwyddo'r Eglwys oblegid gwasanaethodd Mr. Roberts yn dra rhagorol am lawer o flynyddoedd. Dan ei arweiniad ef daeth Cor y Moelwyn yn adnabyddus ac yn enwog drwy'r holl wlad. Dewiswyd Owen T. Roberts, yn Is-Arweinydd, a bu yn gymorth effeithiol hyd onid ymfudodd i'r Unol Dalaethau. I gymeryd ei le dewiswyd William S. Roberts, brawd i'r Arweinydd, ond aeth yntau oddicartref yn lled fuan, a dewiswyd brawd arall iddo, Robert C. Roberts (Eos Moelwyn) i'r swydd. Gafaelodd afiechyd blin ynddo ef a distawodd ei gân beraidd pryd nad oedd 32 mlwydd oed. "Un o'r telynau a dorwyd yn gynar" oedd ef. Dychwelodd ei frawd W. S. Roberts adref i ail-afael yn y gwaith. Nid gwiw gadael heb ei gofnodi wasanaeth un arall a fu yn gaffaeliad gwerthfawr i ganiadaeth y Cysegr, sef Mrs Cadwaladr Roberts. Daeth i'r ardal o Golwyn i fod yn brif-athrawes Ysgol y Bwrdd (Adran y Babanod) yn Nhanygrisiau. Miss Williams oedd hi y pryd hyny. Nid cynt y cyflwynodd ei llythyr aelodaeth i Eglwys Carmel nag y'i cafwyd yn gwasanaethu yn ddyfal fel Athrawes yn yr Ysgol Sul. Gan ei bod yn gerddores wych, bu ei dyfodiad yn fanteisiol iawn i'r canu yn Ngharmel. Yn 1885 ymunodd mewn glan briodas a Mr. C Roberts, ac anrhegwyd hwy ag anerchiad goreuedig gan yr Eglwys yr hon a fynai fynegi ei theimladau caredig tuag atynt a'i gwerthfawrogiad o'u gwasanaeth. Ymgysegrodd y ddau i wasanaeth yr Arglwydd tra buont byw.

Yn lled fuan wedi ymadawiad y Parch. W. Roberts prynwyd y ty sydd yn gysylltiedig â'r capel. Cyrhaeddodd y pris a'r adgyweiriadau a wnaed iddo y swm o £161. Bwriedid iddo fod ac y mae yn dy i'r Gofalwr am y Capel, ac felly yn gyfleus iawn.

Yn gynar yn 1875 rhoddwyd galwad i'r Parch. Ll. Bryniog Roberts, Morfa Bychan a'r Borth, â'r hon y cydsyniodd. Dechreuodd ei weinidogaeth Gorphenaf 11fed, a chynhaliwyd cyfarfod ei sefydliad Medi 7, 1875. Cymerwyd rhan yno gan y Parchn. J. Alun Roberts, Salem; Pryce Howell, Jerusalem; R. Thomas, Bethania; Z. Mather, Bethel; T. Morris, Dowlais; E. Evans, Penrhyndeudraeth; a Samuel Owen, Tanygrisiau. Dechreuodd Mr Roberts ei waith mewn amgylchiadau tra dymunol, oblegid yr oedd yr Eglwys yn weithgar a'r achos felly yn llewyrchus—yn fwy felly nag oedd pan ddaeth ei ragflaenwyr i ofalu am dano. Ar y pryd yr oedd cylch gweinidogaethol yr ardal yn llawn—gweinidog yn mhob un o'r pum' Eglwys Annibynol, a dechreuwyd "newid pwlpudau" foreu Saboth, arferiad sydd yn parhau hyd y dydd hwn (gydag eithrio tymhorau y byddai amryw o'r Eglwysi heb weinidog sefydlog).

Gorphenaf 27, 1878, bu farw yr hynaf o aelodau'r Eglwys, Margaret Roberts, Glanyrafon Ddu, a hi yn 90 mlwydd oed. Ganddi hi y magesid y Parch. R. Evans (Penmain), ac yr oedd yn un o'r rhai a ymadawsant o Bethania i ffurfio Eglwys yn Nhanygrisiau ac ni phallodd mewn ffyddlondeb ar hyd y blynyddoedd a dreuliodd yno. Wedi gweled "dydd y pethau bychain" yno cafodd yr hyfrydwch o wel'd yr Achos yn dra llewyrchus ei wedd.

Yn 1879 adeiladwyd ty i'r gweinidog, ar dir uwchben craig, yr ochr uchaf i'r rheilffordd gul a chyferbyn a chapel Carmel. Fe'i cafwyd gan Gwmni Chwarel Cwmorthin ar brydles o 99 mlynedd am ardreth flynyddol o £1 5s. Dengys y weithred, dyddiedig Rhagfyr 25, 1879, ei fod yn mesur 930 llathen betryal.

Gan fod y safle yn mhell o fod yn ddymunol yn nghyfrif nid ychydig o'r aelodau, ac yn anghyfleus hefyd, nid oedd unfrydedd i'w gymeryd ond rhoddodd y lleiafrif ffordd i'r mwyafrif. Codwyd y tŷ ar daul o £464 3s 7c. Ei enw ydyw *Gorphwysfa* a i drigianydd cyntaf oedd y Parch. Ll. B. Roberts. Cytunir yn gyffredinol erbyn hyn nad o ddoethineb yr adeiladwyd ty yn y lle hwnw.

Derbyniodd Mr. Roberts, tra yn weinidog Carmel, 148 yn aelodau (o newydd); adferwyd 47; a bedyddiwyd 186 o blant; tra y bu farw 38 o aelodau. Dengys y ffigyrau hyn na fu ef yn segur na diffrwyth yn ngwinllan ei Arglwydd. Ar gyfrif ei waith a'i addfwynder a'i hynawsedd a'i garedigrwydd, mawr hoffid ef. Cynyddasai rhif aelodau yr Eglwys o 140 i 243 yn ystod ei weinidogaeth o wyth mlynedd ac wythnos hapus iawn; a mawr oedd y gofid pan hysbysodd ei fwriad i gydsynio â galwad a gawsai o Bendref, Caernarfon. Traddododd ei bregeth ymadawol y Sul olaf yn Chwefror 1884, a'r nos Fawrth dilynol cynhaliwyd cyfarfod i ganu'n iach iddo. Llywyddwyd gan y Parch. P. Howell, a siaradwyd gan William C. Williams, R. C. Williams, William Roberts (diaconiaid), a'r Parchn. T. R. Davies, Salem; William Williams, Maentwrog; a Samuel Owen, Tanygrisiau. Cyflwynwyd iddo anerchiad hardd ynghyd ag arian; a Beibl i'r naill a'r llall o'i enethod bychain. Ymadawodd gyda dymuniadau goreu'r Eglwys a'r holl ardal.

Yn 1886 rhoddwyd galwad i Mr. E. Celynydd Mason, Penycoed, Maldwyn, a derbyniwyd hi ganddo. Dechreuodd yn dda, ac yr oedd yn gymeradwy iawn gan adran gref o'r Eglwys, a'r flwyddyn ddilynol rhoddwyd £6 yn anrheg iddo. Ar fyrder bu digwyddiadau (a barhasant flinder mawr) na ddeuai budd o ddal arnynt, a thorwyd ei gysylltiad ef â'r Eglwys yn 1889. Yr un flwyddyn adgyweiriwyd y Capel. Gosodwyd ynddo bwlpud newydd a sêt fawr a llawr newydd, ac adeiladwyd Ysgoldy sydd yn gysylltiedig

â'r Capel. Gwnaed yr holl waith i foddlonrwydd cyffredinol gan Mr. Evan Griffith yr hwn a anrhegodd yr Eglwys â chadair hardd. £438 oedd y draul. Rhoddwyd yr hen bwlpud i Eglwys Penystryd.

Dewiswyd yn ymddiriedolwyr Mehefin 26 Owen Evans (New Terrace), Evan Griffith, David Jones, Griffith Jones, Cadwaladr Roberts (Penygroes), Cadwaladr Roberts (Bodlondeb), John R. Williams, Richard Williams, Robert Williams, W. J. Williams, William R. Williams, Robert O. Jones a William C. Williams (Ieu.) Dengys y rhestr fod Carmel yn ddigon cryf i ddewis ymddiriedolwyr y tro hwn o blith aelodau'r Eglwys.

Y flwyddyn ddilynol (1890) chwanegwyd at nifer y diaconiaid:—Owen Evans, New Terrace; Evan Griffith, Meirion House; William J. Williams, Tynycefn; John R. Williams, Bronyfoel; a Cadwaladr Roberts, Bodlondeb. Barnwyd yn ddoeth am resymau neillduol geisio gan y Parch. W. Pari Huws, B.D., a J. Rhydwen Parry ofalu am y pleidleisio.

Rhoddodd yr Eglwys yn 1893 alwad i'r Parch. R. P. Williams, Llandudno, ond ni chydsyniodd a'u cais. Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarterol Meirion yno Mawrth 27 a 28, 1893, ac ymhlith y rhai a bregethasant yno yr oedd un a wahoddasant i ddyfod yn Weinidog iddynt ychydig yn ddiweddarach, ac yn niwedd y flwyddyn ymadawodd y diacon hynaf—Mr. William C. Williams, Beudy Mawr—gan ei fod wedi myn'd i fyw yn Newmarket Square. Ychydig yn ddiweddarach (Ionawr 1894) cyflwynwyd iddo anerchiad goreuedig fel amlygiad o'u parch iddo ac o'u gwerthfawrogiad o'i waith cyson am 39 mlynedd. Trodd colled Carmel yn ynill i Brynbowydd.

Yn niwedd haf 1893 rhoddwyd galwyd i'r Parch. John Hughes, Dinas Mawddwy (yr hwn a gymerasai ran yn y Cyfarfod Chwarterol y cyfeirwyd ato.) Dechreuodd ei weinidogaeth y Sul cyntaf yn 1894, a chynhaliwyd y Cyfarfod Sefydlu yn mis Chwefror.

Cymerwyd rhan ynddo gan weinidogion y cylch a diaconiaid Carmel a'r Mri. Morris Evans a Morris diaconiaid Dinas Mawddwy. Ymadnewyddodd yr Eglwys dan weinidogaeth Mr. Hughes. Sefydlwyd cangen Cymdeithas Ymdrech Grefyddol y Bobl Ieuainc, a Chymdeithas Ddirwestol, a ffurfiwyd Llyfrgell a Cherddorfa—newyddbeth yn yr ardal. Yn naturiol cynyrchodd ddiddordeb neillduol ynddi. I ddangos fel y gwerthfawrogid ei lafur anrhegwyd Mr. Hughes a £10 yn niwedd 1896 ac ag £8 yn niwedd 1897. Y pryd hyn colledwyd yr Eglwys drwy farwolaeth Mr. William Roberts, Pantcoch. Rhoddwyd desgrifiad prydferth o ragoriaethau y gwr duwiol hwn gan un o boëtau lleol y dyddiau hyny. Fel hyn y mae:—

"Hen Ysgrythyrwr medrus oedd ein gwron
Ac yn y Gair yr ymddigrifai 'i galon
'Roedd hen adnodau'r Gair yn beichio'i eiriau
Fel aeddfed ffrwyth yn beichio y canghenau
Ac ambell frawddeg, weithiau, fel y Cangau
A wyrai dan y baich o aeddfed ffrwythau
Yn gruddfan dan ei baich o nef feddyliau
Ei "atal dweyd" oedd gnawd rhy wan i gario
Syniadau'r enaid mawr a dyfent ynddo."

Colled fawr iawn i Garmel oedd colli "Yr Hen Bantcoch."

Tua'r flwyddyn 1900 cyd-symudodd cryn lawer o drigolion Tanygrisiau i geisio prynu prydlesodd eu tai ac adeiladau eraill yn y rhanbarth, a phrynodd Eglwys Carmel am £60 y tir ar yr hwn y saif y capel a'r adeiladau cysylltiedig.

Yr un pryd, sefydlwyd Ysgol Sul yn Mhantycelyn—yn fwyaf neillduol ar gyfer plant llwm eu gwisg oeddynt yn Wrysgan Fawr a Tanygrisiau Terrace a'r tai gerllaw y rheilffordd. Llwyddodd hyd oni ddaeth dirwasgiad masnachol a achosodd i gryn lawer o'r tai hyny fyn'd yn anghyfanedd. Unwaith eto bu galw am chwanegu at nifer diaconiaid Carmel a gwnaed hyny Ionawr 31, 1902, pan ddewiswyd y Mri. John Jones, Holland Terrace; John C. Roberts, Gwynfryn; Evan

E. Griffith, Meirion House; a Morgan Roberts, Bryn Ystradau. Yr oedd yr olaf yn bregethwr cymeradwy a hyny cyn iddo ymaelodi yn Eglwys Carmel. Bu farw yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb.

Barnwyd yn rheidiol wneud darpariaeth ar gyfer y boblogaeth gynyddol yn Oakeley Square ac o'i ddeutu. Trigai amryw o aelodau Carmel y ffordd hono ac yr oedd masnach yn fywiog y dyddiau hyny a'r rhagolygon yn ymddangos yn addawol. Felly sefydlwyd Ysgol Sul mewn ty a elwid Tyddyn Bach yr hwn a brynwyd. Talwyd am dano £120 a gwariwyd £50 i'w wneud yn lle addas i gynal Ysgol ynddo. Yn ddiweddarach—yn 1904—adeiladwyd yno Ysgoldy cyfleus a elwir Horeb, ar draul o £480. Yn 1908 prynasant y *freehold* am £100. Gwelir fod hyn yn gwneud cyfanswm o £750. Bu llwyddiant yno am dymor byr. Heblaw cynal ysgol ynddo, pregethid yn achlysurol. Daeth gwasgfa fasnachol cyn hir ac effeithiodd yn drwm ar Horeb, ond daliwyd i ddwyn y gwaith ymlaen er gwaethaf hyny. Erbyn hyn y mae gwedd llawer sirolach ar y lle. Effeithiodd y dirwasgiad hwnw yn drymach ar Eglwys Carmel nag ar unrhyw Eglwys Anibynol arall yn y cylch. Cyfrifir am hyn gan y ffaith y peidiwyd a gweithio Chwarelau Cwmorthin a Wrysgan a'r Conglog. Achosodd hyny i lawer ymadael o Danygrisiau.

Horeb

Yn Mawrth 1908 ymadawodd Mr. Hughes mewn cydsyniad a galwad a roddwyd iddo gan Eglwys Jerusalem, a chynhaliwyd Cyfarfod Ymadawol Ebrill 23. Cyflwynwyd iddo dysteb fel arwydd o deimladau da yr Eglwys ato ef a i deulu, ac o'i gwerthfawrogiad o'i waith tra y bu yn Ngharmel. Parodd ei ymadawiad deimlad siomedig—yn neillduol felly am mai i ran arall o'r ardal y symudai ac Eglwys Carmel heb fod mewn cystal sefyllfa ag y buasai cyn hyny, fel canlyniad cyflwr diwydianol yr ardal.

Out

Er colli gwasanaeth Mr. Hughes, ac er marweiddied oedd masnach, ni chollodd yr Eglwys yr yspryd tanbaid

a phenderfynol sydd wedi ei nodweddu o'r dechreuad. Hydref 20, 1909, dewisodd yn ddiaconiaid Richard Jones, Penycefn; George B. Hughes, Orthinfa; a Robert R. Williams (Y Foel), Cwmorthin Road; ac yn nechreu haf 1910 rhoddodd alwad i Mr. J. Albert Morgan, Myfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin. Ordeiniwyd ef Gorphenaf 14eg. Cymharol fyr fu ei arhosiad ef, ond tra y bu yn Ngharmel gweithiodd yn egniol yn ngwyneb anfanteision lawer, gan ynill parch a chymeradwyaeth cyffredinol, ac y mae ganddo adgofion dymunol am yr amser a dreuliodd yn maes cyntaf ei weinidogaeth. Ymadawodd Medi 26, 1914, i gymeryd gofal Eglwys Ebenezer, Arfon.

Yn fuan teimlodd Carmel effeithiau y Rhyfel Mawr fel y gwnaeth holl Eglwysi'r cylch, ac yr oedd hi eisoes (fel y dywedyd) wedi profi effeithiau blin atal gweithio chwarelau a enwyd uchod. Wedi y rhyfel siriolodd ardal Tanygrisiau o herwydd fod y chwarelau *Setts* sydd yno wedi ail-ddechreu a bod y fasnach lechi wedi adfywio. Unwaith eto (yn 1918) bu galw am chwanegu at nifer y diaconiaid. Buasai farw un, R. R. Williams, o'r rhai ddewisasid ddiweddaf; ac ymadawsai dau o'r lleill o'r ardal. Un yn unig a ddewiswyd, am mai un a gafodd ddwy ran o dair o bleidleisiau yr Eglwys fel yr oedd yn ofynol i un gael y tro hwn. Yr un hwnw oedd John T. Hughes, Y Fronhyfryd. Yn mis Mai y flwyddyn ddilynol llwyddwyd i ddewis dau eraill—John J. Williams, Fronoleu, a Hugh Parry, Brynawel. Wedi bywiogi o'r fasnach lechi, rhoddodd yr Eglwys ei bryd ar gael gweinidog ac yn nechreu 1921 anfonodd alwad i'r Parch. J. Luther Thomas, Conwy, yr hwn a gydsyniodd ac a ddechreuodd ei weinidogaeth yn Nhanygrisiau, Ebrill 10, 1921. Y ddydd lau dilynol cynhaliwyd Cyfarfod ei Sefydliad. Y prydnawn rhoddwyd te croesaw er rhoddi cyfle i'r Eglwys a'r gynulleidfa a'r ymwelwyr ymgydnabyddu a Mr. a Mrs Thomas, ac yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod dan lywyddiaeth y Parch. J. Hughes, Jerusalem. Yn hwnw siaradwyd

gan weinidogion y cylch a'r Parch. Evan Roberts a'r Mri. J. P. Griffiths, Conwy, a Hugh Owen, Llandudno Junction. Yn ddi-atreg ymaflodd Mr. Thomas yn ei waith gan roddi sylw neilltuol i'r bobl ieuainc a'r plant ac y mae gwedd lewyrchus iawn ar gyfarfodydd y ddau ddosbarth yma ac ar yr Eglwys yn gyffredinol. Lleinw ei le ynglyn â phob gwaith da perthynol i'r enwad a'r holl ardal. Ceir tystiolaeth eglur i lwyddiant yr Eglwys a'i Gweinidog yn ei hadroddiad am 1923. Rhifai ei haelodau 195, ac y mae yno blant lawer, tra nad oes yn aros o'r ddyled ond £223.

SALEM, RHIWBRYFDIR.

PRIN yw'r ffeithiau cysylltiedig â dechreuad yr Achos yn Salem. Dywedir y cynhelid Ysgol Sul yno foreued a 1826, mewn ty elwid y Rhiwfawr, ac y byddai hên ŵr a'i enw Harri Shon Parri yn myn'd yno wrth ei ddwy-ffon i gynorthwyo, ac y peidiwyd a'i chynal pan yr analluogwyd ef gan lesgedd. Fel y bu mewn lleoedd eraill mewn amgylchiadau tebyg, felly y bu yma. Daliodd y Methodistiaid ar y cyfle i agor Ysgol. Ymddengys ddarfod i'r Anibynwyr yn y man geisio ail-ddechreu yr eiddynt hwy ond iddynt fethu cael lle addas; felly ni chyflawnwyd y bwriad ar y pryd. Yr oedd un o honynt yn ddiacon ffyddlon ragorol yn Bethsaida, sef John Roberts, Pant-yr-onen, a buasai cyn hyny yn un o aelodau ffyddlonaf Bethania, i'r lle y cerddai o'r Cribau hyd oni sefydlwyd achos yn Nhanygrisiau. Croesawodd yr Ysgol i'w dŷ a elwid Pantyronen, gan gyfrif hyny yn anrhydedd iddo. Yno y bu am oddeutu dwy flynedd, hyd oni agorwyd y Capel newydd yn Mehefin 1861. Dywedwyd eisoes am Salem mai cangen oedd o Bethsaida (Tanygrisiau), a bod yr Eglwys hono wedi bwriadu adeiladu Capel Newydd yn Afon Row—lle canolog rhwng Tanygrisiau



SALEM.

ADEILADWYD 1861.

a Rhiw—ac wedi sicrhau tir i'r diben hwnw ar delerau rhesymol trwy Mr. John Edwards, Penrhos (brawd i'r Parch. William Edwards, Aberdar), goruchwyliwr yr Ystad oedd yn cynwys y gymydogaeth hono; ond wedi ystyriaeth fwy pwyllog, wedi barnu mai gwell fyddai dechreu achos newydd yn Rhiwbryfdir trwy gynal yno Ysgol Sul. Trwy Mr. John Edwards rhyddhawyd hwy oddiwrth y rhwymedigaeth oedd arnynt i gymeryd y tir y cytunasant i'w gymeryd, a chafwyd tir arall. Dyddiad y brydles ydyw Mehefin 24, 1860: ei hyd ydyw 76 mlynedd; a'r ardreth flynyddol £5. Heb oedi aed at y gwaith o adeiladu, a bu i John Roberts (Pantyronen) ran fawr ynddo oblegid efe a gludodd ymron yr oll o'r defnyddiau. Bu y Mri. Morris G. Williams (tad Mr. John Vaughan Williams, Tanymanod), yn gynorthwywyr o werth mawr ynglyn â'r gwaith, er nad oedd y naill na'r llall o honynt yn gyflawn aelodau. Ac nid gwiw myn'd o'r tu arall heibio i'r ffaith fod yr Achos yn ei ddechreuad wedi cael cefnogaeth ymarferol Mr. John Pierce (Goruchwyliwr y Gloddfa Ganol), a Mr. Owen Hughes (Goruchwyliwr yn Chwarel y Llechwedd). Ni ddylid anghofio fod Goruchwylwyr y Chwarelau wedi bod, ar hyd y blynyddoedd, yn llenwi cylchoedd pwysig yn yr Eglwysi ac wedi gwneud gwasanaeth gwerthfawr mewn modd anhysbys i lawer.

Gorphenwyd adeiladu ar draul o £600, a Salem ydyw'r enw roddwyd arno. (Yn ddiweddarach adeiladwyd ty gweinidog—gwaith yn yr hwn y cymerodd Eglwys Bethsaida ran, gan nad oedd yno le cyfleus i adeiladu tŷ felly). Cynhaliwyd cyfarfod agor y capel Mehefin 23 a 24, 1861; y pregethwyr oeddynt y Parchn. W. Edwards, Aberdar; E. Stephen (Tanymarian), ac R. Thomas (Ap Vychan). Y nos Wener cyn hyny, y Parch. W. Edwards yn llywyddu, ffurfiasid yr Eglwys o 48 o rai oeddynt yn aelodau yn Bethsaida a dau o Bethania. Yr oedd yr amgylchiadau yn ddymunol,—yr Eglwys yn zelog ac yn awyddus i waith. Cydweithredai a Bethsaida i gael gweinidog-

ion i'w gwasanaethu. Dywedwyd wrth adrodd hanes yr Eglwys hono fel y bu iddynt roddi galwad i'r Parch. J. Meirion Ellis, Llanarmon, yn nechreu 1862 ; a'i fod ef, wedi iddo ei hateb gan amlygu ei fwriad i ddechreu ei weinidogaeth yn mis Mai, wedi marw cyn dyfod o'r adeg hono. Adroddwyd fel y bu i'r ddwy Eglwys ohebu â Mr. Robert W. Griffith (mab yr Hybarch D. Griffith, Bethel). Wele, ddyfniadau o'u llythyr ato :— Dymunwn gael gwybod yn gyntaf A ydych yn bwriadu symud oddicartref i ryw gongl arall o faes y Weinidogaeth sefydlog i lafurio? Er ddarfod i chwi wneud yn hysbys i rai o honom yn gyfrinachol eisoes, efallai mai da er mwyn pawb fyddai gwneud hyny yn hysbys mewn llythyr at yr Eglwysi. Yn ail, A ydyw yn bosibl o gwbl o ch tu chwi eich cael yn uniongyrchol o'r *nursery* yna i'r Winllan yma, sef yr Eglwysi crybwylledig? Gwyddoch ddarfod i ni feddwl am lawer ac ysgrifenu at rai ac i un gydsynio â'n cais. Ond o hyny hyd yn awr, a'r pryd hyny hefyd mewn gwirionedd, ni welsom undeb mor drylwyr cydrhwng yr Eglwysi â'u gilydd a chydrhwng aelodau y ddwy eglwys hefyd ; ac nid dyma y cwbl, ond y mae yr un teimlad yr un mor gryf yn y ddwy gynulleidfa."

Arwyddwyd y llythyr hwn gan amryw, a'r ddau o Salem a'i harwyddasant oedd John Roberts a Robert Williams. Er eu taerni, gwrthododd Mr. Griffith gydsynio mewn llythyr yr un mor ddiddorol dyddiedig Gorphenaf 10, 1863.

Tua diwedd 1865, rhoddwyd gan y ddwy Eglwys wahoddiad i'r Parch. W. Roberts, Penybontfawr, yr hwn a'i derbyniodd ac a ddechreuodd ei weinidogaeth y Sul cyntaf yn Ionawr 1866. Ond ni chynhaliwyd Cyfarfod Sefydlu hyd Hydref y flwyddyn hono, a dywedwyd eisoes ddarfod i eglwysi Bethsaida a Salem gyflwyno iddo anrheg yn ffurf oriawr a chadwyn aur a gwydrddrychau o'r un defnydd, fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'i waith. Enwyd eisoes y gweinidogion a gymerasant ran yn y cyfarfod hwnw. Yr oedd Mr.

Roberts yn anterth ei nerth ac wedi cael profiad yn y weinidogaeth er's llawer o flynyddoedd, a bu hyny yn fanteisiol iddo ef ac i'r Eglwysi. Yn 1871, fodd bynag, rhoddodd rhyw achos o ddisgyblaeth achlysur iddo dori ei gysylltiad â Salem.

Aeth tair blynedd heibio ac yn niwedd 1874 anfonodd alwad i'r Parch. J. Alun Roberts, B.D., un a fuasai yn Ngholeg y Bala ac a aethai oddiyno i Brif-Athrofa Yale, U.D.A., a chynhaliwyd cyfarfod i'w sefydlu yn mis Hydref. Nodweddid ef gan yspryd gwrol a brwdfrydig, a buan y teimlwyd hyny. Adfywiodd yr Eglwys a chryfhawyd hi. Cynyddodd yr aelodau a'r gynulleidfa mewn rhifedi a lleihawyd y ddyled. Yna gosodwyd oriel yn y Capel a gwnaed ynddo gyfnewidiadau eraill ar draul o fwy na £400. Tra y cafodd Mr. Alun Roberts achos i lawenhau oherwydd llwyddiant, cafodd flinder oblegid rhai personau anhydrin aflonyddent yr Eglwys. Yn wahanol i'w ragflaenydd, yn lle ymadael, safodd yn eu herbyn ac â llaw gref rhoddodd derfyn ar eu hymgais anheilwng i darfu heddwch yr Eglwys. Byr, fodd bynag, fu ei arhosiad ef yn yr ardal, oblegid yn nechreu 1876 anfonwyd galwad iddo oddiwrth Eglwys Pendref, Caernarfon, a chynhaliwyd cyfarfod ei sefydliad yno Mawrth 21 a 22. Trwy ei ymadawiad colledwyd nid eglwys Salem yn unig, ond yr holl ardal, oblegid heblaw ei fod yn rhagori fel pregethwr bu yn sicr a diymod a helaeth yn mhob gwaith da.

Yn niwedd haf 1877 ceisiodd yr Eglwys olynydd iddo yn Mr. T. R. Davies, brodor o'r Wyddgrug oedd yn Ngholeg y Bala, a chynhaliwyd cyfarfod i'w ordeinio Rhagfyr 10 a 11. Gweinyddwyd yno gan y Parchn. T. Roberts, Y Wyddgrug; R. Thomas (Ap Vychan); L. Probert, Porthmadog; a J. Alun Roberts, B.D., ynghyd â gweinidogion y cylch. Cyflwynwyd iddo gan y Parch. T. Roberts, ar ran Eglwys Y Wyddgrug, anrheg werthfawr yn ffurf llyfrau. Yn y cyfarfod hwn dathlwyd taliad holl ddyled Salem. Fel hyn yr

ysgrifenwyd am y cyfarfod :—" Caed cyfarfodydd rhagorol o'r dechreu i'r diwedd ; digonedd o garedigrwydd er fod cynifer o'r myfyrwyr wedi dyfod ynghyd i ddangos eu parch diffuant i'w cyd-fyfyriwr. Hyfrydwch mawr i ni oedd gweled fod Mr. Davies yn dechreu ei weinidogaeth dan amgylchiadau mor gysurus ac addawol—yr holl ddyled oedd ar yr addoldy wedi ei symud yn llwyr, maes eang a phwysig iddo weithio."

Yn yr amgylchiadau dymunol hyn y dechreuodd Mr. Davies—yn ddyn ieuanc pedair-ar-hugain oed—ei weinidogaeth a chanddo wŷr rhagorol yn ddiaconiaid i'w arwain ac i'w gymorth yn ei waith i'r hwn yr ymroddodd yn egniol heb esgeuluso manteisio yn briodol ar lafur ei ragflaenwyr. Yn y drydedd flwyddyn o'i weinidogaeth arweiniodd ei Eglwys i gynal Ysgol Sul yn Neuadd y Farchnad, cyn adeiladu Capel eang a hardd Brynbowydd. Eglwys Salem a gymerodd y cyfrifoldeb o'i adeiladu. Rhoddodd gasgliad yr Ysgol am dymor at y draul cyn fod Eglwys wedi ei ffurfio yno ; casglodd Mr. Davies rai ugeiniau o bunau, a thrachefn rhoddodd Salem £200 a *harmonium* i'r Eglwys, yr hon oedd dan ei ofal ef. Tua'r adeg yma dechreuodd dau wr ieuanc bregethu, sef Mr. Robert Thomas, yr hwn, wedi cwrs addysg yn Ngholeg y Bala, a ordeiniwyd yn weinidog Penrhiwceibr, Morganwg ; a Mr. H. W. Parry yntau hefyd wedi myn'd trwy gwrs cyffelyb yno, a ordeiniwyd yn Chwarelgoch, Arfon. Bu'r cyntaf farw er's blynyddoedd bellach, ond mae'r olaf ar ol gweinidogaethu yn Chwarelgoch a lleoedd eraill wedi ymneillduo ac yn byw yn Rhosymedre.

Wedi ffurfiad Eglwys Brynbowydd gofalai Mr. Davies am Salem a hithau, a hyny gyda ffyddlondeb mawr. Gwelodd ffrwyth ei lafur yn y ddwy. Pan ymadawodd yn Mai 1883 i gymeryd gofal Eglwys Seisnig Glandwr, Abertawe, cafodd y ddwy Eglwys a'r holl ardal eu colledu yn drwm. Oblegid yr oedd ef yn wr amryddawn ac yn areithiwr effeithiol iawn

ar lwyfanau. Cynhaliwyd cyfarfod i ganu'n iach iddo ac yn hwnw cyflwynwyd iddo ef a Mrs Davies anrhegion gwerthfawr, ac ymadawodd gyda dymuniadau goreu y cylch am ei lwyddiant a'i gysur yn maes newydd ei lafur.

Yn Medi 1886 gwahoddodd Salem a Brynbowydd y Parch. W. Pari Huws, B.D., yr hwn y pryd hyny oedd yn weinidog Brynmair a Beulah, Sir Aberteifi. Ceir yn yr alwad (dyddiedig Medi 29, 1886), enwau diaconiaid nad ydynt hyd yn hyn wedi eu crybwyll yn yr hanes yma, sef Mr. Robert Owen a Mr. Robert Roberts. Dechreuodd Mr. Pari Huws ei weinidogaeth Chwefror 6, 1887, a sefydlwyd ef mewn cyfarfod a gynhaliwyd Mawrth 27, pan bregethodd y Parchn. D. Adams, B.A. (Hawen), ac Owen Jones, Pwllheli. Nos dranoeth croesawyd ef mewn cyfarfod yn yr hwn y cafwyd anerchiadau gan y Parchn. Owen Thomas, Brynmair; D. Adams, B.A.; T. Talwyn Phillips, B.D., a gweinidogion y cylch. Yr oedd yr amgylchiadau yn ddymunol. Er fod cynifer wedi ymadael i ffurfio Eglwys Brynbowydd, nid yn unig daliai Salem ei thir ond cynyddai hefyd. Ni ellid disgwyl yno gymaint cynydd ag yn Mrynbowydd oddeutu yr hwn yr amlhai tai newyddion, tra y gwna tomenau y chwarelau adeiladu anedd-dai yn Rhiwbryfdir yn anmhosibl. Ond bu dyfodiad Byddin Iachawdwriaeth i'r ardal yn fanteisiol iddi. Oblegid byddai cryn lawer a fynychent gyfarfodydd y Fyddin yn ymuno a rhyw Eglwys yn hytrach nag â'r Fyddin. Bu agosrwydd cadlys hono (yn hen gapel Methodistiaid y Rhiw) yn fantais arbenig i Eglwys Salem, yn gymaint ag i lawer o'i haelodau gael eu symbylu i weithgarwch, ac i nid ychydig gael eu chwanegu at eu nifer.

Yn nghanol ei ddefnyddioldeb a'i boblogrwydd cydsyniodd Mr. Huws a galwad oddiwrth yr Eglwys yn Nolgellau. Hysbysodd hyny Gorphenaf 7, 1895, a chynhaliwyd cyfarfod i ddymuno "Duw yn rhwydd iddo" Hydref 8, 1895. Cymerwyd rhan ynddo gan

weinidogion y cylch ac eraill, a chyflwynwyd iddo ef a Mrs Huws anrhegion oeddynt yn fynegiad i deimlad caredig a gwerthfawrogiad yr ardal o u gwasanaeth. Gadawsant le gwag. Aeth tua phum' mlynedd heibio cyn i'r Eglwys gael olynydd i Mr. Huws. Ond yn niwedd haf 1900 rhoddodd Salem (ar wahan i Brynbowydd) alwad i Mr. D. Miall Edwards, B.A., yr hwn oedd yn Ngholeg Mansfield, Rhydychan. Ordeiniwyd ef dydd Iau, Hydref 11, 1900. Yn y cyfarfod gweinyddwyd gan Dr. A. M. Ffairbairn, ac amryw weinidogion eraill. Caffaeliad mawr i'r Eglwys a'r ardal oedd gwr ieuanc o'i allu a i ddysgeidiaeth ef y rhai a gysegrwyd ganddo i waith y weinidogaeth yn ystyr lawnaf y geiriau. Ganddo ef a'r Parchn. W. Williams, Maentwrog, ac R. T. Phillips paratowyd yr holwyddoreg a elwir "Grisiau'r Deml" yr hwn sydd wedi bod o wasanaeth mawr i blant a phobl ieuanc Ysgolion Sul yr ardal.

Yn 1901, penderfynodd yr Eglwys adeiladu Ysgoldy yn gysylltiedig â'r Capel, ac aeth y draul yn £600. Ymroisant yn egniol i dalu amdano ac edrychent ymlaen i'r dyfodol yn hyderus. Byr, fodd bynag, fu arhosiad Mr. Miall Edwards gan iddo yn gynar yn 1904 dderbyn galwad Eglwys y "Plough," Aberhonddu. Yn mis Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod ymadawol yn yr hwn y siaradwyd gan weinidogion y cylch ac eraill ac y cyflwynwyd iddo anerchiad hardd. Tra y gresynid ei ymadawiad gan Eglwys Salem a holl Eglwysi'r cylch, gan y rhai yr oedd wir gymeradwy, aeth ymaith gyda'u dymuniadau goreu am ei gysur a'i lwyddiant. Yr ûn flwyddyn dechreuodd Mr. D. R. Jones (un o blant yr Eglwys), bregethu. Yn ddiweddarach dewiswyd ef yn ddiacon. Aeth am addysg i Aberystwyth ac Aberhonddu; ac heblaw ei fod yn bregethwr doeth a meddylgar, mae wedi ynill iddo ei hun radd dda fel llenor a bardd. Efe ydyw gweinidog Pisgah, Arfon.

Yn haf 1906, anfonwyd galwad i'r Parch. Thomas Griffith, Bethesda, Arfon, a chynhaliwyd cyfarfod i'w sefydlu nos Iau, Mehefin 28. Llywyddwyd gan y Parch. J. Hughes, Tanygrisiau, ac anerchwyd gan y Parchn. J. Williams Davies, Isfryn Hughes, E. Cefni Jones, John Owen, M.A., W. Williams (Maentwrog), a J. Rhydwen Parry, a'r Mri. Elias Roberts a Hugh Hughes, ynghyda y Parch. Lloyd, Bethesda (Arfon). Dygwyd tystiolaeth glir iddo fel dyn, Cristion a gweinidog. Yn ddiatreg ymaflodd Mr. Griffith yn ei waith yn yr Eglwys ac oddiallan iddi, gan ymdrech ym mhlaid dirwest a phob symudiad a'i ddiben i ddyrchafu Cymdeithas. Er y cyfrifid rhai o'i olygiadau yn ddieithr, gwyddid ei fod o ddifrif ac yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau, ac yr oedd felly yn fawr ei barch. Profodd Salem i gryn effeithiau'r dirwasgiad masnach a fu yn y blynyddoedd hyny, ac 1913 ymadawodd Mr. Griffith yn groes iawn i deimlad pobl Salem ac eraill. Ar ei ymweliadau achlysurol â'r ardal rhydd y cynulleidfaoedd groesaw llawn iddo. Un "o blant Salem" (er mai yn Birkenhead y dechreuodd bregethu yr adeg dan sylw), ydyw y Parch. Lewis J. Thomas, y Cenhadwr, sydd yn llafurio yn mor egniol ac effeithiol yn yr India. Cyfrif Salem fod iddi hi "hawl ac etifeddiaeth" ynddo; yn wîr gellir dweyd hyny am yr Eglwysi a'r ardal yn gyffredinol.

Cynhaliwyd cyfarfod i'w ordeinio Hydref 12, 1911, yn Nghapel Jerusalem, a than nawdd y Saith Eglwys, dan lywyddiaeth y Parch. J. Rhydwen Parry. Traddodwyd anerchiadau gan y Parch. R. W. Thompson (Ysgrifennydd Tramor Cymdeithas Genhadol Llundain); y Prifathraw Dr. D. L. Ritchie, M.A (Coleg Nottingham); O. Lloyd Owen, Birkenhead; W. Pari Huws, B.D., Dolgellau, a gweinidogion y cylch. Cyflwynwyd iddo £25, ynghŷd a swm o arian a naw cyfrol oddiwrth Eglwys Clifton Road, Birkenhead. Coleddai Eglwysi'r cylch ddisgwyliadau uchel wrth Mr. Thomas—y cenhadwr cyntaf o Eglwysi Annibynol Ffestiniog, ac erbyn hyn y mae y

disgwyliadau hyny wedi eu sylweddoli, oblegid mae yn hollol wybyddus i gynifer ag a gymerant diddordeb yn y gwaith cenhadol ei fod ef a Mrs. Thomas wedi profi eu bod yn rhagori mewn cymhwyster iddo a bod eu calonau ynddo.

Effeithiodd y Rhyfel Mawr a'r dirwasgiad diwydianol a achosodd yn drwm iawn ar Salem gan fod ei haelodau yn gymharol ychydig a r ddyled yn faich trwm iddynt ei ddwyn.

Ers rhai blynyddoedd maent wedi cael cymorth effeithiol gan y Parch. G. Davies, B.A., Brynbowydd, trwy bregethu o hono iddynt un Sul yn mhob mis, a'u cynorthwyo yn y cyfeillachau wythnosol &c. Deallwn mai hyd ddiwedd y flwyddyn hyn y pery i wneud hyny.

Heblaw y rhai a enwyd eisioes, bu yn gwasanaethu yr Eglwys fel diaconiaid (ar wahanol adegau) :—Mri. Mathew Rowlands; David G. Williams; William Jones (Birkenhead); Robert Roberts; Evan Roberts; William Roberts, Talwaenydd; R. J. Williams; Evan Roberts (Llanrwst); Elias Roberts; Edwin Morris; John E. Roberts; Robert O. Roberts; Michael Jones a Morris Roberts. Y diaconiaid ar hyn o bryd ydynt y Mri. W. R. Evans; Richard Jones; Roland Evans ac Ellis Williams.

JERUSALEM.

WELE gangen arall o Eglwys Bethania. Ffaith a nodwyd eisioes ydyw y dechreuwyd cynal Ysgol Sul yn ffermdy Blaenbowydd rywbryd yn 1857. Dechreuasai y Methodistiaid Calfinaidd gynal ysgol felly yn nhy un John Roderick yn "Chwarel y Lord" (fel y'i gelwid y pryd hyny), yn 1850. Bu hono yn dra llwyddianus am gyfnod. Ymhen ychydig



JERUSALEM.

ADEILADWYD 1869.

flynyddoedd symudwyd hi i'r Uncorn, a'r canlyniad fu i bobl a phlant "Tai'r Lord" beidio a i mynychu. Cyfrifai yr Eglwys yn Bethania ers cryn amser y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer y boblogaeth gynyddol yn Fourcrosses a "Chwarel y Lord." Rhyw Sabath aeth Morris Jones, un o feibion Blaenbowydd, y ffordd hono a theimlodd yn ddwys wrth weld cyflwr adfydus y plant—yn haner-noethion ac yn chwareu y prynhawn hwnw. Ar ei ddychweliad adref dywedodd am yr hyn a welsai wrth ei fam, ac atebodd hithau trwy ofyn iddo, "Fyddai ddim yn well i ni agor ein drws iddynt ddyfod yma i gadw Ysgol Sul? Bydd yr Arglwydd yn sicr o'n bendithio wrth fod yn drugarog wrth y tlawd." Cydsyniodd ei mab, ond gan nad oedd ar y pryd yn aelod eglwysig dywedodd wrthi, "Gwell i chwi son wrth rai o'r penaethiaid yn Bethania." Gwnaeth felly a chafwyd fod yno eisioes fwriad a pharodrwydd i ddarparu ar gyfer anghenion crefyddol y fan hono. Yn ddiymdroi penodwyd Pierce Jones, Penygelli, i fynd yno i gynorthwyo ac yn fuan iawn cafwyd Ysgol lewyrchus, yr hon ar fyrder ddechreuodd wneud casgliad bob Sul a'i gyflwyno i Eglwys Bethania tuag at gael Llyfrau etc., at wasanaeth yr Ysgol. Ionawr 18, 1858, cyflwynodd 8/6 fel casgliad y chwarter. Erbyn dechreu haf y flwyddyn hono, penderfynasent gynal dosbarth chwanegol i rai mewn oed, yn y "ty gwair", wedi i'r gwartheg gael eu troi i'r borfa, a chafwyd y rhai a drigent yn y ddau "Dy'r Mynydd" i ddilyn y dosbarth, a buont yn ffyddlon iawn. (Yn ddiweddarach ymaelodasant yn Eglwys Jerusalem a buont yn ffyddlon hyd y diwedd). Erbyn hyn penodasid Owen Barlwyd Jones i ofalu am yr Ysgol a bu hyny yn fanteisiol dros ben iddi gan ei fod yn ddiarhebol am ei ffyddlondeb a'i barodrwydd i aberthu er mwyn yr achos. Ymwelai â hi i galonogi ei haelodau i fynd rhagddynt, Pierce Thomas, Lord Street, a John R. Jones, Conglywal, a chawsant gymorth parod ac effeithiol y Fam Eglwys. Yn y man ymwelodd y Mri. D. Williams (Cwmbowydd), a

Robert Hughes—dau o ddiaconiaid Bethania—â hi. Cawsant olwg lewyrchus ac addawol iawn arni, ac ar y diwedd buwyd yn rhydd ymddiddan am ei rhagolygon yng ngwyneb ei llwyddiant hi a chynydd y boblogaeth yn y rhan hono. Cytunwyd fod yn rhaid cael capel yn y rhanbarth. Ebe Mr. D. Williams;—"Os ydyw i fynd fel hyn, rhaid i ni fod yn effro i gael lle cyfleus ar yr *Estate*. Byddwn yn ddistaw ac eto yn feddylgar am ychydig. Mae un Enwad arall yn awyddus i gael lle i gapel." (Yr oedd y Methodistiaid Calfinaidd yn 1858, yn ceisio lle i gadw Ysgol neu i godi capel yn y lle y saif Lord Street yn awr, gan fod yr adeilad yn yr Uncorn wedi mynd yn rhy gyfyng i gynal yr Ysgol ynddo. Ond er gwneud mwy nag un cais i gael y lle yn Fourcrosses, ni lwyddasant. Ond cawsant gan Mr. John Vaughan, Tanymanod, y lle y saif capel y Tabernacl arno yn awr.)

Daliai yr ysgol ym Mlaenbowydd i lwyddo a pharhai Eglwys Bethania i roddi iddi bob cefnogaeth trwy anfon brodyr i ymweled â hi a'i chymorth a'i chyflenwi a phob peth rheidiol i'w llwyddiant. Yn llyfr cyfrifon yr Eglwys am 1858 ceir a ganlyn:—Hydref 15, dwy fainc i Blaenbowydd, 7/-; yn ddiweddarach 5/- fel rhent, ac yn 1864, 5/- am "wasanaeth yn y gwair." Gwneid pob peth a ellid i hyrwyddo llwyddiaut yr Ysgol; paratoid mawn i gael tan da yn y gauaf. Aeth y lle yn rhy gyfyng a symudwyd yr Ysgol i un o "Dai'r Lord," lle y cynhelid cyfarfodydd gweddio yn gyson ac y pregethid yn achlysurol. Yn y man, rhoddwyd mynegiad ymarferol i'r ymdeimlad am gapel yn Fourcrosses trwy gymeryd tir i'r diben ar brydles gan Arglwydd Newborough. Hydref 13, 1863, talwyd am brydles "Capel Newydd Dolgarregddu," £12 2s. 6c. gan Bethania; a Chwefror 7, 1865, talwyd i Arglwydd Newborough £7 2s. 6c., ac yn 1866, talwyd £5. Ceir yn dilyn:—"Costau Achlysurol Capel Newydd, Fourcrosses, 1867, £12 12s. 2c; 1868, £20 6 3; 1868, £61 3s. 6c; 1869, £20." Cymerwyd yn gyntaf dir lle y mae pen uchaf Lord Street yn awr. Wedi

gwario ar y lle trwy dalu yn Hydref 1863, i Mr. D. Picton Jones, Pwllheli, £12 2s. 6c., am weithredoedd, penderfynwyd yn derfynol ar safle bresenol capel Jerusalem, ac yn 1868 aed at y gwaith o adeiladu. Hyd y brydles ydyw 75 mlynedd o Gorphenaf 1, 1868, a'r ardreth flynyddol ydyw £5. Mesura'r tir 1285½ llatheni petryal (*square yards*). Wele enwau yr ymddiriedolwyr;—William Rowlands; Robert Owen; Richard Humphrey Williams; Richard Parry; Morris Jones; Owen B. Jones; William Lloyd; Robert Hughes; Robert Roberts; Pierce Thomas. Mesurai'r Capel 18 x 14 llath, a chynhwysai (trwy'r oriel) 500, ac odditano ysgoldy helaeth. Aeth y draul i w adeiladu ef a thy'r Gweinidog yn £2,000. Gorffwysai'r cyfrifoldeb arianol ar yr aelodau aent o Bethania i ffurfio'r Eglwys Newydd, ac yn garedig iawn rhoddodd y Fam Eglwys swm anrhydeddus o £200 i'r Eglwys ieuanc. Casglwyd y swm yma gan ddau wr ieuanc oeddynt yn aelodau yn Bethania. y rhai yn ddiweddarach a gafwyd yn aelodau yn Jerusalem ac a wasanaethasant swydd diacon ynddi am flynyddoedd lawer, sef y diweddar Mr. Griffith E. Jones, Plas-y-bryn, a Mr. E. T. Pritchard, yr hwn sydd yn parhau yn ei sêl a i ffyddlondeb. Gorffenwyd adeiladu yn nechreu haf 1869 a galwyd enw'r capel "Jerusalem." Mr. Robert Hughes, yr hwn oedd bregethwr cymeradwy yn Bethania (wedi ei godi i bregethu yn Saron), a draddododd y bregeth gyntaf ynddo. Y Sul olaf yn Mehefin, ffurfiwyd yr Eglwys o wyth a deugain o aelodau Bethania ac ychydig nifer o aelodau Salem. Gweinyddwyd gan yr Hybarch E. Davies, Trawsfynydd yr hwn a bregethodd yn y boreu a'r hwyr, ac ar derfyn oedfa'r hwyr a weinyddodd yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd. Yr un pryd derbyniwyd yn aelodau "o newydd" saith—yr un nifer ag a ffurfiasant yr Eglwys Annibynol gyntaf yn yr ardal—Bethania—ddeuddeng mlynedd a deugain cyn hyny. Yr Hybarch E. Davies a weinyddai y pryd hyny, a'r pryd hyn gweinyddai yn ffurfiad y bumed Eglwys yn y cylch. Rhaid fod

llawenydd pur yn llenwi ei galon y dydd hwnw. Yr wythnos wedyn—Gorphenaf 1 a 2, 1869, cynhaliwyd "cyfarfod agoriadol" y capel, a gwnaed hyny mewn cysylltiad a Chymanfa'r Sir a gynhelid yno. Trefnasid yn helaeth ac effeithiol i roddi croesaw llawn i'r Gymanfa ac i ddathlu yn deilwng agoriad y Capel newydd. Gwasanaethwyd yn y Cyfarfodydd gan y Parchn. H. Ellis, Llangom; D. Ll. Jones, Manceinion; E. Herber Evans, Caernarvon; E. Davies, Trawsfynydd; R. Ellis, Brithdir; R. S. Williams, Aberhonddu; Dr. William Rees (Hiraethog); James Jones, Abermaw; E. Stephen (Tanymarian); William Edwards, Aberdar ac R. Thomas (Ap Vychan). Cafwyd Cymanfa nodedig; pregethwyd yn rymus dros ben (ar y maes) i gynulleidfa a rifai tua deng mil, a bu son am dani am amser hir. Heblaw hyny cryfhaodd galon yr Eglwys ieuanc.

Dewisasid gan y Fam Eglwys dri i'w gwasanaethu fel diaconiaid:—Mri. D. Williams, Cwmbowydd; George Penny, ac Owen Barlwyd Jones. Yn ei dechreuad yr oedd yr Eglwys dan gyfrifolded arianol mawr; er hyny yr oedd yn hyderus a chalonog ac yn edrych ymlaen at ddyfodol disglaer. Ond daeth braw arni rhyw foreu Sul, Awst 22, 1869, pan wybu fod Mr. David Williams, Cwmbowydd, wedi rhodio'r llwybr na ddycnwelir ar hyd-ddo. Colled drom iddi oedd ei golli ef, gan iddo fod gyda'r mwyaf blaenllaw i ddechreu yr Achos yn Fourcrosses. Trwyddo ef, yn ddiau, y llwyddwyd i gael tir mewn lle mor fanteisiol i adeiladu arno, wedi i eraill fethu. Yr oedd ei ragoriaeth mewn medr a'i ymroddiad i'r gwaith goreu yn ei wneud yn gaffaeliad mawr i'r Eglwys, ac anhawdd felly oedd ei hebgor. Buasai am lawer o flynyddoedd yn wasanaethgar dros ben yn Bethania, ac edrychid ymlaen yn Jerusalem at ei gael felly yno. Gwnaeth ei farwolaeth fwlch mawr yn y ddiaconiaeth a phenderfynwyd chwanegu at nifer y gwyr hyny. Manteisiwyd ar bresenoldeb y Parch. D. Lloyd Jones i'w cynorthwyo i wneud hyny, a dewiswyd y Mri.

Richard Parry, Robert Hughes, John Cadwaladr, a Morris Jones—gwyr a fuont yn ffyddlon yn y gwaith da mewn gwahanol leoedd am lawer o flynyddoedd.

Yn niwedd 1870 rhoddwyd galwad i'r Parch. Pryce Howell, Ynysgan, Merthyr Tydfil, a chydsyniodd yntau â hi. Dechreuodd ei weinidogaeth yn Ionawr 1871. Daeth yma yn anterth ei nerth a'i boblogrwydd i wasanaethu Eglwys ieuanc yn y safle mwyaf manteisiol yn yr ardal a gwnaeth waith rhagorol. Erys ei ddylanwad yn hir ar yr holl Eglwys a'r holl ardal. Yr oedd yn bregethwr gwir ragorol ac yn arweinydd doeth a chraff. Gellir yn briodol iawn dweyd amdano fod ei bwyll a'i arafwch yn hysbys i bawb ac fod iddo barch mawr gan yr holl ardal. Wedi ei ddyfodiad bu llwyddiant mawr ar y gwaith. Cynyddodd yr Eglwys a'r gynulleidfa hyd at wneud y Capel yn rhy fychan i'r gynulleidfa. Felly penderfynwyd ei helaethu trwy chwanegu at ei led yn y pen y saif y pwlpud ynddo. Cwblhawyd y gwaith erbyn diwedd 1879, ar draul o £1,500 (ymhen deng mlynedd wedi ei agoriad). Diameu y gallesid arbed rhan helaeth o'r draul hono pe cawsid mwy o ffydd a rhagweledigaeth yn y brodyr ar y cyntaf; ond hawdd beirniadu wrth edrych yn ol. Er fod y ddyled yn pwyso yn drwm ar yr Eglwys oherwydd y llogau (gan nad oedd y Gymdeithas Arianol yn ddigon cryf ar y pryd i gyfarfod a'r angen), ni pheidiodd â llwyddo. Yn 1887 cynhaliodd nodachfa ar radd eang—yr ail i'w gynal yn yr ardal. Parhaodd am rai dyddiau, a chan fod yr aelodau wedi cydweithio yn ddyfal cyn ei gynhaliad a thra y'i cynhelid, trodd allan yn llwyddiant hollol. Gwnaed oddiwrtho elw clir o tua £600. Yn ystod gweinidogaeth Mr. Howell chwanegwyd deirgwaith at nifer y diaconiaid i lenwi bylchau achoswyd trwy symudiad rhai a marwolaeth eraill. Yn fuan wedi ei ddyfodiad dewiswyd y Mri. David Williams, Maenofferen; William Griffith, Meirion Terrace; William Richard Williams, Glynllifon Street, a John T. Williams, Meirion Terrace. Yn ddiweddarach dewiswyd y Mri. John

Roberts, Park Square; David G. Williams, Tanymarian; John Penny, Oxford Street, a Gomer Evans, Ysgolfeistr. Aeth blynyddoedd heibio a dewiswyd y Mri. Thomas J. Williams, Gwalia; David Rowlands, y Fuches Wen; William Griffith, Edmund Street; Griffith E. Jones, Plasybryn; Robert H. Hughes, y Llythyrdy, a John Morgan, Canton House.

Wedi gwasanaethu yr Eglwys yn ffyddlon am ddeng mlynedd ar hugain o fewn ychydig, ymneilltuodd Mr. Howell yn Awst 1900, ac anrhydeddodd yr Eglwys ei hun ac yntau trwy roddi blwydd-dal sylweddol iddo. Gellid ysgrifenu llawer am ei wasanaeth mawr i'r ardal ac i'w enwad, yr hwn a roddes iddo bob anrhydedd a allai hyd at ei ddewis yn Gadeirydd yr Undeb. Wedi ymddeol aeth i drigo yn Rhuddlan lle y bu farw Ebrill 3, 1902.

Yn nechreu haf y flwyddyn hono rhoddwyd galwad i Mr. Gwilym Rees, B.A., myfyriwr yng ngholeg Aberhonddu, a chynhaliwyd cyfarfod i'w ordeinio Medi 10 a 11, 1902. Pregethwyd nos Fercher (y 10fed), gan y Parch. T. Mardy Rees (ei frawd), a'r Proffesor T. Rees, M.A., (ar "Natur Eglwys.") Dranoeth llywyddwyd gan y Parch. John Hughes, Carmel. Rhoddwyd y gofyniadau arferol gan y Parch R. T. Phillips, ac offrymwyd yr "nod-weddi" gan y Parch E. Morris, Dyffryn. Traddodwyd "Siars i'r gweinidog" gan y Parch. J. Hope Evans, Maerdy, ac i'r Eglwys gan y Parch. D. Lloyd Morgan, Pontardulais. Cymerwyd rhan yn y cyfarfodydd gan rai o ddiaconiaid Jerusalem a chan rai o ddiaconiaid Mam-Eglwys Mr. Rees ar ran yr hon y cyflwynasant iddo rodd werthfawr yn ffurf llyfrau. Bu gweinidogaeth Mr. Rees yn dra llwyddianus. Llwyr ynillodd serch y bobl ieuanc a dygodd ei ymdrechion erddynt ffrwyth lawer. Profwyd yn helaeth o effeithiai daionus y diwygiad a fu y pryd hyny. Byr, fodd bynnag, fu ei arhosiad yn y lle—tua thair blynedd. Cynhaliwyd cyfarfod i ganu'n iach iddo nos Fawrth, Hydref 31, 1905, dan lywyddiaeth

Mr. R. O. Jones, Cyfreithiwr, a chymerwyd rhan ynddo gan weinidogion y cylch yn perthyn i bob enwad, a dymunwyd ei lwyddiant llawn yn ei faes newydd yn Llandyssul. Fel hyn dywedwyd am dano:—"Gwnaeth waith efengylwr; profodd ei hun yn broffwyd Duw mewn gwirionedd gan ddysgu gyda medr ac awdurdod ac angerddoldeb y gwirioneddau a dderbyniodd megis yn uniongyrchol oddiwrth Dduw. Cafodd y fraint o weled ei lafur wedi er goroni â llwyddiant amlwg ac eirhriadol trwy ddychweliad nifer luosog o wrandawyr i gofleidio Crist ac i ymgysegru i'w waith, llawer o'r rhai a fuasent am flynyddau meithion yn y tir pell. Cafodd plant a phobl ieuanc Jerusalem gyfaill pur yn Mr. Rees, a'r un pryd cyfaddasai ei hun at rai mewn gwth o oedran. Yr oedd yn ddyn i bob oedran a sefyllfa am ei fod yn ddyn Duw yn ein plith."

Siomedigaeth fawr i'r Eglwys a'r gynulleidfa oedd ei ymadawiad gan ei fod wedi myned dyfned i w serchiadau a'u bod yn disgwyl llawer wrtho yn y dyfodol.

Yn fuan wedi ei ddyfodiad, cafwyd Organ a pheiriant twymo, a dygwyd y Goleu Trydanol i'r Capel. Aeth y draul yn fawr iawn—£980 5s. 4c.

Yn niwedd 1906, rhoddwyd galwad i Mr. J. Vernon Lewis, B.A., B.D., oedd yn Ngholeg Aberhonddu. Yr oedd ganddynt resymau a gyfrifent yn ddigonol dros gredu y derbynia hi, ond fel arall y bu. Tachwedd 13, 1907, dewiswyd yn ddiaconiaid y Mri Henry Williams, Eifion Terrace; John Williams, Gorsaf-feistr; Hugh Lloyd, Maenofferen; ac Evan T. Pritchard, Brynawel.

Wedi cael "dysg yn ysgol profiad," cymerodd yr Eglwys ofal na alwai weinidog heb gael sicrwydd yn gyntaf y cydsynid â hi, ac wedi ystyriaeth bwyllog aeth dirprwyaeth o'r diaconiaid at y Parch. J. Hughes, Carmel, ar nos Saboth; a'r canlyniad fu darfod i'r Eglwys y Saboth dilynol roddi galwad iddo. Gwelodd

9n date?

ef yn hono gyfle i gylch ehangach o wasanaeth nag oedd yng Ngharmel, gan fod y dirwasgiad masnachol wedi effeithio yn drwm iawn ar y rhan hono o'r ardal.

(Dylasid crybwyll cyn hyn am ddyn ieuanc, Hugh J. Ellis, a godwyd i bregethu ychydig amser cyn ymneilltuad Mr. Howell. Daethai i'r ardal i weithio, ac ymaelododd yn Jerusalem. Cyn bo hir, codwyd ef i bregethu ac ar ol cael cwrs o addysg ymsefydlodd yn Eglwys y Graig, Rhymri).

Ac yn ystod gweinidogaetn Mr. Rees, codwyd yn bregethwr Mr. Robert O. Jones, un o blant yr Eglwys. Profodd yn helaeth ddylanwad y diwygiad. Cafwyd ef yn wresog yn yr yspryd ac y mae felly hyd heddyw. Wedi cwrs addysg yng Ngholeg Caerfyrddin, ordeiniwyd ef yn 1912 yn weinidog Eglwys Saisnig, Barham, Beaufort. Erys yno yn uchel ei barch yn dra chymeradwy ac yn llwyddianus hefyd.

Yn 1912 dechreuodd un arall o blant yr Eglwys bregethu—Mr. E. Cadfan Jones. Aeth i Goleg Bala-Bangor yn 1913, ac oddiyno i Goleg Chesnut, Caergrawnt. Mae ef wedi profi ei fod yn ysgolhaig gwych; heblaw hyny mae yn bregethwr rhagorol. Yn haf 1925 ordeiniwyd ef yn weinidog Eglwys Aberaman.

Rhagfyr 17, 1916, cafwyd achos i ychwanegu at nifer y diaconiaid—y Mri. W. J. Pritchard, Cwmbowydd Road; Owen Jones, Gladstone Terrace; David Jones, Tanrallt Terrace; a Hugh Hughes, Wynne Road. Gwasanaethai yr olaf a enwyd ar y pryd fel Arweinydd y Gan, ac yr oedd wedi profi ei hun yn ffyddlon iawn yn y gwaith hwnw am flynyddoedd lawer. Yr oedd "yspryd rhagorol ynddo" yr hwn a'i gwnai yn barod bob amser i "lanw bwlch" pa bryd bynag y ceisid ganddo. Erbyn hyn y mae wedi derbyn gwobr "y gwas da a ffyddlon."

Yn mis Gorphenaf 1919, cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu hanner-can-mlwyddiant yr Eglwys. Llywydd-

wyd gan y Parch. J. Hughes, yr hwn a adroddodd hanes dechreuad yr Eglwys a'i chynydd a thraddodwyd anerchiadau gan weinidogion y cylch yn perthyn i bob enwad. Darllenodd Mr. Thomas J. Williams (yr Ysgrifenydd) fantolen diddorol iawn. Danghosai holl daliadau yr Eglwys o'i dechreuad at yr adeiladau ac achosion eraill, gan wneud yn eglur fod gwaith mawr wedi ei wneud a hyny ar draul nid ychydig o aberth.

Pan ddaeth blwyddyn 1923 yr oedd llawer rhwng cyflwr iechyd Mr. Hughes a bod yn foddhaol, ac yn yr haf rhoddwyd iddo dri mis o seibiant. Manteisiodd ar hyny (gyda chaniatad ei feddyg) i ymweled â'r Unol Dalaethau. Cawsai wahoddiad gan yr Eglwys Annibynol yn Utica i fynd yno i'w gwasanaethu am dri mis. Yr oedd ef yn naturiol yn awyddus i fynd yno gan fod iddo yn y ddinas hono ac mewn lleoedd eraill berthynasau agos a chyfeillion nid ychydig o Ddinas Mawddwy. Hwyliodd yn Awst 1923 a chyrhaeddodd ben ei daith yn ddiogel.

Prin y mae yn rhaid dweyd ei fod wedi cael derbyniad croesawus yn y lleoedd lawer yr aeth iddynt i bregethu. Heb wneud y cyfrif addas o gyfarwyddiadau ei feddyg i ochel gor-lafur, pregethai yn gyson gan deithio o'r naill le i'r llall. Gwyr pawb a'i hadwaenai fel pregethwr na fyddai yn "arbed dim arno ei hun," a'i fod yn danbaid iawn; a hawdd yw credu fod y croesaw a'r caredigrwydd a gaffai yn mhob man yn effeithio yn drwm arno gan ddwyseiddio ac angerddoli ei deimlad. Yn mis Mawrth (1924), trodd ei wyneb tuag adref. Cyrhaeddodd Pittsburg ac yno yn nhy ei frawd bu farw Mawrth 12, 1924.

Bwriadasai Eglwys Jerusalen gynal cyfarfod i'w groesawu ar ei ddychweliad a threfnasai i'r cyfarfod fod yn Gyfarfod Jubilee hefyd gan fod gweddill y ddyled oedd arni wedi ei dalu er's pan aethaief i'r Amerig. Brawychwyd hi pan wybu, nid ei fod ef ar ei ffordd yn ol, ond fod "ei ysbryd wedi dychwelyd at Dduw, yr Hwn a'i rhoes." Dygwyd ei gorph adref

i'w gladdu yn Mynwent Bethesda (B. Ff.). Cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel Jerusalem, yr hwn a orlanwyd. Cymerwyd rhan yn y cyflawniadau gan weinidogion yn perthyn i bob enwad, ac aed oddiyno i'r fynwent mewn gorymdaith drefnus—un o'r gorymdeithiau angladdol mwyaf welwyd erioed yn yr ardal. Yn hwyr y dydd pregethwyd gan y Parch O. L. Roberts, yn Nghapel Jerusalem. Heblaw fod ei farwolaeth yn yr amgylchiadau a nodwyd wedi cyffroi teimladau pawb a'i hadwaenent, cafodd yr ardal golled drom, gan ei fod yn dra chymeradwy ac yn weithiwr egniol yn mhlaid pob daioni. Yn misoedd olaf ei fywyd, cyn myn'd oddicartref, ymdrechodd yn ddyfal i hyrwyddo llwyddiant Cyngrair y Cenhedloedd. Yn wir, pa waith bynag yr ymaflai ei law ynddo i'w wneuthur, byddai yn ei wneud â'i holl egni, a gwneir hir goffa am dano yn y fro.

Rhaid chwanegu darfod i Eglwys Jerusalem yn yr amgylchiad prudd weithredu yn deilwng o'i henw da. Dygodd y draul o gludo yr hyn oedd farwol o'i gweinidog o Lerpwl i'r Blaenau; darparodd yn helaeth ar gyfer dieithriaid ddydd yr angladd; ac o'r pryd hyny hyd ddiwedd y flwyddyn cafodd y weddw brawf o'i haelioni.

Nifer aelodau'r Eglwys ddiwedd y flwyddyn 1923 oedd 337, ac nid oedd dyled arni.

In 1926 Eleven Over

HYFRYDFA.

HON ydyw y gangen olaf o Eglwys Bethania. Adroddwyd eisioes fod Ysgol Sul wedi ei chynal dros dymor mewn tŷ anedd yn Nghonglywal, a'r amgylchiadau yn y rhai y penderfynwyd adeiladu Capel yno. Cafwyd lle cyfleus ar fin y brif-ffordd, ar



HYFRYDFA.

Adeiladwyd 1879.

ystad y diweddar Mr. Lloyd-Fletcher, ar brydles o 99 mlynedd, am ardreth flynyddol o £5. Cynhwysid ynddo y tir sydd wrth ochr y Capel lle y gallesid adeiladu ty gweinidog. Bu i Eglwys Hyfrydfa rai blynyddoedd yn ol ei osod i adeiladu arno dai a derbynia am dano £1 10s. 0c., y flwyddyn. Nid o ddoethineb y gwnaed felly; erbyn hyn cydnabyddir hyny. Cwblhawyd adeiladu'r Capel erbyn diwedd 1879, a galwyd ei enw Hyfrydfa. Aeth y draul, yn cynal tal am y gweithredoedd, yn £1,300. Rhagfyr 11, 1879, fe'i hagorwyd trwy i'r Parchn. J. Barrow Parry a Pryce Howell bregethu yno, a chorphorwyd hi yn Eglwys o 68 o aelodau Bethania—tri ohonynt yn ddiaconiaid. Y Mri. John R. Jones, John Evans a Robert Jones oeddynt, a cheisiwyd ganddynt wasanaethu y swydd yn Hyfrydfa. Dewiswyd atynt y Mri. Jason Thomas, John Lloyd a Robert D. Williams. Nodweddid yr Eglwys yn ei dechreuad gan sel a brwdfrydedd, a chafodd bob cefnogaeth gan y Fam Eglwys yr hon a'i hanrhegodd a £200 i'w helpu i dalu am y Capel, ac a dalodd ran helaeth o gyflog y gweinidog. Felly calonogwyd hi i wneud ei rhan yn egniol i dalu'r ddyled. Gwnaeth Mr. Barrow Parry gymaint oll ag a allai i'w helpu yn mhob nod i lwyddo yn mhob ystyr; a choiledwyd a gofidiwyd hi pan yr ymadawodd yn niwedd Hydref 1882, i gymeryd gofal Eglwys Llansamlet. Yna torwyd y cysylltiad rhyngddi hi a Bethania.

Yn mis Mai, 1883, codwyd dyn ieuanc a'i enw Robert Parry i bregethu. Magesid ef yn Bethania lle y cymerai ran amlwg yn y Gyfeillach a'r Cyfarfod Gweddi, a gwelwyd yn eglur fod ei fryd ar fyned i'r Weinidogaeth. Wedi cwrs addysg yn ysgol y Parch. E. Cynffig Davies, Menai Bridge, urddwyd ef yn weinidog yn Bettws, Abergele. Yn Ngwanwyn 1887, rhoddwyd galwad i Mr. David Davies, myfyriwr yng Ngholeg y Bala, a chynhaliwyd cyfarfod i'w ordeinio Mai 22. Profodd ei hun yn bregethwr da ac ymadroddwr rhwydd, ac edrychid ymlaen at ddyfodol

disglaer iddo yn y Weinidogaeth. Byr, fodd bynag, fu ei berthynas a Hyfrydfa fel ei gweinidog, oblegid ymddiswyddodd yn mis Hydref 1888, gan dreulio blynyddoedd lawer yn yr ardal fel masnachwr. Parhai yn aelod yn Hyfrydfa; dygai fawr sel dros yr Ysgol Sul yno ac yn yr holl gylch, fel yr ynillodd hi radd dda iawn yn yr arholiadau gynhelid dan nawdd Undeb Ysgolion Sul Ffestiniog. Heblaw hyn, pregethai pan y gelwd am ei wasanaeth yn ac oddiallan i'r cylch. Tua'r adeg dan sylw chwanegwyd at nifer y diaconiaid trwy ddewis y Mri. Evan T. Pritchard, Hugh Hughes a Morris O. Williams. Pwysai y ddyled yn drwm ar yr Eglwys; gwnai talu llog uchel leihau swm y ddyled yn anhawdd. Bu'r diweddar John Japheth Jones yn ddyfal mewn ymdrech i gasglu ati trwy ysgrifenu at bersonau yma ac acw. Yr oedd ef yn dra adnabyddus i Weinidogion ac i fyfyrwyr yng Ngholeg y Bala yn neillduol, ar gyfrif y croesaw nodedig a roddid ganddo ef a Mrs. Jones i bob pregethwr o ba le bynag a pha bryd bynag y deuai.

Un arall a fu yn dra ymdrechgar ynglyn â Chaniadaeth y Cysegr o ddechreuad yr Eglwys oedd Mr. Griffith J. Evans, ond bu ef farw yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb. Cafwyd yn ffyddlon ragorol eraill hefyd—y diweddar David Williams (Frondirion), yr hwn, er o dymer danbaid, oedd yn llawn sel ac yn fawr ei ofal am yr Achos; John Williams, Conglywal, ac Owen Williams hefyd oeddynt o nifer y rhai a gafwyd yn ffyddlon iawn—yn eu plith wragedd rhagorol oeddynt yn "famau yn Israel."

Yn 1896, adeiladwyd yng nghefn y Capel ysgoldy i'r diben neillduol o gynal dosbeirth y plant ieuengaf yn yr Ysgol, a phan gofir fod y tir oedd yn aros heb adeiladu arno yn gyfyng, cafwyd ystafell gyfleus. Aeth y draul ychydig yn fwy na £300 ac felly chwanegodd yn sylweddol at swm dyled yr Eglwys. Yr un pryd bu yn symbyliad iddi i fwy o ymdrech i'w

thalu. Yr adeg yma dewiswyd yn ddiaconiaid, Robert W. Jones, Richard E. Jones ac Ephraim Jones.

Yn nechreu haf 1900, rhoddwyd galwad i'r Parch. J. Williams Davies, Chwarelgoch, a dechreuodd ei weinidogaeth y Sul cyntaf yn Awst 1900. Gweithiodd Mr. Davies yn egniol gan gymeryd diddordeb dwfn yn yr Ysgol ac yng nghyfarfodydd y plant ac Undeb Ysgolion y Cylch; a gwisgai yr Achos wedd addawol. Yng ngwyneb cynydd yr Eglwys a'r gynulleidfa, penderfynwyd ehwanegu at nifer yr eisteddleoedd, ac yn 1905 gosodwyd oriel yn y Capel. Darparesid ar gyfer hyny pan y'i hadeiladwyd fel y gallwyd gwneud y gwaith heb gyffwrdd â'r tô na'r muriau. Llwyddodd yr adeiladydd (Mr. Evan Griffith, Tanygrisiau), i wneud gwaith rhagorol ac y mae Hyfrydfa yn gapel mor ddymunol ag a geir yn yr ardal. Aeth y draul i wneud y gwaith ac i ddwyn goleuni trydanol i'r adeilad yn £700. Y dyddiau hyny—dyddiau'r diwygiad—yr oedd gan y bobl galon i weithio ac ni chyfrifid y baich yn drwm. Ond yn y man marweiddiodd y fasnach lechi ac effeithiodd hyny yn drwm ar Hyfrydfa gan i lawer o'r aelodau ymadael o'r ardal, fel y caffai yr Eglwys anhawster i gyfarfod â'r gofynion. Or braidd y mae angen am ddywedyd ddarfod i hyn effeithio yn fawr ar deimladau Mr. Davies hyd at beri iddo or-bryderu. Yn nechreu haf 1912 derbyniodd alwad Eglwysi Arthog a Llwyngwril i'w bugeilio hwy. Chwith oedd gan yr Eglwys golli ei wasanaeth yr hwn a werthfawrogid ganddi, a rhoddodd fynegiad i'w theimladau caredig ato ef a'i briod trwy eu hanrhegu ag anerchiad hardd a *wallet* yn cynwys swm sylweddol yn ffurf ariannodau. Ymadawodd gyda'i dymuniadau goreu am ei gysur a'i lwyddiant yn maes newydd ei weinidogaeth.

Cyn hyn dewisasid yn ddiaconiaid y Mri. Owen M° Williams, Hugh G. Hughes a Thomas Penny Dilynai y tri wyr hyn lwybrau eu tadau oblegid buasent hwy yn gwasanaethu swydd diacon yn Hyfrydfa ac yn Jerusalem.

Bu i'r dirwasgiad masnachol (y cyfeiriwyd ato uchod) a'r Rhyfel Mawr leihau i gryn fesur nifer aelodau'r Eglwys a'r gynulleidfa, a phwysai'r ddyled yn drwm arnynt. Er hyny ni ddigalonasant. Yn ol eu harfer buont yn bybyr i gyfarfod ag anhawsterau ac yn frwdfrydig hefyd. Fe'Ny llwyddasant i weithio eu ffordd rhagddynt er gwaethaf pob anhawster. Cawsant arweiniad doeth gan eu diaconiaid yn amlwg ymhlith y rhai yr oedd y diweddar Mr. Robert Jones, Manod House. Bu ef yn ffyddlon i'r Achos yn Hyfrydfa o'r dechreuad, gan wasanaethu fel diacon a thrysorydd. Adwaenid ef fel dyn pwyllog a chraff, ac yr oedd ganddo fawr ofal calon am Hyfrydfa. Dewiswyd ei fab hynaf—Mr. William Jones—yn olynydd iddo fel trysorydd ac fe'i dewiswyd yn ddiacon hefyd. Hyd yn hyn nid yw wedi gweithredu fel diacon. Yn 1923 dewiswyd i'r swydd hono—y Mri. Edward Roberts, William R. Thomas, John W. Thomas, B.A., a William Jones. (Hyd yn hyn fodd bynag nid yw Mr. Thomas mwy na Mr. William Jones wedi ymaflyd yn y gwaith.) Wedi'r Rhyfel Mawr bywiogodd masnach ac adfywiodd Eglwys Hyfrydfa a rhoddes ei bryd ar gael gweinidog, ac yn nechreu haf 1923, rhoddodd alwad i Mr. Isaac Thomas, myfyriwr yng Ngholeg Bala-Bangor. Dechreuodd ei weinidogaeth yn fuan, a Medi 3 a 4ydd, cynhaliwyd cyfarfodydd i'w ordeinio. Ynddynt gweinyddwyd gan y Parchn. T. Rees, M.A. (Bangor); W. Parri Huws, B D. (Dolgellau); R. G. Owen, B.A. (Llanuwchlyn); Ellis Jones, Bangor; H. Hermonydd Williams, Llechryd; ynghyda a gweinidogion y Cylch ac amryw o gydfyfyrwyr Mr. Thomas. Cyflwynwyd iddo anrheg gan ei fam-eglwys yn Mostyn amryw o aelodau yr hon a ddaethant (gyda'i rieni) i'r cyfarfod. Dechreuodd ei weinidogaeth mewn amgylchiadau tra dymunol. Ffurfiasai'r Eglwys fwriad i dalu'r holl ddyled ynghorph y flwyddyn, ond fe'i lluddiwyd gan amgylchiadau a threuliau eithriadol. Gellir bwrw, fodd bynag, y cyrhaedda ei hamcan yn fuan iawn.

Rhifa'r aelodau (Rhagfyr 31, 1923), 154; a swm y ddyled yr un adeg £234 4s. 6c.

BRYNBOWYDD.

Cangen ydyw Brynbowydd o Salem, Rhiwbryfdir, a hi ydyw yr ieuangaf o Eglwysi Anibynol Ffestiniog. Dechreuad yr Eglwys hon fel yn achos holl eglwysi eraill y cylch, oedd Ysgol Sul. Tua blwyddyn wedi i'r Parch. T. R. Davies, ymsefydlu yn weinidog Salem, teimlai amryw o'r aelodau, yn ngwyneb cynydd y boblogaeth a chynydd masnach ar y pryd, y dylid darparu ar gyfer anghenion crefyddol pobl y Fronfawr fel y gelwid y *Square* a *Dorfil Street* y pryd hyny. Brydnawn Saboth galwyd cyfarfod brodyr ar ol yr ysgol gan yr Arolygwr—Mr. David J. Jones, Bowydd Street,—a rhoddwyd y mater gerbron. Penderfynwyd, trwy fwyafrif, symud ymlaen ac i wneud cais am fenthyg yr *Assembly Rooms* i gynal Ysgol Sul. Rhoddwyd ar Mr. William Roberts, Glan Barlwyd (un o'r diaconiaid) ac eraill oedd yn frwdfrydig dros y symudiad ymddiddan á'r gofalwr cyn rhoddi y mater gerbron y Bwrdd lleol. Ymddengys fod y Methodistiaid hwythau o gyffelyb fwriad, a hwy a lwyddasant i gael yr *Assembly Rooms*. Yn yr amgylchiadau ymfoddlonodd yr Anibynwyr i gymeryd y llawr! lle y cynhelid y farchnad. Bu rhai brodyr, yn dra hunanymwadol, yn gofalu (wedi iddi fyned yn hwyr iawn nos Sadwrn) am lanhau y lle a gosod meinciau yn drefnus ar gyfer yr Ysgol dranoeth. Rhifai y rhai oedd yn bresenol yn y dechreu ddeg-a-thri ugain. Mae eu henwau ar gael ond cymerai eu rhoddi yma ormod o ofod. Dewiswyd Mr. David J. Jones yn arolygwr a Mr. Richard Owen, Mills Row, yn ysgrifenydd. Parhawyd i gynal yr Ysgol gyda mesur helaeth o lwyddiant am ddwy flynedd. Yr oedd y



BRYNBOWYDD.

Adeiladwyd 1881.

Parch. T. R. Davies (Crugwyson) yn frwdfrydig ac ymdrechgar iawn ynglyn a'r symudiad a phenderfynwyd ceisio lle addas i adeiladu capel. Nododd Eglwys Salem bwyllgor cryf i weithredu yn yr achos, a rhoddasant eu bryd ar le gyferbyn a'r lle y saif Capel Brynbowydd. Yr oedd yna graig ond mawnogaidd oedd y tir o'i hamgylch, ac anhawdd fuasai cael sylfaen safadwy yno. Ond nid oedd y lle hwnw i'w gael am fod y fan hono wedi ei nodi fel lle i adeiladu anedd-dai arno, a *building plots* wedi eu trefnu. Gallesid cael lle sydd erbyn hyn yn ben uchaf Dorfil Street, ond barnai y Pwyllgor ei fod yn anghyfleus ac yn rhy neillduedig. Aeth dirprwyaeth at berchen y rhan hono o'r ardal—Arglwydd Newboroug--ynghyda'i oruchwyliwr—Mr. R. H. Williams, Cwmbowydd, i geisio'r lle a ddymuuent. Y dirprwyaeth oedd y Parch. T. R. Davies; Mri. Robert Owen, Rhiw House; Owen R. Owen, Bowydd Buildings; a David J. Jones, Bowydd Street. Gwrthododd y gwr gydsynio a'u cais, a hyny yn ddiystyrllyd. Parodd hyny i Mr. Robert Owen ddweyd "Na ofynai byth wedyn i'r *Lord* am le i adeiladu cwt ieir." Wedi cryn drafferth llwyddwyd i gael gan Mr. William Owen (Adeiladydd) yn gyfnewid am dir arall y tir y saif Capel Brynbowydd arno. Rhoddwyd iddo £50 fel arwydd o werthfawrogiad y brodyr o'i ewyllys da a'i garedigrwydd. Wedi sicrhau'r tir rhoddwyd rhybudd yn Salem nos Sul y byddai y mater yn dyfod gerbron yn y gyfeillach nos Fercher, Mawrth 3, 1880. Cafwyd cynhulliad da y nos hono a phenderfynwyd:—"Fod yr Eglwys hon, Salem, yn ymgymeryd ag adeiladu Capel ar y tir a ganiatawyd at yr amcan gan Arglwydd Newborough ar y Fron Fawr ac yn ymrwymo i gyd-weithio yn egniol i gario'r gwaith hwn allan." 2. "Fod cais yn cael ei wneud at y personau canlynol i weithredu fel ymddiriedolwyr:—y Parch. T. R. Davies; Mri. Robert Owen, Rhiw House; Owen R. Owen, Bowydd Buildings; D. Ll. Lloyd, Plasmeini; Owen Morris, Porthmadog; R. O.

Jones, Cyfreithiwr; John Roberts, Pantyronen; Robert Williams, Ty'ntwll; William Roberts, Glanbarlwyd; Richard Jones, Church Street; William Jones, Glanydon; R. R. Hughes, Church Street. Yr oedd y gwyr hyn—a chyda hwynt Mr. David J. Jones—i weithredu fel pwyllgor i ddwyn ymlaen y gwaith. Dyma delerau y brydles: 75 mlynedd a sail-ardreth (*ground rent*) o £5.

Dewiswyd Mr. O. M. Roberts, Porthmadog, yn gynllunydd ac etholwyd y Mri. John Owen, John H. Jones a William Hughes (o blith amryw) i adeiladu, ac ymgymerodd Mr. O. R. Owen ag arolygu'r gwaith yn rhad. Gadawodd y gwyr a enwyd y gwaith cyn ei orphen ac ymgymerodd Mr. Owen a'i gwblhau. Rhagorai Mr. Owen fel adeiladydd: rhagorai hefyd mewn zel dros a diddordeb yn y gwaith, a gwnaeth wasanaeth gwerthfawr iawn. Aeth yr holl draul yn £2,223 13s. 11c. Mae Brynbowydd yn mhlith y Capelau harddaf a mwyaf cyfleus yn yr ardal.

Anrhegodd amryw bersonau unigol a theuluoedd yr Achos â dodrefn, llyfrau &c; ac y mae eu henwau ar gof a chadw.

Yr oedd yr Ysgol Sul yn y Parchnadfa ac yn Salem wedi casglu £243 8s. 9½d. at y ddyled ac yr oedd i'w chwanegu at hyn swm sylweddol oddiwrth yr eisteddleoedd, a'r swm anrhydeddus o £200 gan Eglwys Salem. Daeth £112 19s. 7½c. o ffynhonellau eraill. Dengys hyn fod "gan y bobl galon i weithio." Gorffenwyd adeiladu cyn diwedd 1881 a galwyd y Capel "Brynbowydd." Traddodwyd y bregeth gyntaf ynddo gan y Parch. T. R. Davies, Ionawr 12, 1882. Ei destyn oedd "Nid oes yma onid tŷ i Dduw a dyma borth y Nefoedd." Cynhaliwyd "Cyfarfod Agoriadol" Ionawr 13, 14 a 15, a gwasanaethwyd ynddynt gan y Parchn. R. S. Williams, Bethesda; J. Alun Roberts, B.D., Caernarfon; P. Howell, Jerusalem; Ll. B. Roberts, Tanygrisiau; J. Barrow Parry, Bethania; a J. Roberts, Bethel.

Ymgymerodd y Parch. T. R. Davies a gofalu am yr Eglwys fel ei gweinidog a dewiswyd yn ddiaconiaid y Mri. William Roberts, Glan Barlwyd; Owen R. Owen, Bowydd, Buildings; Richard Jones, Dorfil Road; a David J. Jones, Bowydd Street. Penodwyd William Roberts yn Ysgrifenydd a David J. Jones yn Drysorydd; Owen R. Owen yn Ysgrifenydd Arianol; Richard Jones yn Gyhoeddwr; Edward Jones, Cromwell Street, yn Arweinydd y Gân; ac R. R. Willams, Cwmbowydd, i chwareu yr *harmonium* yr hon a gawsid yn rhodd gan Eglwys Salem gan yr hon y dewiswyd y personau a enwyd i wasanaethu bob un yn ei gylch. Nos Fawrth, Ionawr 17, 1882, corphorwyd yr Eglwys yn y Capel Newydd—79 o bersonau o Salem a 4 o Eglwysi eraill, yn gwneud cyfanrif o 83. Cynyddodd yr Eglwys a'r gynulleidfa mewn rhifedi fel erbyn diwedd 1884 yr oedd yr aelodau yn gynifer a 143, a dengys y cyfrifon eu bod erbyn yr adeg hono wedi talu swm sylweddol o'r ddyled.

Yn Ngwanwyn 1885, amlygodd y Parch. T. R. Davies ei fwriad i ymadael mewn cydsyniad a galwad anfonasid iddo gan Eglwys Seisnig Glandwr, Abertawe, ac ym mis Mai cynhaliwyd cyfarfod i ganu'n iach iddo ef a Mrs. Davies a chyflwynwyd anerchiad hardd iddo a *tray* a llestri te i Mrs. Davies. Bu ei weinidogaeth yn dra chymeradwy; dygodd ei waith dyfal ffrwyth amlwg yn llwyddiant Eglwys Salem a'r cynydd cyflym yn Eglwys Brynbowydd.

Yn niwedd haf 1886, rhoddodd yr Eglwys (mewn undeb â Salem), alwad i'r Parch. W. Parri Huws, B.D., Brynmair a Beulah, a'r hon y cydsyniodd. Dechreuodd ei weinidogaeth Chwefror 6ed, 1887, a chynhaliwyd cyfarfod ei sefydliad Mawrth 27. Pregethwyd y Sul gan y Parchn. D. Adams, B.A., Hawen, ac Owen Jones, Pwllheli. Nos dranoeth cafwyd anerchiadau ganddynt hwy a'r Parchn. Owen Thomas, Brynmair; T. Talwyn Phillips, B.D., y Bala, a gweinidogion y Cylch. Dechreuodd Mr. Hughes ei weinidogaeth mewn

amgylchiadau dymunol iawn—Salem yn rhydd oddiwrth ddyled gydag eithrio rhan o'i rhodd i Brynbowydd a'r Eglwys ieuanc hono yn llawn sel a brwdfrydedd ac mewn rhanbarth a'i phoblogaeth yn cynyddu. Yr adeg yma teimlai'r ardal gryn ddiddordeb yn nyfodiad Byddin Iachawdwriaeth iddi a'r llwyddiant mawr a ddilynai ei hymdrechion. Profodd holl Eglwysi'r ardal ei heffeithiau daionus a threfnwyd gan y gwahanol enwadau "bregethau diwygiadol" (fel y'i gelwid) yn y Capel. Bu arddeliad arnynt a chwanegwyd at aelodau'r Eglwysi—Brynbowydd yn eu plith. Mawrth 13, 1888, dewiswyd yn ddiaconiaid y Mri. John Parry (Cwmorthin), John O. Williams, Joseph Jones a David Lewis. Gwasanaethasant eu swydd yn dda a buont ffyddlon hyd y diwedd. Erbyn hyn maent oll gydag eithrio Mr. Joseph J. Jones wedi myn'd oddiwrth eu gwaith at eu gwobr. Ymneilldduodd ef o'i fasnach yr haf diweddaf a symudodd i Menai Bridge er colled i'r Eglwys.

Yn 1888 bu rhyw anghydfod yn Eglwys Wesleyaidd Ebenezer. Aeth tua 25 o aelodau allan o honi a gwnaethant gais am dderbyniad i Eglwys Brynbowydd yr hon wedi ystyriaeth a'u derbyniodd i gyflawn aelodaeth, er nad oedd y Parch. W. Pari Huws yn cymeradwyo eu derbyn mor fuan. Fodd bynag, bu iddynt trwy eu buchedd a'u sel gyfiawnhau y derbyniad a roddwyd iddynt. Bu rhai ohonynt yn amlwg a thra defnyddiol yn yr Eglwys am flynyddoedd lawer. Yn y man dewiswyd un ohonynt—Mr. Morgan Jones, yn ddiacon a "chodwyd" ef yn bregethwr; gellir enwi y Mri. John Owen, Edward Jones a Thomas Jones fel rhai a gafwyd yn ffyddlon ac y mae Mr. Thomas Anthony Hughes yn selog hyd heddyw. Yn 1887, "codwyd" i bregethu wr ieuanc a'i enw Mr. Thomas G. Newell. Brodor o Borthmadog oedd, ond o Lanfairfechan y daeth i'r ardal hono. Yr oedd yn ddyn ieuanc rhagorol a derbyniodd alwad oddiwrth Eglwys Barrett's Grove, Llundain, ond bu farw yn nghanol ei ddefnyddioldeb.

Digwyddiad yn yr hwn y cymerodd yr Eglwys ddiddordeb mawr oedd priodas Mr. Pari Huws. Cymerodd fantais ar yr achlysur i roddi mynegiad i'w theimladau caredig ato a'u dymuniadau da iddo ef a'i briod trwy roddi yn anrheg iddo ef 42 cyfrol. Ebrill 11, 1889, y bu hyn.

Dylid dweyd ei fod ef, gynted y daeth i'r ardal, wedi gwneud cyfrif neillduol o'r bobl ieuanc. Cynhaliwyd cyfarfodydd gweddio yn y rhai y cymerent ran; cynhelid dosbeirth iddynt, a ffurfiwyd Cymdeithas Ddiwylliadol amryw o aelodau'r hon a ddaethant yn wyr amlwg—megis W. Morgan, yr awdlwr a Bardd Cadeiriol; W. G. Davies, Cerddor, a'r Parch. R. M. Edmunds. Bu Mr. Huws yn pregethu yn wythnosol i ferched am flwyddyn, ar brydnawn dydd Iau—dydd yr *half holiday*—a chynhalient yn wythnosol gyfarfyd gweddi a brofodd yn fendith iddynt hwy a thrwyddynt hwy i eraill. Mewn cymhwyster i gynal y cyfryw gyfarfodydd ni cheir yn yr ardal rai a gystedlir â'r chwiorydd yn Eglwys Brynbowydd. Ni fuont yn ddiffygiol mewn ymdrech gyson i leihau'r ddyled a thrwy ddarlithoedd, &c., llwyddasant i fesur helaeth. Fel symbyliad i'r Eglwys barhau i ymroddi i wneud hyny addawodd y gweinidog yn fuan wedi ei ddyfodiad £10 i'r diben hwnw ar yr amod ei bod hi yn casglu swm neillduol, ac yn 1891, cyhoeddodd lyfr o farddoniaeth—gwaith gwahanol awduron—yn dwyn yr enw "Gemau Gwalia" a chaed elw o fwy na £80. Bu'r Eglwys hithau yn ddyfal mewn ymdrech i dalu'r ddyled heb gynal *Bazaar* na *Sale of Work*. Yr oedd Caniadaeth y Cysegr o dan arweiniad Edward Jones, Cromwell Street, a David Jones a William G. Davies yn rhagori yn fawr. Gwnaeth yr olaf a enwyd wasanaeth gwerthfawr gyda chor llwyddianus arweinid ganddo. Cafwyd swm sylweddol at y ddyled oddiwrth gyngherddau yn y rhai y cenid cyfanweithiau, ac ynillodd y cor iddo ei hun enw. Cafwyd Organ—gwerth £200 yn 1895—y gyntaf yn y Blaenau—a

dygodd *Recital* i'w "hagor" elw sylweddol. Bu i Mr. F. P. Dodd, M.A., Prif Athraw'r Ysgol Sir y pryd hyny (er mai yn Eglwys Calfaria (Bedyddwyr) yr oedd yn aelod), yn garedig iawn wasanaethu yn y *Recital* ac am beth amser wedi hyny, a rhoddes yr Eglwys fynegiad i'w gwerthfawrogiad o'i wasanaeth trwy gyflwyno iddo anrheg yn ffurf *time-piece* hardd (Ebrill 10, 1895). Yna penodwyd y Mri. John Jones (Park Square), a William E. Jones yn gyd-organyddion.

Teimlid angen am ysgoldy i gynal yr Ysgol Sul a'r Cyfarfodydd ganol yr wythnos, ac am dŷ i Geidwad y Capel, ac yn Ebrill (1895, penderfynwyd adeiladu'r ty yn gyntaf. Saif wrth ochr y Capel, ac aeth y draul yn £480. Nid aethai yn gymaint onibai am yr anhawster gafwyd i gael sylfaen gadarn iddo. Pan ddaeth Gorphenaf 7, 1895, gwnaeth Mr. Pari Huws yn hysbys ei fod wedi cydsynio a galwad a gawsai oddiwrth Eglwys Dolgellau ac y byddai yn ymadael yn mhen tri mis. Nos Sul, Hydref 6, 1895, traddododd ei "bregeth ymadawol," a'r nos Fercher wedyn cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i gyflwyno i Mr. a Mrs. Huws anrhegion yn ffurf darluniau (gwerth £5 15s 0c) o honynt ynghyd, â chodaid o aur. Gan ddirwestwyr yr ardal cyflwynwyd anerchiad hardd iddo ef ac *Afternoon Tea Service* i Mrs. Huws. Nid oeddynt ond amlygiadau bychain o werthfawrogiad o'u gwasanaeth mawr i grefydd a sobrwydd yn yr ardal.

Yn nghorph y flwyddyn hon (1895) codwyd i bregethu Mr. John Lewis Williams, yr hwn sydd erbyn heddyw yn adnabyddus i'r holl wlad ar gyfrif ei alluoedd disglaer a'i wasanaeth i grefydd. Ceir tystiolaeth i'w allu a'i boblogrwydd yn y ffaith ei fod wedi ei alw i weinidogaethu yn rhai o brif Eglwysi'r Enwad, ac i bregethu mewn cyfarfodydd blynyddol a chymanfaoedd yn mhob rhan o'r wlad.

Yn ddiweddarach, yn 1896, codwyd un arall o blant yr Eglwys i bregethu—Samuel G. Jones, mab i Mr. Richard Jones, yr hwn oedd yn un o sylfaenwyr yr

Eglwys ac yn ddiacon. Ynillodd ei fab radd (B.A.), a bu yn weinidog Eglwysi yn Neheudir Cymru. Yr un flwyddyn cofrestwyd y Capel i weinyddu priodasau ynddo, a cholledwyd yr Eglwys trwy ymadawiad Mr. David J. Jones a'i deulu ar ei benodiad i ofalu am Dy'r Tlodion, Penrhyndeudraeth. Bu iddo ef ran flaenllaw yn nechreuad yr Eglwys. Efe oedd Arolygwr yr Ysgol yn Salem pan osodwyd y mater gerbron yno mewn "cyfarfod brodyr" ar ddiwedd yr Ysgol, ac ef a ddewiswyd yn Arolygwr cyntaf yr Ysgol yn Neuadd y Farchnad. Gwasanaethodd fel diacon ac ysgrifenydd yr Eglwys, ac i ddangos ei bod yn gwerthfawrogi ei wasanaeth cyflwynodd iddo ar ei ymadawiad anrheg yn ffurf *time-piece* hardd.

Erbyn hyn yr oeddid yn brysur yn adeiladu Ysgoldy i'r agor yr hwn, wedi ei gwblhau y gwahoddwyd y Parch. W. Pari Huws, oblegid efe, cyn ei ymadawiad, a ddygasai y mater gerbron yr Eglwys. Mae yn adeilad eang a chyfleus. Fel y digwyddodd yn achos ty Ceidwad y Capel, y bu yn yr achos yma. Oherwydd fod y tir o natur fawnogaidd profwyd anhawster i gael sylfaen safadwy i'r adeilad ac aeth yr holl draul yn £708 11s. 5c.

Yn mis Mawrth, 1897, penderfynwyd chwanegu at nifer y diaconiaid, a'u bod i'w dewis drwy'r tugel, ac na chyfrifid fel wedi ei ddewis neb oni fyddai dwy ran o dair o'r Eglwys wedi pleidleisio drosto; a chanlyniad hyny fu na etholwyd neb. Yn gynar yn 1898 anfonwyd galwad i'r Parch. James John, Caerdydd, ond er fod cynifer a 243 o'r aelodau wedi pleidleisio drosti ni chafwyd atebiad cadarnhaol iddi.

Wedi i'w hymgais i ddewis diaconiaid brofi yn aflwyddianus penderfynodd yr Eglwys oedi gwneud ymgais arall hyd oni fyddai wedi cael gweinidog, ond yn ngwyneb y ffaith a nodwyd yn ddiweddaf, cymerodd y gwaith hwnw mewn llaw Mai 25, 1898, a dewiswyd y Mri. W. C. Williams, Llys Brython; John Davies, Church Street, a Morgan Jones, Bowydd View.

Yn 1900 cafodd yr Eglwys lestri cymundeb hardd fel anrheg gan Mrs. R. D. Evans, Llys Meddyg, yr hon fu yn aelod ffyddlon a defnyddiol hyd oni ddaeth yr amser iddi adael ei gwaith yma am ei gwobr.

Ym mis Mai colledwyd yr Eglwys trwy ymadawiad Mr. William G. Davies o'r ardal i Bwllheli. Heblaw gwasanaethu fel Is-arweinydd y Gan, yr oedd yn Arweinydd cor fu yn llwyddianus iawn a thrwy *beroffrmio* Cyfanweithiau y sicrhaodd swm sylweddol tuag at dalu y ddyled oedd yn aros. Fel Arwydd fod yr Eglwys yn gwerthfawrogi ei ymdrechion a'i sêl a'i ffyddlondeb ynglyn a chaniadaeth y Cysegr cyflwynodd iddo anerchiad hardd.

Unwaith eto teimlwyd yr angen am Weinidog ac ar yr 28ain o Dachwedd, 1900, rhoddwyd galwad i Mr. George Davies, B.A., o Goleg Aberhonddu, a dechreuodd ef ei weinidogaeth yn mis Awst y flwyddyn ddilynol. Yn y Cyfarfod Ordeinio a gynhaliwyd Medi 11 a 12fed, 1901, gwasanaethwyd gan y Parchn. D. G. Williams, St. Clears; y Proffeswr T. Rees, M.A., Aberhonddu; y Prif Athraw D. Rowlands, B A; T. R. Davies, Burnley; a W. Pari Huws, B.D., Dolgellau. Cyflwynodd Eglwysi Pontyberen a'r Tabernacl, Ferndale, roddion gwerthfawr yn ffurf llyfrau i Mr. Davies yr hwn sydd erbyn hyn wedi cwblhau tair-ar-hugain o flynyddoedd o wasanaeth ffyddlon a chymeradwy i'r Eglwys ac i'r ardal yn gyffredinol. Y flwyddyn ddilynol ymddiswyddodd Mr. David Jones, Arweinydd y Gan, a dewiswyd Mr. Robert Edmunds i'r swydd. Yr oedd ef eisioes yn Is-arweinydd ac wedi profi fod ynddo gymhwyster neillduol i'r gwaith. Heb oedi ymaflodd o ddifrif yn ei waith, a than ei arweiniad *perfformiodd* y Cor "Gantata Joseph" (Dr. Parry), a gwnaeth elw i'r Eglwys o £57 0s. 2c. (Dylasid crybwyll ddarfod i'r Eglwys anrhegu Mr. David Jones â gwydr-ddrychau aur a llyfr tonau fel amlygiad o'i gwerthfawrogiad i'w wasanaeth am bymtheg mlynedd).

Yn 1904 gwnaed adgyweiriadau helaeth yn y Capel a dygwyd iddo beiriant twymno a goleuni trydanol a symudwyd yr Organ yn mhellach yn ol am ei bod, fel yr oedd hyd hyny yn tywyllu y Capel. Aeth yr holl draul yn £716 5s. 4c., ond gwnaed ymdrech egniol i ddwyn y draul a chasglwyd y flwyddyn hono £662 1s 6c. Dengys hyn fod gan y bobl galon i weithio. "Blwyddyn y diwygiad" ydoedd, ac ynddi chwanegwyd 54 at nifer yr aelodau. Adnewyddwyd yr Eglwys yn gyffredinol ac erys y dylanwad hyd heddyw.

Pan ddaeth Chwefror 9, 1904, cofrestrwyd Brynbowydd dan Ddeddf Priodasau a'i gwnaeth yn bosibl gweinyddu priodasau yn y Capel heb bresenoldeb cofrestrydd. Y flwyddyn ddilynol codwyd Mr. Robert Edmunds yn bregethwr. Ordeiniwyd ef er's blynyddoedd bellach ac wedi gwasanaethu yn ffyddlon fel gweinidog mewn dau gylch ymgymerodd â swydd Goruchwyliwr Cymanfa Ddirwestol Gogledd Cymru. Deil i bregethu yn gyson; areithia ar ddirwest, arwain Gymanfaoedd Canu a ffurfia Obeithluoedd a Chymdethasau Dirwestol, gan brofi ei gymhwyster i'r swydd y'i penodwyd iddi. Ar ei ymadawiad o Brynbowydd (Hydref 21, 1908), rhoddwyd anrheg iddo yn ffurf anerchiad hardd, a thrachefn pan y'i hordeiniwyd cyflwynwyd iddo nifer o lyfrau gwerthfawr. I gymeryd ei le fel Arweinydd y Gan, dewiswyd Mr. Gwilym Morris. Ymadawodd Mr. William E. Jones, yr Organydd, yn haf 1906, ac anrhegwyd ef â'i ddarlun mewn *gilt frame* fel arwydd fod ei wasanaeth am ddeng mlynedd yn werthfawr yn ngolwg yr Eglwys. Yn olynyddion iddo dewiswyd Miss A. E. Owen Davies a Miss M. A. Williams, Church Street.

Perthyn i'r Eglwys lyfrgell a ffurfiwyd yn 1906, yn yr hon y ceir cryn nifer o lyfrau buddiol a'r hon y mae yr ieuenctyd wedi manteisio arni.

Yn 1908, bu farw Mr. David Lewis, diacon a wasanaethodd yr Eglwys yn ffyddlon fel trysorydd am flynyddoedd. Yn olynydd iddo dewiswyd Mr. Joseph Jones. Pan ddaeth Chwefror 2, 1910, chwanegwyd Mr. Robert Griffith a Mr. Cadwaladr Williams, at y diaconiaid. Bwriedid dewis pedwar, ond y ddau a enwyd yn unig a gawsant nifer ddigonol o bleidleisio. Symudodd Mr. Griffith i Ferthyr Tydfil er's rhai blynyddoedd bellach. Trwy hyny cafodd yr Eglwys golled, oblegid yr oedd Mrs. Griffith yn ogystal a'i phriod yn ffyddlon a defnyddiol iawn. Dewiswyd yn Ymddidriedolwyr, Chwefror 27, 1910, y Mri. Evan E. Owen; Griffith Williams; Evan H. Jones; John Davies; Robert Griffith; Cadwaladr Williams; a'r Parch. G. Davies, B.A.

Gwnaed bwlch mawr yn yr Eglwys, Hydref 4, 1910, trwy farwolaeth Mr. Morgan Jones, yr hwn a wnaeth waith da fel athraw am lawer o flynyddoedd ac yr oedd yn ddiacon ac yn bregethwr meddylgar a chymeradwy.

Chwanegwyd at nifer y diaconiaid, yn 1914, y Mri. Evan H. Jones a Griffith Williams. O'r flwyddyn hono hyd derfyn y Rhyfel Mawr, bu i'r Eglwys hon fel holl eglwysi'r cylch ddioddef yn drwm o herwydd y dirwasgiad masnach a achoswyd, yr hwn yn ei dro a achosodd symudiad lluaws o'r ardalwyr i ranau eraill o'r wlad; ac o herwydd marwolaeth cryn nifer o aelodau ffyddlon. Erbyn hyn nid oes yn aros gynifer ag un o'r gwyr oeddynt yn ddiaconiaid yn 1901 pan ddechreuodd Mr. Davies ei weinidogaeth.

Yn 1916 dewiswyd y Mri. W. C. Williams, John R. Jones, John E. Jones, a Cadwaladr Williams, i wasanaethu swydd diacon. Cawsai yr un a enwyd yn olaf ei ddewis i'r swydd yr un pryd a Mr. Robert Griffith (yn 1910), ond yr oedd yn mhlith y lluaws a symudasant o'r ardal yn ystod y dirwasgiad masnach a grybwyllwyd eisoes. Gellir chwanegu fod y Parch. G. Davies yn parhau yn Weinidog Brynbowydd ac yn

uchel ei barch ac yn ddwfn yn serchiadau yr Eglwys, yr hon sydd wedi ymadnewyddu a chynyddu y blynyddoedd diweddaf hyn. Rhif yr aelodau Rhagfyr 31, 1923, oedd 259. Cyfanswm y ddyled £511 17s. 1c.

Yr Eglwysi yn eu perthynas a'u gilydd ac a'r Enwad.

Dengys yr hyn a ysgrifenwyd eisoes fod yr Eglwysi ar hyd yr amser sydd wedi myn'd heibio er's pan y'u ffurfiwyd, wedi arfer ymgysylltu â'u gilydd gyda'r amcan o sicrhau gweinidogaeth sefydlog ac effeithiol, &c. Bu pob un o honynt am ryw gymaint o amser mewn undeb ag un arall yn ffurfio "maes gweinidogaeth." Bu ymwahanu, mewn nid ychydig o achosion, yn anfantais i'r wanaf, er mai y wanaf yn ddi-eithriad a gafwyd yn tori'r cysylltiad, a'r gryfaf yn barod i barhau i estyn iddi y cymorth yr oedd yn rhaid iddi wrtho er ei llesad. Yn lled foreu yn eu hanes cafwyd yr Eglwysi yn uno i gynal Cyfarfod Pregethu Blynyddol. Tua haner-can mlynedd yn ol dechreuwyd galw y cyfarfod hwnw yn Gymanfa, a chynhaliwyd hono yn flynyddol byth er hyny gydag eithrio rhai o flynyddoedd y Rhyfel Mawr. Gwahoddid goreugwyr i wasanaethu ynddi, a pheth eithriadol fu gwahodd iddi un heb fod yn rhagori mewn gallu. Bu dyfod iddi o gryn fantais i nid ychydig o weinidogion ieuainc; a chafodd yr ardal gyfle i glywed "doniau penaf" y pwlpud Anibynol. Wedi dywedyd

hyn yna, rhaid i ni chwanegu na ddarfu i'r eglwysi fanteisio i fesur llawn ar y cyfrwng rhagorol yma i ddyfod i Undeb agosach â'u gilydd ac felly i fod yn fwy o fendith i'w gilydd ac i'r ardal yn gyffredinol.

Sefydliad arall o'u heiddo ydyw Eisteddfod y Nadolig yr hon gymerodd y ffurf sydd iddi yn awr yn y flwyddyn 1876. Lawer o flynyddoedd cyn hyny, dechreuwyd cynal cyfarfod blynyddol a elwid "Cyfarfod Cystadleuol Undeb Anibynol Ffestiniog." Gwelir oddiwrth nifer a natur y testunau yn rhaglen y cyfarfod hwnw nad oedd yn ol i'r Eisteddfod ar ei goreu. Er engraifft, yn 1867, J.R. (Conwy) oedd beirniad y traethodau ar gynifer a chwech o destynau, ac ymgeisiasai cryn nifer am bob gwobr.

Gwnaeth yr Eisteddfod ar hyd y blynyddoeddd wasanaeth gwerthfawr trwy feithrin chwaeth a thalent plant a meibion a merched ieuainc, a phrofodd rhai o'i chynyrchion yn dra manteisiol i'r eglwysi. Felly y bu *Llyfr Safonau'r Plânt*. Cynygiwyd gwobr sylweddol am "Lawlyfr at wasanaeth dosbeirth y Plant" ac ynillwyd hi gan Mr. G. R. Hughes, Bethel, Arfon. Argraphwyd amryw filoedd o hono a defnyddiwyd ef am flynyddoedd yn holl Ysgolion Sul y Cylch a chan luaws o Ysgolion eraill. Yn anffodus, bu i Undeb yr Ysgolion ei fwrw ymaith a chymeryd yn ei le lyfrau Undeb yr Anibynwyr. Parodd hyny golled arianol fawr i'r Undeb Lleol, ac nid oes genym ond gobeithio yr ynillir mewn ystyr arall trwy yr hyn a wnaed.

Yn niwedd 1888, anfonodd Eglwys Bethania at yr Eglwysi eraill anogaeth i flurfio "Cyngor Anibynwyr Ffestiniog," a chytunasant oll i wneud hyny. Fe'i cyfansoddir o weinidogion a diaconiaid y saith Eglwys. Yn ei flynyddoedd cyntaf gwnaeth waith gwir ragorol, ond gyda threigliad amser "llaesodd ei ddwylaw ac ymollyngodd ei fferau." Ni chyfarfyddai am gyfnod lled faith ond yn anfynych iawn, ac ni

wnai nemawr ddim ond trefnu ar gyfer y Gymanfa Flynyddol. Gallasai a dylasai wneud gwasanaeth gwerthfawr i'r Eglwysi trwy feithrin cydymdeimlad llawnach a mwy o gydweithrediad rhyngddynt—yn enwedig yn nyddiau y Rhyfel Mawr. Trodd ymaith rhag dal ar gyfle euraidd a gafodd i wneud gwaith rhagorol y pryd hyny—gwaith y galwyd ei sylw ato ac y'i hanogwyd i'w wneud.

Erys i'w wneud waith ag y mae gwir angen am iddo ymaflyd ynddo yn ddiymdroi. Rhifai aelodau y Saith Eglwys ar derfyn y flwyddyn ddiweddaf 1463. Gwaetha'r modd, mae cryn lawer ohonynt yn llesg iawn. Trig nid ychydig ohonynt ar y terfynau. Hyny yw, trigant rhwng dau o Gapelau'r Blaenau. Perthynant mewn enw i'r pellaf o'r ddau pan y byddai yn fwy rhesymol iddynt ymgysylltu â'r agosaf Syrth nid ychydig o honynt i gyflwr di-fater; yn anfynych yr ant i gyfarfodydd yr Eglwys y cyfrifant eu hunain yn aelodau o honi. Haedda a hawlia'r mater yma ystyriaeth ddifrifol y Cyngor.

Cafwyd yr Eglwysi bob amser yn dra ffyddlon i amryw sefydliadau yr Enwad, ac yn barod i gefnogi pob mudiad daionus o'r eiddo. Deil eu cyfraniadau at y Colegau a'r Genhadaeth Dramor a'r gwahanol Gronfeydd gymhariaeth á chyfraniadau y mwyafrif mawr o Eglwysi'r wlad. Buont hefyd yn noddwyr i Gymanfa Chyfarfod a Chwarterol Meirion. Yn 1883, cynhaliwyd cyfarfod o Undeb yr Annibynwyr yma, a'r flwyddyn hono digwyddodd mai un o feibion Ffestiniog oedd y Cadeirydd—y Parch. W. Edwards, Aberdâr. Rhaid dweyd fod cryn lawer rhwng y gwahoddiad a bod yn wahoddiad unfrydol yr Eglwysi, ond bu ei gynhaliad yn foddion effeithiol i beri i hên frodyr fwrw ymaith y rhagfarn oedd ganddynt yn ei erbyn. Heblaw hyny gwnaeth a gadawodd argraph dda ar holl Eglwysi y Cylch a rhoddodd achos i luaws yn perthyn i enwadau eraill newid er gwell eu syniadau am danom fel Annibynwyr.

Yn 1906, cynhaliwyd yr Undeb yma eilwaith ar wahoddiad unfrydol y saith eglwys a chafwyd cyfarfodydd gwir rhagorol am y rhai y bydd hir goffa.

Rhydd hyn achlysur i sylwi ar y ffaith mai ychydig o aelodau'r saith eglwys sydd wedi arfer cymeryd diddordeb yn sefydliadau'r Enwad—yr Undeb, Cymanfa'r Sir a'r Cyfarfod Chwarter, tra y cymerant eu lle ac y gwnant eu rhan (i gymaint mesur a phobl yn perthyn i Enwadau eraill) ynglyn a sefydliadau lleol, sirol a chymdeithasol nad ydynt enwadol. Ni ddeilliai dim ond mantais i'r Eglwysi o gymeryd o'u haelodau yn gyffredinol ddiddordeb mwy yn a gwneud mwy yn mhlaid sefydliadau a symudiadau yr Enwad Anibynol fel y cyfrw.

ATODIAD.

Gan fod cryn amser wedi myn'd heibio er's pan ysgrifenwyd yr hyn anfonwyd i'r gystadleuaeth yn Eisteddfod Nadolig 1924, priodol ydyw cofnodi rhai digwyddiadau diweddarach.

Crybwyllwyd, yn hanes Eglwys Bethel, am ymneilltuad y Parch. R. T. Phillips, ond ei fod yn aros yn yr ardal ac yr edrychid ymlaen at barhad o'i wasanaeth ffyddlon mewn llawer modd iddi. Brawychwyd y fro pan wybuwyd am ei farwolaeth ddisyfyd nos Wener, Mehefin 12fed, 1925. Pregethasai yn Meddgelert y Sul cyn hyny. Bu i'w feddyg pan y'i gwelodd ei gynghori i orphwyso am ychydig amser, gan ei fod yn gweled nad oedd yn iach. Nos Wener, fodd bynag, aeth at y meddyg i geisio ganddo gydsynio iddo gyflawni addewid i bregethu yn Salem, Porthmadog, y Sul dilynol—Mehefin 14eg, ac yn ebrwydd bu farw yn y gadair yr eisteddai arni. Brydnawn y dydd Llun dilynol (Mehefin 15fed), hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono i fynwent Ffestiniog. Daeth llawer iawn o bobl "i dalu'r gymwynas olaf" iddo. Am 2.45 ar y gloch, cynhaliwyd gwasanaeth yn Nghapel Bethel, yr Eglwys a wasanaethodd yn ffyddlon am dair-ar-ddeg-ar-hugain o flynyddoedd. Llywyddwyd gan Mr. J. Rhydwen Parry, cyfaill anwyl Mr. Phillips ar hyd y blynyddoedd. Darllenwyd rhan o'r Ysgrythyr gan y Parch. R. G. Owen, B.A. (Llanuwchlyn), ac arweiniwyd mewn gweddi gan y Parch. E. Powell, Engedi (M.C.), Ffestiniog. Yna anerchwyd y cynulliad gan Mr. R. Vaughan Lewis, diacon. Dywedodd na wyddai am neb mwy addas i'r Weinidogaeth na Mr. Phillips; am ei bwyll a'i ddoethineb; fod ei fywyd yn rhoddi grym yn ei bregethau; nad oedd blwyddyn lawn er's pan y rhoddasai i fyny ei weinidogaeth ac nad oedd ond llai

fyth er's pan anrhegwyd ef ag anerchiad ynghydag arwydd sylweddol o barch iddo; a'i fod yn y cyfarfod hwnw wedi dweyd nad oedd yn ymddiswyddo i segura ond i wasanaethu ym mha le bynag y ceisid ganddo; a'i fod wedi gwirio y geiriau a ddywedodd, oblegid bu gyn brysured wedi ac a fuasai cyn ymddiswyddo; er fod amryw Gynghorau a Phwyllgorau yn mynd á llawer o'i amser, y dilynai gyfarfodydd yr Eglwys gyda chymaint o gysondeb ag y gwnai pan yn Weinidog iddi. "Bod yn barod bob amser" (eb ef), oedd testyn ymddiddan y gyfeillach olaf y bu Mr. Phillips ynddi, ac yn hono pwysleisiodd y gwir y dylem fod á'n holl ysbryd yn y gwaith. Felly y byddai ef ei hun, ac yr oedd yn nodedig am ei drefnusrwydd. Chwith iawn y teimlent o'i golli, oblegid ni wyddai Eglwys Bethel beth oedd bod heb weinidog. Os oedd Mr. Phillips wedi marw yr oedd ei ysbryd yn fyw ac yn cyniwair ymhlith y bobl y rhoddasai y rhan oreu o'i oes i'w gwasanaethu.

Cafwyd anerchiadau byrion gan y Parchn. Z. Mather (yr Abermaw), a fu gynt yn weinidog Bethel, a W. Pari Huws, B.D. Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. J. O. Williams, M.A. (Pedrog). Wedi hyny, bu gwasanaeth yn y ty (Argoed), dan arweiniad y Parchn. Rhys Davies, Aberllefeni, a H. O. Jones, Towyn. Trefnwyd gorymdaith o'r tŷ i'r fynwent fel hyn:—Gweinidogion, Diaconiaid, yr elor-gerbyd, perthynasau a Cynrychiolwyr Byrddau Cyhoeddus a'r cyhoedd. Safai plant yr Ysgol Elfenol bob tu i'r ffordd tra'r elai yr angladd heibio. Yn y fynwent gwasanaethwyd gan y Parchn. Ivan T. Davies, Llandrillo, a Cynfal Jones, Llanelltyd. Y Sul dilynol—Mehefin 21, gwasanaethai Dr. Miall Edwards yn Bethel, a thraddododd yn yr hwyr bregeth angladd ddwys a grymus i gynulleidfa fawr.

Mehefin 18—25, 1925, cynhaliwyd Arddanghosfa Genhadol (dan nawdd Cymdeithas Genhadol Llundain). Mewn rhag-ymadrodd i'r Rhaglen dywedir

mai "ei nod penaf yw goleuo, addysgu ac ysprydoli; amcenir cyraedd y dychymyg trwy'r llygad a r glust; rhoddi syniad cliriach am natur a maint gwaith y Gymdeithas Genhadol, a thrwy hyny enyn diddordeb yndd a chydymdeimlad â hi. Nid yw gwneuthur elw oddiwrthi ond ail amcan. Eto, calondid fyddai gweled swm sylweddol yn weddill i'w drosglwyddo i'r Gymdeithas."

Cafwyd cymorth o'r Tŷ Cenhadol trwy bresenoldeb y Parchn. Robert Griffith; D. D. Green; Mrs. Lewis J. Thomas, a Mr. H. C. Cotton (Gornchwyliwr yr Arddanghosfa), a'i gynorthwywr Mr. Melloy. Gwnaethant wasanaeth cyn yn ogystal ac yn ystod dyddiau yr Arddanghosfa. Trefnasid ar ei chyfer gan bwyllgor cyfansoddedig o amryw aelodau o bob un o'r Saith Eglwys. Ei lywydd oedd J. Rhydwen Parry; Is-lywydd, Mr. Henry Williams; Ysgrifenyddion, Mri. W. J. Williams ac R. Percy Hughes; Trysorydd, Mr. David Williams, Glasfryn.

"Arddanghosfa Ynysoedd y Mor a Pageant" y'i gelwid a dangosid golygfeydd o bentrefi, bythod a brodorion ynghyda lluaws mawr o bob math o greiriau o'r meusydd Cenhadol y rhai a eglurid mewn anerchiadau diddorol gan y Cenhadon a enwyd fel yr aent o *stall* i *stall*. Heblaw hyn, yr oedd *Cinema* yn dangos gwahanol ranau o'r maes cenhadol yn China, Affrig, India, Madagascar ac Ynysoedd Môr y De; a thrwy ddramodau *tableaux* a chwareuon dangosid defodau ac arferion trigolion y lleoedd hyny. Yn y gwaith yma cymerid rhan gan feibion a merched o bob un o Eglwysi'r cylch, a gwnaethant oll eu rhan yn wir ragorol. Gellir dweyd yn bendant i'r arddanghosfa fod yn hollol lwyddianus yn yr ystyr o enyn zel y rhai a gymerent ran yn y gwaith—y chwiorydd yn enwedig. Diau, pe cawsid cydweithrediad mwy cyffredinol ac yn gynarach, y buasai ei llwyddiant yn mhob ffordd yn fwy. Trosglwyddwyd yr elw—£189 7s. 2c.—i Gymdeithas Genhadol Llundain.

Digwyddiad arall na bu ei debyg yn hanes Anibyniaeth yn Mhlwyf Ffestiniog yw ddarfod i Mr. J. Rhydwen Parry gwblhau deugain mlynedd o wasanaeth fel gweinidog Bethania, nos Sul, Awst 30, 1925. Cyn dyfod o r dydd hwnw penderfynasai yr Eglwys ddal ar yr achlysur i roddi mynegiad i'w theimlad caredig ato a'i gwerthfawrogiad o wasanaeth rhagorol Mr. a Mrs. Parry i'r Eglwys a'r Cylch yn gyffredinol ynglyn a gwahanol sefydliadau a symudiadau. Nis gallwn wneyd dim yn well na (nac yn gystal â) rhoddi hanes y cyfarfod ymadawol fel yr ymddanghosodd mewn newyddiadur. Fel hyn y mae: "Nos Iau, Hydref 8fed, yn Nghapel Bethania cynhaliwyd cyfarfod arbenig i gyflwyno tysteb i'r Parch. J. Rhydwen Parry ar ei ymneilltuad o'r weinidogaeth ar ol deugain mlynedd o wasanaeth fel gweinidog Bethania, ac yn fawr ei barch yn yr Eglwys a'r cylch drwy'r amser. Brodor o Fostyn ydyw—un o ddisgyblion yr enwog Dr. Pan Jones, yr hwn yn ddios a ddylanwadodd lawer arno. Bu yn Ngholeg Spring Hill, Birmingham, ac yn 1885 derbyniodd alwad o Eglwys Bethania ac yno y treuliodd ei oes hirfaith yn y weinidogaeth. Nid yn unig bu yn weinidog da, ond cymerodd ran amlwg ym mywyd cyhoeddus y dref a'r Sir. Bu am flynyddoedd yn aelod o'r Cyngor Sir ac o Bwyllgor Addysg Meirion a chyn hyny yn aelod o'r Bwrdd Ysgol, ac yn gadeirydd Rheolwyr Ysgol Sir Ffestiniog. Yr oedd yn wr o farn addfed, a byddai hono bob amser at wasanaeth y Cyhoedd. Adnabyddir Mr. Parry yn fwyaf fel cymwynaswr a chynghorwr—gwr i fynd ato pan mewn argyfwng—a chwith fydd ei golli. Bu yn flaenllaw yma drwy'r amser, a mawr berchid ef gan bawb, yn ddadleuwr mawr, yn wleidydd craff, yn Rhyddfrydwr cadarn, yn ysgrifenwr medrus ac yn wr o gymeriad glan.

Dechreuwyd y cyfarfod anrhegu o dan arweiniad y Parch. I. Thomas, Hyfrydfa. Yn ei araeth dywedodd y Cadeirydd, Mr. W. D. Jones, Bodegryn (Diacon hynaf

yr Eglwys), mai Bethania oedd yr Eglwys Annlbynol hynaf yn yr ardal a'i bod dros gant oed. Bu iddi wyth o weinidogion a bu Mr. Parry yma yn hwy na neb o'i flaenoriaid a gwnaeth gymaint gwaith a'r un ohonynt. Daeth yma ddeugain mlynedd yn ol yn syth o'r Coleg ac mae fod y deugain mlynedd wedi bod mor llwyddianus yn brawf clir o'i ddylanwad a'i allu. Ail-adeiladwyd y Capel a chafwyd ysgoldy a chliriwyd y ddyled. Gweithiodd Mr. Parry yn amlwg gyda dirwest, moes a chrefydd; a theimlai r Eglwys a'r ardal y dylid dangos gwerthfawrogiad o'i wasanaeth ar ei ymneillduad. Ond ni allasai Mr. Parry fod wedi cyflawni'r gwaith oni bae am gymorth Mrs Parry.

Tystiodd Mr. G. J. Bevan (hen Ysgolfeistr y Mánod a diacon yn yr Eglwys), fod y deugain mlynedd y bu'r swyddogion a Mr. Parry gyda'u gilydd yn hapus iawn.

Siaradwyd yn gryf gan Mr. J. D. Davies (Y Rhedegydd), am y gwasanaeth rhagorol gyflawnodd Mr. Parry i'r ardal a'r golled fawr fydd ar ei ol ef a Mrs. Parry. Cynrychiolid Cyngor yr Eglwysi Efengylaidd gan y Llywydd—y Parch. R. S. Hughes, B.A., B.D., y Garreg Ddu. Yn ystod yr amser byr y bu ef yma cafodd yr argraph mai dyn cryf ydoedd Mr. Parry, ac fel gweinidog ieuanc yr oedd yn ddrwg ganddo ef golli dyn o'r fath o'r ardal pan oedd cymaint o'i angen. Ni allai wneud dim yn well nag adrodd yr hyn a ddywedodd y Parch. John Owen, M.A., Caernarfon, wrtho—sef, mai "Mr Parry oedd y dyn mwyaf unplyg a gyfarfum i erioed."

Siaradwyd ar ol hyny—yn gymeradwyol—gan y Parchn. G. Davies, B.A.; R. R. Jones, Bethesda; J. Luther Thomas a Mr. E. Towyn Jones, M.SC., Prifathraw yr Ysgol Sir.

Yna cyflwynwyd *hand-bag* gwerthfawr i Mrs. Parry gan Mrs. Laura Hughes, yr hynaf o aelodau'r Eglwys. Cyflwynodd y Llywydd anrheg o *album* hardd a darlun o'r Capel ac enwau'r tanysgrifwyr ynddo a *cheque* am 115 gini i Mr. Parry a dywedodd fod llu

mawr o'r tu allan i'r Eglwys wedi cyfranu at y dysteb a bod rhagor eto i ddod.

Wrth ddiolch dros Mrs. Parry a throsto ei hun, dywedodd Mr. Parry ddarfod iddi hi ddweyd wrtho dro yn ol "na chafodd yn ystod ei harosiad yma am 39 mlynedd yr un gair angharedig gan neb," a gallai yntau ddweyd na chafodd ond ychydig iawn. Diolchodd yn gynes iawn am y caredigrwydd mawr a ddangosodd y dref iddo bob amser.

Mae Mr. a Mrs. Parry wedi symud i dreulio gweddill eu bywyd yn Penbontfawr gyda dymuniadau goreu'r ardal.

Yn niwedd 1926—Rhagfyr 22—cafodd Eglwys Bethania golled fawr yn marwolaeth Mr. William D. Jones, Bodegryn. Efe oedd y diacon hynaf—wedi gwasanaethu yn y swydd am bymtheg-mlynedd-ar-hugain, a bu yn nodedig o weithgar a ffyddlon ar hyd y tymor hirfaith hwnw. Bu am gryn amser yn Ysgrifenydd yr Eglwys ac yn ddiweddarach yn Drysorydd. Yn Bethania y'i magwyd, a threuliodd ei oes yn aelod i'r Eglwys gydag eithrio cyfnod byr y bu oddicartref am gwrs o addysg. Bu yn athraw tra llwyddianus yn yr Ysgol Sul er s pan yn ddyn ieuanc. Yr oedd yn llenor medrus ac yn Eisteddfodwr selog. Ynillodd wobrwyon lawer yn Eisteddfodau'r cylch, ond cyfyngodd ei alln a'i wasanaeth gan mwyaf i'w fam-eglwys yn Bethania, yr hon oedd yn agos iawn at ei galon. Dangosodd hithau bob parch iddo ac ymddiried yno drwy ei ddewis i bob swydd o gyfrifoldeb a feddai, a chyflawnai yntau ei holl waith gyda medr a ffyddlondeb diball. Bydd bwlch mawr ar ei ol a chwith yw meddwl fod yr olaf o deulu lluosog a ffyddlon Brynegryn wedi ein gadael.

JERUSALEM.

Crybwyllwyd eisoes am farwolaeth y Parch. J. Hughes yn yr Unol Dalaethau. Yn nechreu Mai 1925, chwanegwyd at nifer y diaconiaid y ddau a gawsant y nifer reidiol o bleidleisiau—Mr. Hugh G. Hughes a Mr. John Henry Jones. Gwasanaethai y cyntaf a enwyd yr un swydd yn Hyfrydfa am flynyddoedd cyn symud i fyw yn nes i Jerusalem. Nid oedodd yr Eglwys geisio olynydd i'r diweddar Barch. J. Hughes, ac yn gynar yn 1926 rhoddodd alwad unfrydol i Mr. E. Lewis Evans, B.A., o Goleg Aberhonddu, ond ar y pryd yn Ngholeg Prif-ysgol Caerdydd. Derbyniodd yntau yr alwad a chynhaliwyd cyfarfod i'w ordeinio nos Fercher a dydd lau, Mai 12 a 13, 1926, dan lywyddiaeth Mr. J. Rhydwen Parry, cyn weinidog Bethania—y Fam-Eglwys. Nos Fercher, pregethodd y Parch. D. D. Jones, Capel-y-Wig, a boreu dydd lau, traddodwyd pregeth ar "Natur Eglwys" gan y Parch. W. Pari Huws, B.D., Dolgellau. Am 1.30 y prydnawn, cynhaliwyd y "cyfarfod ordeinio." Wedi i'r Parch. Isaac Thomas, Hyfrydfa, ddarllen rhan o'r Ysgrythyr ac arwain mewn gweddi, cafwyd gair byr a phwrpasol gan y Llywydd, yr hwn a alwodd ar Mr. Thomas J. Williams, Ysgrifenydd yr Eglwys, i roddi "hanes yr alwad." Holwyd profiad a bwriadau Mr. Evans gan y Parch. G. Davies, B.A., a chafwyd ganddo atebion clir a boddhaol. Offrymwyd yr Urdd-weddi gan y Parch. Luther Thomas, Carmel. Estynwyd croesaw cynes i Mr. Evans i'r cylch gan y Parch. R. S. Hughes, B.A., B.D., y Garregddu (Cadeirydd Cyngor yr Eglwysi Efengylaidd). Siaradwyd dros Eglwys Horeb, Pontargothi, gan y Mri. Evan Davies a Ben Davies, Y.H., a chyflwynwyd i Mr. Evans oddiwrth ei fam-eglwys *wallet* yn cynwys arian-nodau fel arwydd o'i pharch iddo. Yna dygodd Mr. R. E. Leysham—cydfyfyriwr a Mr. Evans yn Nghaerdydd—dystiolaeth gref i gymeriad a galluoedd disglaer Mr. Evans, a dywedodd ei fod yn hyderus hollol fod iddo, ar gyfrif ei ymroddiad fel efrydydd gogyfer a'r gwaith

y'i galwyd iddo, ddyfodol llwyddianus iawn. Traddodwyd siars i'r gweinidog gan y Parch. D. Curwen Davies, Pontargothi, a therfynwyd trwy weddi gan y Parch. Iorwerth Williams, Maentwrog. Nos Iau, traddodwyd siars i'r Eglwys gan y Parch. D. D. Jones, Capel-Wig, a phregethwyd gan y Parch. W. Pari Huws. Cafwyd cyfarfodydd rhagorol iawn ac yr oedd naws hyfryd arnynt.

Dechreua Mr. Evans ei weinidogaeth mewn amgylchiadau tra dymunol—Capel helaeth wedi ei adnewyddu, ysgoldy eang ac yn gysylltiedig ag ef ystafelloedd cyfleus i baratoi ymborth ynddynt &c. Cafwyd prawf ddydd yr ordeinio fod pobpeth rheidiol ar gyfer cyfarfodydd arbenig wedi ei sicrhau. Byddant wedi hyn yn gaffaeliad o werth pan fydd angen am ddarparu ymborth i luaws o bobl.

Rhoddodd yr Eglwys wahoddiad i Gymanfa'r Sir 1926, ac yno y'i cynhaliwyd. Gwasanaethwyd ynddi gan y Parchn. J. Lewis Williams, M.A., B.SC., Cadle; H. T. Jacob, Abergwaen; Ben Davies, Llandeilo; a W. J. Nicholson, Porthmadog. Cafwyd cynulliadau rhagorol, gwrandawiad astud a phregethau grymus.

BRYNBOWYDD.

Nos Sul, Mai 24, 1926, traddododd Mr. William C. Williams ei bregeth gyntaf a chafodd gymeradwyaeth yr Eglwys fel pregethwr. Yn ddiweddarach cyflwynwyd ef i sylw cynhadledd Cymanfa'r Sir yn Harlech, Mehefin 16fed. Rhoddwyd derbyniad caredig iddo a phenodwyd y Parchn. J. Luther Thomas ac Isaac Thomas i'w arholi. Yn y Cyfarfod Chwarterol a gynhaliwyd yn Hyfrydfa, Medi 9, 1926, cafwyd ganddynt adroddiad ffafriol iddo ac yna derbyniwyd ef fel pregethwr rheolaidd a chymeradwywyd ef i'r Eglwysi. Pan ddaeth mis Medi aeth yn llwyddianus drwy arholiad ymgeiswyr am dderbyniad

i Gleg Bala-Bangor. Mae eisoes yn dra chymeradwy felpregethwr a chredir fod iddo ddyfodol disglaer. Mb ydyw i Mr. a Mrs. Cadwaladr Williams, Llys Python. Mae ei dad yn ddiacon yn Eglwys Brynbowydd. Ei daid oedd y diweddar William C. Williams, Beudy Mawr (fel y'i gelwid), yr hwn a fu am lawer o flynyddoedd yn un o golofnau yr Achos yn Carmel ac yn ddiweddarach yn Brynbowydd. Yn mis Medi 1925 dewiswyd yn ddiaconiaid y Mri. David J. Williams, Edward Edwards, William J. Williams, George Davies ac Evan Jones.

CARMEL.

Nid yw Eglwys Carmel wedi bod yn segur nac yn ldiffrwyth er s pan ddaeth y Parch J. Luther Thomas 'w bugeilio. Aeth i gryn draul i adgyweirio'r Capel i'r adeiladau eraill ac i gael Llestri Cymundeb Unigol, a llestri tê hefyd. Yn chwanegol at hyn, prynodd organ newydd yr hon a "agorwyd" gan Dr. Caradog Roberts mewn cyngerdd llwyddianus a gynhaliwyd. Chwefror 8, 1926, chwanegwyd at nifer ymddiriedolwyr eiddo yr Eglwys y Mri. Cadwaladr Jones, Hugh Jones, Robert Lewis, Hugh Parry, Evan J. Richards, John J. Williams John E. Williams a William J. Williams. Nos Fercher, Ebrill 14, 1926. dewiswyd gydag unfiydedd bump yn ddiaconiaid :— y Mri Richard Jones, Evan J. Richards, Cadwaladr C. Roberts, John E. Williams, a William J. Williams.

HYFRYDFA.

Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarterol Meirion yn Hyfrydfa, Medi 9 a 10, 1925. Yr oedd o ddiddordeb neillduol i Anibynwyr yr ardal ar gyfrif y ffaith fod y Parchn. J. Luther Thomas ac Isaac Thomas, y rhai a benodasid (fel y dywedwyd) i arholi Mr. William C

Williams, Brynbowydd, i gyflwyno eu hadroddiad [illegible] oedd eu hadroddiad yn hollol foddhaol a rhoddwyd [illegible] pregethwr ieuanc dderbyniad cynes fel un [illegible] ymwys Weinidogaeth y Gair. Rhoddodd Eglwys Hyfryd dderbyniad gwir deilwng i'r Cyfarfod Chwarterol. Yr oedd wedi darparu yn helaeth ar ei gyfer a chafodd groesaw llawn ganddi. Dewiswyd Ionawr 6, 1926 yn ddiaconiaid y Mri. John W. Thomas, B.A., John Ellis ac Evan Lloyd. Prudd yw meddwl na chafodd y brawd tawel a ffyddlon Evan Lloyd orphen y flwyddyn yn nghyflawniad ei swydd. Bu farw yn dawel-hyderus Tachwedd 4, 1926. Bu i'r Eglwys wneud trefniant i dwymno'r Capel a'r ysgoldy a gwnaed adgyweiriadau rheidiol. Oni bae am y draul yr aed iddi i waeud hyny, buasai wedi talu ei holl ddyled erbyn diwedd y flwyddyn a nodwyd. Cyn bo hir, fodd bynag, telir y ffyrling eithaf.

Cyfaddefwyd Diwedd

Cost for B. & D.S.

Cost H

Cost S.S.

Cost H.S.

Cost Cawse

Cost Bethel

Cost Mach

Bed Can

Jones-Jones (1874)

BLAENAU FFESTINIOG:
ARGRAFFWYD GAN LEWIS DAVIES, SHOP "Y GLOCH."

Clerk Conference 1839 c Cyfaddefwyd

1819 Bla

1838 Tan

1871 Clarke
JN 7
JY 97

1856 Rice

1864 Tag

Eng
Golden
Bow

1876
1878
1882

Mae 1902

206 Gla

Grades 1-8 Spelling

AR

Edit